Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Ymchwil ansoddol gyda grwpiau nas clywir yn aml

www.cymru.gov.uk



## Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 055/2010
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2010

# Ymchwil ansoddol gyda grwpiau nas clywir yn aml

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a sgiliau yng Nghymru. |
| **Trosolwg** | Diben y prosiect ymchwil hwn oedd ymchwilio'n ansoddol i'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn ysgogi pobl i gymryd rhan mewn addysg, dysgu a hyfforddiant. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar brofiadau a safbwyntiau dau grŵp ar wahân nas clywir yn aml: y rheini ag anghenion o safbwynt sgiliau sylfaenol a gweithwyr nad oes ganddynt gymwysterau. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylai unrhyw gwestiynau ynghylch y gwerthusiad gael eu hanfon at:<br>Julie Owens<br>Uwch-swyddog Ymchwil<br>Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol<br>Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Uned 6, Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0LJ<br>Ffôn: 01745 538540<br>e-bost: Research2@wales.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Gallwch hefyd weld y ddogfen ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, ewch i: www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dim. |

© Hawlfraint y Goron 2010
E6270910

# Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Crynodeb** | **1** |
| 1. Cefndir yr ymchwil | 4 |
| 2. Ymgynghoriad â rhanddeiliaid | 10 |
| 3. Grwpiau ffocws gydag ymatebwyr nas clywir yn aml | 25 |
| 4. Gweithdai rhanddeiliaid | 54 |
| 5. Cyfweliadau astudiaethau achos | 65 |
| 6. Goblygiadau o ran polisi | 75 |
| **Atodiad** | 82 |

# Ymchwil ansoddol gyda grwpiau nas clywir yn aml

## Crynodeb

### Cefndir

- Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru GfK NOP, mewn consortiwm â Maguire Policy Research ac Arad Consulting, i ymgymryd â phrosiect ymchwil aml-gam i ymchwilio'n ansoddol i'r rhwystrau a'r sbardunau i gyfranogi mewn addysg, dysgu a hyfforddiant. Canolbwyntiodd yr ymchwil hon ar brofiadau a safbwyntiau dau grŵp arbennig nas clywir yn aml yng Nghymru: pobl ag anghenion sgiliau sylfaenol, a chyflogeion heb fawr gymwysterau.
- Cynhaliwyd yr ymchwil hon mewn pedwar rhanbarth ledled Cymru (y De Trefol, y Gogledd Gwledig, y De Ôl-ddiwydiannol a Blaenau'r Cymoedd) ac roedd yn cynnwys unigolion o grwpiau nas clywir yn aml yn ogystal â rhanddeiliaid rhanbarthol sy'n gweithio gydag unigolion o grwpiau nas clywir yn aml.
- Lluniwyd y rhaglen ymchwil iteraidd bedwar cam i sicrhau bod y canfyddiadau a gafwyd yn ddilys ac yn ddibynadwy. Y pedwar cam a gynhaliwyd oedd:

    1. Ymgynghori â rhanddeiliaid dros yr e-bost.
    2. Grwpiau ffocws gydag unigolion nas clywir yn aml.
    3. Gweithdai gyda rhanddeiliaid rhanbarthol.
    4. Cyfweliadau astudiaethau achos gydag unigolion nas clywir yn aml.

### Canfyddiadau allweddol - rhwystrau i gyfranogi

- Gellir crynhoi'r prif rwystrau (ag eithrio cost ac amser) a nodwyd gan gyfranogwyr i gymryd rhan mewn dysgu a hyfforddiant mewn dwy thema eang: diffyg hyder ac ofn personol o fethu, a dyheadau ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o gyfleoedd. Edrychwn ar y ddwy thema hyn yn fanylach:

*Diffyg hyder*

- o Arsylwyd diffyg hyder ym mhob grŵp sampl, ac roedd yn rhwystr sylweddol i unigolion a deimlai nad oeddent wedi cyflawni eu potensial yn yr ysgol. Yn aml, roedd profiadau gwael yn yr ysgol neu 'fethiannau' canfyddedig mewn cyd-destun addysgol wedi arwain yn aml at ganfyddiad negyddol o addysg a diffyg hunanhyder.
- o O ganlyniad, dywedodd llawer o unigolion nas clywir yn aml eu bod wedi osgoi ymrwymo neu gymryd cyfrifoldeb (fel cyflawni hyfforddiant neu dderbyn dyrchafiad) oherwydd ofn methu.
- o Yn aml, defnyddiodd unigolion strategaethau ymdopi yn ddyddiol i osgoi dangos gwendidau canfyddedig neu i guddio diffyg hyder. Fodd bynnag, er bod unigolion yn aml wedi datblygu strategaethau ymdopi i reoli unrhyw

anawsterau a wynebwyd ganddynt yn eu bywydau bob dydd, ni allai cyfranogwyr estyn y strategaethau hyn i gwmpasu cyd-destun addysgol, lle teimlent eu bod dan anfantais. Yn wir, ymddengys mai un o'r prif strategaethau ymdopi ymhlith unigolion oedd osgoi unrhyw fath o amgylchedd dysgu.

*Dyheadau cyfyngedig*

- Ystyriwyd bod dyheadau cyfyngedig ym meysydd cyflogaeth ac addysg hefyd yn rhwystr sylweddol i gyfranogi mewn hyfforddiant. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr nas clywir yn aml yn ystyried eu bod yn gweithio tuag at yrfa. Yn hytrach, tueddent i achub ar gyfleoedd cyflogaeth hygyrch a chyfleus, yn aml yn dilyn aelodau o'r teulu neu ffrindiau. Yn gysylltiedig â hyn, nododd sawl unigolyn eu bod wedi dilyn trywydd y 'disgwyliwyd' ohonynt.
- Ychydig iawn o gyfranogwyr oedd am adael eu sefyllfa gyfredol neu a deimlodd y gallent wneud hynny, ac yn hytrach roeddent yn canolbwyntio ar gynnal eu sefyllfa gyfredol. Roedd blaenoriaethau unigolion yn seiliedig yn bennaf ar deulu a gwaith, ac nid oeddent yn cysylltu eu hunain â'r posibiliadau a gynigir gan lwyddiant academaidd. O ganlyniad, ychydig iawn o gyfranogwyr oedd am barhau â dysgu neu ailhyfforddi.

**Canfyddiadau allweddol - sbardunau at gyfranogi**

Ymhlith y tri phrif sbardun a nodwyd gan unigolion nas clywir yn aml a rhanddeiliaid roedd y gallu i gyflawni canlyniad diriaethol o hyfforddiant, cynefindra a chymorth a gynigir gan ddarparwyr (yn ogystal â chanolwyr eraill) ac argaeledd darpariaeth hyblyg, berthnasol.

- Y sbardun mwyaf cyffredin a nodwyd gan unigolion nas clywir yn aml a gymerodd ran yn yr ymchwil hon oedd yr angen i sicrhau canlyniad gwarantedig neu ddiriaethol o hyfforddiant. Y ffordd fwyaf cyffredin o ddisgrifio hyn oedd cael swydd, er bod y grŵp sampl hefyd yn gwerthfawrogi cymwysterau.
- Cafodd cynefindra gyda'r amgylchedd dysgu a'r cymorth a gynigiwyd gan ganolwr yr ymddiriedir ynddo hefyd eu nodi fel ffactorau pwysig i gyfranogwyr a oedd hefyd yn amheus o bethau newydd ac am leihau nifer y problemau hyder a oedd ganddynt. Roedd unigolion yn gwerthfawrogi teimlo'n gyfforddus mewn amgylchedd dysgu, p'un ai fod hynny oherwydd lleoliadau cyfarwydd (e.e. gweithle neu ganolfan gymunedol), pobl (e.e. eu cydweithwyr neu bobl o oedrannau a chefndiroedd tebyg) neu dasgau (e.e. yn ymwneud â gwaith). Po fwyaf cyfarwydd y sefyllfa, y mwyaf tebygol yr oeddent o gymryd rhan.
- Gofynnwyd hefyd am ddarpariaeth hyblyg a pherthnasol gan gyfranogwyr a deimlodd y byddent yn dechrau hyfforddiant pe bai'n gweddu i'w bywydau cyfredol a'i fod yn rhywbeth y byddent yn ei fwynhau neu fod ganddynt ddiddordeb ynddo. Disgrifiodd nifer o gyfranogwyr sut nad oeddent wedi cwblhau cyrsiau gan nad oeddent wedi'u mwynhau neu

wedi'u cael yn rhy anodd i ddysgu tra bod ganddynt ymrwymiadau eraill i ddelio â hwy (e.e. bywyd teuluol neu waith).

**Goblygiadau o ran polisi**

Rhoddwyd cyfle i randdeiliaid ac unigolion nas clywir yn aml ystyried syniadau ar gyfer goresgyn rhwystrau i gyfranogi y meddyliwyd amdanynt mewn grwpiau ffocws a gweithdai. Profwyd y syniadau hyn yn ystod cyfweliadau astudiaethau achos gyda nifer fach o gyfranogwyr y grwpiau ffocws. Yn seiliedig ar y dull iteraidd hwn, y prif oblygiadau polisi a ddeilliodd o'r ymchwil hon oedd:

- Angen cynnig mentrau diriaethol, ymarferol (e.e. lleoliadau gwaith) fel rhan o gyrsiau a anelir at bobl ddi-waith.
- Angen cynnwys rhagor o gyflogwyr yn y gwaith o gynnig dulliau 'callach' o oresgyn rhwystrau o ran agweddau (e.e. cynnwys hyfforddiant sgiliau sylfaenol mewn cyrsiau a lunnir i wella sgiliau'r gweithle neu o fewn cyrsiau i roi sgiliau bob dydd ymarferol mewn pynciau fel coginio, TGCh a/neu waith â llaw).
- Angen cydnabod y sgiliau a feithriniwyd ar gyrsiau anffurfiol neu gyrsiau a gwblhawyd yn rhannol yn ogystal â rhagor o hyblygrwydd wrth gydnabod dysgu.
- Dylai marchnata dargedu camau bywyd gwahanol (e.e. dod yn rhiant) a defnyddio straeon go iawn y gall grwpiau nas clywir yn aml gydymdeimlo â hwy. Dylid hefyd annog marchnata wedi'i anelu at gyfoedion fel dull o gynnwys grwpiau nas clywir yn aml a gwneud yr amgylchedd dysgu yn fwy eglur.
- Gallai hyrwyddo dysgu teuluol a marchnata cyrsiau hyfforddiant a allai helpu rhieni i gefnogi addysg eu plant yn benodol sicrhau manteision i rieni a phlant.
- Dylid annog cydweithio rhwng darparwyr dysgu ac ymarferwyr eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau nas clywir yn aml - ym meysydd recriwtio a chefnogi dysgwyr. Ystyriwyd hyn yn ddull pwysig o gynnwys unigolion 'fel y maent' ac adeiladu ar gydberthnasau da sydd eisoes yn bodoli rhwng canolwyr yr ymddiriedir ynddynt a grwpiau nas clywir yn aml.
- Dylid cynnal rhagor o gyrsiau rhagflas mewn amgylcheddau cyfarwydd (e.e. gweithleoedd neu gyda phobl gyfarwydd), gan alluogi unigolion nas clywir yn aml i gael profiad o ddysgu mewn amgylchedd cyfeillgar.

# 1. Cefndir yr ymchwil

Comisiynwyd GfK NOP, mewn consortiwm â Maguire Policy Research ac Arad Consulting, i gynnal rhaglen ymchwil i gwsmeriaid dair blynedd ar ran Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynhaliwyd cam cychwynnol y Rhaglen Ymchwil i Gwsmeriaid rhwng mis Ebrill a mis Mai 2007, a nodwyd grwpiau 'nas clywir yn aml' y mae ond gan APADGOS wybodaeth gyfyngedig arnynt ar hyn o bryd i fod yn un o'r grwpiau cwsmeriaid allweddol ar gyfer y rhaglen.

Yn arbennig, nodwyd dau grŵp nas clywir yn aml y byddent yn cael eu blaenoriaethu yn ystod camau cynnar y Rhaglen Ymchwil i Gwsmeriaid, sef:

- Cyflogeion heb fawr gymwysterau.
- Y rhai ag anghenion sgiliau sylfaenol.

Nododd cynllun y Rhaglen Ymchwil i Gwsmeriaid angen i *'ddeall cymhellion ac agweddau unigolion at gyfranogi mewn cyflogaeth/dysgu, rhwystrau i gyfranogi, a'r tebygrwydd o ymgysylltu â'r maes yn y dyfodol'* i'r grwpiau hyn. Cynigiodd cynllun y Rhaglen Ymchwil i Gwsmeriaid y dylid mabwysiadu dull ansoddol wrth geisio deall hyn; gan ddefnyddio dulliau fel grwpiau ffocws gydag aelodau'r grwpiau hyn nas clywir yn aml mewn amrywiaeth o leoliadau yng Nghymru. Cynigiwyd hefyd y gellid cynnal gweithdai gyda chynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid perthnasol yn y lleoliadau hyn ynghyd ag astudiaethau achos i ategu a dangos y materion a godwyd mewn grwpiau ffocws a gweithdai.

## 1.1 Cefndir i'r cam cwmpasu

Cytunwyd y byddai'r consortiwm yn cynnal cam cwmpasu er mwyn archwilio'r sail dystiolaeth gyfredol mewn perthynas â'r rhwystrau a'r sbardunau i gyfranogi sy'n wynebu'r grwpiau hyn yn ogystal â blychau presennol mewn gwybodaeth. Cynigiodd y cam cwmpasu hefyd gyfle i drafod y dull arfaethedig gyda nifer fach o randdeiliaid allweddol ar lefel strategol yn ogystal ag ymchwilio i'r ardaloedd daearyddol posibl, mathau o randdeiliaid a materion i'w datrys yn yr ymchwil sylfaenol. Lluniwyd adroddiad cwmpasu i amlinellu'r canfyddiadau o'r cam hwn a chynigiwyd dull o gynnal ymchwil ansoddol gyda'r ddau grŵp nas clywir yn aml.

Amlinellodd yr adroddiad cwmpasu bwysigrwydd mynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol a gwella lefelau sgiliau'r gweithlu yn yr economi. Mae astudiaethau gan McIntosh (2004) a Phrifysgol Cymru Abertawe (2003) yn amlinellu cost sgiliau sylfaenol gwael i unigolion a'r economi tra bod cyfoeth o ymchwil polisi ddiweddar a dogfennau strategaeth yn pwysleisio'r angen i wella lefelau sgiliau'r gweithlu[1]. Mae canolbwyntio ar y rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth yn her i wneuthurwyr polisi, gyda rhaglenni amrywiol yn targedu cyllid wrth oresgyn rhwystrau i hyfforddi'r rhai mewn cyflogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf (e.e. Cronfa Ddysgu'r Undebau, Cynllun Peilot Gweithwyr sy'n Dysgu, Cynlluniau Peilot Camu Ymlaen). Yn y

[1] Er enghraifft *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (2008), adroddiad Adolygiad Leitch *Prosperity for All in the Global Economy - World Class Skills* (2006) ac *Addewid a Chyflawniad*, yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru, a arweiniwyd gan Syr Adrian Webb (2008).

cyfamser, mae astudiaethau eraill[2] yn atgyfnerthu'r angen i gefnogi'r sawl ag anghenion sgiliau sylfaenol a'r rhai heb gymwysterau, o ran canfod a chadw swydd.

Gwelir hefyd bwysigrwydd ennill dealltwriaeth well o'r rhwystrau a'r sbardunau i ddysgu i bobl â lefelau isel o sgiliau sylfaenol a chyflogeion heb fawr gymwysterau yng nghanlyniadau Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yng Nghymru 2007[3] NIACE Dysgu Cymru yn ogystal ag arolygon Cymru a Lloegr diweddar NIACE[4].

Nododd Arolwg NIACE Dysgu Cymru yn 2007 *'Ers 2003 mae'r bwlch mewn cyfranogiad rhwng dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol wedi ehangu fel bod oedolion yn nosbarthiadau economaidd gymdeithasol AB (dosbarthiadau uchaf a chanol) a C1 (gweithwyr coler wen) erbyn hyn yn fwy tebygol o fod yn cyfranogi mewn dysgu na C2 (gweithwyr llaw medrus) a DE (sy'n cynnwys lled fedrus, dosbarthiadau gweithiol anfedrus a phensiynwyr).'* Canfu'r arolwg hefyd bod cyfradd yr oedolion di-waith a oedd yn ymgysylltu â dysgu wedi gostwng o 44 y cant i 39 y cant, a chafwyd gostyngiad yn y nifer a oedd yn gweithio'n rhan amser o 61 y cant i 55 y cant. I'r gwrthwyneb, roedd cyfradd y rhai mewn cyflogaeth llawn amser a oedd yn dysgu wedi codi o 52 y cant i 57 y cant.

Mae arolygon y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) o gyfranogiad oedolion mewn dysgu yng Nghymru a Lloegr hefyd wedi dynodi tuedd barhaus bod cyfraddau cyfranogi mewn dysgu yn is ymhlith ymatebwyr heb gymwysterau, pobl ag anawsterau sgiliau sylfaenol ac oedolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. O ran cynnydd dros amser, noda adroddiad arolwg 2008 NIACE nad oedd unrhyw gynnydd mewn cyfranogiad dros y deng mlynedd diwethaf i'r rhai yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol DE (sy'n cynnwys y lled fedrus, dosbarthiadau gweithiol anfedrus a phensiynwyr), gweithwyr lled fedrus ac anfedrus, y di-waith a phobl wedi ymddeol. Mae hyn yn awgrymu angen i ddeall y rhwystrau a'r sbardunau i ddysgu'n fanylach, yn ogystal ag ymatebion polisi sy'n cynnwys atebion cydweithredol rhwng sefydliadau rhanddeiliaid sydd â nodau cyffredin.

## 1.2 Casgliadau a rhesymeg y cam cwmpasu ar gyfer yr ymchwil hon

Canfu'r cam cwmpasu fod llawer o wybodaeth ar gael i nodi a diffinio pobl sydd ag anghenion sgiliau sylfaenol a chyflogeion heb fawr gymwysterau. Mae tystiolaeth hefyd sy'n amlinellu'r prif rwystrau i gyfranogiad a wynebir gan grwpiau nas clywir yn aml. O ran rhwystrau i ddysgu, mae'r rhan fwyaf o astudiaethau yn y DU yn cadarnhau dilysrwydd y categorïau eang o resymau dros beidio â chyfranogi a restrir gan McGivney (1992)[5] sef:

- Diffyg gwybodaeth.
- Rhwystrau sefyllfaol - amser a chost.

[2]Prifysgol Cymru, Abertawe a WELMERC (2002) *Nodi Rhwystrau i Weithgaredd Economaidd yng Nghymru*, yr Adran Economeg, Prifysgol Cymru, Abertawe.
[3] Aldridge, F., Furlong, C. and Nettleship, S. (2007) *Cymru: Symud Tuag At y Wlad Sy'n Dysgu* NIACE a NIACE Dysgu Cymru. Ehangwyd yr arolwg hwn i gyflawni sampl Cymru gyfan o 1000.
[4] Aldridge, F., Lamb, H. and Tuckett, A. (2008) *Are we closing the gap?* NIACE, Caerlŷr.
[5] McGivney V (1992). *Motivating unemployed adults to undertake education and training*. Y Caerlŷr:Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion

- Rhwystrau sefydliadol - system nad yw'n ymateb.
- Rhwystrau terfyniadol, sy'n cwmpasu 'agweddau, canfyddiadau a disgwyliadau, ac sydd wedi'u cysylltu'n agos â dylanwadau diwylliannol'.

Mae astudiaethau eraill fel arolwg 2007 NIACE Dysgu Cymru, Hillage ac Aston (2001), Sgiliau Dyfodol Cymru (2003), y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2001) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) yn gyffredinol yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn. Fodd bynnag, mae llawer o'r astudiaethau hyn yn amlygu canfyddiadau cyfarwydd o ran rhwystrau sy'n ymwneud â chost ac amser heb 'fanylu' o ran agweddau, cymhellion a ffyrdd posibl o oresgyn y materion hyn.

Atgyfnerthodd ymchwil yn ystod y cam cwmpasu a'r ymgynghoriadau y farn a fynegwyd yn ystod cam cychwynnol y Rhaglen Ymchwil i Gwsmeriaid, sef bod blychau o hyd mewn gwybodaeth, o ran gwybodaeth ansoddol fanwl, am y rhwystrau a'r sbardunau i gyfranogiad wrth ddysgu gan gyflogeion heb fawr gymwysterau, a'r rhai ag anghenion sgiliau sylfaenol. Yn arbennig, mae prinder tystiolaeth am y ffordd y gellir goresgyn y rhwystrau hynny yn ymarferol. At hynny, mae'r rhan fwyaf o astudiaethau sy'n archwilio rhwystrau i ddysgu a chyflogaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar rwystrau generig, heb gyfeirio at ddylanwad y cyd-destun lleol ac enghreifftiau o arfer da sydd wedi'u cymhwyso'n lleol i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Gallai hyn egluro pam bod astudiaethau diweddar gan Is-adran Cyngor Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru a NIACE Dysgu Cymru wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid i archwilio rhwystrau lluosog at ddysgu, a datblygu typolegau o ran y rhwystrau a wynebir gan grwpiau penodol (e.e. rhieni unigol) wrth geisio manteisio ar gyfleoedd dysgu. Mae'r astudiaethau hyn hefyd yn ceisio ystyried rhwystrau a sbardunau at gyfranogi yn fanylach, a cheisio mynd y tu hwnt i'r prif ganfyddiadau traddodiadol a datblygu typolegau manylach o unigolion.

Fodd bynnag, er bod y ddwy astudiaeth hon yn debyg o ran dull, maent yn ategu'r astudiaeth hon. Er enghraifft, nid yw'r un o'r astudiaethau hyn yn archwilio'r grwpiau nas clywir yn aml penodol a nodir yng ngham cychwynnol y Rhaglen Ymchwil i Gwsmeriaid ac nid yw'r naill astudiaeth na'r llall yn ceisio ymgysylltu ag unigolion nas clywir yn aml yn uniongyrchol drwy grwpiau ffocws.

Adolygodd yr adroddiad cwmpasu ymchwil gyfredol a pharhaus o ran y grwpiau nas clywir yn aml, cadarnhaodd ddiffiniadau o'r grwpiau a nododd flychau mewn gwybodaeth bresennol. Daeth yr adroddiad cwmpasu i'r casgliad bod blychau mewn gwybodaeth a galw gan randdeiliaid ar lefel genedlaethol am yr ymchwil hon.


Cynigiwyd methodoleg ar gyfer yr ymchwil ansoddol, gan gynnwys ymgynghoriad rhanddeiliaid dros e-bost, grwpiau ffocws gydag unigolion, gweithdai rhanddeiliaid a chyfweliadau astudiaethau achos. Cymeradwywyd y fethodoleg hon gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddechrau 2009.

## 1.3 Trosolwg o'r ymchwil sylfaenol

O ystyried pwysigrwydd y dystiolaeth flaenorol yn ogystal ag awgrymiadau anecdotaidd am yr angen i gynnal rhagor o ymchwil yng Nghymru, nod yr astudiaeth hon oedd defnyddio'r arbenigedd oedd eisoes ar gael i Lywodraeth y Cynulliad, drwy sefydliadau rhanddeiliaid, yn ogystal â chasglu tystiolaeth gynradd yn uniongyrchol gan unigolion heb gymwysterau ffurfiol neu ag anghenion sgiliau sylfaenol.

Lluniwyd yr astudiaeth i ddilyn proses linellol, lle ymgynghorwyd ar brofiad ac arbenigedd rhanddeiliaid ar adegau amrywiol yn y broses ymchwil er mwyn llywio'r gwaith o ymgysylltu ag unigolion nas clywir yn aml.

Isod dangosir pedwar cam yr ymchwil.




Canolbwyntiodd yr ymchwil hon ar ddau grŵp sampl yn fanwl;

1. Grwpiau nas clywir yn aml drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau astudiaethau achos.
2. Rhanddeiliaid drwy ymgynghoriadau dros e-bost a gweithdai rhanbarthol.

Nodwyd pedair ardal ddaearyddol allweddol yn ystod yr astudiaeth gwmpasu i'r ymchwil hon ganolbwyntio arnynt, sef:

- **Ardal drefol:** Caerdydd.
- **Ardal wledig:** Gwynedd/Ynys Môn.
- **Ardal ôl-ddiwydiannol:** Castell-nedd/Port Talbot.
- **Blaenau'r Cymoedd:** Merthyr Tudful.

Lluniwyd y darn hwn o ymchwil gyda dull methodolegol fesul camau o ymgysylltu ag unigolion o grwpiau nas clywir yn aml yn ogystal â rhanddeiliaid y sector mewn proses strwythurol, linellol. Cynhaliwyd cyfanswm o bedwar cam. Adeiladodd bob cam ar y cam blaenorol, gyda'r canfyddiadau o bob un yn cael eu bwydo i elfen nesaf y fethodoleg ymchwil. Caiff diben pob cam o'r broses ymchwil ei archwilio yn ei dro.

**Cam 1. Cynnwys rhanddeiliaid: Ymgynghoriad e-bost**

Lluniwyd yr ymgynghoriad e-bost i gyflwyno'r rhaglen ymchwil i randdeiliaid ym mhob rhanbarth daearyddol yn ogystal â galluogi ymchwilwyr i fanteisio ar wybodaeth leol sefydliadau ac unigolion a weithiodd gyda'r grwpiau nas clywir yn aml perthnasol. Nod cam cyntaf y broses ymchwil hon oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r broses ymchwil.

Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad e-bost o randdeiliaid ar archwilio rhai o'r rhwystrau a'r sbardunau hysbys i gyfranogi mewn dysgu ym mhob un o'r lleoliadau daearyddol. Hefyd, gofynnodd yr ymgynghoriad i randdeiliaid wneud sylwadau ar faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn annog mwy o gyfranogi mewn hyfforddiant ac addysg. Defnyddiwyd y canfyddiadau o'r ymgynghoriad hwn i helpu i lunio'r broses holi a ddefnyddiwyd yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws.

**Cam 2. Unigolion nas clywir yn aml: Grwpiau ffocws**

Cynhaliwyd un grŵp ffocws ar bymtheg ledled Cymru, gan geisio archwilio'r materion sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan mewn dysgu. Cynhaliwyd wyth grŵp ffocws gydag unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol a chynhaliwyd wyth gyda chyflogeion heb fawr gymwysterau.

Galluogodd y grwpiau ffocws i unigolion drafod y problemau a gawsant gydag addysg, hyfforddiant a dysgu yn ogystal â phroblemau mwy personol. Cafodd pynciau cyffredinol yn ymwneud ag amgylcheddau dysgu delfrydol a galluoedd dysgu hefyd eu harchwilio.

Cafodd y canfyddiadau o'r grwpiau ffocws, ynghyd â'r ymgynghoriad e-bost, eu cyfuno i greu cyflwyniad o'r canfyddiadau rhagarweiniol a ddefnyddiwyd yn y gweithdai rhanbarthol i ysgogi trafodaeth ymhlith rhanddeiliaid.

**Cam 3. Cynnwys rhanddeiliaid: Gweithdai rhanbarthol**

Cynhaliwyd pedwar gweithdy rhanbarthol, gyda phob un yn para am hanner diwrnod gyda rhanddeiliaid a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad e-bost yn ogystal â rhanddeiliaid ychwanegol, perthnasol a aeth i'r digwyddiadau hefyd.

Yn ystod y digwyddiadau, cyflwynwyd y canfyddiadau rhagarweiniol o'r ymchwil hon i randdeiliaid. Cynigiwyd cyfle i drafod y canfyddiadau hyn ar ffurf sesiynau grŵp bach wedi'u cyfuno â sesiynau taflu syniadau a geisiodd nodi atebion cenedlaethol a lleol i'r problemau a nodwyd yng nghamau cynharach yr ymchwil. Cafodd yr atebion ymarferol hyn wedyn eu datblygu a'u profi yn y cyfweliadau astudiaeth achos.

**Cam 4. Unigolion nas clywir yn aml: Cyfweliadau astudiaethau achos**

Cynhaliwyd wyth cyfweliad astudiaeth achos gydag unigolion nas clywir yn aml a oedd wedi cyfranogi yn y grwpiau ffocws. Dewiswyd yr unigolion hyn ar y sail bod ganddynt stori ddiddorol i'w rhannu am eu bywyd a'r rheswm nad oedd ganddynt lawer o gymwysterau ffurfiol a/neu anghenion sgiliau sylfaenol.

Profwyd yr atebion ymarferol a awgrymwyd yn y gweithdai rhanddeiliaid fel cysyniadau gyda phob unigolyn, yn ogystal â chaniatáu i'r cyfranogwyr nodi awgrymiadau ychwanegol.

Cafodd hanes pob unigolyn ei nodi a thrafodwyd eu cymhellion a'u rhwystrau i addysg yn helaeth mewn cyfweliad manwl un i un.

Ceir trosolwg o'r dull recriwtio a methodoleg fanwl yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

## 1.4 Strwythur yr adroddiad

Mae pedair adran nesaf yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canfyddiadau o bob un o'r camau ymchwil. Mae pob adran yn cynnwys cyflwyniad byr i'r fethodoleg a chrynodeb o'r canfyddiadau allweddol wedi'i ddilyn gan ddadansoddiad manylach o'r data ansoddol a gasglwyd. Mae pob adran yn dod i ben â chrynodeb o'r pwyntiau dysgu a ddatblygwyd i gam nesaf y rhaglen ymchwil.

# 2. Ymgynghoriad â rhanddeiliaid

## 2.1 Cyflwyniad

Fel cam cyntaf y rhaglen ymchwil sylfaenol hon, nod yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid oedd adeiladu ar y dystiolaeth a nodwyd eisoes yn yr adroddiad cwmpasu (ymchwil flaenorol) ac ychwanegu cyd-destun lleol i'r pedair ardal ranbarthol i'w hymchwilio.

Unwaith y cawsant eu recriwtio, gofynnwyd i bob rhanddeiliad ymateb i set o bum cwestiwn pen-agored a anfonwyd atynt dros yr e-bost. Rhoddwyd cyfnod o bythefnos i bob rhanddeiliad rannu ei farn gyda'r tîm ymchwil.

Roedd y cwestiynau a ofynnwyd i'r rhanddeiliaid yn agored yn fwriadol i sicrhau bod pob cwestiwn yr un mor berthnasol i'r rhanddeiliaid gwahanol a oedd yn cymryd rhan. Lluniwyd y cwestiynau er mwyn:

- Ymchwilio i'r rhwystrau a'r sbardunau i ddysgu.
- Defnyddio gwybodaeth leol am y ddarpariaeth hyfforddiant ac anghenion sgiliau sylfaenol.
- Nodi blaenoriaethau a chyfleoedd lleol ar gyfer newid.
- Llywio'r gwaith o ddylunio cam nesaf y rhaglen ymchwil, h.y. grwpiau ffocws gydag aelodau o'r cyhoedd.

## 2.2 Rhwystrau i gyfranogi

Roedd y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i randdeiliaid yn ymwneud â'r rhwystrau posibl i ddysgu ymhlith y gynulleidfa darged. Nod y cwestiwn hwn oedd mynd y tu hwnt i'r rhwystrau amlwg a chydnabyddedig o ran amser ac arian ac archwilio materion eraill sy'n fwy perthnasol i bob ardal. Gofynnwyd i bob rhanddeiliad nodi hyd at dri rhwystr posibl i gyfranogi.

## Cwestiwn 1:

**O'ch profiad chi, beth yw'r tair problem bwysicaf, ac eithrio amser ac arian, sy'n atal pobl rhag ennill cymwysterau neu wella eu sgiliau sylfaenol?**

| Materion | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| Diffyg hyder | 9 |
| Profiad gwael o addysg | 5 |
| Agweddau cyfoedion a theuluoedd | 5 |
| Strategaethau ymdopi/bwlch sgiliau heb eu cydnabod yn broblem | 4 |
| Stigma 'sgiliau sylfaenol' | 3 |
| Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddiant/dysgu | 3 |
| Diffyg opsiynau dysgu addas/opsiynau yn anhygyrch | 3 |
| Diffyg uchelgais/diffyg cymhelliant i weithio | 3 |
| Ofn peidio â dal i fyny â'r dosbarth/ofn methu | 2 |
| Am gadw'r angen am hyfforddiant yn gyfrinach rhag y cyflogwr | 2 |
| Ddim yn cydnabod manteision dysgu | 1 |
| Ddim yn cydnabod y cysylltiad rhwng sgiliau sylfaenol a gwaith | 1 |
| Gofal plant | 1 |

Y ddwy brif thema a nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd:

- Yr ymateb i brofiadau dysgu yn y gorffennol.
- Agwedd at ddysgu.

**Ymatebion i brofiadau dysgu yn y gorffennol:**

- Diffyg hyder.
- Profiad gwael o addysg.
- Ofn peidio â dal i fyny â'r dosbarth/ofn methu.

Nododd bron bob un rhanddeiliad hyder fel rhwystr sylweddol i unigolion sy'n ystyried cael hyfforddiant a/neu uwchraddio sgiliau. Teimlai naw o'r deuddeg rhanddeiliad na fyddai unigolion yn teimlo eu bod yn gallu dysgu eto neu na fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn dychwelyd i amgylchedd dysgu ffurfiol.

Awgrymodd llawer o randdeiliaid y byddai'r diffyg hyder hwn yn seiliedig ar brofiadau dysgu negyddol blaenorol. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â chydberthnasau gwael gydag athrawon, ofn disgyn y tu ôl i ddysgwyr eraill neu amharodrwydd i risgio methu.

Problem sylweddol arall a nodwyd a oedd yn ymwneud â hyder oedd ofn unigolion o fethu wrth ddysgu. Siaradai llawer o'r rhanddeiliaid am feddylfryd lle nad oedd perfformio'n wael yn dderbyniol ac felly i'w osgoi lle y bo'n bosibl. Felly, byddai unigolion yn osgoi mynd i'r afael â'u hanghenion sgiliau sylfaenol, gan felly beidio â llwyddo i wella eu gwendidau.

**Agwedd at ddysgu**

- o Agweddau cyfoedion a theuluoedd.
- o Strategaethau ymdopi/bwlch sgiliau heb eu cydnabod yn broblem.
- o Diffyg uchelgais/diffyg cymhelliant i weithio.
- o Ddim yn cydnabod manteision dysgu.
- o Ddim yn cydnabod y cysylltiad rhwng sgiliau sylfaenol a gwaith.

Yn ogystal â rhwystrau yn seiliedig ar brofiad dysgu, awgrymodd rhanddeiliaid hefyd fod rhai unigolion yn ystyried dysgu yn negyddol ac nad oeddent yn cydnabod y manteision a allai ddod yn sgîl hyfforddiant.

Disgrifiai rhanddeiliaid sut y gallai barn a safbwyntiau eu ffrindiau, teulu ac amgylchedd diwylliannol ddylanwadu ar unigolion wrth feddwl am ddysgu a hyfforddiant. Os nad ystyrir dysgu'n werthfawr, unwaith eto nid ystyrir y cysyniad o ddysgu yn ymarfer defnyddiol. Felly, yn aml, datblygir strategaethau ymdopi er mwyn osgoi hyfforddiant; bydd unigolion yn addasu eu bywydau drwy hepgor elfennau a allai ofyn am sgiliau/gwybodaeth nad oes ganddynt (e.e. dewis swydd, hoff ffurfiau o adloniant). Unwaith y caiff y strategaethau ymdopi hyn eu sefydlu, mae'r cysylltiad rhwng gwaith ac addysg, hyfforddiant/cymwysterau yn lleihau gan nad oes yn rhaid i unigolion wynebu eu bylchau mewn sgiliau.

Roedd rhwystr arall a awgrymwyd yn ymwneud ag agweddau unigol, sef uchelgais personol cyfyngedig a diffyg cymhelliant i wella. Roedd hyn yn gysylltiedig â strategaethau ymdopi y gellid eu haddasu, lle byddai unigolion yn osgoi sefyllfaoedd nad oeddent yn gyfforddus â hwy ac felly nid oeddent yn ceisio gwella eu sgiliau cyfredol.

Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd fod y fath agweddau negyddol at ddysgu yn hyrwyddo agwedd o 'fodlondeb' lle mae unigolion yn hapus ar eu galluoedd cyfredol ac nad ydynt yn dyheu i wella eu sefyllfa ariannol gyfredol na lefel eu cymhwyster.

**Rhwystrau eraill**

- Stigma 'sgiliau sylfaenol'.
- Diffyg ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddiant/dysgu.
- Diffyg opsiynau dysgu addas/opsiynau yn anhygyrch.
- Am gadw anghenion hyfforddiant yn gyfrinach rhag y cyflogwr.
- Gofal plant.

Roedd y rhwystrau eraill a nodwyd gan randdeiliaid yn fwy diriaethol megis gofal plant a diffyg cyfleoedd dysgu addas yn yr ardal leol. Fodd bynnag, nid ystyriwyd y problemau hyn yn anorchfygol.

Teimlai rhanddeiliaid fod diffyg gwybodaeth drefnus a hygyrch i alluogi unigolion i nodi cyfleoedd hyfforddiant a dysgu a fyddai'n addas iddynt. Disgrifiwyd hyn fel problem logistaidd, o ran cydgasglu'r holl wybodaeth, yn ogystal â phroblem gymhelliannol o ran nad yw unigolion yn chwilio am gyfleoedd dysgu yn y lle cyntaf.

Y grŵp olaf o rwystrau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn oedd stigma sgiliau sylfaenol ym marn y gynulleidfa darged. Teimlai rhanddeiliaid y byddai rhai unigolion yn mynd ati i guddio eu bylchau sgiliau rhag eu cyflogwyr, teulu a ffrindiau, gan ofni ennyn ymateb anffafriol. Awgrymodd un rhanddeiliad na fyddai unigolion am ofyn am hyfforddiant sgiliau sylfaenol gan eu cyflogwyr gan y byddai'n adlewyrchu'n wael arnynt. Hefyd, nid oedd nifer o randdeiliaid yn hoff o'r term 'sgiliau sylfaenol', ac awgrymwyd bod ganddo arwyddocâd negyddol ac felly nid oedd yn ddymunol i'r gynulleidfa darged.

## 2.3 Sbardunau cyfranogi

Wedi trafod y rhwystrau i hyfforddiant ac addysg, gofynnwyd i randdeiliaid pam y byddai rhai unigolion yn dychwelyd at ddysgu. Gan ganolbwyntio ar eu cynulleidfaoedd targed, defnyddiodd rhanddeiliaid eu profiad personol yn eu rôl gyfredol.

## Cwestiwn 2:

**Yn eich barn chi, beth sy'n ysgogi pobl gyda sgiliau sylfaenol isel neu ychydig/dim cymwysterau i ddychwelyd i hyfforddiant ac addysg?**

| **Materion** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---|
| Am helpu plant/wyrion/wyresau i ddysgu | 6 |
| Cyfeiriadau i bobl 16-19 oed/gofyniad cyflogwyr | 5 |
| Newid mewn amgylchiadau (i alluogi hyfforddiant) | 5 |
| Am wella sgiliau/am wella rhagolygon | 3 |
| Bygythiad diswyddo | 3 |
| Sgiliau yr ystyrir eu bod o fudd mewn bywyd personol hefyd | 2 |
| Hysbysebu a hyrwyddo dysgu | 2 |
| Cymorth ac anogaeth/mentoriaid | 2 |
| Gweld eraill yn cael budd o ddysgu | 1 |
| Amgylchedd dysgu addas | 1 |
| Potensial gwell i ennill mwy | 1 |

Gellid grwpio sbardunau cyfranogi (fel y nodwyd gan randdeiliaid) yn dair prif thema; ysgogiadau allanol, cymhelliant a'r awydd i wella, a gwelliant canfyddedig o'r profiad dysgu.

**Ysgogiadau allanol:**

- Am helpu plant/wyrion/wyresau i ddysgu.
- Cyfeiriadau i bobl 16-19 oed/gofynion cyflogwyr Cyfeiriadau i bobl 16-19 oed/gofynion cyflogwyr.
- Newid mewn amgylchiadau (i alluogi hyfforddiant).
- Bygythiad diswyddo.

Nodwyd dylanwadau allanol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar unigolion fel y sbardun mwyaf cyffredin ar gyfer dychwelyd at ddysgu. I raddau, ystyriwyd y dylanwadau hyn y tu hwnt i reolaeth yr unigolyn ac felly'n fwy tebygol o sbarduno dysgu.

Yr ysgogiad allanol mwyaf cyffredin ar gyfer dychwelyd at ddysgu oedd helpu plant/wyrion/wyresau gyda'u gwaith ysgol. Ystyriwyd mai'r ysgogiad hwn oedd bwysicaf i ferched.

Nododd rhanddeiliaid hefyd, mewn rhai achosion, na chafodd unigolion y dewis o ddychwelyd at ddysgu. Ymhlith yr enghreifftiau o ddysgu a orfodir roedd cyfeiriadau gan y Ganolfan Byd Gwaith i bobl ifanc 16-19 oed at golegau neu ddarparwyr hyfforddiant, rhoi hyfforddiant gorfodol i gyflogeion er mwyn aros yn eu rôl gwaith neu osgoi cael eu diswyddo.

**Am wella/cymhelliant:**

- o Am wella sgiliau/am wella rhagolygon.
- o Sgiliau yr ystyrir eu bod o fudd mewn bywyd personol hefyd.
- o Gweld eraill yn cael budd o ddysgu.
- o Potensial gwell i ennill mwy.

Yn groes i'r ysgogiadau allanol a drafodir uchod, teimlai rhanddeiliaid fod nifer o unigolion yn dychwelyd at ddysgu gan eu bod am wneud hynny (heb anogaeth eraill) a bod ganddynt gymhelliant. O ystyried bod y gynulleidfa darged ar gyfer yr ymchwil hon yn canolbwyntio ar unigolion gydag ychydig neu ddim cymwysterau, ni ddylai fod yn syndod y byddai cyfran o'r unigolion hyn am fynd i'r afael â hyn drwy ddychwelyd at addysg neu hyfforddiant.

Ymhlith yr ysgogiadau a awgrymir roedd pobl am wella eu rhagolygon cyflogaeth (p'un ai i gael dyrchafiad neu gael swydd well yn rhywle arall) a hunan-wella (yr awydd i ennill cymwysterau ac ail-ddechrau dysgu).

Yn ogystal â chymhellion personol a phroffesiynol awgrymwyd hefyd y gallai dylanwad pobl eraill, fel model rôl positif neu enghraifft o sut y mae rhywun wedi cael budd o ddysgu, ysbrydoli'r gynulleidfa darged i ddychwelyd at ddysgu. Nodwyd mai modelau rôl sy'n agos i'r unigolyn (e.e. teulu neu ffrind mewn amgylchiadau tebyg) fyddai fwyaf tebygol o gael effaith.

**Gwelliant canfyddedig o'r profiad dysgu:**

- o Hysbysebu a hyrwyddo dysgu.
- o Cymorth ac anogaeth/mentoriaid.
- o Amgylchedd dysgu addas.

Fel y soniwyd amdano yn yr adran flaenorol, gall canfyddiadau o'r amgylchedd dysgu fod yn rhwystr i addysg a/neu hyfforddiant. Felly, gallai gwelliannau i'r amgylchedd dysgu o bosibl fynd i'r afael â'r rhwystr hwn. Ymhlith y gwelliannau a awgrymwyd i'r amgylchedd dysgu roedd creu amgylchedd llai ffurfiol, yn ddelfrydol nid mewn ysgol na choleg, yn ogystal â darparu hyfforddiant yn rhywle lleol a chyraeddadwy.

Cyflëwyd gwelliannau drwy hysbysebu, yn genedlaethol ac yn lleol, i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfleoedd hyfforddiant. Mae'r math hwn o farchnata hefyd wedi llwyddo'n dda i ail-becynnu dysgu a gwneud iddo ymddangos yn fwy modern a chyfeillgar. Mae cymorth ychwanegol fel mentoriaid (cymorth

cyn-hyfforddiant ac ôl-hyfforddiant) hefyd wedi lleihau'r rhwystrau i unigolion ac wedi llwyddo i annog rhagor o bobl i gymryd rhan.

## 2.4 Problemau sydd angen eu datrys

Er mwyn cael dealltwriaeth well o'r problemau y teimlai rhanddeiliaid fod angen eu datrys o hyd, gofynnwyd iddynt nodi meysydd lle teimlant y gellid gwneud newidiadau cadarnhaol i annog rhagor o bobl i gymryd rhan. Roedd llawer o'r awgrymiadau a wnaed yn cysylltu'n benodol â phrofiadau rhanddeiliaid a'r grwpiau cleientiaid y maent yn gweithio gyda hwy. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o gysondeb ar draws grwpiau rhanddeiliaid o ran sut y gellid mynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol yn well.

## Cwestiwn 3:

**Pa broblemau yr oedd angen eu datrys er mwyn annog unigolion i wella eu sgiliau sylfaenol a/neu gymwysterau?**

| Materion | Nifer y ymatebion |
|---|---|
| Dileu stigma 'sgiliau sylfaenol' | 5 |
| Ail-becynnu sgiliau sylfaenol | 5 |
| Sefydlu ac ategu sgiliau sylfaenol ym maes cyflogaeth/hyfforddiant arall | 4 |
| Codi ymwybyddiaeth o sgiliau sylfaenol yn y gweithle | 3 |
| Arian i unigolion | 2 |
| Darpariaeth hyblyg | 2 |
| Cefnogi unigolion (dull holistaidd) | 2 |
| Osgoi canslo cyrsiau | 2 |
| Canolbwyntio ar brofiad dysgu (nid cymwysterau'n unig) | 2 |
| Trafnidiaeth | 1 |
| Gofal plant | 1 |
| Cyfleusterau i ddysgwyr ag anableddau | 1 |
| Ariannu darparwyr | 1 |
| Cyfeirio ymgeiswyr swyddi aflwyddiannus at hyfforddiant | 1 |
| Targedu pobl ifanc | 1 |
| Rhagor o waith cydgysylltiol rhwng sefydliadau | 1 |
| Teilwra darpariaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau unigolion | 1 |
| Cynnig amgylchedd dysgu mwy cyfeillgar | 1 |
| Cyfyngiadau'r system fudd-daliadau yn erbyn dysgu | 1 |
| Mwy o diwtoriaid 'Sgiliau Sylfaenol Nod Ansawdd' | 1 |
| Lleoliadau dysgu mwy lleol/cyraeddadwy | 1 |

Daeth yr ymatebion mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn o dan ddwy thema - 'mae sgiliau sylfaenol yn derm hen ffasiwn' a 'mynd i'r afael â'r rhwystrau hysbys'. Archwilir y rhain isod.

**Mae 'Sgiliau Sylfaenol' yn derm hen ffasiwn:**

- Dileu stigma 'sgiliau sylfaenol'.
- Ail-becynnu sgiliau sylfaenol.

Awgrymodd o leiaf hanner y rhanddeiliaid fod y defnydd o'r term 'sgiliau sylfaenol' yn hen ffasiwn ac y dylid ei newid. Yn gyffredinol, nid oedd rhanddeiliaid yn hoff o 'sgiliau sylfaenol' waeth pa sector roeddent yn gweithio ynddo. Teimlwyd bod stigma ynghlwm wrth y term, ac felly byddai'n faes na fyddai dysgwyr am gyfaddef fod ganddynt wendid ynddo. Awgrymwyd y dylid gwneud gwaith i ail-labelu sgiliau sylfaenol (e.e. sgiliau hanfodol) yn ogystal â chreu cysylltiadau cadarnhaol â'r hyfforddiant cyfredol a gynigir.

**Mynd i'r afael â'r rhwystrau hysbys:**

- Arian i unigolion.
- Darpariaeth hyblyg.
- Cefnogi unigolion (dull holistaidd).
- Canolbwyntio ar y profiad dysgu (nid cymwysterau'n unig).
- Teilwra darpariaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau unigolion.
- Cynnig amgylchedd dysgu mwy cyfeillgar.
- Mwy o leoliadau lleol/cyrraeddadwy ar gyfer darparu dysgu.
- Trafnidiaeth.
- Gofal plant.
- Cyfleusterau i ddysgwyr ag anableddau.

Hefyd, rhestrodd rhanddeiliaid rai rhwystrau llai amlwg i gyfranogi y gellid mynd i'r afael â hwy mewn ffordd ymarferol, yn eu barn hwy, er mwyn annog mwy o ddysgu. Ymhlith y rhain roedd cynnig dysgu mwy hygyrch drwy gyrsiau hyblyg wedi'u teilwra, lleoliadau gwell ar gyfer addysg a rhoi mwy o gymorth i unigolion drwy gydol y broses ddysgu.

Soniwyd hefyd am faterion megis trafnidiaeth, gofal plant a darpariaeth i fyfyrwyr anabl fel atebion posibl i'r rhwystrau cyfredol. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r atebion hyn hefyd yn gostus i'r rhai sy'n darparu hyfforddiant a/neu awdurdodau lleol.

**Awgrymiadau eraill:**

- Yn ymwneud â darparwyr:
  - Arian i ddarparwyr.
  - Osgoi canslo cyrsiau.

        - Mwy o diwtoriaid 'Sgiliau Sylfaenol Nod Ansawdd'.
    - Gwybodaeth a chanllawiau:
        - Cyfeirio ymgeiswyr swyddi aflwyddiannus at hyfforddiant.
        - Targedu pobl ifanc.
    - Yn ymwneud â gwaith:
        - Sefydlu ac ategu sgiliau sylfaenol ym maes cyflogaeth/hyfforddiant arall.
        - Codi ymwybyddiaeth o'r angen am sgiliau sylfaenol yn y gweithle.
    - Yn ymwneud â pholisi:
        - Rhagor o waith cydgysylltiol rhwng sefydliadau.
        - Mynd i'r afael â chyfyngiadau'r system fudd-daliadau yn erbyn dysgu.

Cafodd awgrymiadau eraill, mwy penodol eu gwneud gan randdeiliaid, gyda rhai yn mynd i'r afael â phroblemau a wynebir gan ddarparwyr a'r broses o ddarparu hyfforddiant (e.e. arian i ddarparwyr, sicrhau bod digon o diwtoriaid cymwys gan felly osgoi canslo cyrsiau). Soniodd rhai rhanddeiliaid am bwysigrwydd rhoi gwybodaeth i grwpiau penodol o gleientiaid (e.e. targedu pobl ifanc a chefnogi unigolion di-waith i ddychwelyd at hyfforddiant). Cafodd materion cyflogaeth hefyd eu codi gan rai rhanddeiliaid, yn benodol y manteision o hyrwyddo dysgu a hyfforddiant fel llwybr at gyflogaeth a chael dyrchafiad yn y gweithle. Yn olaf, awgrymodd nifer fach o randdeiliaid hefyd y dylid gwneud newidiadau i'r broses o lunio polisïau ar sgiliau sylfaenol, yn arbennig i atal cyfeirio unigolion yn anghywir at sefydliadau oherwydd diffyg cydweithio a/neu fod ofn colli budd-daliadau cyfredol.

## 2.5 Gwelliannau i'r hyn a gynigir yn lleol

Gofynnodd pedwaredd adran yr ymgynghoriad e-bost i randdeiliaid awgrymu newidiadau y gellid eu gwneud yn eu hardal leol. Yn ogystal â gwelliannau, gwnaeth rhanddeiliaid hefyd awgrymu pa sefydliadau ddylai gymryd rhan yn y broses o sicrhau newid.

**Cwestiwn 5:**

**Sut y gall partneriaid gwahanol, yn genedlaethol neu'n lleol, gynorthwyo â'r newidiadau neu'r gwelliannau hyn? Pwy sydd angen eu cynnwys?**

Yn gyffredinol, awgrymodd rhanddeiliaid ddull cydlynol yn cynnwys nifer o sefydliadau gwahanol yn amrywio o sefydliadau cenedlaethol i fentrau lleol (cyhoeddus a phreifat). Awgrymwyd y dylid mabwysiadu dull mwy rhanbarthol, gan hwyluso mwy o ddarpariaeth leol a chanolbwyntio ar y bwlch sgiliau lleol. Nodwyd Partneriaethau Strategol Rhanbarthol fel arfer gorau gan eu bod yn darparu cynllunio cydlynol.

Wrth drafod beth yn union y gellid ei newid, cynigiwyd ystod eang o syniadau sydd, ar lefel leol (mewn ymateb i gwestiwn 4) wedi cael eu grwpio yn bedair thema isod.

**Cwestiwn 4:**

**A oes unrhyw newidiadau neu welliannau i'r ddarpariaeth a'r cymorth angenrheidiol yn eich ardal i hyrwyddo cyfranogiad?**

Isod mae'r ymatebion â thema i gwestiwn 4.

**Newidiadau i wella ymwybyddiaeth:**

- Hyrwyddo dysgu drwy'r flwyddyn.
- Hyrwyddo cyfleoedd dysgu yn y rhanbarth lleol.
- Mwy o gysylltiadau rhwng gwasanaeth cymorth cenedlaethol a lleol.
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ariannu i gyflogwyr ac unigolion.

Roedd rhanddeiliaid o'r farn nad yw lefel ac amrywiaeth y ddarpariaeth a gynigir i ddarpar ddysgwyr bob amser yn ddigon gweledol i'r rhai sydd angen ei defnyddio. Cydnabuwyd bod cyfleoedd dysgu yn cael eu hysbysebu ac y caiff manteision dysgu eu cyfleu. Mae'r negeseuon yn ymddangos ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac nid ydynt yn cael eu rhannu'n gyson drwy'r flwyddyn. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y byddai o fudd ehangu'r gwaith hyrwyddo a hysbysebu drwy'r flwyddyn fel y byddai unigolion a chyflogwyr hefyd yn gallu manteisio ar wybodaeth ychwanegol am gyfleoedd dysgu, ariannu, yn ogystal ag opsiynau hyfforddiant hyblyg.

**Newidiadau i helpu cyflogeion:**

- Hyrwyddo Addewid y Cyflogwr yn fwy.
- Mae angen i gyflogwyr gyfeirio mwy.
- Gwybodaeth yn ganolog i gyflogeion (i osgoi cystadleuaeth rhwng asiantau a darparwyr).

Gan fod rhai rhanddeiliaid hefyd yn gyflogwyr, pwysleisiwyd bod eu rôl fel darparwr/hwylusydd hyfforddiant yn ysgogiad pwysig i ddysgu. Awgrymwyd y dylid cynnig gwybodaeth a chyngor mwy diduedd i gyflogwyr, sydd weithiau'n teimlo bod hyfforddiant yn cael ei werthu iddynt yn hytrach na chynnig y ddarpariaeth fwyaf addas i'w gweithlu. Er mwyn osgoi'r fath sefyllfaoedd, awgrymwyd y dylid cynnig rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr hyfforddiant a chyrsiau ym mhob rhanbarth. Byddai hyn yn galluogi'r cyflogwyr i ddewis cyrsiau priodol a chyfeirio eu cyflogeion yn well.

**Newidiadau i'r cynigion dysgu:**

- Gwella hyblygrwydd a hygyrchedd y ddarpariaeth.
- Darparu tiwtora mewnol yn ogystal â thiwtora dosbarth.
- Mwy o addysg gymunedol.
- Peidio â chosbi dysgwyr am fethu dosbarthiadau.
- Cynnig cyrsiau rhagflas i feithrin hyder.

- o Rhoi cymorth cyn-hyfforddiant ac ôl-hyfforddiant i bobl na fyddent fel arfer yn ymgysylltu â dysgu.
- o Cynnig cyfrinachedd wrth gefnogi unigolion.
- o Peidio â rhannu sgiliau sylfaenol oddi wrth feysydd eraill o fywyd (e.e. hunanladdiad, troseddu â chyllyll, camddefnyddio sylweddau).
- o Cefnogi dysgwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Amlygodd rhanddeiliaid nifer o broblemau ynghylch sut y gellid gwella hyfforddiant wrth ei ddarparu. Gellir grwpio'r rhain yn ddwy thema unigryw: darpariaeth fwy hyblyg a mwy o gymorth i ddysgwyr.

O ran y ddarpariaeth fwy hyblyg, soniodd rhanddeiliaid eto am y rhwystrau i gymryd rhan ac awgrymwyd atebion. Ystyriwyd bod sicrhau cyfleoedd dysgu yn cyfateb i anghenion a ffyrdd o fyw darpar ddysgwyr yn bwysig, yn ogystal â chreu strwythur o fewn y ddarpariaeth hyfforddiant sy'n meithrin hyder defnyddwyr yn hytrach na'i sarnu.

O ran rhoi mwy o gymorth i ddysgwyr, teimlai rhanddeiliaid fod gan fathau gwahanol o ddysgwyr anghenion unigryw, er enghraifft, cyfeiriwyd at anghenion penodol unigolion anabl yn ogystal â phroblemau iaith pobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Dylid gosod anghenion sgiliau sylfaenol yng nghyd-destun pob person, gan fod gan gymaint o unigolion amryw anghenion/problemau, nid anghenion addysgol a hyfforddiant yn unig.

**Newidiadau i ariannu a staffio:**

- o Arian i'w ddarparu'n awtomatig i unrhyw un hyd at Lefel 2.
- o Hyfforddi mwy o diwtoriaid.

Y materion olaf y soniodd rhanddeiliaid amdanynt a allai fynd i'r afael â nifer y cyfranogwyr oedd arian ac addysgu. Awgrymwyd y dylid darparu arian i'r rhai sy'n hyfforddi hyd at Lefel 2 yn awtomatig. Byddai hyn yn sicrhau lefel sylfaenol o sgiliau yn ogystal â lleihau'r broblem o fforddiadwyedd ymhlith unigolion a chyflogwyr.

Roedd nifer fach o randdeiliaid hefyd yn pryderu am nifer y tiwtoriaid oedd ar gael i addysgu cyrsiau. Nodwyd bod mwy o hyfforddiant wedi'i gynnig yn ddiweddar, fodd bynnag, byddai angen i'r fenter hon barhau a pheidio â bod yn ddatrysiad dros dro i broblem gyfredol.

## 2.6 Enghreifftiau o arfer/mentrau da:

Soniodd rhanddeiliaid am nifer o fentrau gwahanol drwy'r gweithdai, fel enghreifftiau o ddulliau a oedd wedi helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau i ddysgu a chyflogaeth a wynebir gan y ddau grŵp nas clywir yn aml yn eu hardal. Tueddai'r mentrau hyn ddisgyn i un neu fwy o'r categorïau canlynol:

- o Mentrau sy'n canolbwyntio ar wella ymgysylltiad â chyflogwyr.

- Mentrau sydd â'r nod o ymgysylltu unigolion sy'n anos eu cyrraedd yn rhannol drwy roi cymorth bugeiliol, canllawiau a/neu wasanaeth broceru i unigolion fanteisio ar ddysgu (ymhlith gwasanaethau eraill).
- Rhaglenni cyn-ddysgu (e.e. Adeiladu Sgiliau).
- Mentrau cydweithredol rhwng cyflogwyr, darparwyr a thrydydd partïon yn targedu grwpiau sy'n anos eu cyrraedd.
- Rhaglenni wedi'u hanelu at gynyddu gweithgareddau cyflogaeth/ economaidd.
- Mentrau adfywio strategol gydag elfennau o'r uchod.

O ran mentrau sy'n canolbwyntio ar gynyddu ymgysylltiad â chyflogwyr mewn dysgu a datblygu'r gweithlu, soniodd nifer o randdeiliaid am 'Addewid y Cyflogwr' (gan gynnwys cyflogwyr). Teimlwyd bod hyn yn ddull effeithiol o oresgyn nifer o'r rhwystrau i ddysgu a wynebir gan gyflogeion drwy ymrwymo'r cyflogwr i uwchraddio sgiliau ei weithlu.

Cyfeiriwyd yn aml at ddysgu a arweinir gan undebau fel ffordd effeithiol o roi cymhelliant i gyflogwyr a chyflogeion a chefnogi'r gwaith o ymgysylltu unigolion â dysgu. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at brosiectau Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) ac yn arbennig y manteision a gynigir gan y fath bartneriaethau rhwng cyflogwyr, cyflogeion a chynrychiolwyr dysgu'r Undeb a allai helpu i nodi anghenion yn ogystal â chynnig cyngor i oresgyn rhai o'r rhwystrau ychwanegol a wynebir gan unigolion. Yn arbennig, teimlwyd bod y dull hwn yn helpu unigolion i oresgyn unrhyw fethiannau cychwynnol a brofwyd yn ystod camau cynnar eu hymgysylltu.

Roedd rhanddeiliaid yn aml yn nodi ymddiriedaeth (a ymddangosai'n fater allweddol i unigolion) fel elfen bwysig o ran pwy sy'n rhoi cyngor a chanllawiau i grwpiau sy'n anos eu cyrraedd. Roedd nifer o'r enghreifftiau o arfer da y cyfeiriwyd atynt gan randdeiliaid yn brosiectau a ddefnyddiodd drydydd partïon 'niwtral' i ymgysylltu ag unigolion ar eu telerau eu hunain a, thros amser, gyflwyno'r syniad o ail-ymgysylltu â dysgu. Cyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau gan gynnwys:

- Rhaglenni ymgysylltu ag ieuenctid a reolir gan Rathbone Cymru:
    - Ar hyn o bryd mae Rathbone Cymru yn datblygu rhaglenni ymgysylltu ag ieuenctid drwy gael gweithwyr ieuenctid i gynnig darpariaeth y tu allan i oriau ac ar y strydoedd. Mae tîm Gweithwyr Ymgysylltu ag Ieuenctid Rathbone Cymru yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau cyngor ac arweiniad mewn gosodiadau cymunedol i ymgysylltu â rhai o'r bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd nad ydynt wedi cofrestru â Gyrfa Cymru sy'n aml yn profi amryw rwystrau i ddysgu yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

- Swyddogion Cymunedau yn Gyntaf sy'n gweithio gydag unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn Ne Glanyrafon (Caerdydd).

- Cynrychiolwyr dysgu'r undeb (drwy brosiectau WULF):
    - E.e. Mae prosiect darpariaeth e-ddysgu Undeb y Pobyddion, Bwyd a Gweithwyr Perthynol (BFAWU) yn rhoi tiwtor un i un i gyfranogwyr ar gyfer TG i weddu bywydau dysgwyr. Mae'r gallu i ddysgu ar-lein a chael cymorth yn rhoi mwy o gymhelliant i ddysgu a gellir manteisio ar ddysgu yn well.

Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd rhaglenni cyn-ddysgu sy'n helpu i ail-ymgysylltu unigolion nas clywir yn aml cyn iddynt ddechrau ar gwrs dysgu ffurfiol. Nodwyd Rhaglenni Dysgu Cyn-Brentisiaeth (PAL) fel enghreifftiau da o raglenni i gefnogi unigolion gydag anghenion sgiliau sylfaenol cyn symud at brentisiaeth. Bydd unigolion yn cael asesiad diagnostig cynhwysfawr i nodi anghenion sgiliau sylfaenol penodol a chaiff Cynllun Dysgu Unigol (CDU) ei lunio a'i deilwra i'w hanghenion a'u gofynion penodol. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, cwblheir asesiad sgiliau sylfaenol pellach i benderfynu ar gynnydd a gwelliant ym maes sgiliau sylfaenol. Caiff y rhaglen hon ei darparu'n bennaf ar sail un i un gan diwtoriaid sgiliau sylfaenol cymwys profiadol. Cyfeiriwyd at Adeiladu Sgiliau fel rhaglen sy'n effeithiol wrth gyflawni nifer o'r nodau hyn hefyd.

O ran rhaglenni i fynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch, nodwyd y rhaglen Paru Swyddi (Blaenau'r Cymoedd) fel enghraifft o arfer da gan randdeiliaid yng Nghaerdydd a Merthyr Tudful. Ym Mlaenau'r Cymoedd, dros y tair blynedd diwethaf, mae'r prosiect wedi ymgysylltu ag unigolion sy'n economaidd anweithgar drwy roi cyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli, profiad gwaith, cyflogaeth a datblygu gyrfa. Datblygwyd a threialwyd y prosiect ym Mlaenau Gwent i ddechrau ac fe'i cymeradwywyd i'w chyflwyno ledled rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Cafodd rhaglen Yn Awyddus i Weithio (cyd-fenter y Ganolfan Byd Gwaith a Chynulliad Cymru) hefyd ei nodi fel menter arfer da gyda'r nod o hybu cyflogaeth mewn ardaloedd dethol ledled Cymru.

Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at fentrau cydweithredol ar lefel strategol gyda'r nod o gyfuno gwaith sefydliadau amrywiol gyda nodau a rennir i dargedu grwpiau sy'n anos i'w cyrraedd yn fwy effeithlon ac effeithiol. Cyfeiriodd ambell randdeiliad at Bartneriaethau Strategol Rhanbarthol fel ffordd dda o gyflawni'r nod hwn er bod sawl rhanddeiliad hefyd yn teimlo bod angen i weithio mewn partneriaeth gwmpasu ymarferwyr yn ogystal â swyddogion penderfyniadau a rheolwyr. Nod y Partneriaethau Strategol Rhanbarthol yw gwella cynllunio strategol y ddarpariaeth ddysgu sy'n diwallu anghenion hyfforddi a dysgu'r gymuned ehangach. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys amrywiaeth o bartïon perthnasol â diddordeb, ynghyd â'r awdurdodau lleol a darparwyr addysg ffurfiol ar draws sectorau gwahanol.

Yn ehangach, nodwyd menter adfywio Môn a Menai fel enghraifft o ddull strategol o fynd i'r afael ag anghenion pobl economaidd anweithgar yng Ngogledd-orllewin Cymru.

## 2.7 Pwyntiau dysgu ar gyfer y rhaglen ymchwil

Yn dilyn y cam hwn o'r ymchwil, nodwyd themâu a oedd yn ailadrodd, y cawsant eu datblygu ac yna'u profi yn y grwpiau ffocws gydag unigolion o'r ddau grŵp nas clywir yn aml. Galluogodd hyn i rai o'r themâu canlynol gael eu harchwilio'n fanylach:

- Trafod y rhwystrau a'r sbardunau pwysicaf i ddysgu.
- Archwilio canfyddiad unigolion o'r term 'sgiliau sylfaenol'.
- Nodi'r gwahaniaethau rhwng dysgu yn seiliedig ar ddiddordeb a dysgu mwy ffurfiol gyda nod mwy penodol.
- Deall ble y daw unigolion o hyd i wybodaeth am hyfforddiant ac addysg.
- Archwilio canfyddiadau am beth fyddai amgylchedd dysgu delfrydol.

# 3. Grwpiau ffocws gydag ymatebwyr nas clywir yn aml

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol o ail gam yr ymchwil hon. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag unigolion o grwpiau nas clywir yn aml yn y pedwar lleoliad rhanbarthol.

Cynhaliwyd cyfanswm o wyth grŵp ffocws ymhlith cyflogeion heb gymwysterau (dau ym mhob lleoliad), ac wyth ymhlith y rhai ag anghenion sgiliau sylfaenol (eto, dau ym mhob lleoliad) Rhannwyd grwpiau ymhellach fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd grwpiau ffocws un rhyw gyda thri grŵp oedran - 16-18 oed, 19-25 oed ac unigolion dros 50 oed.
- Ym mhob categori nas clywir yn aml, cynhaliwyd un grŵp ffocws gydag unigolion rhyw ac oedran cymysg o grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Cynhaliwyd gweddill y grwpiau gyda chyfranogwyr o oedran, rhyw ac ethnigrwydd cymysg.
- Cynhaliwyd un grŵp yn Gymraeg, gydag unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol ac a siaradai Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Roedd pob grŵp yn cynnwys rhwng 6 ac 8 o gyfranogwyr, gan bara 90 munud. Ceir dadansoddiad llawn o'r sampl a gynhwyswyd yn yr ymchwil yn adran 2.

## 3.2 Canfyddiadau allweddol

Mae'r canfyddiadau allweddol o'r cam hwn o'r ymchwil yn ymwneud â phrofiadau ac agweddau unigolion at waith, addysg a hyfforddiant. Archwiliodd y grŵp ffocws ddylanwad nodweddion personol, megis oedran, cam mewn bywyd, rhyw ac ethnigrwydd, a dylanwadau allanol fel y cyd-destun economaidd lleol, argaeledd cyfleoedd dysgu a phrofiadau blaenorol unigolion o addysg.

Wrth nodi sbardunau a rhwystrau i ddysgu, gwnaeth cyfranogwyr hefyd ddisgrifio eu hagweddau at ddysgu 'ffurfiol' (ysgol), 'anffurfiol' (pleser) ac 'ymarferol' (sgiliau), a'u diffiniad o lwyddiant yn seiliedig ar eu cyflawniadau eu hunain a chyflawniadau eraill. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth o farn cyfranogwyr arnynt eu hunain a'u hamgylchiadau unigol, a sut y dylanwadodd hyn ar y potensial i ddechrau hyfforddiant, a'r mathau o hyfforddiant y maent yn debygol o ymgysylltu ag ef.

Mae'r canfyddiadau a amlinellir isod yn cyfeirio at ymateb o bob grŵp ac yn amlygu'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau gwahanol, gan ganolbwyntio ar y dylanwadau craidd sy'n effeithio ar debygolrwydd a gallu cyfranogwyr i ddechrau hyfforddiant.

## 3.3 Sbardunau a rhwystrau i ddysgu

Trafodwyd sawl sbardun a rhwystr ar ddechrau dysgu yn y grwpiau. Roedd ymatebion cyfranogwyr yn debyg, waeth beth fo'u lleoliad, rhyw neu oedran. Atgyfnerthodd yr ymatebion a roddwyd gan gyfranogwyr y farn a gyflwynwyd gan randdeiliaid yng ngham un yr ymchwil (gweler adran 3) a chyda chanfyddiadau ymchwil flaenorol a gynhaliwyd yn y maes hwn (e.e. McGivney, 1992), gan ailadrodd y problemau mwyaf cyffredin a wynebir gan grwpiau nas clywir yn aml wrth ddechrau dysgu.

### 3.3.1 Sbardunau

Nodwyd bod y prif sbardunau yn ganolog i ddechrau dysgu neu hyfforddiant yn seiliedig ar ganlyniadau diriaethol, diddordeb, cam o fywyd a phrofiad.

**Canlyniadau diriaethol**

Disgrifiwyd canlyniadau diriaethol fel achosion lle byddai dechrau cwrs yn arwain at ryw fath o fantais neu hunanfoddhad ar unwaith. Mynegodd cyfranogwyr hoffter am ddechrau dysgu drwy weithgareddau a hobïau a gyflawnir yn eu bywydau bob dydd o ganlyniad i'r mathau hyn o ganlyniadau diriaethol. Roedd yr awydd am ganlyniadau yn seiliedig ar waith yn amlwg ymhlith cyflogeion heb gymwysterau ac unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol.

I gyfranogwyr di-waith, canlyniad mwyaf delfrydol dysgu oedd gallu dod o hyd i waith. Y farn amlycaf o blith y grwpiau hyn oedd y byddent yn fodlon dechrau cwrs pe byddai'n arwain at gyflogaeth. Yn wyneb y dirywiad economaidd cyfredol, roedd unigolion yn fwy amheus o ddefnyddioldeb hyfforddiant ac awgrymwyd y byddai angen gwarantu cyflogaeth i'w hannog i ddechrau hyfforddiant. Adlewyrchai hyn yr angen ehangach a fynegwyd gan unigolion oedd am gael mantais ar unwaith o ddysgu.

> *“Ydy llawer o bobl sy'n dilyn cynlluniau hyfforddiant yn mynd i ddigalonni o wybod nad oes swyddi ar y diwedd? Byddant yn dweud 'beth ydy'r pwynt i hyfforddiant os nad oes swyddi ar ei ddiwedd? Beth yw'r pwynt o ymrwymo fy hun i'r dysgu hwn os nad oes unrhyw beth ar ei ddiwedd?”*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

Roedd cytundeb cyffredinol hefyd ymhlith y rhai mewn cyflogaeth y dylai hyfforddiant arwain yn uniongyrchol at gael swydd well. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw gyflogaeth newydd fod yn welliant ar eu swydd gyfredol. Mynegodd cyfranogwyr cyflogedig hefyd barodrwydd i ddechrau hyfforddiant pe baent mewn perygl o gael eu diswyddo. Eto, teimlai unigolion y byddai angen i unrhyw hyfforddiant a wneir arwain at warant o gadw eu swyddi.

> *“Os oes mwy o gyfle o gadw'ch swydd, byddwch yn rhoi cynnig ar unrhyw beth”*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

Roedd y mwyafrif yn ystyried hyfforddiant yn ymarferol ac awgrymodd llawer y byddai dysgu sgil ymarferol neu sgil seiliedig ar waith yn werthfawr iawn wrth gynyddu eu sail sgiliau. Teimlai sawl cyfranogwr y dylai hyfforddiant arwain at gymwysterau a gydnabyddir gan gyflogwyr.

> *"Es am swydd gyda chwmni diogelwch a rhoddodd hyfforddiant i mi gyda'r warant pe bawn yn llwyddo y cawn swydd ar unwaith. Nid oes ots gennych ei wneud gan eich bod yn gwybod y cewch rywbeth ohono."*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

Roedd y canlyniadau diriaethol a oedd yn gysylltiedig â hobïau yn eang, o gael eu canmol am bryd o fwyd y gwnaethoch ei goginio i ddysgu sgil newydd. Er y derbyniwyd na fyddai dysgu ffurfiol o reidrwydd yn arwain at ganlyniad diriaethol, dywedodd cyfranogwyr y byddent yn fwy tebygol o ddechrau hyfforddiant os mai dyma'r achos.

**Dysgu seiliedig ar ddiddordeb**

Y tu allan i gyflogaeth, disgrifiodd sawl cyfranogwr hyfforddiant fel ffordd o ddatblygu cymhwysedd mewn gweithgareddau a oedd o ddiddordeb penodol. Roedd rhai unigolion wedi dilyn cyrsiau yn seiliedig ar eu diddordebau, megis DIY, coginio neu grefftau ac roeddent yn ymgysylltu mwy â'r math hwn o ddysgu, gan eu bod yn teimlo'n hyderus am fod mewn amgylchedd lle'r oeddent yr un mor gymwys mewn sgil a rennir gyda dysgwyr eraill.

Roedd mathau eraill o ddysgu seiliedig ar ddiddordeb a wnaed gan gyfranogwyr yn cynnwys dysgu sgiliau newydd fel TGCh. Yn yr achosion hyn, nid oedd diddordeb cyfranogwyr yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn dysgu sgil newydd y credant ei bod yn hanfodol ar gyfer gwella eu hopsiynau a'u galluoedd. Roedd cyfranogwyr hefyd yn ymwybodol o'r manteision cymdeithasol ynghlwm wrth allu defnyddio'r rhyngrwyd. Disgrifiodd nifer o gyfranogwyr ddysgu seiliedig ar ddiddordeb fel rhywbeth mwy anffurfiol ac yn haws deall na hyfforddiant a oedd yn arwain at gymwysterau ffurfiol.

> *"Rhaid bod gennych ddiddordeb mawr ynddo. Hynny yw, os nad ydych yn gwneud rhywbeth sydd ei angen arnoch, dydych chi ddim yn canolbwyntio arno yn fy marn i."*
> (Merch, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

Y canfyddiad oedd bod dysgu seiliedig ar waith yn rhywbeth y byddai unigolion yn dewis ei wneud, yn groes i ddysgu ffurfiol, a oedd yn gysylltiedig â bod yn orfodol neu gyda dysgu ystafell ddosbarth. Oherwydd hyn, roedd nifer o'r farn y byddent yn fwy hyderus wrth ystyried hyfforddiant seiliedig ar ddiddordeb ac y byddent yn magu hyder o ddysgu mewn amgylchedd heb bwysau.

> *"Mae'n llai o bwysau. Rydych yn mynd ar eich cyflymder eich hun, 'does neb yn dweud dim wrthych. Rydych yn eich amgylchiadau eich hun, ac mae llawer o bobl yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchiadau eu hun heb fod neb yn sathru ar sodlau rhywun drwy'r adeg."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

**Cam o fywyd**

Roedd unigolion yn aml yn cyfeirio at amser o weddnewid yn eu bywydau a fyddai'n eu hannog i fanteisio ar opsiynau dysgu. Yr enghraifft a nodwyd amlaf o ran y math hwn o newid oedd dod yn rhiant. Disgrifiodd cyfranogwyr, yn ddynion a merched, achosion o beidio â gallu helpu eu plant gyda'u gwaith cartref, gan ddweud bod y profiad hwn wedi eu hannog i ddechrau rhyw fath o ddysgu. Ystyriwyd TGCh yn adnodd pwysig i gynorthwyo plant â'u gwaith cartref a chynigiwyd caffael sgiliau TGCh fel y ffurf fwyaf tebygol o hyfforddiant y byddai rhieni yn dechrau arno.

> *“Rydych am annog eich plant i wneud yn dda, felly mae'n gosod esiampl iddynt.”*
> (Grŵp cymysg, Cyflogeion, Porthmadog).

Ychydig iawn o gyfranogwyr a ddywedodd y byddent yn dilyn cyrsiau mewn pynciau craidd fel Saesneg a Mathemateg er mwyn helpu eu plant. Yn hytrach, y consensws cyffredinol oedd bod rhieni yn canolbwyntio eu sylw ar sicrhau bod eu plant yn deall pwysigrwydd addysg, eu bod yn cael eu haddysgu'n gywir a'u bod yn gweithio'n galed yn yr ysgol. Yn wir, er bod adegau o weddnewid wedi peri i gyfranogwyr ystyried, ychydig iawn a oedd wedi dechrau dysgu o ganlyniad i hynny.

> *“Ni ddechreuais feddwl am y dyfodol tan yn ddiweddar, pan gefais fabi.”*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

**Profiadau eraill**

Daeth tueddfryd unigolion i gael eu dylanwadu gan ymddygiad ac enghraifft ffrindiau, cydweithwyr neu deulu sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu yn amlwg o'r grwpiau ffocws. Dywedodd cyfranogwyr a oedd wedi gweld eraill o'u cwmpas yn dechrau dysgu eu bod yn teimlo wedi'u hysbrydoli ganddynt. Ar ôl siarad ag eraill am y profiad o ddysgu, neu hyd yn oed arsylwi'r amgylchedd dysgu eu hunain, dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n llai amheus am ddysgu ffurfiol a theimlo y gallent, o bosibl, gwblhau cwrs. Roedd enghraifft pobl eraill hefyd wedi rhoi golwg i'r cyfranogwyr hyn o sut y byddent yn cofrestru ar gwrs, gan roi ffynhonnell o wybodaeth a chymorth iddynt pe baent yn penderfynu gwneud hynny.

> *“Meddyliais i mi fy hun, mae ganddi ddyslecsia a chafodd radd ... mae'n wych gwybod y gwnaeth cystal ar ôl i'w hathrawon ddweud na fyddai'n cyflawni dim.”*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

Ymhlith y rhai â phlant hŷn, disgrifiodd rhai sut yr oedd eu plant wedi dechrau hyfforddi ar gyfer proffesiwn yr oeddent am ei ddilyn. Dywedwyd bod gweld eu plant yn mynd i addysg bellach a hyfforddiant yn ysbrydoledig i rai rhieni ac yn sbardun i ddechrau dysgu eu hunain.

> *“Mae hi'n anhygoel, hoffwn i fod felly, yn wych mewn popeth.”*
> (Merch, 19-25, Cyflogai, Castell-nedd).

I rai cyfranogwyr ieuengach a oedd wedi gweld eu cyfoedion yn dechrau hyfforddi ar ôl gadael ysgol heb fawr ddim cymwysterau, cafodd hyn weithiau ei ddisgrifio fel ysgogydd i ddechrau dysgu eu hunain. Cafodd cyfranogwyr ieuengach eu hysgogi'n arbennig gan bobl a oedd wedi llwyddo o ganlyniad i ddilyn cwrs hyfforddiant.

### 3.3.2 Rhwystrau

Disgrifiodd cyfranogwyr nifer o rwystrau a fyddai'n eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd dysgu. Roedd y rhwystrau yn eang ac yn amrywiol ymhlith y grwpiau gwahanol a gymerodd ran yn yr ymchwil. Fel y sbardunau i ddysgu, atgyfnerthodd rhwystrau a grybwyllwyd gan unigolion y rhai a nodwyd mewn ymchwil flaenorol. Yn achos rhai o'r rhwystrau y soniwyd amdanynt, mae'n bosibl y'u defnyddiwyd gan gyfranogwyr i guddio rhwystrau seicolegol dyfnach, yn ymwneud â diffyg hunanhyder neu hunan-barch. Efallai bod llawer o gyfranogwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus yn nodi pryderon mwy gweladwy, fel rhesymau dros beidio â chymryd rhan. Er enghraifft, efallai y bu'n haws i bobl ddweud y gallent fod yn orgymwys neu heb ddigon o amser neu arian, na chyfaddef eu bod yn ofn amgylchedd yr ystafell ddosbarth, neu nad oedd digon o gymhelliant ganddynt.

Y prif rwystrau i hyfforddiant a godwyd gan gyfranogwyr oedd fel a ganlyn.

**Cost**

Cost hyfforddiant oedd y rhwystr a grybwyllwyd fwyaf ar draws y grwpiau. Roedd hyn yn broblem i gyflogeion yn arbennig, a oedd yn teimlo na allent fforddio cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gyflawni hyfforddiant. Roedd cyflogeion hefyd yn amgyffred bod cyfleoedd dysgu am ddim ond ar gael i bobl ddi-waith. Anghytunodd cyfranogwyr di-waith â hyn, gan nodi er bod rhai cyrsiau am ddim, roedd y cyrsiau hyn yn aml o safon isel, tra bod y mathau o gyrsiau a fyddai fwyaf defnyddiol yn rhy ddrud. Teimlai cyfranogwyr ar draws y grwpiau y dylai ystod ehangach o gyrsiau gael ei chynnig yn rhad neu am ddim. Teimlai llawer hefyd y dylai costau ychwanegol fel gofal plant, trafnidiaeth a lluniaeth gael eu cwmpasu.

> *“Diwedd y gân yw'r geiniog - yr unig beth sy'n eu hatal rhag datblygu ydy arian. Allwch chi ddim fforddio mynd i'r coleg os oes gennych deulu i'w fagu.”*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).
>
> *“Ddylech chi ddim gorfod talu am hyfforddiant. Dylai'r Llywodraeth ei ddarparu am ddim. Mae'r Llywodraeth wedi dod â'r holl blydi swyddi hyn i ben. Dylai'r Llywodraeth ei ddarparu am ddim, i roi gwaith i bobl. Ddylech chi ddim gorfod talu amdano.”*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

**Trafnidiaeth**

Roedd trafnidiaeth yn broblem gyffredin i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a ddisgrifiodd sefyllfa lle na allent ddilyn cyrsiau hyfforddiant gan eu bod yn aml yn rhy bell. Nododd unigolion fod llai o gyfleoedd dysgu ar gael mewn ardaloedd gwledig, ac felly, os oedd cyfranogwyr am ddilyn cwrs, byddai'n rhaid iddynt deithio ymhellach. Ar draws y grwpiau, cwynodd llawer o gyfranogwyr am safon y

drafnidiaeth gyhoeddus a'u gallu i deithio i gyrsiau. Dywedodd y rhai a oedd wedi chwilio am gyrsiau nad oedd y cwrs yr oeddent am ei wneud ar gael yn lleol, a olygai y byddai'n rhaid iddynt deithio. Yn gyffredinol, teimlai cyfranogwyr y dylai mwy o gyrsiau fod ar gael yn lleol fel na fyddai'n rhaid iddynt deithio'n bell i'w dilyn. O fethu hyn, awgrymwyd y dylai'r cwrs dalu cymhorthdal teithio.

> *"Rhaid i chi yrru i fynd i lefydd o gwmpas fan hyn. Nid oes digon o swyddi yma felly mae angen i bobl yma yrru i deithio i'r gwaith. Mae angen i bobl sy'n byw o gwmpas fan hyn deithio tua phedair awr i'r gwaith."*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

**Gofal plant**

I gyfranogwyr sy'n ferched, roedd rhoi amser i ddysgu ynghyd â'u cyfrifoldebau gofal plant yn bryder mawr. Er i unigolion nodi bod cyrsiau yn ystod y dydd, dywedwyd bod y cyrsiau hyn yn aml yn rhy bell o ysgolion. Nodwyd hefyd nad oedd y cyrsiau'n gorffen yn ddigon cynnar nac yn dechrau'n ddigon hwyr i famau eu trefnu o amgylch mynd â'r plant i'r ysgol. Dywedodd mamau y byddent yn cael trafferth talu am unrhyw ofal plant ychwanegol y gallai fod ei angen tra eu bod ar gwrs. Awgrymwyd y gellid darparu gofal plant ar y safle i alluogi mamau i gymryd rhan mewn cyrsiau. Neu, gellid cynnal cyrsiau yn agos at ysgolion neu ynddynt i alluogi mamau i ddarparu ar gyfer anghenion eu plant. Awgrymwyd hefyd y dylai unrhyw ofal plant a ddarperir fod am ddim.

> *"Os bydda i'n mynd i'r hyfforddiant, ar y diwedd bydda i'n cael swydd a fydd yn effeithio ar fy nghyfrifoldebau gofal plant ac eraill."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

**Budd-daliadau**

Ofnai nifer o gyfranogwyr di-waith y byddent yn colli eu budd-daliadau pe baent yn cofrestru ar gwrs. Teimlai'r rhai a oedd yn cael budd-dal tai y gallent golli eu cartrefi, yn ogystal â'u hincwm, petaent yn dechrau dysgu'n llawn amser. Er bod cwrs llawn amser yn cael ei ystyried fel y cynnig gorau o gael swydd, ofnai'r cyfranogwyr hyn y byddent yn colli budd-daliadau o fynd i addysg llawn amser. Roedd y 'fagl budd-daliadau', lle na fyddai'r incwm a geid o waith llawn amser o reidrwydd yn cydbwyso colli budd-daliadau, hefyd yn broblem y soniwyd amdani'n aml. Roedd y cyfranogwyr yn ansicr a fyddent yn gallu cefnogi eu hunain yn ddigonol pe baent yn cael swydd. Roedd cyfranogwyr am gael sicrwydd na fyddent yn colli eu budd-daliadau unwaith y byddent yn dechrau dysgu neu'n dechrau gweithio.

> *"Ar hyn o bryd dyw hi ddim yn opsiwn. Pe bawn yn ceisio mynd yn ôl i'r ysgol byddwn yn colli fy fflat ac ni fyddai gennyf le i fyw."*
> (Dyn, 19-25, Sgiliau Sylfaenol, Castell-nedd).

**Amgylchedd dysgu**

O ganlyniad i brofiadau negyddol mewn addysg ffurfiol, roedd llawer o gyfranogwyr yn amheus o ddychwelyd at amgylchedd dysgu lle y gallent gael yr un profiadau. Roedd cyfranogwyr yn poeni am y syniad o addysgu ffurfiol yn arbennig, ac yn

anhapus o gael eu hathro/hyfforddwr yn dweud wrthynt beth i'w wneud. Dywedodd nifer nad oeddent yn hyderus am fod mewn amgylchedd dysgu eto ac y byddent yn teimlo ofn na fyddent yn gallu dal ati â'r cwrs neu gyda gweddill y dosbarth. Roedd pryderon y byddai lefel y cwrs yn rhy uchel ac y byddent yn cael trafferth dal i fyny.

> *“Mae llawer o bobl yn cael problem gyda rhywun yn sefyll o'u blaen ac yn dweud wrthynt 'rhaid i chi wneud hyn, 'rhaid i chi ysgrifennu hyn'. Yn fy marn i dyna sy'n gwneud i lawer o bobl droi oddi wrth hyfforddiant.”*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

Roedd rhai cyfranogwyr hŷn yn poeni y byddent yn cael eu rhoi mewn ystafell ddosbarth gyda dysgwyr ieuengach ac na fyddent yn gyfforddus dan yr amgylchiadau hyn. Roedd llawer o gyfranogwyr hefyd yn poeni am asesiadau ac yn dweud na fyddent am gael profion na gwaith cartref i'w gwblhau. Roedd teimlad cryf eu bod am gael amgylchedd dysgu cefnogol ac anffurfiol lle nad oeddent yn teimlo dan bwysau a'u bod yn gallu dysgu gydag unigolion o oedran, cefndir a gallu tebyg iddynt.

> *“Os ydych yn cael eich hyfforddi gan rywun sy'n llawer ieuengach na chi gallech deimlo ei fod yn eich tanseilio.”*
> (Merch, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

Awgrymwyd y byddai dysgu ar ffurf 'fforwm', fyddai'n cynnwys mwy o sesiynau agored, lle byddai dysgwyr yn cyfrannu at addysgu'r sesiwn, yn fwy buddiol na chael dim ond un 'athro'. Teimlai nifer o unigolion y byddai dysgu gan unigolion oedd â phrofiad uniongyrchol o weithio mewn maes penodol yn helpu i'w gwneud yn gyfforddus mewn amgylchedd dysgu. Awgrymodd cyfranogwyr hefyd gyrsiau rhagflas a fyddai'n eu galluogi i weld yr amgylchedd dysgu ac asesu eu gallu eu hunain i gymryd rhan ar y cwrs cyn ymrwymo eu hunain yn llawn.

> *“Yn hytrach na dim ond cael eich addysgu gan un athro, pobl o'r un fath â chi ddylai ddweud wrthych.”*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

### Gweddu i fywyd cyfredol

Teimlai cyflogeion yn arbennig y byddent yn cael trafferth trefnu cwrs dysgu fel rhan o'u bywyd bob dydd. Dywedodd llawer eu bod yn rhy brysur i ddechrau hyfforddiant gan fod yn well ganddynt ddefnyddio unrhyw amser rhydd i ymlacio a chyflawni gweithgareddau oedd yn fwy o hwyl. Dywedodd llawer na fyddai ganddynt yr amser i ymrwymo eu hunain i gwrs, ac felly na fyddent yn cofrestru. Credai rhai y byddai'n ddibwynt dechrau cwrs y gwyddent na fyddent yn gallu ei gwblhau. Roedd cyflogeion am gael mwy o hyblygrwydd mewn cyrsiau hyfforddiant i'w galluogi i ddysgu yn eu hamser eu hunain. Roedd y brwdfrydedd i we-hyfforddi yn gyfyngedig, gyda llawer yn dweud y byddai'n well ganddynt fod mewn amgylchedd dysgu rhyngweithiol a chymdeithasol. Fodd bynnag, roedd lle i ddysgu seiliedig ar waith a fyddai'n galluogi cyfranogwyr i ennill cymwysterau fel rhan o gyflawni eu swyddi cyfredol.

*“Rhaid iddo gyd-fynd â bywyd teuluol. Beth os ydw i am ailhyfforddi a bod gen i deulu ifanc, rhaid i'r hyfforddiant gyd-fynd â'r plant. Mae hyfforddiant yn cael ei gynnal yn ystod y dydd fel arfer, onid ydy?”*
(Merch, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

*“Cyn gynted ag y byddwch yn dweud alla i ddim gwneud hyn, alla i ddim gweithio'r amseroedd hyn, 'does ganddyn nhw ddim diddordeb.”*
(Merch, 19-25, Cyflogai, Castell-nedd)

**Bod yn orgymwys**

Dywedodd rhai unigolion eu bod yn ofni dod yn orgymwys ar gyfer nifer o swyddi pe baent yn dilyn gormod o gyrsiau hyfforddiant. Cynigiodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws enghreifftiau o unigolion cymwys iawn yn gweithio gyda hwy mewn swyddi â thâl isel neu swyddi anfedrus, ac felly'n teimlo nad oedd pwynt hyfforddi i gael swyddi y gallant eu cael eisoes. Hefyd, soniodd sawl unigolyn am achosion lle'r oedd pobl wedi cael gwrthod swydd gan eu bod yn orgymwys. O ganlyniad, ofnai rhai cyfranogwyr y caent eu heithrio rhag rhai meysydd o'r farchnad swyddi os oeddent yn orgymwys. Roeddent am gael gwarant y byddent yn dal yn gymwys ar gyfer pob math o waith pe baent yn cael hyfforddiant. Awgrymwyd hefyd y dylai'r hyfforddiant gael ei anelu at swyddi penodol fel y byddai cymwysterau yn fwy perthnasol.

*“Galla i roi rhai enghreifftiau i chi lle mae pobl wedi cael cymwysterau, ceisio am swyddi a bod rhywun wedi dweud wrthynt eu bod yn orgymwys. Mae'r ferch yn gweithio fel goruchwylydd. Aeth i fanwerthwr a ddywedodd "Rwyt ti'n orgymwys". Aeth rywle arall am swydd a chafodd yr un adborth - "Rwyt ti'n orgymwys i ni."*
(Dyn, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

*“Mae gan un o'm ffrindiau lawer o gymwysterau. Mae ganddo PhD mewn mathemateg, a bellach mae'n gweithio mewn siop cludfwyd am na all ddod o hyd i swydd.”*
(Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

**Diffyg cymwysterau**

Roedd rhai achosion lle roedd cyfranogwyr wedi ystyried y posibilrwydd o ddysgu ond bod y gofyniad i gael cymwysterau cyn dechrau wedi eu hatal. Teimlai rhai'n amheus am nad oedd ganddynt gymwysterau ac na fyddent yn gwneud cais am rai cyrsiau oherwydd hyn. Nid oedd rhai cyfranogwyr yn siŵr beth oedd y gofynion ar gyfer dechrau nifer o gyrsiau ac ni wnaethant gais rhag ofn y caent eu gwrthod. Teimlai llawer y gallai amlinelliadau o gyrsiau fod yn fwy eglur am y gofynion ac, os nad oedd cyfranogwyr yn gallu bodloni'r gofynion hyn, dylent allu cael cyfnod prawf ar y cwrs i weld a allent ymdopi. Lle ymddangosai cyrsiau allan o'u gafael oherwydd y gofynion mynediad, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol siarad ag eraill a oedd wedi bod ar y cwrs i gael cyngor, gwybodaeth a chymorth i'w helpu i wneud eu penderfyniad o ran cymryd rhan.

*“[Beth os nad oes gennym ni unrhyw gymwysterau a'u bod yn gofyn i ni gael y cymwysterau hynny'n gyntaf cyn i ni gael hyfforddiant.”*
(Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

**Economi**

Siaradai unigolion am effaith yr economi ar y farchnad swyddi a dweud bod y diffyg swyddi gwag yn golygu bod y cymhelliant i fanteisio ar gyfleoedd dysgu yn gyfyngedig. Roedd nifer am gael canlyniadau ar unwaith, ar ffurf gwaith, o ddechrau cwrs ac, heb y warant hon, nid oeddent yn barod i ddechrau. Roedd cyfranogwyr yn ymwybodol ei fod yn annhebygol y byddent yn cael gwarant o swydd ac felly dywedasant na fyddent yn trafferthu cael hyfforddiant. Awgrymwyd ateb posibl i hyn, sef y dylid cynnal cyfnodau hyfforddiant prawf yn y gwaith yn lle'r dysgu damcaniaethol yn yr ystafell ddosbarth. Byddai hyn yn galluogi cyfranogwyr i gael eu hasesu ar eu gallu wrth gyflawni'r swydd, yn hytrach na chael eu hasesu ar wybodaeth ddamcaniaethol. Teimlai cyfranogwyr fod lleoliadau hyfforddi mewn swydd yn fwy tebygol o arwain at gynnig o gyflogaeth llawn amser.

> *"Y dyddiau hyn, mae cymaint o bobl yn ddi-waith fel y gallech hyfforddi i fod yn rhywbeth a pheidio â chael swydd ar ei ddiwedd."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y dylai'r ddarpariaeth hyfforddiant fod yn fwy ymarferol ac yn berthnasol i ddiwydiannau penodol. Fel yr amlinellir uchod, credwyd mai hyfforddiant ymarferol oedd y ffurf fwyaf defnyddiol ar hyfforddiant, gan y byddai unigolion yn fodlon mynd i mewn i fath penodol o swydd unwaith y cawsant hyfforddiant.

## 3.4 Ffocws lleol

Cynhaliwyd yr ymchwil ar draws pedwar rhanbarth er mwyn deall materion lleol ynghylch gwaith addysg a darparu hyfforddiant. Er bod agweddau tebyg wedi dod i'r amlwg mewn nifer o bynciau yn y pedwar rhanbarth, roedd rhai materion a thueddiadau yn unigryw i osodiad y grwpiau.

### 3.4.1 Blaenau'r Cymoedd (Merthyr Tudful ac Aberdâr)

I gyfranogwyr sy'n ddynion yn y lleoliadau hyn, y ffynhonnell fwyaf cyffredin o waith fu'r pyllau glo neu'r Lluoedd Arfog yn draddodiadol. Awgrymwyd bod y rhan fwyaf o ddynion wedi tueddu i fynd i un o'r mathau hyn o waith, felly prin yr ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.

> *"Y pwll glo neu'r Fyddin oedd y dewis. Roeddech naill ai'n mynd i'r Fyddin neu'r pwll glo."*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

Y materion mwyaf cyffredin a godwyd yn y grwpiau yma oedd y prinder swyddi oedd ar gael yn lleol ers cau'r pyllau glo lleol a chyflogwyr mawr eraill yn cau yn ddiweddar. Roedd llawer o gyfranogwyr wedi gweithio yn y pyllau glo ac wedi cael eu diswyddo ers i'r pyllau gau. Roedd rhai yn flin nad oeddent wedi cael unrhyw ddewisiadau eraill na chyfleoedd hyfforddiant unwaith y caeodd y mwynfeydd.

*"Roedd y Llywodraeth yn ddigon cyflym i gau'r diwydiannau hyn i lawr heb ystyried y gweithwyr, felly ei chyfrifoldeb hi yw gweithredu a darparu hyfforddiant am ddim, o leiaf i'r bobl a wnaed yn ddi-waith ar y pryd."*
(Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

Y canfyddiad oedd, gan fod cyn lleied o swyddi ar gael yn lleol, roedd yn rhaid i bobl deithio i Gaerdydd i weithio. Roedd llawer o bobl yn anfodlon ar hyn ac nid oeddent yn teimlo bod y cysylltiadau trafnidiaeth yn ddigonol iddynt deithio i'r gwaith.

*"Yn y cymoedd hyn, un broblem fawr ydy bod y gwaith da yng Nghaerdydd, ac nid oes ffordd o fynd i Gaerdydd ac os nad ydych yn gyrru nid oes cyfleusterau trafnidiaeth ymarferol i fynd i Gaerdydd."*
(Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

*"Mae gwaith yn brin iawn, iawn yn y cymoedd... Mae'r pentrefi llai wedi cael eu taro'n ddrwg o'u cymharu â'r dinasoedd."*
(Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

### 3.4.2 Gwynedd

Roedd unigolion yng Ngwynedd yn cael eu cyflogi'n dymhorol fel arfer, gan fod yr economi leol yn seiliedig ar dwristiaeth. Cafodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr brofiadau o weithio mewn caffis neu fwytai lleol yn ystod tymor y gwyliau.

*"Nid oes swyddi nad ydych yn mynd adre'n drewi o fwyd neu ddiod."*
(Merch, 16-18, Sgiliau Sylfaenol, Abermo).

Roedd trafnidiaeth hefyd yn broblem i gyfranogwyr o ogledd Cymru. Yn aml, roedd angen teithio oherwydd yr adnoddau lleol cyfyngedig ar ffurf gwaith a chyfleusterau hyfforddiant, ond roedd trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig a gwasanaethau yn afreolaidd. Cafodd unigolion nad oedd ganddynt geir drafferth teithio i'r gwaith neu ddysgu. Y canfyddiad oedd bod gwaith llawn amser yn brin iawn yn y gogledd a chafodd cyfranogwyr drafferth cael gwaith drwy gydol y flwyddyn. Dyheai nifer gael swydd llawn amser barhaol o unrhyw fath er mwyn osgoi bod yn ddibynnol ar swyddi tymhorol.

*"Yr unig beth dwi eisiau ydy swydd y gallwch eistedd i lawr mewn siop drwy'r dydd heb ddrewi ar y diwedd."*
(Merch, 16-18, Sgiliau Sylfaenol, Abermo).

Defnyddiwyd Cymraeg yn eang gan gyfranogwyr grwpiau ffocws yng Ngwynedd, a chafodd unigolion â lefel isel o lythrennedd hefyd drafferth darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Dywedodd rhai unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol er mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf fod Cymraeg ysgrifenedig yn anoddach na'r Saesneg oherwydd y gwahaniaethau rhwng Cymraeg ysgrifenedig a llafar. Roedd y rhai â lefelau isel o lythrennedd yn Saesneg hefyd yn cael trafferth gyda Chymraeg ysgrifenedig.

*"Mae 'nghalon yn suddo pan fydda i'n gweld ffurflen yn Gymraeg a bydda i'n meddwl 'lle ydw i am ddechrau gyda hon?"*
(Grŵp cymysg, Cyflogeion, Porthmadog).

### 3.4.3 Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr

Yn y De, roedd amrywiaeth ehangach o gyfleoedd swyddi ac roedd cyfranogwyr yn gallu archwilio mathau gwahanol o waith yn haws yn ystod eu gyrfa. Serch hynny, roedd y math o waith a oedd ar gael mewn lleoliadau trefol yn aml ar gyflog isel ac yn anfedrus ac, o ganlyniad, roedd cyfranogwyr yn fwy tebygol o symud rhwng swyddi yn aml.

> *“Pan rydych yn yr ysgol, dydych chi ddim yn sylwi pan fyddwch yn gorffen ysgol, y bydd y math o swyddi y gallwch eu cael heb gymwysterau yn undonog a diflas.”*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

> *“Mae fy mywyd wedi newid cyfeiriad dro ar ôl tro.”*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

Golygai'r diwylliant o newid swyddi yn y De fod gan gyfranogwyr lwybrau gyrfa llai clir ac ymddengys bod eu hagwedd at weithio yn fwy hyblyg. Ymddangosai rhai fel petaent yn poeni mwy am weithio er mwynhad nag ennill cyflog uchel.

> *“Weithiau, dydy'r arian ddim yn dda, ond mae'n rhaid ystyried mwynhad y swydd hefyd.”*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

Mynychodd nifer uwch o gyfranogwyr yn y De gyrsiau hyfforddiant o ryw fath ac ymddengys ei bod yn haws manteisio ar gyfleoedd dysgu lleol. Fodd bynnag, gan fod rhai ohonynt wedi dilyn nifer o gyrsiau, tueddant fod yn fwy negyddol o ran hyfforddiant ac roeddent yn fwy amheus o'r farn y byddai dysgu yn arwain at waith. Effeithiwyd ar y cyfranogwyr hyn hefyd gan y farchnad swyddi a oedd yn dirywio a theimlai nifer na fyddai dilyn cwrs hyfforddiant yn arwain at gyflogaeth.

> *“Mae pobl yn hyfforddi'n gyson. Maent yn dilyn un cwrs ar ôl y llall, oherwydd pan fyddwch yn gorffen un, 'does dim byd sy'n cyfateb i'r hyfforddiant hwnnw. Felly rydych yn dilyn cwrs arall ar gyfer rhywbeth arall mewn cyfeiriad gwahanol a 'does dim ar gael. Mae pobl wrthi'n dilyn cyrsiau o hyd heb gael gwaith.”*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

### 3.4.4 Castell-nedd Port Talbot

Roedd barn y cyfranogwyr ym Mhort Talbot yn debyg i'r rhai ym Merthyr Tudful o ran mai'r mathau o swyddi a gynigir oedd rhai mewn ffatrïoedd neu yn y Lluoedd Arfog yn bennaf. Yn y lleoliad hwn, roedd unigolion, dynion yn bennaf, yn aml yn dibynnu ar y gwaith haearn am gyflogaeth. Mewn archfarchnadoedd lleol neu leoliadau manwerthu eraill y daethpwyd o hyd i waith amlaf.

> *“Es i'n syth o'r ysgol i ffatri. Cafodd fy rhieni swydd i mi ac es i i'r ffatri. Arhosais yno.”*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

> *“Nid oes llawer o ddewis - rydych chi'n mynd i'r gwaith haearn.”*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Roedd gan gyfranogwyr farn ychydig mwy cadarnhaol o'u gallu i ddod o hyd i waith â thâl da heb ennill cymwysterau. Efallai bod y farn hon yn seiliedig ar allu blaenorol i gael gwaith mewn ffatri a datblygu gyrfa yn y diwydiant hwn. Roedd rhai enghreifftiau o unigolion a oedd wedi dechrau fel hyfforddeion neu weithwyr ffatri ac wedi datblygu i fod yn rheolwyr.

> *"Gallwch adael yr ysgol heb gymwysterau a chael swydd dda er hynny."*
> (Dyn, 19-25, Sgiliau Sylfaenol, Castell-nedd).

> *"Roeddwn yn ddigon ffodus i gael fy nghadw ar y Cynllun Hyfforddi Ieuenctid. Rwyf wedi bod yno am 23 o flynyddoedd bellach, ac wedi datblygu o fod yn ffitiwr i fod yn rheolwr ardal."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Er y farn hon, roedd cyfranogwyr yn ymwybodol o'r farchnad swyddi ddirywiol, a soniodd nifer fod dod o hyd i waith yn lleol yn dibynnu ar gysylltiadau yn hytrach na gallu neu gymwysterau.

## 3.5 Canfyddiadau ychwanegol o'r ymchwil grwpiau ffocws

### 3.5.1 Diwylliant a thraddodiad cymunedol

Daeth yn amlwg o'r grwpiau fod cyfranogwyr yn aml yn tybio y byddent yn cyflawni'r rolau traddodiadol a gyflawnwyd gan aelodau eraill o'r teulu. I ferched, golygai hyn gael plant a magu teulu. I ddynion, disgwyliwyd y byddent yn mynd i weithio ac yn cynnal eu teuluoedd ar ôl gadael ysgol. Roedd rhai yn debygol o 'ddysgu crefft' a gweithio yn y grefft hon drwy gydol eu bywyd, gydag eraill yn newid swyddi ond bob amser yn gyflogedig. Ychydig iawn o gyfranogwyr a heriodd y rolau traddodiadol hyn neu a awgrymodd y gallent wneud rhywbeth amgen.

> *"O ble rwy'n dod, wnaethon ni ddim trafferthu, rydych yn meddwl pan fyddwch yn gadael ysgol y byddwch yn gweithio mewn ffatri neu'n cael plant ac na fyddech yn gweithio fwy na thebyg, a dyna ddiwedd arni."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

Ar draws y grwpiau, ymddengys bod cylch o fewn teuluoedd a chymunedau a welsai bobl ifanc yn dilyn arfer eu teuluoedd wrth ddewis eu proffesiwn. Disgrifiodd sawl cyfranogwr sut yr oedd cenedlaethau blaenorol eu teulu wedi gweithio mewn crefft benodol a dywedwyd nad ydynt erioed wedi ystyried cyflawni math arall o waith eu hunain.

> *"Roedd pob un o'm hewythrod yn ffitwyr, roedd fy nhadcu yn un, roedd fy nhad yn un. Pan adewais yr ysgol roeddwn yn mynd i'r gwaith haearn a dyna ddiwedd arni."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

> *"Roedd fy chwaer yn ofalwr i'r cyngor, ac arferai fy mam fod yn ofalwr hefyd, felly dyna sut es i mewn i'r maes."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Roedd cyfranogwyr hŷn hefyd yn gwahaniaethu rhwng pobl aeth i'r ysgol ramadeg a'r ysgol uwchradd, gan nodi bod y rhai a aeth i'r ysgol uwchradd yn ymwybodol nad oedd ganddynt unrhyw gyfle o gael addysg bellach. Dywedodd y cyfranogwyr hyn fod yn rhaid iddynt greu llwybr arall iddynt eu hunain, gan eu bod yn gwybod o'u plentyndod na fyddent yn gallu mynd yn eu blaen mewn addysg.

> *"Nid oedd gennych ots am ragolygon, nid oedd ots gen i beth bynnag ... roedd gan fechgyn yr ysgol ramadeg lwybr ond roedden ni'n yr ysgol uwchradd. Unwaith yr ewch i'r ysgol uwchradd rydych yn meddwl 'dyma ni felly. Mi af ati i fyw 'mywyd, gadael yr ysgol a chael swydd."*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

Dywedodd cyfranogwyr hŷn nad oedd ganddynt fyth unrhyw fwriad i barhau ag addysg, gan nad oedd yn cael ei ystyried yn fforddiadwy. Awgrymwyd bod gan 'bobl dosbarth canol' ddewis o aros mewn addysg ôl-16 oed gan fod eu teuluoedd yn gallu parhau i'w cefnogi'n ariannol, tra bod teuluoedd o grwpiau economaidd gymdeithasol is yn dibynnu ar eu teuluoedd i weithio er mwyn cyfrannu'n ariannol at y cartref. Dywedodd rhai cyfranogwyr a deimlodd y gallent fod wedi llwyddo yn yr ysgol eu bod o dan bwysau i gyfrannu'n ariannol at eu teuluoedd ac, o ganlyniad, nid oedd addysg yn flaenoriaeth iddynt.

> *"Dim ond pobl gyfforddus eu byd fyddai'n llwyddiannus ac yn mynd i'r brifysgol. Nid oedd gennych lawer o arian yn eich teulu felly ni fyddech yn gallu ei fforddio beth bynnag."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).
>
> *"Hyd yn oed tasech chi'n beniog, ni allai llawer o'n rhieni fforddio ein hanfon i'r coleg neu'r brifysgol."*
> (Merch, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

Cododd rhai cyfranogwyr problem diffyg modelau rôl yn eu cymunedau a theimlwyd bod hyn wedi cael effaith negyddol arnynt. Awgrymodd rhai nad oeddent wedi cyflawni llawer gan nad oedd disgwyl iddynt wneud hynny. Teimlwyd bod y rhai a gyflawnodd yn torri'r mowld.

> *"Dydw i ddim yn dweud bod fy rhieni'n ddwl, ond aethon nhw ddim i'r brifysgol. Nid oes modelau rôl."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).
>
> *"Mae Llanedeyrn yn grêt, rwy'n dod o'r lle, ond dydych chi ddim yn disgwyl i bobl o Lanedeyrn fod yn fargyfreithwyr neu debyg."*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

### 3.5.2 Manteisio ar ddysgu

Amrywiodd y wybodaeth am gyfleoedd dysgu a gynigir yn lleol yn sylweddol ar draws y grwpiau. Roedd gan gyflogeion yn arbennig wybodaeth gyfyngedig iawn o gyfleoedd dysgu a gynigir y tu allan i'r cyd-destun gwaith. I'r rhai a oedd yn ddi-waith, roedd gwybodaeth o'r ddarpariaeth hyfforddiant yn aml wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a roddir gan Ganolfannau Gwaith. Roedd nifer o gyfranogwyr di-waith yn dibynnu ar

ganolfannau gwaith i roi gwybodaeth am hyfforddiant iddynt. Ychydig iawn o gyfranogwyr, boed yn gyflogedig neu'n ddi-waith, a oedd yn bwrw ati i chwilio am hyfforddiant. Roedd cyfranogwyr yn gwybod am y ffynonellau hyfforddiant canlynol, neu wedi'u defnyddio:

- Learndirect.
- Colegau lleol.
- y Ganolfan Byd Gwaith.
- Gyrfa Cymru.

> *"Beth ydy'r lle 'na ar y teledu? Hunanddysgu ar y teledu, Learn Direct neu rywbeth felly."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Pan ofynnwyd iddynt i ble y byddent yn mynd i gael gwybodaeth am gyfleoedd dysgu, soniodd cyfranogwyr am lyfrgelloedd, y rhyngrwyd, radio, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, Canolfannau Dinesig, cylchgronau a thaflenni o golegau lleol neu bapurau newydd lleol. Ychydig iawn o unigolion a soniodd am ffynonellau gwybodaeth penodol ac nid oedd llawer yn ymwneud fawr ddim â'r ffynonellau a grybwyllwyd ganddynt.

> *"Mae cylchgrawn sy'n cael ei ddosbarthu bob hyn a hyn gyda stwff o'r coleg."*
> (Merch, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

> *"Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnal cyrsiau cyfrifyddu a phethau felly."*
> (Merch, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

> *"Maen nhw'n hysbysebu'n lleol. Mae coleg Castell-nedd yn hysbysebu ar y radio lleol."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Roedd y rhai a oedd wedi chwilio am wybodaeth am gyfleoedd dysgu gan y ffynonellau uchod wedi cael profiadau cymysg o'r cymorth a'r wybodaeth a gawsant. Dywedodd rhai eu bod wedi cael cymorth a chyngor un i un a oedd yn ddefnyddiol ond teimlai eraill fod y cyngor a roddwyd iddynt yn ddryslyd ac weithiau'n anghyson.

> *"Cefais sgwrs hir â'r ferch hon, ond wnes i ddim deall beth roedd yn sôn amdano, a gofynnais iddi egluro ychydig mwy ond nid oedd ganddi ddiddordeb."*
> (Dyn, 19-25, Sgiliau Sylfaenol, Castell-nedd).

> *"[Ceisiodd [cyngor ar yrfaoedd yn y gorffennol] fy nhroi oddi wrth yr hyn yr oeddwn am ei wneud."*
> (Dyn, 19-25, Sgiliau Sylfaenol, Castell-nedd).

> *"Flynyddoedd nôl, efallai y byddech wedi mynd i'r ganolfan gwaith a chael sesiwn un i un gyda rhywun ... bellach rhaid i chi ffonio a phwyso'r holl fotymau hyn."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

Roedd gwybodaeth am gyfleoedd dysgu a gynigir yn is fyth ymhlith cyflogeion. Nid oedd y rhan fwyaf o gyflogeion wedi ystyried cael hyfforddiant y tu allan i'r gwaith ac felly nid oeddent wedi ceisio gwybodaeth nac arweiniad ar unrhyw ffynonellau o hyfforddiant. Ystyriodd rhai cyflogeion ddysgu yn rhywbeth a anelir at bobl ddi-waith yn bennaf, gan fod ganddynt fwy o amser i ddilyn cyrsiau a chredwyd eu bod yn gymwys i gael hyfforddiant am ddim.

> *"Dwi byth wedi edrych i weld beth sy'n cael ei gynnig. Dwi byth wedi bod angen gwneud, felly byth wedi chwilio*."
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

> *"Chewch chi mo'ch talu wrth gael hyfforddiant, felly rhaid i chi feddwl am yr agwedd ariannol arno. Dywedewch fod yr hyfforddiant am fis, rhaid i chi fynd fis heb arian. Os oes gennych forgais i'w dalu, sut ydych am dalu amdano os ydych yn cael hyfforddiant?"*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

Yng Ngwynedd, teimlwyd bod cael hyfforddiant yn fwy o drafferth oherwydd yr anawsterau wrth deithio i fynychu cyrsiau mewn ardal wledig. Yn y lleoliadau hyn, roedd cyfranogwyr yn llai ymwybodol o gyfleoedd dysgu lleol. Roedd y rhai a oedd wedi chwilio am gyrsiau hyfforddiant penodol wedi canfod nad oedd y cyrsiau a oedd yn ennyn eu diddordeb yn cael eu cynnig yn lleol, ac roedd gorfod teithio ymhellach yn annymunol.

### 3.5.3 Strategaethau ymdopi

Roedd barn yr holl gyfranogwyr ar fanteisio ar gyfleoedd dysgu yn seiliedig yn bennaf ar eu hamgylchiadau presennol, er enghraifft, eu statws cyflogaeth, yr amser y buont yn ddi-waith a'u hyder. Roedd y ffactorau hyn yn dylanwadu ar y graddau y teimlant y byddai dechrau hyfforddiant yn gwella eu bywydau. Defnyddiodd yr holl gyfranogwyr strategaethau ymdopi i ryw raddau, i ddelio â'u problemau sgiliau sylfaenol, er enghraifft, cyfeirio post at gyfeiriad perthynas er mwyn osgoi darllen llythyrau. O ganlyniad i'r strategaethau ymdopi hyn, nododd nifer o unigolion eu bod wedi osgoi sefyllfaoedd tebyg y teimlent nad oeddent yn gallu ymdopi â hwy yn llwyddiannus. Felly nid oedd yr unigolion hyn yn teimlo y byddent yn cael budd o ddechrau dysgu, yn arbennig mewn pynciau nad oeddent wedi gwneud yn dda ynddynt yn yr ysgol.

> *"Faint o gymwysterau sy'n rhaid i chi eu cael mewn mathemateg? Pa mor bell sy'n rhaid i chi fynd cyn ei bod o ddefnydd i chi? Galla i gyfrif. Pan adewais yr ysgol gallwn wneud rhywbeth gyda phwyntiau degol a phethau felly. Buan iawn y gallwn ei ddysgu eto. Pam bod angen mathemateg arnom?"*
> (Dynion 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

> *"Pan adewais yr ysgol ces i fyth drafferth gwneud mathemateg sylfaenol a Saesneg. Galla i sillafu, dwi ddim yn athronydd nac yn ddwl."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

*“Dwi weithiau'n cael trafferth meddwl am air hawdd ac yn cael trafferth sillafu ond dwi'n fodlon gofyn. Dwi'n ceisio gweithio fy ffordd o gwmpas y gair hwnnw ac yn meddwl am rywbeth arall. Hyd yn oed os yw'n ddwy linell ychwanegol, bydda i'n ceisio hepgor y gair hwnnw ac ysgrifennu'r ddwy linell ychwanegol i gyfleu'r pwynt ... dydy hi ddim yn effeithio ar fy mywyd i'r graddau ei bod yn fy mhoeni.”*
(Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

Teimlai rhai unigolion nad oeddent yn defnyddio sgiliau o'r ysgol yn eu bywydau bob dydd, ac felly nid oedd eu diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol yn effeithio arnynt yn ormodol. Fodd bynnag, nododd unigolion hyn wrth geisio gwaith neu gydymffurfio â gofynion swydd a nodir yn y ffurflen gais.

*“Nid oedd gennyf unrhyw gymwysterau go iawn ac roeddwn yn dal i weithio felly teimlais lawer o werth... Mae'n anodd iawn dod o hyd i swydd heb gymwysterau cywir.”*
(Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

*“Nid oeddwn yn fodlon [yn fy swydd] gan fod y cyflog mor isel. Mae angen llawer o gymwysterau arnaf i wneud rhywbeth arall.”*
(Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

I lawer o gyfranogwyr, y prif nod i gael bywyd boddhaol oedd gweithio. Felly byddent ond yn dechrau hyfforddiant gyda'r nod o gael neu gadw swydd. Y prif bryder a godwyd gan y rhai heb gymwysterau oedd sut y gallai cyflogwr ymateb i unrhyw fylchau yn eu CVs. Roedd nifer o gyfranogwyr yn ymdopi â'r pryder hwn drwy osgoi gwneud cais am swyddi a oedd yn gofyn am sgiliau mewn pynciau nad oedd ganddynt gymwysterau ynddynt. Roedd hyn yn golygu eu bod yn osgoi mynd i'r afael â'u diffyg cymwysterau am nad oedd yn ofyniad i'r swyddi y gwnaed cais amdanynt.

*“Nid oes angen mathemateg na Saesneg arnoch i ofalu am blant pobl eraill, 'does angen dim byd felly arnoch. Rydych yn dilyn cwrs 6 wythnos ac yn ysgrifennu ychydig ar bob pwnc ... mae'n syndod pa mor hawdd yw gwneud hynny.”*
(Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

*“Roeddwn am fod yn asiant teithio, ac roeddwn yn gwybod nad oedd angen llawer o gymwysterau arna i.”*
(Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Er bod cyfranogwyr yn cydnabod bod eu cymwysterau yn gyfyngedig, nid oedd y strategaethau ymdopi a ddatblygwyd ganddynt wrth ddod o hyd i waith a'i gadw bob amser yn cydnabod bod ganddynt anghenion 'sgiliau sylfaenol'. At hynny, nid oedd dilyn cyrsiau sgiliau sylfaenol fel petai'n flaenoriaeth i gyfranogwyr, gan na fyddai gwella eu sgiliau sylfaenol o reidrwydd yn cydbwyso eu diffyg cymwysterau wrth wneud cais am swyddi. Hefyd, nid ystyriwyd gwella sgiliau sylfaenol yn hanfodol ar gyfer y mathau o waith yr oedd unigolion yn gwneud cais amdanynt. Yn hytrach, roedd cyfranogwyr yn meddwl bod mwy o werth i ennill cymwysterau a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â'u maes ac a fyddai felly'n cael eu cydnabod gan ddarpar

gyflogwyr. Mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu anghenion unigolion i sicrhau manteision diriaethol ar unwaith o ddysgu o ran cael swydd newydd neu swydd well.

> *“Nid oes gennyf gymwysterau o gwbl, dim TGAU nac unrhyw beth, a dwi'n iawn. Iawn, dydy'r arian ddim yn dda ond dwi yma o hyd. Galla i dal gynnal fy hun.”*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

> *“Dwi'n meddwl bod hyfforddiant yn beth da iawn gan ei fod yn rhoi cyfle i chi wneud yr hyn rydych am ei wneud. Wnaethon nhw fyth dysgu unrhyw beth tebyg yn yr ysgol. Anghofiwch am yr ysgol. Mae hyfforddiant yn well.”*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

Ar draws y grwpiau, dangosai nifer o gyfranogwyr frwdfrydedd dros hunangyflogaeth. Cydnabyddai cyfranogwyr er bod angen ystod eang o sgiliau i fod yn hunangyflogedig, gan gynnwys sgiliau rheoli cyllid, roedd hefyd yn golygu y gallent osgoi marchnad swyddi agored lle y byddent yn wynebu cystadleuaeth ac efallai y byddai'n rhaid iddynt gwblhau ffurflenni cais a chael cyfweliadau. Gellid felly ystyried y brwdfrydedd hwn dros hunangyflogaeth fel strategaeth ymdopi bosibl arall i unigolion heb gymwysterau neu gydag anghenion sgiliau sylfaenol.

### 3.5.4 Hyder

Fel yr amlygwyd yn ystod cam cwmpasu'r prosiect ac mewn ymchwil flaenorol (McGivney), daeth hyder i'r amlwg fel y ffactor mwyaf cyffredin a oedd yn atal pobl rhag manteisio ar gyfleoedd dysgu. Roedd mynd i'r afael â hyder fel rhwystr i ddysgu yn ystod y grwpiau yn broblem gan fod y strategaethau ymdopi a ddatblygwyd gan unigolion yn golygu eu bod weithiau'n amharod i gyfaddef fod ganddynt broblemau o ran hyder. Siaradai cyfranogwyr yn bennaf am yr anawsterau sgiliau sylfaenol yr oeddent yn eu hwynebu o ganlyniad i beidio â chyflawni'n academaidd, yn arbennig yr effaith a gafodd hyn ar eu gallu i ddarllen neu sillafu. Fodd bynnag, siaradai nifer o unigolion am hyder yn anuniongyrchol, gan ei gyflwyno fel pethau yr hoffent allu eu gwneud yn well. Un o'r canfyddiadau oedd bod hyder yn broblem pan fyddai cyfranogwyr yn wynebu sefyllfaoedd a oedd yn anghyfforddus iddynt, megis cyfweliad am swydd.

> *“Mae angen addysg arnoch, dim i swyddi cymaint, ond i fagu hyder yn bennaf. Dwi'n credu os oes gennych y cymwysterau a'ch bod yn gwneud cais am y swydd ac yn mynd i'r cyfweliad ei bod yn rhoi mwy o hyder i chi, ac efallai y cewch y swydd.”*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

> *“Os ydych yn ceisio am swydd ac mae angen cymhwyster o'r ysgol arnoch, a'ch bod yn dda yn y pwnc, rydych yn gwybod am beth rydych chi'n sôn. Gallwch siarad yn hyderus gan eich bod yn gwybod nad ydych yn mynd i mewn yn gwybod dim byd.”*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

Roedd problemau hyder yn aml yn gysylltiedig â lefel isel o gymwysterau, profiadau gwael yn yr ysgol a chael eu gwrthod yn y farchnad swyddi. Tueddai'r rhai yr

effeithiwyd waethaf arnynt gan broblemau hyder fod yn bobl a oedd wedi bod allan o'r farchnad swyddi am gyfnodau hir, yn aml merched a oedd wedi rhoi'r gorau i'r gwaith er mwyn magu eu plant. Ymddengys bod problemau hyder yn effeithio llai ar gyflogeion a oedd wedi bod mewn swydd drwy eu bywydau gwaith. Fodd bynnag, nododd cyflogeion heb gymwysterau hyder fel rheswm pam eu bod yn llai tebygol o dderbyn dyrchafiadau a gwneud cais am swyddi gwell yn eu sectorau.

> *"Fe'm hanfonwyd ar gwrs ddwy flynedd yn ôl gyda'r rheolwyr. Parhaodd ddwyawr ... Cefais fy nhaflu allan ac yna roeddwn yn ôl yn y gwaith yn fodlon yn fy oferôls seimllyd."*
> (Grŵp cymysg, Cyflogeion, Port Talbot).

> *"Cafodd fy nerfau y gorau ohonof unwaith ... rwyf wedi cael hyfforddiant o'r blaen, ond roedd hyn lefel yn uwch, a gwyddwn y gallent ganfod nad oedd gen i radd neu rywbeth tebyg. Feddyliais, alla i ddim gwneud hyn. Roeddwn yn ddigon hyderus ar y pryd, ond gwnes stori i fyny. Gwnes ddwrdio'n hun wedyn, ro'n i'n teimlo'n ofnadwy."*
> (Grŵp cymysg, Cyflogeion, Port Talbot).

Cafodd profiadau negyddol yn yr ysgol hefyd eu codi gan unigolion fel rhywbeth a oedd yn cyfrannu at hyder isel, ac felly'n rhwystr i ddysgu. Mewn achosion lle'r oedd cyfranogwyr wedi cael eu bwlio yn yr ysgol - rhywbeth a godwyd gan ferched yn bennaf - dywedwyd ei fod yn ffactor pwysig a oedd yn cyfrannu at yr anallu i ennill cymwysterau. Er bod sawl cyfranogwr wedi mynegi awydd i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ffurfiol neu anffurfiol, roedd eu profiadau negyddol wedi eu gadael yn teimlo'n amheus o fynd i amgylchedd dysgu. Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan effaith eu diffyg cymwysterau wrth chwilio am waith. Hefyd, dywedodd nifer o gyfranogwyr, ar ôl methu â chael cymwysterau yn yr ysgol, y byddent yn ofni teimlo nad oeddent yn ddigon peniog a chael eu labelu gan ddarpar gyflogwyr, athrawon neu gyd-ddysgwyr.

> *"Byddwn ychydig yn nerfus am fynd gan fod pobl yno sydd â mwy o brofiad... ac rydych yn meddwl ei fod yn gwneud i chi deimlo'n annigonol felly dwi ddim am fynd yno. Gallwn edrych yn dwp."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

> *"Mae'n eich atal rhag rhoi cynnig arni, gosod eich marc gan eich bod yn meddwl y cewch eich cnocio'n ôl, ac am nad oeddech yn dda yn yr ysgol rydych yn meddwl 'dyw fy CV ddim yn dda felly dydy hi ddim werth y drafferth ond i gael fy mychanu?"*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

Roedd hyder isel hefyd yn atal nifer o gyfranogwyr rhag cwblhau cyrsiau yr oeddent wedi'u dechrau yn y gorffennol. Rhoddodd sawl unigolyn hefyd enghreifftiau o ddechrau cyrsiau hyfforddiant a methu â'u cwblhau am amrywiaeth o resymau gan gynnwys beichiogi, dod o hyd i swydd a cholli diddordeb unwaith y byddai'r cwrs wedi dechrau. Y rheswm mwyaf cyffredin dros adael cwrs oedd peidio â mwynhau'r cwrs. Fodd bynnag, daeth yn amlwg drwy'r trafodaethau grŵp, i nifer o gyfranogwyr roedd yr ofn o gael eu hasesu a pha mor anodd oedd y cyrsiau hefyd yn ysgogiadau a oedd yn eu hachosi i adael cyrsiau cyn eu cwblhau.

*“Es i'r coleg ac roeddwn yn ei gasáu. Roedd fel ysgol unwaith eto ... roedd yn rhy anodd a rhoddais y gorau iddo.”*
(Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd)

### 3.5.5 Dyheadau cyfyngedig

Ar draws y grwpiau, ychydig iawn o awydd a ddangosai cyfranogwyr i wella eu hamgylchiadau presennol. Yn arbennig, ychydig iawn o awydd a ddangosai cyflogeion i gael dyrchafiad. Heblaw am effeithio ar eu gallu i weithio, a oedd yn bryder mawr ymhlith pawb, y farn gyffredin oedd nad oedd diffyg cymwysterau, yn ei hanfod, wedi niweidio gallu cyfranogwyr i fyw bywydau llawn boddhad. Er bod nifer o unigolion yn derbyn y gallent fod wedi cyflawni mwy yn addysgol, yn gyffredinol roeddent yn fodlon ar eu bywydau ac ychydig iawn a ddywedodd eu bod yn anfodlon ar eu hamgylchiadau. Fodd bynnag, yn sgîl trafodaethau pellach datgelwyd bod nifer yn teimlo y dylent fod wedi cyflawni mwy yn eu bywydau. Pan ofynnwyd iddynt gymharu eu hunain â phobl yr oeddent yn eu hystyried yn llwyddiannus, roeddent yn ystyried eu hunain yr un mor hapus a bodlon ond nid yr un mor uchelgeisiol a rhagweithiol.

*“Dwi wedi meddwl am bethau gwahanol. Rydych chi yn meddwl "Hoffwn i petawn i wedi mynd ymhellach yn y swydd hon neu'r swydd honno". Roedd y cyfle yno.”*
(Dyn, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

*“Dwi'n uchelgeisiol gan fy mod am wneud rhywbeth gyda'm bywyd ond yn ddi-hid gan nad oes ots gen i beth ydw i'n ei wneud.”*
(Merch, 16-18, Sgiliau Sylfaenol, Abermo).

Yn aml, cyfiawnhaodd cyfranogwyr y farn nad oedd angen cymwysterau 'ffurfiol' arnynt drwy nodi mai dim ond y rhai oedd am ddilyn gyrfaoedd proffesiynol mewn meysydd sy'n ymwneud â phynciau oedd angen y math hwn o gymwysterau. Roedd gan lawer werthoedd tebyg iawn ar draws y grwpiau o ran gwaith, a'r farn fwyaf cyffredin oedd mai prif ddiben gwaith oedd gallu cefnogi eich teulu a bod yn annibynnol. Y tu hwnt i hyn, roedd yr awydd i unigolion gynyddu o ran datblygu gyrfa yn gyfyngedig. Mewn rhai amgylchiadau, roedd cyfranogwyr wedi gwrthod dyrchafiadau gan eu bod yn ofni'r cyfrifoldebau ychwanegol a'r pwysau o fod mewn swydd uwch.

*“Dydy Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg ddim yn angenrheidiol oni bai eich bod am eu defnyddio pan rydych yn gadael yr ysgol, fel dod yn wyddonydd, neu'n gyfrifydd gyda mathemateg.”*
(Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

*“Hyfforddais i fod yn weldiwr. Roedd gen i gymhwyster City & Guilds mewn weldio a lluniadu technegol ond wnes i ddim manteisio arno - gwnes rentu fan hufen iâ gan fy mod yn gwneud mwy o arian yn gwerthu hufen iâ nag y byddwn wedi'i wneud o fod yn weldiwr.”*
(Dyn, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

Roedd gan gyfranogwyr farn gymysg am bobl yr oeddent yn eu disgrifio fel pobl lwyddiannus. Roedd llwyddiant yn aml yn gysylltiedig â goresgyn rhwystrau ac roedd edmygedd i'r rhai oedd â hanes tebyg iddynt ond a oedd wedi gweithio'n galed i gyflawni eu nodau.

Ymhlith yr enghreifftiau cadarnhaol a roddwyd roedd:

- Pobl nad oedd wedi ennill cymwysterau yn yr ysgol ond a oedd wedi dychwelyd at addysg yn nes ymlaen.
- Merched oedd wedi dychwelyd at addysg ar ôl magu eu plant.
- Pobl a oedd wedi sefydlu eu busnes eu hunain.

Roedd meddu ar ddyheadau uchel yn gysylltiedig â chymryd risgiau a dewrder, sef nodweddion nad oedd llawer o gyfranogwyr o'r farn yr oedd ganddynt. Fodd bynnag, roedd cyflawni'n uchel hefyd yn gysylltiedig â bod dan bwysau ac yn flinedig a dywedodd rhai cyfranogwyr y byddent yn anfodlon aberthu bod yn ddigon cyfforddus i gyflawni swydd fwy heriol.

> *"Roedd gennyf fy musnes fy hun am 11 mlynedd, yn adeiladu gan reoli tua phum neu chwe bachgen, ac roeddwn dan bwysau gan fy mod yn meddwl am y peth yn barhaol. Dwi'n cofio neidio yn fy nghwsg yn meddwl "Dwi ddim wedi gwneud hyn. Dwi ddim wedi gwneud y llall". Mae'n gyson. Nid 8 tan 4.30 yw e. Mae o 8 tan i chi gau eich llygaid gyda'r nos."*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

Roedd cyfranogwyr yn arbennig o ganmoliaethus am bobl a oedd wedi aros yn eu cymunedau, er gwaethaf eu llwyddiant. Mewn achosion lle roedd unigolion wedi symud o'r gymuned, roedd cyfranogwyr yn aml yn dweud eu bod wedi bod yn galed neu'n hunanol. Yn aml, cafodd cyflawniadau'r unigolion hyn eu diystyru a'u disgrifio fel ffodus.

> *"Mae ganddynt gred wirioneddol yn eu hunain sy'n amlycach na mewn pobl eraill."*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

> *"Dyw pawb ddim yn cael y cyfleoedd i wneud pethau fel pobl eraill."*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

### 3.5.6 Agweddau at addysg

Roedd cyfranogwyr yn y grwpiau yn amrywiol iawn o ran y cymwysterau yr oeddent wedi'u hennill a'r sgiliau a'r galluoedd yr oeddent wedi'u datblygu dros amser. Roedd gan yr holl gyfranogwyr gymwysterau lefel 2 neu is sy'n cynnwys y rhai â sgiliau llythrennedd a rhifedd isel iawn, pobl a oedd wedi ennill rhyw fath o gymwysterau ar lefel ysgol uwchradd a rhai oedd wedi rhoi cynnig ar Safon Uwch. Roedd nifer fach o gyfranogwyr wedi mynd i'r coleg ac ennill cymwysterau yn ymwneud â'u maes. Roedd y cyrsiau hyn yn cynnwys peirianneg, busnes, gofal plant, trin gwallt ac arlwyo.

Roedd yr ymateb i'r term addysg yn negyddol ar y cyfan; yn y rhan fwyaf o achosion fe'i cysylltwyd yn uniongyrchol ag ysgol. Dywedodd nifer o gyfranogwyr nad oeddent wedi mwynhau eu hamser yn yr ysgol ac adlewyrchwyd hyn yn eu disgrifiadau o addysgu gwael, bwlio ac 'adegau gwael' yn gyffredinol. Teimlai rhai cyfranogwyr o grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu bod yn destun hiliaeth gan athrawon a staff, a effeithiodd ar eu hagweddau at addysg a'u gallu i lwyddo.

> *"Roeddwn yn meddwl bod mynd i'r ysgol yn wastraff amser. Roeddwn yn ei chasáu. Allen i ddim aros i adael."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

> *"Roeddwn yn hoffi'r ysgol. Nid yr ysgol oedd y broblem ond y bobl oedd yn fy addysgu yn yr amgylchedd ysgol hwnnw ... pe bai pethau'n wahanol, dwi'n meddwl y byddai llawer o ddisgyblion du wedi gwneud yn llawer gwell nag y gwnaethon yn yr amgylchedd ysgol hwnnw, oherwydd roedd rhwystrau yno."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

Roedd y rhai a oedd wedi mwynhau'r ysgol yn gwerthfawrogi'r agweddau cymdeithasol ar wneud a gweld eu ffrindiau. Heblaw am gymdeithasu, cafodd ysgol yn aml ei disgrifio fel 'diflas' a'i chysylltu â 'gwaith caled' ac roedd diffyg brwdfrydedd dros addysg ffurfiol ar y cyfan. Yng Ngwynedd, cwynodd cyfranogwyr hefyd am drafferthion teithio i'r ysgol oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth gwael.

> *"Yr unig beth yr oeddwn am ei wneud oedd chwarae fy ngitâr. Roedd ysgol ac arholiadau yn anghyfleus."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

> *"Roeddwn yn hoff o gymdeithasu. Dyna'r unig beth yr oeddwn yn ei hoffi yn yr ysgol."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

Er yr agweddau negyddol at addysg ffurfiol, cydnabu'r mwyafrif o'r unigolion y byddai llwyddo yn yr ysgol yn arwain at ragolygon gwell a mwy o opsiynau yn y dyfodol. Roedd addysg hefyd yn gysylltiedig â gwybodaeth a chyfleoedd, gyda nifer o gyfranogwyr yn sôn am werth cymwysterau ac addysg yn gyffredinol. Cydnabu mwyafrif mawr, yn arbennig pobl â lefelau isel o sgiliau sylfaenol, eu bod dan anfantais am nad oeddent wedi ymgysylltu'n llawn ag addysg.

> *"Mae angen yr addysg arnoch i gael swydd dda. 'Does gen i ddim TGAU ac mae gwaith yn dod i'r amlwg nawr. Os nad oes gennych y cymwysterau 'does dim yn digwydd felly rydym yn gwneud swydd waeth nag y dylem ... Pe bai gennyf fwy o gymwysterau byddwn bellach mewn swydd well na'r un sydd gennyf nawr. Byddwn yn gwneud yn llawer gwell. Mae angen y cymwysterau arnoch i gael swydd dda, mewn difrif."*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

> *"Pe byddwn yn gwybod yr hyn a wn nawr, byddwn wedi talu sylw."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Roedd unigolion yn aml yn beio eu diffyg cymwysterau ar ansawdd yr addysg a gawsant yn yr ysgol. Y farn gyffredin, yn arbennig ymhlith cyfranogwyr hŷn, oedd na chawsant eu hannog gan yr athrawon ac fe'u hanwybyddwyd ar gefn yr ystafell ddosbarth. Siaradai sawl cyfranogwr am system addysg gyda dim ond y disgyblion a oedd yn arbennig o dda mewn pwnc neu'r rhai a oedd yn hynod frwd oedd yn cael cefnogaeth; fodd bynnag, nid oedd y disgyblion hynny yn y sampl ar gyfer yr ymchwil hon. Teimlai llawer na chawsant y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt ac nad oedd athrawon yn poeni a fyddent yn llwyddo neu'n methu.

> *"Roeddent yn dysgu'r bobl oedd am ddysgu. Os nad oeddech am ddysgu, byddent yn eich rhoi yng nghefn y dosbarth a byddech yn chwarae cardiau. Cyn belled â'ch bod yno ac yn ystadegyn, roeddent yn ddigon bodlon."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Pen-y-bont ar Ogwr).

> *"Dwi ddim yn meddwl nad oedd ganddynt ots, y peth oedd, doedd neb yn rhoi sylw i chi ... oni bai eich bod yn dda iawn mewn rhywbeth."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

Ymhlith cyfranogwyr hŷn, cytunwyd yn gyffredinol nad oedd ennill cymwysterau yn cael ei ystyried yn bwysig pan oeddent yn yr ysgol. Roedd y ffaith bod swyddi ar gael a'r mathau o swyddi a gynigiwyd yn golygu y gallai'r rhai a adawodd ysgol gael cyflogaeth yn gymharol hawdd heb gymwysterau. Yn aml iawn, dywedodd cyfranogwyr eu bod wedi ystyried bod mynd i'r ysgol yn beth anghyfleus a'u bod wedi bod yn awyddus i adael a dechrau ar eu bywydau.

> *"Es i'r ysgol uwchradd yn Aberdâr ac roedd yn wastraff amser llwyr. Nid oedd gan yr athrawon ddiddordeb yn ein haddysgu. 'Doedd dim ots gen i. Yr unig beth yr oedd gennyf ddiddordeb ynddo oedd cicio pêl o amgylch yr iard. Allwn i ddim aros nes i mi adael yr ysgol."*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

Roedd nifer o gyfranogwyr hŷn o'r farn bod y cyfleoedd addysgol a gynigir i bobl ifanc heddiw yn welliant sylweddol ar yr hyn a gynigiwyd pan roeddent yn yr ysgol. Y consensws cyffredinol ymhlith grwpiau hŷn oedd, pe baent wedi cael yr un cyfleoedd â phobl ifanc heddiw, byddent wedi gadael yr ysgol gyda llawer mwy o gymwysterau. Mynnent fod addysgu wedi dod yn decach, a bod disgyblion yn gallu cael sylw a chymorth cyfartal yn yr ystafell ddosbarth. Dywedodd pobl â phlant hŷn eu bod yn annog eu plant i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd a oedd ar gael iddynt a'u bod yn talu sylw manwl i'w haddysgu i sicrhau mai dyma'r sefyllfa.

> *"Mae fy mhlant yn mynd i'r ysgol nawr, ac mae'n ffantastig. Mae ganddynt gyfrifiaduron a phopeth. Pe bai pethau felly pan roeddwn i yn yr ysgol byddwn i fwy na thebyg wedi rhedeg yno i gyrraedd cyn pawb arall."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

> *"Pe bai plentyn heddiw yn yr un sefyllfa â mi yn yr ysgol, byddai'r athrawon yn nodi'r plentyn hwnnw ac yn ei annog er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fyny â gweddill y dosbarth. Nid oedd pethau felly pan roeddwn i yn yr ysgol. Os nad oeddech yn gwybod rhywbeth byddai neb yn gwneud dim amdano."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

Er bod y grwpiau hŷn o'r farn y bu gwelliant yn y system addysg, nid oedd y grwpiau iau yn rhannu'r agweddau hyn. Ymddengys bod grwpiau iau yn gosod llai o werth ar gymwysterau na chyfranogwyr hŷn. Er iddynt ddweud bod eu rhieni wedi eu hannog, roedd cyfranogwyr iau o hyd yn teimlo'n apathetig at ysgol, a adlewyrchodd agweddau’r cyfranogwyr hŷn pan roeddent yn derbyn addysg. Mewn rhai achosion, ymddangosai fod agweddau'r cyfranogwyr iau yn awgrymu eu bod yn teimlo nad oedd gwelliannau yn ansawdd yr addysg a'r addysgu. Er bod y cyfranogwyr iau yn sôn am yr anogaeth a'r cyngor gyrfaoedd a gawsant yn yr ysgol, roedd ymdeimlad bod y wybodaeth a'r cymorth a roddwyd ym mlynyddoedd diwethaf yr ysgol wedi dod yn rhy hwyr.

> *“[Roedd] gormod o bwysau. Os gwnaethoch yn dda yn yr ysgol byddent yn dweud 'gwnewch fwy, gallwch wneud hyn' a meddyliais i 'dwi ddim eisiau nawr.”*
> (Merch, 16-18, Sgiliau Sylfaenol, Abermo).

Mewn nifer o achosion, roedd cyfranogwyr iau eisoes wedi penderfynu y byddent yn gweithio neu'n dechrau teulu ar ôl gadael yr ysgol ac na fyddent yn parhau ag addysg bellach. Rhoddodd merched ifanc yn arbennig flaenoriaeth uchel i gael teuluoedd a magu plant tra bod dynion yn disgwyl dod o hyd i waith ar unwaith ar ôl gadael yr ysgol. Roedd y rhan fwyaf wedi disgwyl gweithio mewn crefftau nad oedd angen cymwysterau arnynt a defnyddiwyd hyn hefyd fel cyfiawnhad dros beidio â gweithio yn yr ysgol. Ymddangosai fod cyfranogwyr iau, yn arbennig y rhai rhwng 16 ac 18 oed, yn poeni llai am newidiadau yn y farchnad swyddi ac nad oeddent yn ymwybodol o sut y byddai hyn yn effeithio arnynt. Cyfaddefodd rhai cyfranogwyr iau, ar ôl cael anawsterau wrth ddod o hyd i waith, eu bod wedi bod yn naïf ac yn edifar peidio â chael cymwysterau yn gefn iddynt.

> *“Pan roeddwn yn yr ysgol, nid oeddwn byth yn meddwl y byddai mor anodd dod o hyd i swydd ... Pe bai pawb wedi gwybod yr hyn dwi'n ei wybod nawr bryd hynny, byddwn wedi astudio’n galetach yn yr ysgol yn hytrach na dilyn y dorf.”*
> (Dyn, 19-25, Sgiliau Sylfaenol, Castell-nedd).

Mynegodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr eu bod yn edifar nad oeddent wedi cyflawni i'w llawn gallu yn yr ysgol. Fodd bynnag, y farn gyffredin ymhlith cyfranogwyr o bob oedran oedd bod yr amser ar gyfer addysgu wedi dod i ben. Ni theimlai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr y byddai dychwelyd at addysg ffurfiol o fudd mawr iddynt gan eu bod eisoes wedi addasu eu bywydau i gyd-fynd â'r ffaith nad oedd ganddynt gymwysterau. Yr ymdeimlad a ddeilliodd o hynny oedd na fyddai ennill sgiliau neu gymwysterau mewn pynciau craidd yn gwneud yn iawn am yr hyn a gollwyd 'y tro cyntaf'. Ni welsai unigolion fanteision amlwg gwella sgiliau sylfaenol a/neu ddychwelyd at addysg a thueddant feddwl bod cymwysterau uwch ac o bosibl mwy 'gwerthfawr' y tu hwnt i'w cyrraedd.

### 3.5.7 Agweddau at waith

Yn gyffredinol, mynegodd cyfranogwyr ddewis i gyflawni gwaith ymarferol. Roedd mwyafrif y cyflogeion yn gweithio mewn swyddi anfedrus, yn bennaf yn y sectorau gweithgynhyrchu neu fanwerthu. Hefyd, roedd tuedd ymhlith nifer o gyfranogwyr,

merched yn benodol, at ddiwydiannau sy'n cynnwys elfen o ofalu fel gofal plant, nyrsio neu drin gwallt. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth o gyflogaeth o fewn y grwpiau, a oedd yn cynnwys cynorthwywyr dysgu, gweithwyr post, gwarchodwyr a gweithwyr gweinyddol. Roedd galwedigaethau unigolion yn amrywio ar draws y pedwar lleoliad, ac roedd y rhai o ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn aml wedi gweithio mewn ffatrïoedd neu byllau glo. Yng Ngwynedd, cafodd unigolion yn aml eu cyflogi mewn swyddi tymhorol ac roedd gan lai o gyfranogwyr swyddi parhaol.

Prin iawn y soniodd cyfranogwyr am ragolygon swyddi ac nid oedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf yn meddwl am gynlluniau cyflogaeth yn yr hirdymor. Tueddai cyfranogwyr ifanc yn arbennig i beidio â meddwl am lwybr gyrfa ac roeddent yn canolbwyntio ar nodau byrdymor fel gwneud digon o arian i gynnal eu ffordd bresennol o fyw. Dywedodd nifer a oedd yn gweithio mewn ardaloedd diwydiannol y byddai ganddynt swyddi am oes yn y diwydiant glo ac nad oeddent wedi cynllunio y tu hwnt i hyn. O ran cyfranogwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny, roedd cyfleoedd swyddi amgen yn y Lluoedd Arfog neu grefftau llaw eraill.

Roedd diwylliant o newid swyddi ymhlith cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn y De a'r Gogledd, lle siaradai cyfranogwyr am y gallu i symud rhwng sawl swydd dros eu bywyd gwaith. Cyfranogwyr hŷn a ddisgrifiodd hyn yn bennaf, gan ddweud bod digonedd o swyddi ar gael iddynt wedi iddynt adael yr ysgol. Disgrifiodd llawer ohonynt sut y gwnaethant selio eu penderfyniad i dderbyn cynnig swydd ar ffactorau fel pellter o'r cartref, oriau gwaith, cyflog neu ddiddordeb yn y swydd. Siaradai cyfranogwyr hŷn am ddiwylliant o waith pan roeddent yn ifanc, lle gallai pobl adael swydd nad oeddent yn hoff ohoni a dechrau swydd arall y diwrnod wedyn.

> *"Pan roeddwn yn ifanc, gweithiais yn y pwll. Gorffennais yn y pwll yn yr haf a mynd ar y bysiau yn yr haf ac yna'n ôl i'r pwll yn y gaeaf. Roedd swyddi ymhobman y dyddiau hynny."*
> (Dyn, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

Ystyriwyd gwaith yn bennaf fel modd i unigolyn gyflawni rhywbeth. Roedd y disgrifiadau o waith yn ddigon negyddol ac yn cynnwys 'diflas', 'llawn straen' a 'blinedig', a allai fod yn adlewyrchiad ar y mathau o swyddi a oedd ganddynt. Fodd bynnag, dangosodd cyfranogwyr werthfawrogiad o werth gweithio ac roedd cyflogeion yn ddiolchgar iawn bod ganddynt swyddi. Siaradent am fanteision gweithio fel cael incwm cyson, gallu fforddio moethau bach a chael ymdeimlad o bwrpas.

> *"Rydych yn cael cyflog da [mewn adeiladu]. Dydych chi ddim yn ystyried beth ydyw, mae'n arian da, mae'n talu'r morgais a dyna ni."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Roedd cyfranogwyr di-waith yn uchel eu croch am fanteision gweithio a dywedodd sawl un y byddai gwaith yn gwneud iddynt deimlo'n fwy defnyddiol ac yn rhoi rhywbeth iddynt wneud â'u hamser. Nododd sawl un eu bod yn cael pleser o gael trefn ddyddiol, a'u bod yn gwerthfawrogi'r diogelwch y byddent yn ei gael o fod yn gyflogedig. Yn yr un modd â phobl gyflogedig, nid oedd y cyfranogwyr hyn yn poeni llawer am y math o waith y byddent yn ei wneud ond roeddent yn blaenoriaethu elfennau cymdeithasol gweithio. Roedd boddhad mewn swydd yn aml yn gysylltiedig

â bywyd cymdeithasol, cyfeillgarwch a gwaith tîm, ac roedd llawer o gyfranogwyr am gael gwaith yn seiliedig ar y meini prawf hyn.

> *"Arferais weithio gyda phlant ac roedd yn rhoi boddhad i mi ... teimlais yn ddiogel yn ariannol hefyd wrth i mi gael cyflog ac incwm bob wythnos ... roeddwn yn annibynnol yn ariannol ac roedd yn rhoi boddhad mawr."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

> *"Pan fyddwch yn dechrau gweithio, rydych yn teimlo'n llai gwirion ac annigonol na phobl eraill."*
> (Grŵp cymysg, Sgiliau Sylfaenol, Port Talbot).

Roedd bod yn gyflogedig hefyd yn gysylltiedig ag annibyniaeth a sefydlogrwydd ariannol. Siaradodd nifer o gyfranogwyr am yr angen i ennill arian i gynnal eu teuluoedd. Cafodd hyn ei grybwyll yn aml gan gyfranogwyr a oedd yn ddynion, gyda merched yn aml yn trafod trefnu gwaith o amgylch blaenoriaethau eraill fel gofal plant. Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd nifer o gyfranogwyr yn gosod gwerth mawr ar hunangyflogaeth fel dull o gynnal hyblygrwydd a rheoli eu bywyd gwaith. Roedd rhai dynion ym maes crefftau wedi cael hyfforddiant yn eu proffesiynau dethol ac yn gweithio fel contractwyr ar brosiectau mawr. Roeddent yn ystyried hyn yn well na gweithio i gwmnïau mawr gan eu bod yn gallu gwneud mwy o arian a chadw eu hannibyniaeth. Roedd rhai merched wedi cael swyddi y gallent eu gwneud gartref, fel gofalu am blant, neu wedi dechrau swyddi yn ysgolion y plant er mwyn rheoli gofal plant.

> *"Rwyf bob amser wedi gweithio. Dwi byth wedi cael trafferth cael swydd. Y prif reswm i mi ddechrau ar y swydd hon oedd yr oriau a'u cydbwyso â'm plant. Dyna'r prif feini prawf i mi. Nid yw'n swydd ddelfrydol ond mae'n cyd-fynd â phopeth arall."*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn wybodus iawn am eu diwydiannau eu hunain ac roedd y rhan fwyaf yn ymwybodol o unrhyw gymwysterau yr oedd eu hangen arnynt i weithio yn eu dewis broffesiynau. Roedd y rhai a oedd yn gweithio mewn swyddi crefftau llaw yn arbennig o feirniadol o 'gyrsiau byrion' a oedd yn honni eu bod yn cymhwyso pobl yn llawn mewn proffesiynau a oedd yn gofyn am flynyddoedd o hyfforddiant yn eu barn hwy. Ymhlith y cyfranogwyr hŷn, yn ddynion a merched, teimlai nifer yn gryf fod y profiad yr oeddent wedi'i ddatblygu drwy flynyddoedd o weithio yn fwy gwerthfawr na chymwysterau ac yn gorbwyso perthnasedd rhai cymwysterau ymarferol a gynigir ar hyn o bryd. Er hyn, teimlai nifer na fyddent yn cael eu hystyried ar gyfer swyddi pe baent yn erbyn ymgeiswyr ifancach.

> *"Yr un yw'r broblem wrth geisio am swydd. Gallech chi fod yn 21 oed a gallwn i fod yn 54 oed a byddent yn edrych arnaf unwaith a gallwn fod ganwaith yn fwy cymwys na chi ond cawn fy niystyru ar unwaith."*
> (Dyn, 50+, Cyflogai, Aberdâr).

### 3.5.8 Agweddau at hyfforddiant a dysgu

Roedd sawl cyfranogwr am gyflawni rhyw fath o hyfforddiant. Roedd hyn yn bennaf yn hyfforddiant seiliedig ar waith a oedd wedi bod yn orfodol er mwyn i gyfranogwyr allu cyflawni eu swyddi. Roedd hyfforddiant seiliedig ar waith yn cynnwys cymwysterau gofynnol i weithio mewn diwydiant penodol, megis Iechyd a Diogelwch ar gyfer diwydiannau â llaw neu ofal plant ar gyfer gwaith mewn meithrinfa. Y tu allan i faes hyfforddiant seiliedig ar waith, y cwrs hyfforddiant mwyaf cyffredin a ddilynwyd oedd TGCh. Cyfranogwyr y grŵp ffocws hŷn a oedd yn dilyn cyrsiau TGCh yn bennaf, ac awgrymwyd ei bod yn sgil hanfodol ar gyfer gweithio a bywyd erbyn hyn. Roedd nifer fach o gyfranogwyr wedi dilyn cyrsiau coleg mewn adeiladu, peirianneg, crefftau a chrefftau eraill.

Awgrymodd ymatebion rhai unigolion eu bod wedi meithrin sgiliau mathemateg a Saesneg anffurfiol nas cydnabuwyd drwy ddysgu seiliedig ar waith. Er enghraifft, disgrifiodd cyfranogwyr a oedd wedi sefydlu eu busnesau eu hunain sut yr oedd angen iddynt feithrin sgiliau a fyddai'n caniatáu iddynt reoli eu harian yn llwyddiannus. Dim ond un cyfranogwr a ddywedodd ei fod wedi dilyn NVQ mewn sgiliau busnes. Dywedodd eraill eu bod wedi meithrin sail sgiliau drwy ddysgu a phrofiad mewn swydd.

> *"Mae gennyf NVQ mewn cynllunio busnes. Gwnes hynny o gartref. Roeddwn wedi ymddeol o'r ffatri ac roeddwn wedi diflasu braidd. Penderfynais ddechrau fy nghwmni cyfrifiadurol fy hunn a hynny am bum mlynedd. Yn y broses byddent yn fy nhalu i hyfforddi i allu rheoli a sefydlu busnes."*
> (Dyn, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

O gymharu â'r termau 'addysg' a 'gwaith', roedd gan gyfranogwyr farn llawer mwy cadarnhaol ar hyfforddiant a'i werth. Disgrifiwyd hyfforddiant fel 'diddorol', 'llawn hwyl' a 'boddhaus' ac nid oedd iddo yr un arwyddocâd negyddol ag addysg gan ei fod yn gysylltiedig â mwy o ddewis a rhyddid. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn ymfalchïo mewn cyflawni hyfforddiant gan ei fod yn benderfyniad unigol yn hytrach na phenderfyniad gorfodol. Roedd hyfforddiant yn ymwneud yn fwy â'r canlyniadau diriaethol a'r boddhad cyflym a gafwyd drwy ddysgu seiliedig ar bleser. Roedd hefyd yn gysylltiedig â chysyniad ehangach dysgu yr oedd y mwyafrif yn ei ystyried yn beth cadarnhaol. Roedd cyfranogwyr am allu gweld canlyniadau eu hymdrechion ac roedd yn well ganddynt ddull fesul cam o ddysgu a fyddai'n eu galluogi i wneud hyn.

> *"Os bydd rhywun yn gwneud cais am swydd, mae angen i chi aros am ateb. Os byddwch yn coginio rhywbeth, nid oes rhaid i chi aros; pryd bynnag y bydd pobl yn bwyta byddant yn eich canmol. Nid oes cyfnod hir o aros na dim felly."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

> *"Pan roeddwn yn trin gwallt, roeddwn bob amser yn dweud fy mod yn hyfforddi i fod yn dorrwr gwallt. Mae pobl yn parchu hynny."*
> (Merch, 19-25, Sgiliau Sylfaenol, Castell-nedd).

Cydnabuwyd y gallai hyfforddiant arwain at gymwysterau a sgiliau pellach ond bod mwy o gysylltiad â sgiliau penodol yn ymwneud â swyddi yn hytrach nag addysg gyffredinol. Dywedodd sawl cyfranogwr y byddent yn fodlon hyfforddi er mwyn

paratoi eu hunain i fynd i fath penodol o waith. Unwaith y byddent yn gweithio, dywedodd cyfranogwyr y byddent hefyd yn fodlon gwneud hyfforddiant mewn swydd er mwyn meithrin sgiliau a fyddai'n eu galluogi i gyflawni eu swydd yn dda (er na fyddai pawb yn ceisio dyrchafiad drwy hyfforddiant).

> *"Gwnaethoch ddysgu o fod yn y salon, gan ddechrau o'r gwaelod yn brwsio'r lloriau a gwneud te a choffi, yna roeddech yn sychu gwallt, dechrau ei golchi a gosod cwrlers. Hyfforddiant mewn swydd ydyw a dweud y gwir."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

Rhoddodd unigolion flaenoriaeth i amgylchedd dysgu cefnogol lle y byddent yn cael eu harwain yn hytrach na bod pwysau yn cael ei roi arnynt. Amlygwyd hyn fel un o'r gwahaniaethau allweddol rhwng dysgu ffurfiol ac anffurfiol a'i fod yn greiddiol i'r hyn a fyddai'n dylanwadu ar benderfyniadau amryw o gyfranogwr wrth ddechrau hyfforddiant. Roedd cyfranogwyr yn cytuno y dylai cyrsiau hyrfforddiant fod yn ymarferol yn bennaf gyda chanran fach o waith damcaniaethol gan fod hyn yn fwy addas i'r math o ddysgu y teimlent y gallent ymgysylltu â hi. Roedd consensws ymhlith y rhan fwyaf o gyfranogwyr eu bod yn un o gategori o bobl a oedd yn ymateb yn well i ddysgu 'ymarferol', felly, teimlwyd y dylai cyrsiau hyfforddiant gael eu haddasu i'r cryfderau hyn. Ar draws y grwpiau, dywedodd mwyafrif llethol y cyfranogwyr y dylai fod hollt 80:20 rhwng elfennau ymarferol a damcaniaethol y cyrsiau hyfforddiant.

> *"Rhowch waith i mi, dangoswch i mi beth i'w wneud, a bydda i'n iawn. Ond rhowch gyfarwyddiadau ar bapur i mi ... ac yna os oes prawf ar y diwedd, byddwn yn methu'n llwyr."*
> (Grŵp cymysg o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig, Sgiliau Sylfaenol, Caerdydd).

Mynegodd mwyafrif llethol y cyfranogwyr y byddai'n well ganddynt hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith. Awgrymwyd y gellid gosod pobl mewn cyflogaeth a'u hyfforddi mewn swydd yn hytrach na'u bod yn gorfod hyfforddi'n gyntaf. Soniodd sawl cyfranogwr am brentisiaethau fel ffordd ddelfrydol o hyfforddi a oedd yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau mewn crefft benodol yn llawn. Disgrifiwyd prentisiaethau fel ffordd ddelfrydol o hyfforddi a'u bod yn well na chyrsiau byr a oedd yn honni eu bod yn rhoi'r holl sgiliau perthnasol i ddysgwyr er mwyn gweithio (e.e. fel gweithiwr â chrefft).

> *"Mae gennyf ddiploma mewn nyrsio ond rwyf newydd wneud yr hyn yr oeddwn yn ei wneud yn ddyddiol a chefais y diploma hwnnw ar y diwedd ... does dim rhaid i chi fynd i'r coleg i gael rhywbeth, oherwydd gallwch hyfforddi mewn swydd."*
> (Grŵp cymysg o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, Cyflogeion, Caerdydd).

> *"Mae'r rhain yn gyrsiau chwech neu 12 mis ac maent yn dod yn gymwys i fod yn blymwyr a thrydanwyr. Maent yn dod ohonynt gyda thystysgrif i ddweud y gallant ddefnyddio sgriwdreifer. Arferai'r rheini fod yn gyrsiau pum mlynedd."*
> (Dyn, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi manteision dysgu ac yn deall pwysigrwydd meithrin sgiliau. Fodd bynnag, mynegodd unigolion awydd i'r sgiliau hyn fod yn ymarferol ac y gellir eu defnyddio ym mywydau a rhagolygon swyddi cyfranogwyr. Nid oedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi hyfforddiant nad oedd yn ymddangos fel petai'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion cyfredol cymaint. Awgrymwyd mai'r hyfforddiant gorau fyddai'r un a oedd yn cysylltu'n uniongyrchol â chynlluniau yn y dyfodol, yn bennaf o ran cael gwaith. Yn yr ystyr hwn, roedd cyfranogwyr yn meddwl yn flaengar o ran hyfforddiant ac yn ystyried hyfforddiant a fyddai'n arwain at ganlyniad diriaethol. Roedd barn nifer o gyfranogwyr ar gymwysterau ffurfiol (ysgol) yn seiliedig ar brofiadau negyddol o addysg yn y gorffennol ac felly nid oedd yn rhywbeth yr oeddent yn bwriadu ail-ddechrau arno yn y dyfodol. Fodd bynnag, cydnabu cyfranogwyr fod angen y fath gymwysterau arnynt ac roeddent i raddau'n gwerthfawrogi integreiddio'r math hwn o gymhwyster mewn hyfforddiant ar gyfer sgiliau eraill.

> *"Gwarant ar y diwrnod y gallai wella ein ffordd o fyw a rhoi mwy o arian i ni, ond heb y warant honno ni fyddai'n werth y drafferth yn fy oed i."*
> (Merch, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

> *"Nid yw'r cyrsiau'n ddigon adeiladol i bobl ein hoedran ni, i ddysgu'r sgiliau sylfaenol."*
> (Dyn, 50+, Sgiliau Sylfaenol, Merthyr Tudful).

Roedd barn cyfranogwyr ar sut y dylid strwythuro cyrsiau hyfforddiant yn amrywio'n sylweddol. Y canlyniad amlwg oedd nad oedd templed unfath ar gyfer strwythuro cyrsiau. Roedd gan gyfranogwyr amrywiaeth o anghenion, a theimlent y dylid diwallu'r cyfan ohonynt.

> *"Yn sylfaenol, yr hyfforddiant perffaith fyddai llawer o fathau gwahanol o hyfforddiant. Dyna ydyw yn y bôn. Mae gennym ni gyd fathau gwahanol o hyfforddiant."*
> (Dyn, 19-25, Cyflogai, Aberdâr).

## 3.6 Pwyntiau dysgu ar gyfer y rhaglen ymchwil

Er bod amgylchiadau cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn amrywio ar draws y grwpiau, roedd eu pryderon am waith a hyfforddiant yn debyg iawn. Ymddangosai fod profiadau gwael unigolion yn yr ysgol a 'methiannau' canfyddedig mewn cyd-destun addysgol yn effeithio ar eu hagweddau at yr hyn y gallant ei gyflawni yn y dyfodol a lleihaodd y tebygolrwydd y byddent yn cyflawni gweithgareddau a allai arwain at fethu eto. Golygai profiadau negyddol blaenorol yn yr ysgol fod angen sicrwydd ar yr unigolion hyn o ran yr amgylchedd dysgu, a'u gallu i ymdopi â chyflymder a phwysau dysgu. Er eu bod wedi datblygu strategaethau ymdopi i reoli unrhyw anawsterau a wynebir ganddynt yn eu bywydau bob dydd, ni allai cyfranogwyr estyn y strategaethau hyn i gwmpasu cyd-destun addysgol, lle teimlent y byddent dan anfantais amlwg. Yn wir, ymddengys mai un o'r prif strategaethau ymdopi ymhlith unigolion oedd osgoi unrhyw fath o amgylchedd dysgu. Er nad oeddent yn ymwrthod â dysgu, roedd hyder isel yn golygu nad oeddent yn debygol o fynd i amgylchedd a allai o bosibl amlygu eu gwendidau.

Roedd gan gyfranogwyr ddisgwyliadau isel ohonynt eu hunain a'u rhagolygon. Ymddangosai fod y disgwyliadau hyn wedi ymsefydlu'n gynnar iawn, gan fod unigolion yn tybio y byddent yn dilyn llwybrau tebyg i aelodau'r teulu neu ffrindiau a oedd hefyd yn aml wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau. Roedd hyn yn golygu bod yr agweddau at bwysigrwydd addysg wedi cael eu ffurfio yn gynnar mewn bywyd, a'u bod yn annhebygol/anodd newid. Dangoswyd hyn mewn cyfranogwyr iau a oedd, er gwaethaf y system addysg well ac anogaeth i ddysgu, o hyd yn ymddangos nad oeddent yn gosod gwerth mawr ar gymwysterau.

O ganlyniad i'r disgwyliadau isel hyn, roedd cynlluniau bywyd unigolion yn canolbwyntio ar gynhaliaeth, yn hytrach na datblygu. Ymddangosai fod cadw swydd a chynnal teulu yn haws eu rheoli gan fod unigolion yn gyfarwydd â'r hyn y disgwyliwyd ganddynt. Gan nad oedd y rhan fwyaf wedi cyfranogi mewn dysgu ers gadael yr ysgol, roeddent yn llai cyfarwydd â'r hyn a fyddai'n cael ei ddisgwyl ganddynt pe baent yn dechrau ar ddysgu ffurfiol. Roedd ofn yr anhysbys yn aml yn achosi i unigolion wrthod dysgu 'ffurfiol' o blaid dewisiadau mwy cyfarwydd a llai amheus, fel dysgu ymarferol a dysgu gyda mathau tebyg o bobl.

Er bod ganddynt ddisgwyliadau isel a'u bod wedi cael profiadau gwael eu hunain, roedd cyfranogwyr yn gyffredinol gadarnhaol am y potensial a gynigir gan ddysgu ac yn parchu'r rhai a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn academaidd. Fodd bynnag, roedd eu blaenoriaethau yn seiliedig yn bennaf ar deulu a gwaith, ac nid oeddent yn cysylltu eu hunain â'r posibiliadau a gynigiwyd gan lwyddiant academaidd.

Y prif wahaniaeth rhwng pobl gyflogedig heb gymwysterau a phobl ddi-waith oedd ymdeimlad o foddhad o allu darparu ar eu cyfer eu hunain a'u teuluoedd. Roedd pobl gyflogedig yn ystyried eu hunain yr un mor ddedwydd a bodlon mewn bywyd â phobl oedd â chymwysterau, gan eu bod yn gallu cynnal eu hunain a mwynhau 'pethau da'. Nid oedd gwahaniaeth mawr rhwng agweddau cyflogeion a'r rhai ag anghenion sgiliau sylfaenol at addysg, heblaw am yr ymdeimlad bod cyflogeion yn teimlo bod ganddynt lai i'w ennill o ddechrau dysgu, gan nad oeddent yn gweld yr angen i ddatblygu yn eu rolau. Drwy gysylltu dysgu â manteision diriaethol, nid oedd cyflogeion yn gallu gweld cystal sut y byddai dechrau dysgu yn gwella eu bywydau a oedd eisoes yn gyfforddus. I bobl ddi-waith, roedd manteision diriaethol yn gysylltiedig â'r awydd i feithrin sgiliau ymarferol y gallent gael eu trosglwyddo i'r gweithle ar unwaith. Nid ymddangosai hyfforddiant Sgiliau Sylfaenol yn rhywbeth 'ymarferol' yn yr ystyr hwn, ac felly nid oedd yn rhan o'r hyfforddiant y teimlai unigolion fod ei angen arnynt.

# 4. Gweithdai rhanddeiliaid

## 4.1 Cyflwyniad

Cynlluniwyd gweithdai rhanddeiliaid i fod yn llais i drafod, adolygu ac ychwanegu at ganfyddiadau'r ymchwil sylfaenol. Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid eisoes yng nghamau cychwynnol y rhaglen ymchwil hon dros e-bost ac yn ystod y cam cwmpasu, cynigiodd y pedwar gweithdy rhanbarthol gyfleoedd rhwydweithio yn ogystal â chyfle i weithwyr proffesiynol rannu syniadau a phrofiadau perthnasol gyda gweddill y tîm. Roedd pob gweithdy yn cynnwys cyflwyniad, grwpiau trafod a sesiwn holi ac ateb.

Cyflwynwyd tystiolaeth o'r ymgynghoriad e-bost a'r grwpiau ffocws i randdeiliad a cheisiwyd eu hymatebion. Roedd hyn yn caniatáu i'r tîm ymchwil ddeall y problemau sy'n wynebu rhanddeiliaid wrth oresgyn rhwystrau a sbardunau i gyfranogi.

Mae'r adrannau nesaf yn amlinellu ymatebion rhanddeiliaid i'r canfyddiadau cychwynnol, y trafodaethau o ran anghenion lleol a'r priod-faterion a droswyd i gam pedwar y rhaglen ymchwil (h.y. y cyfweliadau astudiaeth achos).

### 4.2 Canfyddiadau allweddol

Gellir gosod y canlyniadau cyffredinol o'r cam hwn o'r ymchwil o dan ddwy thema: ymatebion rhanddeiliaid i rwystrau a sbardunau, a thrafodaethau rhanddeiliaid am y ffordd orau o annog cyfranogi.

O ran rhwystrau i gyfranogi, roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn ymwybodol o'r rhwystrau a gyflwynwyd iddynt. Cafodd y rhain eu grwpio yn rhwystrau o ran agwedd, darpariaeth a cyflogaeth.

Roedd y sbardunau i gyfranogi yn fwy o ddiddordeb i randdeiliaid oherwydd credwyd eu bod yn arwain at newidiadau mewn ymddygiad. Ymhlith y sbardunau a amlygwyd o'r grwpiau ffocws a'r ymgynghoriad e-bost roedd yr angen i sicrhau canlyniadau diriaethol o hyfforddiant, bod yn rhaid i ddysgu fod yn seiliedig ar ddiddordeb, ac y gallai rhwystrau sefyllfaol newid a chreu cyfle i unigolion uwchraddio eu sgiliau.

Mewn trafodaethau ar sut i wella cyfranogiad, awgrymodd rhanddeiliaid:

- Ymgysylltu ag unigolion 'fel y maent'.
- Annog cydnabyddiaeth o brofiad a dysgu/hyfforddiant anffurfiol.
- Chwalu'r mythau am yr amgylchedd dysgu, gan ei wneud yn llai amheus.
- Rhoi dewisiadau i bobl a'r rhyddid i wneud penderfyniadau o ran hyfforddiant.
- Amlinellu canlyniadau diriaethol cyrsiau hyfforddiant.
- Llunio cyrsiau ymarferol sy'n ymgorffori sgiliau sylfaenol.

- Roedd y cydlynu rhwng sefydliadau cysylltiedig hefyd yn un o brif ganlyniadau y cam hwn o'r ymchwil. Dangosodd y gweithdai y diddordeb sydd gan randdeiliaid o ran cydweithio tra bod y gweithdai hefyd wrthi'n dangos diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol o'r hyn y mae sefydliadau lleol eraill yn ei gynnig i unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol.

Bydd yr adrannau nesaf yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil yn fanylach:

## 4.3 Y Rhwystrau (ac eithrio amser ac arian)

### 4.3.1 Canfyddiadau cychwynnol

Cyflwynwyd tri grŵp cyffredinol o rwystrau i agweddau rhanddeiliaid at ddysgu, sef y modd y caiff hyfforddiant ac addysg eu darparu a'u cyflwyno, a'r cysylltiad rhwng cyflogaeth a sgiliau sylfaenol. Nodwyd a datblygwyd y canfyddiadau hyn o'r grwpiau ffocws gydag unigolion nas clywir yn aml a'r ymgynghoriad e-bost â rhanddeiliaid.

**Mynediad**

Ymhlith y rhwystrau roedd hyder i ddysgu eto, profiadau negyddol o addysg a'r amgylchedd dysgu yn ogystal â'r teulu a chyfoedion yn peidio â chydnabod manteision dysgu.

Cyflwynwyd problemau am y term 'sgiliau sylfaenol' a'r stigma ynghlwm wrtho ynghyd â'r duedd a oedd gan nifer o unigolion i anwybyddu eu hanghenion sgiliau sylfaenol eu hunain.

**Darpariaeth**

Gall darparu hyfforddiant ac addysg sy'n briodol ac yn hygyrch fod yn broblem mewn rhai ardaloedd o Gymru, gan felly gyfyngu'r nifer a'r mathau o ddysgwyr a all gymryd rhan.

Gall yr anhyblygrwydd neu'r anallu hwn i gynnig darpariaeth addas arwain at broblemau ychwanegol o ran gwariant/cyllid, yn ogystal â phroblemau sy'n gysylltiedig â gweddu hyfforddiant i amserlen sydd eisoes yn brysur, yn enwedig os oes angen trefnu gofal plant.

**Cyflogaeth**

Nodwyd diffyg dyheadau gyrfaol fel rhwystr i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol i unigolion. Atgyfnerthwyd hyn gyda phobl yn derbyn bod angen iddynt newid swydd, ac yn tueddu i wneud hyn, i osgoi wynebu eu diffyg sgiliau.

Yn ogystal â'r strategaethau ymdopi uchod, nid oedd gan unigolion ddiddordeb ym manteision hyfforddiant/addysg. Yn hytrach, awgrymodd rhai unigolion y gallent fod yn orgymwys drwy ddeall hyfforddiant a allai eu rhwystro rhag cael swydd.

Yn atgyfnerthu'r effaith negyddol y gallai hyfforddiant ei chael ar unigolion, trafodwyd y bygythiad o golli budd-daliadau drwy ddychwelyd at ddysgu fel realiti.

### 4.3.2 Ymateb cyffredinol i rwystrau (heblaw amser ac arian)

Yn gyffredinol, roedd y rhwystrau a amlygwyd yng nghyflwyniad y gweithdy (gweler uchod) eisoes yn hysbys i'r mwyafrif o'r rhanddeiliaid.

Amlinellir trafodaethau sy'n gyffredin i'r holl weithdai isod. Trefnwyd y rhain yn dilyn y tair teipoleg rhwystrau a nodwyd gan Veronica McGivney, sef: rhwystrau sefyllfaol, sefydliadol a therfyniadol.

**Rhwystrau sefyllfaol**

Er nad oedd rhanddeiliaid yn trafod amser ac arian fel rhwystrau sefyllfaol, roedd materion eraill fel gofal plant a thrafnidiaeth yn cael eu codi ym mhob gweithdy. Trafododd rhanddeiliaid nifer o'r rhwystrau sefyllfaol fel problemau y gellid eu goresgyn drwy gynnig rhagor o ddarpariaeth hyfforddiant hyblyg a ffynonellau mwy hygyrch o ariannu.

**Rhwystrau Sefydliadol**

Cafodd diffyg ymwybyddiaeth o ddarparu gwasanaethau hefyd ei drafod ym mhob gweithdy. Ym mhob rhanbarth, soniodd rhanddeiliaid am ddiffyg gwybodaeth gynhwysfawr am y ddarpariaeth hyfforddiant ac ariannu. Awgrymwyd bod dull mwy cydlynol a rhanbarthol a oedd yn cynnig un pwynt sengl i nodi opsiynau hyfforddiant yn hanfodol i'r holl sefydliadau a chyflogwyr sy'n cyfeirio eu cleientiaid/cyflogeion.

Roedd y profiad dysgu hefyd yn thema gyffredin yn yr holl weithdai. Credwyd y gellid goresgyn yr anawsterau a godwyd gan ddarpar ddysgwyr am yr amgylchedd hyfforddiant yn hawdd gydag opsiynau hyfforddiant mwy ystyriol a hyblyg. Trafodwyd materion fel dod o hyd i leoliadau amgen i gymryd lle'r amgylchedd ystafell ddosbarth traddodiadol, gosod llai o fyfyrwyr mewn dosbarth, ac osgoi gosod dysgwyr hŷn mewn dosbarthiadau gyda myfyrwyr ifanc.

**Rhwystrau Terfyniadol**

O'r trafodaethau yn y gweithdai, daeth yn amlwg fod rhwystrau terfyniadol yn bynciau y gallai'r rhaglen ymchwil hon eu harchwilio'n fanylach. O ystyried y fethodoleg fesul cam, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i awgrymu ffyrdd y gellid datrys problemau fel hyder unigolion, diffyg modelau rôl ac anallu canfyddedig yn y cyfweliadau astudiaethau achos.

Trafododd pob gweithdy'r term 'sgiliau sylfaenol' yn fanwl a chwestiynu a oedd yn ymadrodd ymarferol i'w ddefnyddio. Cydnabuwyd bod y stigma sy'n gysylltiedig â'r term yn annymunol i rai unigolion ac felly y dylid ystyried term newydd i gymryd ei le.

Roedd trafod dyheadau cyfyngedig unigolion heb fawr ddim cymwysterau o ddiddordeb i nifer o randdeiliaid. Er nad oedd y rhwystr hwn yn syndod, ystyriwyd bod goresgyn uchelgais cyfyngedig ymhlith y gynulleidfa darged yn flaenoriaeth

bwysig a'i fod yn deillio o ganlyniad i gymysgedd mwy cymhleth o brofiad a dylanwadau.

## 4.4 Y Sbardunau

### 4.4.1 Canfyddiadau cychwynnol

I grynhoi'r sbardunau a nodwyd yn y grwpiau ffocws a'r ymgynghoriad e-bost o randdeiliaid, nodwyd tair thema: hyfforddiant wedi'i sbarduno gan brofiad bywyd, yr angen am ganlyniadau diriaethol ac i hyfforddiant fod yn seiliedig ar ddiddordeb.

**Canlyniadau diriaethol**

Siaradai unigolion am yr angen i gael manteision diriaethol ar unwaith o'r hyfforddiant a gyflawnir ganddynt. Felly ystyriwyd cael gwaith, lleihau bygythiad diswyddo a dysgu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith yn sbardunau cyfranogi posibl.

**Seiliedig ar ddiddordeb**

Roedd diddordeb gwirioneddol yn yr hyn a ddysgir yn bwysig wrth benderfynu ar ddychwelyd i ddysgu a chwblhau hyfforddiant. Nodwyd bod hyn yn benodol yn ddylanwadol ymhlith cyfranogwyr hŷn.

Gallai mwy o ddiddordeb mewn hyfforddiant hefyd arwain at fwy o hyder mewn dysgu ac yn ei dro oresgyn rhai o'r rhwystrau i gyfranogi a nodwyd eisoes.

**Profiad bywyd**

Yn aml, ni all unigolion gymryd rhan mewn hyfforddiant oherwydd ffactorau eraill y tu hwnt i'w rheolaeth. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae cyfrifoldebau gofal, oriau gwaith gwrthgymdeithasol neu salwch personol. Unwaith y mae'r ffactorau hyn wedi'u dileu neu eu goresgyn, teimlai unigolion eu bod yn gallu cyfranogi mwy mewn dysgu.

Roedd dod yn rhiant neu'n nain neu daid yn sbardun dylanwadol iawn i rai.

### 4.4.2 Ymateb cyffredinol i sbardunau

Roedd gan randdeiliaid fwy o ddiddordeb mewn clywed am y sbardunau a nodwyd yn yr ymchwil na'r rhwystrau.

Roedd trafodaethau yn ymwneud â thair thema eang:

- Cyfleoedd a chanlyniadau dysgu.
- Cyflogaeth a budd-daliadau.
- Cymorth ac arweiniad.

### 4.4.3 Cyfleoedd a chanlyniadau dysgu

Siaradai rhanddeiliad am y ffordd y gall newidiadau mewn bywyd sbarduno unigolion i gyfranogi mewn dysgu. Gallai enghreifftiau fel cael plentyn/ŵyr/wyres, iechyd gwell neu leihau cyfrifoldebau gofal roi cyfleoedd i unigolion ddysgu. Cafodd y cyfleoedd hyn hefyd eu nodi o ran newidiadau i rwystrau sefyllfaol h.y. darparu trafnidiaeth well neu ddarparwyr hyfforddiant yn cynnig gofal plant ar y safle.

Cyfle arall a nodwyd gan randdeiliad a allai helpu i annog unigolion i ddychwelyd at ddysgu oedd manteisio ar arian (a thrwy hynny leihau costau hyfforddiant). Mae arian yn bwysig i unigolion a rhanddeiliaid (cyflogwyr neu asiantaethau cyflogaeth) gan fod cost yn aml yn ffactor amlwg wrth ystyried hyfforddiant hyd at Lefel 1. Roedd nifer o randdeiliaid o'r farn y byddai mwy o gyfleoedd ariannu, wedi'u cyfuno ag ymwybyddiaeth well o'r cyfleoedd a gynigir, yn arwain at fwy o gyfranogi mewn hyfforddiant ac addysg.

O ran canlyniadau canfyddedig, cydnabu rhanddeiliaid y byddai unigolion am gael teimlad o gyflawniad ar ddiwedd proses hyfforddiant. Fodd bynnag, ar yr un adeg, byddai angen cydbwyso hyn drwy gydnabod bod ofn methu ymhlith unigolion yn golygu y gallai dysgu anffurfiol fod yn fwy priodol iddynt, yn arbennig fel ffordd o ddychwelyd at ddysgu. Dylid cynnig achredu a/neu gymwysterau priodol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan ddysgwyr a chyflogwyr.

### 4.4.4 Cyflogaeth a Budd-daliadau

Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod cael gwaith yn ffactor pwysig i annog pobl ag anghenion sgiliau sylfaenol neu dim ond ychydig o gymwysterau i ddychwelyd at ddysgu. Credwyd hefyd bod cyflogwyr yn chwarae rôl ddylanwadol wrth gyfeirio, ariannu a darparu cyfleoedd hyfforddiant.

Pan fyddant mewn cyflogaeth, teimlai rhanddeiliaid y gallai cyflogwyr annog a chefnogi mwy o hyfforddiant ymhlith eu gweithlu. Gellid cyflawni hyn drwy gofrestru ag 'Addewid y Cyflogwr' neu uwchraddio sgiliau staff i safon cymhwyster galwedigaethol debyg. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae angen i gyflogwyr gredu bod y cymwysterau yr anelir atynt a gynigir gan ddarparwyr hyfforddiant yn gwella eu gweithlu. Trafododd rhanddeiliaid hefyd y posibilrwydd o gyflogwyr yn cyflawni rôl fwy ymrannol, drwy ei gwneud yn ofynnol i staff gymryd rhan mewn hyfforddiant i gadw eu swydd ac osgoi cael eu diswyddo (perthnasol iawn yn hinsawdd economaidd 2009). Fodd bynnag, nodwyd yn yr ymchwil hon, wrth gynnal y grwpiau ffocws, bod rhai unigolion wedi mynd ati i osgoi cael eu dyrchafu, ac yn ei dro ddysgu seiliedig ar waith, mewn ymgais i beidio â mynd i'r afael â'u hanghenion sgiliau sylfaenol. Felly roedd hyfforddiant ac uwchraddio sgiliau yn fwy perthnasol i bobl ddi-waith na phobl gyflogedig.

Os yw unigolion yn ddi-waith gydag anghenion sgiliau sylfaenol, gellir ystyried diffyg hyfforddiant ac addysg yn rhwystr i hyfforddiant tra gallai dychwelyd at addysg a dysgu wella'r rhagolygon o gael cyflogaeth. Felly, awgrymodd rhanddeiliaid yn ystod y gweithdai y dylid cynnig cyrsiau 'gloywi' mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh i bob ceisiwr gwaith, ac o bosibl eu gwneud yn orfodol. Dadleuwyd y byddai hyfforddi tra'n ddi-waith yn ddefnydd cynhyrchiol o amser yn ogystal â chodi lefel sgiliau'r gymuned

leol. Tra'n ddi-waith, teimlai rhanddeiliaid yn eithaf cryf na ddylid lleihau taliadau budd-dal unigolion pe baent yn penderfynu mynd i'r afael â'u hanghenion sgiliau sylfaenol. Nodwyd bod y rheol 16 awr yn broblem yn yr achos hwn.

### 4.4.5 Cymorth ac arweiniad

O siarad ag unigolion yn y grwpiau ffocws yn ogystal â rhanddeiliaid yn y gweithdai, ymddangosai nad oedd llawer o gydlynu gwybodaeth am gyrsiau (yn genedlaethol nac yn rhanbarthol), na meini prawf i benderfynu ar y dull mwyaf addas o ddysgu. Fodd bynnag, siaradai rhai rhanddeiliaid am achosion o arfer da yr oeddent yn ymwybodol ohonynt yn eu hardal leol/mewn rhanbarth arall o ran rhannu gwybodaeth (e.e. Rhwydweithiau Dysgu Rhanbarthol ac ymdrechion gan y Ganolfan Byd Gwaith i greu cyfeiriaduron hyfforddi lleol). Yn ogystal â chreu gwybodaeth ganolog, rhaid defnyddio gwybodaeth yn effeithiol.

Awgrymodd rhanddeiliaid fod yn rhaid i sefydliadau ac unigolion sy'n cyfeirio pobl at hyfforddiant priodol gael eu hystyried yn 'froceriaid onest'. Os ymddiriedir ynddynt, bydd gan y sefydliadau a'r unigolion hyn ddylanwad mwy wrth argymell a/neu awgrymu hyfforddiant.

Yn yr un modd, nodwyd cynnig cymorth i ddarpar ddysgwyr er mwyn gwneud hyfforddiant yn fwy deniadol. Siaradai nifer o randdeiliaid am gynlluniau mentora, cynnig cymorth estynedig (cyn-hyfforddiant ac ôl-hyfforddiant) yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o rwystrau eraill i hyfforddiant wrth ddysgu a chymorth i'w goresgyn. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid am weld dull mwy personol o gynnal hyfforddiant a chymorth, a theimlwyd y byddai'n mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyder a wynebir gan unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol a/neu gyflogeion heb fawr gymwysterau. Gallai rhoi cymorth effeithiol ar gyfer dysgu a darpar ddysgwyr hefyd arwain at wella dyheadau a'r ysgogiad i ddysgu oherwydd byddai'r cysyniad o ddychwelyd at addysg/hyfforddiant yn llai brawychus.

Y sbardun olaf a nodwyd ac y soniwyd amdano'n gyson yn y gweithdai oedd cydnabod sail sgiliau pob unigolyn a gweithio gyda hwy i gydnabod a gwobrwyo'r gwelliant wrth ddysgu. Ystyriwyd bod cymwysterau yn gwobrwyo dysgwyr sydd â man cychwyn tebyg o ran addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, mae nifer o unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol a/neu gyflogeion heb fawr gymwysterau wedi methu allan ar rywfaint o addysg ffurfiol ac felly byddai angen cymorth ychwanegol arnynt i'w helpu i ddatblygu. Felly awgrymwyd y byddai'n fanteisiol i'r unigolion hyn gael cydnabyddiaeth am fynd i'r afael â'r materion hyn cyn dechrau hyfforddiant ffurfiol (e.e. dyfarnu tystysgrif ar gyfer bodloni gofynion hyfforddiant lefel mynediad - cysyniad tebyg i'r cyrsiau Mynediad a gynigir mewn addysg bellach).

## 4.5 Ffocws Lleol

Cynhaliwyd y gweithdai mewn pedwar rhanbarth daearyddol a ddewiswyd i gynrychioli cymunedau a amlygwyd fel rhai sy'n ddifreintiedig yn economaidd a/neu gyda bylchau sgiliau hysbys.

Ar ôl trafod y themâu cyffredin a gododd yn y sesiynau gweithdy a gynhaliwyd ledled Cymru, bydd yr adran hon yn defnyddio rhan o'r gwahaniaethau allweddol rhwng y gweithdai hyn, yn ymwneud â materion rhanbarthol penodol.

### 4.5.1 Trefol (Caerdydd)

Cytunodd rhanddeiliaid yng Nghaerdydd fod nodi'r angen sgiliau sylfaenol ymhlith y grŵp targed yn haws na chyfeirio unigolion at hyfforddiant addas. Siaradwyd am faterion darparu lle mai'r rhai â'r angen mwyaf fyddai leiaf tebygol o gymryd rhan mewn hyfforddiant ac felly byddai angen rhoi gweithdrefnau ar waith i wella ymgysylltu â'r bobl anoddaf eu cyrraedd.

Trafodwyd hyfforddiant gorfodol yng Nghaerdydd ac roedd yn boblogaidd fel strategaeth hyfforddi effeithiol. Trafododd rhanddeiliaid fanteision rhoi hyfforddiant gorfodol i bobl ddi-waith hirdymor yn y farchnad lafur leol, a chredwyd y byddai gorfodi cyflogeion i uwchraddio eu sgiliau yn ffordd werthfawr o foderneiddio a chreu gweithlu arbenigol.

Isod ceir crynodeb o'r prif rwystrau a sbardunau a nodwyd yng ngweithdy Caerdydd:

| Rhwystrau | Sbardunau |
|---|---|
| o Dylid ailystyried y term 'sgiliau sylfaenol'.<br>o Mae'r gwerth i hyfforddiant yn isel.<br>o Diffyg cymhelliant i weithio.<br>o Anhyblygrwydd canfyddedig y ddarpariaeth.<br>o Prinder capasiti ac adnoddau o fewn sefydliadau i ddarparu hyfforddiant addas.<br>o Ystyrir diffyg achredu yn rhwsytr i ddysgu seiliedig ar waith.<br>o Nid yw sefydliadau'n cydweithio nac yn anymwybodol o waith ei gilydd.<br>o Diwylliant o newid swyddi i osgoi hyfforddiant/mynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol. | o Dileu'r stigma sydd ynghlwm wrth hyfforddiant sgiliau sylfaenol.<br>o Ymgorffori'r hyfforddiant sgiliau sylfaenol mewn dysgu/gweithgareddau seiliedig ar ddiddordeb eraill.<br>o Mynd â hyfforddiant at unigolion yn hytrach na gofyn iddynt adael eu hamgylchedd eu hunain (e.e. tiwtora gartref).<br>o Cynlluniau mentora.<br>o Ymgysylltu uniongyrchol mewn cymunedau.<br>o Adnoddau ar y we i hwyluso dysgu di-enw hygyrch.<br>o Dysgu seiliedig ar waith i fod yn fwy hyblyg. |

### 4.5.2 Ôl-ddiwydiannol (Port Talbot)

Roedd rhannu gwybodaeth yn bryder mawr i randdeiliaid ym Mhort Talbot a thrafodwyd achosion o arfer da lleol yn ystod y gweithdai. Gan nad oedd pob rhanddeiliad yn gyfarwydd â gwaith sefydliadau eraill a oedd yn bresennol yn y gweithdai, awgrymwyd bod angen gwneud mwy o waith i gydlynu'r ddarpariaeth. Defnyddiodd rhanddeiliaid y gweithdy hwn i gyfnewid gwybodaeth am eu sefydliad

eu hunain a gwaith yr oeddent wedi'i wneud gydag unigolion nas clywir yn aml yn yr ardal leol. Crëwyd amgylchedd anffurfiol i alluogi rhanddeiliaid i drafod eu meysydd o ddiddordeb ac arbenigedd. Trafodwyd a gwerthuswyd mentrau lleol, a chafodd manylion rhaglenni hyfforddiant llai amlwg, cynigion ariannu a ffynonellau gwybodaeth hefyd eu cyfnewid.

Prif ganlyniad y gweithdy hwn oedd galw am symud y tu hwnt i safbwynt y lefel strategol ac ymgysylltu'n briodol â'r grwpiau anoddaf eu cyrraedd a'u hysbysu o gyfleoedd dysgu. Rhannwyd arfer da lleol, yn arbennig o ran cyfranogiad pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, sy'n broblem sylweddol ym Mhort Talbot.

Isod ceir crynodeb o'r prif rwystrau a sbardunau a nodwyd yng ngweithdy Port Talbot:

| Rhwystrau | Sbardunau |
|---|---|
| o Dylanwadau teuluol ac agwedd at hyfforddiant.<br>o Mae unigolion hŷn yn teimlo'n llai hyderus am eu gallu i ddysgu.<br>o Yr amgylchedd dysgu yn amhriodol i nifer (yn enwedig unigolion hŷn).<br>o Dyheadau isel o ran y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.<br>o Stigma ynghlwm wrth 'sgiliau sylfaenol'.<br>o Argaeledd swyddi â chyflog da nad oedd angen cymwysterau ar eu cyfer. Fodd bynnag, nodwyd bod y farchnad swyddi yn newid ac y gallai'r sefyllfa hon newid. | o Gweithio cydgysylltiedig gwell - gan gynnwys ystod o sefydliadau (e.e. darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, undebau, ysgolion a cholegau, canolfannau cyflogaeth/gyrfaoedd ac ati).<br>o Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol.<br>o Darparu sgiliau sylfaenol yn alwedigaethol.<br>o Darparu mentrau hyfforddiant hygyrch i rieni.<br>o Marchnata cyfleoedd dysgu yn well, gan gynnwys strategaeth ranbarthol.<br>o Ariannu yn broblem. |

### 4.5.3 Blaenau'r Cymoedd (Merthyr Tudful)

Roedd diffinio problemau lleol yn un o'r prif bynciau a drafodwyd yng ngweithdy Merthyr Tudful. Cydnabuwyd y gallai diffyg sgiliau sylfaenol mewn cymuned fod yn broblem y tu hwnt i feysydd addysg a hyfforddiant. Gall rhwystrau amrywiol orgyffwrdd gan arwain at anghenion mwy cymhleth ac felly dull llai arferol o fynd i'r afael â phroblemau. Trafodwyd problemau sy'n cwmpasu hil a diwylliant ym Merthyr Tudful yn fwy nag unrhyw ranbarth arall, lle credwyd bod y ddarpariaeth hyfforddiant i leiafrifoedd ethnig yn annigonol ac y dylid ei theilwra mwy i ddiwallu anghenion penodol grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gwahanol.

Hefyd, archwiliwyd mater cael cydnabyddiaeth ar gyfer cymwysterau a enillwyd ynghyd â'r awgrym bod cyflogwyr yn gosod llai o werth ar rai cymwysterau (e.e. NVQ). Roedd rhanddeiliaid yn amheus o gymwysterau galwedigaethol gan eu

bod o'r farn nad ydynt yn annog y broses o ddysgu nac yn gwella hyder dysgwyr i ddatblygu eu sail sgiliau. Credwyd mai'r prif rwystr i ddysgu ym Merthyr Tudful yw diffyg hyder ymhlith unigolion nas clywir yn aml.

Isod ceir crynodeb o'r prif rwystrau a sbardunau a nodwyd yng ngweithdy Merthyr Tudful:

| **Rhwystrau** | **Sbardunau** |
|---|---|
| o Mae strategaethau ariannu yn annog cyflogwyr i noddi 'pobl sicr' yn unig (h.y. y rhai sy'n debygol i gwblhau hyfforddiant a chael achrediad) yn hytrach na phobl a allai roi'r gorau i hyfforddiant a pheidio â chwblhau'r cwrs.<br>o Roedd cyflwr y farchnad swyddi yn atal cyflogwyr rhag buddsoddi mewn hyfforddiant wedi'i gyfuno â 'salwch cynllun' (cyflogwyr yn dechrau ystyried hyfforddiant yn ddefnydd anghynhyrchiol o amser gwaith, gan ei gymharu ag absenoldeb oherwydd salwch).<br>o Ychydig iawn o sefydliadau/cyfleoedd i unigolion gael eu hysgogi i (ail)hyfforddi. | o Gwerth cydnabyddedig cymwysterau a hyfforddiant gan gyflogwyr (e.e. NVQ).<br>o Canolbwyntio ar wella hyder unigolion a chydnabod y sgiliau sydd ganddynt eisoes.<br>o Symudiad i'r diwydiant gwasanaethau o ganlyniad i gau ffatrïoedd. |

### 4.5.4 Gwledig (Gwynedd - Abermo)

Trafododd y gweithdy yn Abermo sut i ddarparu gwasanaethau addas i gymuned wledig wasgaredig. Rhwystrau sefyllfaol oedd amlycaf yn y gweithdy hwn, gyda rhanddeiliaid yn nodi trafnidiaeth, gofal plant ac arian (magl budd-daliadau bosibl) yn rhwystrau sylweddol i gyfranogi.

Roedd rhanddeiliaid yn Abermo hefyd yn ystyried y Gymraeg yn rhwystr ac yn sbardun i ddysgu. Gan fod y Cynulliad yn gyflogwr pwysig yng Ngogledd Cymru, siaradai rhanddeiliaid am oedolion oedd am ddysgu Cymraeg er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Fodd bynnag, i bobl ifanc nad oeddent yn llawn alluog, nid ystyriwyd y fantais bosibl o ddysgu yn Gymraeg a Saesneg yn fantais wirioneddol. Rhoddodd rhanddeiliaid enghreifftiau o unigolion nas clywir yn aml yn cael cyflogaeth ar ôl gadael yr ysgol heb sgiliau ieithyddol digonol yn y naill iaith na'r llall.

Isod ceir crynodeb o'r prif rwystrau a sbardunau a nodwyd yng ngweithdy Gwynedd:

| **Rhwystrau** | **Sbardunau** |
|---|---|
| o Ymwybyddiaeth isel o gyfleoedd hyfforddiant.<br>o Hyder isel ymhlith dysgwyr.<br>o Ystyrir mai cyflogaeth yw prif nod hyfforddiant, a gall hyn hefyd arwain at syrthni pan na cheir cyflogaeth. | o Rhieni sydd am helpu plant gyda gwaith ysgol.<br>o Cymhelliad ariannol.<br>o Cael eich derbyn yn y gymuned (gallu siarad Cymraeg).<br>o Torri'r bwlch rhwng y cenedlaethau.<br>o Enghreifftiau posibl o fanteision hyffordiant. |

#### 4.5.5 Pwyntiau dysgu ar gyfer y rhaglen ymchwil

Yn ystod y gweithdai, cynhaliwyd sesiynau trafod i nodi ffyrdd y gellid gwella cyfranogiad. Gofynnwyd i randdeiliaid ymateb i faterion sy'n berthnasol yn eu hardal leol yn ogystal â gweld y broblem o safbwynt cenedlaethol. Rhestrir y syniadau a gafwyd isod:

- Llunio cyrsiau ymarferol sy'n ymgorffori sgiliau sylfaenol:
  - o Cyfleu cyrsiau sgiliau sylfaenol fel cyrsiau a gynllunnir i roi sgiliau bob dydd ymarferol mewn pynciau fel coginio, TGCh a/neu waith â llaw.

- Hyrwyddo hyfforddiant a allai fod o fudd i rieni sydd am helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol:
  - o Amlinellu canlyniadau diriaethol cyrsiau hyfforddiant.
  - o Hyfforddiant gorfodol i'r farchnad lafur leol drwy gyflogwyr neu wasanaethau cyflogaeth.
  - o Cynnig lleoliadau gwaith gwarantiedig fel rhan o gyrsiau.

- Rhoi dewisiadau i bobl a rhyddid i wneud penderfyniadau o ran hyfforddiant:
  - o Cynnig cyrsiau 'rhagflas' byr a all gyfrannu at gwblhau cwrs llawn.
  - o Cynnig prentisiaethau fel dewis amgen i addysg ystafell ddosbarth.

- Chwalu'r mythau am yr amgylchedd dysgu, gan ei wneud yn llai amheus:
  - o Defnyddio cyfoedion a/neu fentorau y gall unigolion deimlo agosatrwydd atynt (yn ôl oedran, gallu, cefndir) er mwyn annog dysgwyr i beidio ag ildio yn wyneb methiant.
  - o Darparu rhagor o sesiynau cyflwyno i ddangos manteision dysgu i unigolion a'u helpu i oresgyn ofn yr anhysbys sy'n gysylltiedig â gwneud cais am gyrsiau.

- Cymorth a mentora parhaus i unigolion ar ôl cwblhau hyfforddiant (ni adewir unigolion ar ddiwedd cwrs):
    - o Hyrwyddo dysgu gyda chyfoedion. Dylai darparwyr hyfforddiant gydnabod yr hoffai rhai unigolion, yn enwedig dysgwyr hŷn, hyfforddi gyda phobl sy'n debyg iddynt.
    - o Annog cydnabyddiaeth o brofiad a dysgu/hyfforddiant anffurfiol.
    - o Marchnata manteision dysgu i gyflogwyr drwy ddefnyddio'r astudiaethau achos a/neu ddigwyddiadau wyneb yn wyneb lle gall cyflogwyr llwyddiannus rannu eu profiadau gydag eraill.
    - o Cysylltu dysgu a sgiliau â'r byd 'go iawn'. Dangos sut y gall hyfforddiant gyfoethogi meysydd eraill o fywyd unigolion.

- Ymgysylltu ag unigolion 'fel y maent':
    - o Dim gofynion mynediad i hyfforddiant.
    - o Dim gofynion mynediad i hyfforddiant.
    - o Defnyddio adnoddau ar-lein sy'n galluogi unigolion i gael gwybodaeth am ddysgu a nodi unrhyw broblemau sgiliau sylfaenol a allai fod ganddynt tra'n parhau'n ddi-enw. Mae hyn yn tybio y gall unigolion fanteisio ar dechnoleg TGCh a'i defnyddio.

O'r ymarfer hwn, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i roi gwybod i unigolion am y broses ddysgu. Drwy gefnogi ac annog unigolion i archwilio'r posibiliadau hyfforddiant y gallant fanteisio arnynt, byddai'r posibilrwydd o uwchraddio sgiliau yn ymddangos yn gyraeddadwy.

# 5. Cyfweliadau astudiaethau achos

## 5.1 Cyflwyniad

Cynhaliwyd wyth cyfweliad astudiaeth achos yn dilyn y gweithdai rhanddeiliaid. Gofynnwyd i wyth unigolyn a oedd eisoes wedi mynychu'r grwpiau ffocws i barhau i gyfranogi yn y rhaglen ymchwil hon a chwrdd ag ymchwilydd GfK NOP, yn eu cartrefi eu hunain, i drafod eu barn a'u safbwyntiau ar sgiliau sylfaenol, hyfforddiant a chymwysterau.

Parhaodd bob cyfweliad ddwyawr, gan gynnwys trafodaethau manwl am addysg, cyflogaeth, trefn ddyddiol, ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i ddysgu a'r rhwystrau cysylltiedig. Yn ogystal â thrafod eu hanesion personol, gofynnwyd i bob unigolyn werthuso set o saith cysyniad ymarferol a nodwyd yn y gweithdy rhanddeiliaid y gallai APADGOS neu asiantaethau eraill eu datblygu er mwyn mynd i'r afael ag anghenion sgiliau sylfaenol ymhlith grwpiau nas clywir yn aml. Ymhlith y cysyniadau hyn roedd:

1. Gall dysgu wella meysydd eraill o'ch bywyd, nid caniatáu i chi gael swydd/cymhwyster yn unig (e.e. iechyd, bywyd cymdeithasol).
2. Gellir defnyddio dulliau meddalwedd y rhyngrwyd (e.e. gêm neu brawf y gallwch ei wneud eich hun) i nodi anghenion dysgu pobl a rhoi gwybod iddynt am sefydliadau a all eu helpu. Gellir defnyddio'r rhain i ddysgu hefyd.
3. Dylid cael mwy o gyfleoedd dysgu i rieni. Bydd hyn yn gwella hyder/dealltwriaeth rhieni ac yn golygu y gallant helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol.
4. Dylai pobl sy'n dechrau cwrs hyfforddiant allu cael cydnabyddiaeth am sgiliau eraill sydd ganddynt (e.e. cyfathrebu, sgiliau trefnu ac ati).
5. Dylid cael sesiynau rhagflas i'r rhai hynny sy'n ystyried dechrau hyfforddiant. Gall rhai arwain at gymwysterau, ond nid oes yn rhaid iddynt wneud hynny o reidrwydd.
6. Dylid cael gwasanaeth mentora neu gymorth gan ddysgwyr eraill cyn, yn ystod ac ar ôl hyfforddiant fel y gellir defnyddio'r hyn a ddysgwyd ar ôl i'r cwrs orffen.
7. Mae clywed am bobl go iawn a straeon go iawn am bobl sydd wedi gwella eu bywydau yn ddefnyddiol wrth annog pobl i ddysgu.

## 5.2 Canfyddiadau allweddol

Hyder oedd y prif rwystr at ddysgu ar gyfer yr wyth cyfranogwr nas clywir yn aml a gymerodd ran yn y cyfweliadau astudiaeth achos. P'un a oedd gan yr unigolion ddiffyg hyder yn eu gallu eu hunain i ddysgu, diffyg hyder mewn amgylchedd dysgu neu eu bod yn teimlo'n annigonol ers gadael yr ysgol, nododd holl gyfranogwyr yr astudiaeth achos y byddent yn cael trafferth dychwelyd at hyfforddiant/addysg.

Yn ogystal â phroblemau hyder, roedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr astudiaeth achos ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r posibiliadau addysg, hyfforddiant a swyddi y gallant fanteisio arnynt. Roedd llawer heb ystyried dychwelyd at ddysgu gan eu bod yn teimlo nad oedd y ddarpariaeth hyfforddiant leol yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd gan gyfranogwyr yr astudiaeth achos ddigon o gymhelliant i ymchwilio i'r ddarpariaeth yn eu hardal yn drylwyr. Gwelwyd diffyg cymhelliant tebyg ymhlith y grŵp sampl o ran rhagolygon cyflogaeth. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ystyried gweithio fel modd i dalu eu biliau cyfredol a fforddio prynu moethau o bryd i'w gilydd. Ni theimlai neb o'r grŵp sampl y byddai ganddynt yrfa (a ddiffinnir fel swydd dda yr oeddent yn ei mwynhau gyda rhagolygon dyrchafu), ond yn hytrach y byddai eu cyflogaeth yn cael ei diffinio gan y cyfleoedd swydd anfedrus a gynigir iddynt.

Er bod ganddynt ddiffyg cymwysterau ffurfiol, roedd gan wyth cyfranogwr yr astudiaeth achos lawer o gymhelliant pan gawsant eu hysbrydoli, fodd bynnag, roeddent yn aml yn osgoi cymryd cyfrifoldeb gan eu bod yn ofni methu. Cyflawnodd rhai waith gwirfoddol gydag eraill yn hunangyflogedig er mwyn cael ymdeimlad o gyflawniad heb y risg o adael eraill i lawr.

Yn olaf, arsylwyd bod rhai unigolion wedi meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd y tu allan i amgylchedd addysg ffurfiol ac felly nid oeddent yn teimlo bod angen iddynt gyfranogi mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol. Roedd y cyfranogwyr hyn yn ymwybodol bod bylchau yn eu CV ac na fyddent o bosibl yn creu argraff dda ar ddarpar gyflogeion. Fodd bynnag gwnaethant lwyddo i osgoi cwestiynau o'r fath drwy wneud cais am waith drwy ffrindiau a theulu yn hytrach na chwblhau gweithdrefn gwneud cais ffurfiol. Enghraifft gyffredin o hyn oedd ym maes adeiladu, oherwydd bod enw da'r adeiladwr neu blastrwr a'i waith yn bwysicach na'i CV academaidd.

Bydd gweddill yr adran hon yn canolbwyntio ar farn ac ymateb cyfranogwyr yr astudiaeth achos i'r cysyniadau prawf a amlinellwyd uchod. Ceir crynodebau manylach o'r cyfweliadau astudiaeth achos yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

## 5.3 Cysyniadau prawf

Yn ystod y gweithdai rhanddeiliaid, cafodd cyfranogwyr nifer o syniadau am sut i gael grwpiau nas clywir yn aml i ddechrau hyfforddiant. Roedd y broses o greu syniadau yn seiliedig ar brofiadau blaenorol rhanddeiliaid o weithio gyda grwpiau nas clywir yn aml. Roedd rhai cysyniadau yn gysylltiedig â chynlluniau a oedd eisoes ar waith, gydag eraill yn cael eu creu mewn ymateb i'r rhwystrau a wynebir wrth annog grwpiau nas clywir yn aml i ddechrau hyfforddiant.

Yn dilyn y gweithdai, datblygodd ymchwilwyr o GfK NOP, Arad Consulting a Maguire Policy Research y syniadau a gynigiwyd gan randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys grwpio themâu cyffredin o'r holl weithdai a mireinio'r awgrymiadau yn gysyniadau y gallai cyfranogwyr fynd i'r afael â hwy. Ystyriwyd y cysyniadau prawf fel yr 'allor' i grwpiau nas clywir yn aml ac roeddent wedi eu hanelu at fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebwyd cyn dechrau ar gamau cyntaf cyfranogi, a oedd yn flaenoriaethau a amlygwyd ar draws y gweithdai rhanddeiliaid.

Cyflwynwyd y cysyniadau i bob un o gyfranogwyr yr astudiaethau achos ar hap. Cafodd y cysyniadau eu gwerthuso a'u blaenoriaethu gan bob cyfranogwr yn seiliedig ar ei ddewisiadau ei hun. Pan nad oedd cyfranogwyr yn cytuno â chysyniad, gofynnwyd iddynt sut y gallai gael ei ddatblygu neu i fireinio i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r cysyniadau a brofwyd wedi'u trefnu isod yn ôl eu poblogrwydd ymhlith y cyfranogwyr nas clywir yn aml.

### 5.3.1 Dylid cael mwy o gyfleoedd dysgu i rieni. Bydd hyn yn gwella hyder/dealltwriaeth rhieni ac yn golygu y gallant helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol.

Roedd rhanddeiliaid yn ymwybodol bod grwpiau nas clywir yn aml yn fwy tebygol o ddechrau hyfforddiant ar gamau oes penodol ac amlygwyd y pwysigrwydd o ddarparu adnoddau i bobl ar bwyntiau allweddol. Yr un mwyaf amlwg o'r rhain oedd rhieni, gyda ffocws arbennig ar rieni gyda phlant oedran ysgol oherwydd credwyd bod rhieni yn fwy ymwybodol o'u cyfyngiadau eu hunain unwaith roedd eu plant mewn addysg. Mewn sawl achos, roedd hyfforddiant eisoes yn cael ei ddarparu i rieni drwy ysgolion, ond teimlai cyfranogwyr yr astudiaeth achos y gellid ehangu hyn i gynnwys amrywiaeth ehangach o bynciau a sgiliau. Awgrymwyd y gellid gwahodd rhieni i ystafelloedd dosbarth i ddysgu ochr yn ochr â phlant er mwyn annog cyfeillgarwch, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyrsiau a gynhelir gan ysgolion gyda'r nos.

**Ymateb i'r cysyniad**

Derbyniwyd y cyfleoedd hyfforddi i rieni yn dda iawn gan rieni presennol a'r rhai nad oedd ganddynt blant. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn cydnabod y gallai dod yn rhiant eu sbarduno i fynd i'r afael â'u hanghenion sgiliau sylfaenol ac o bosibl, dychwelyd i hyfforddiant/dysgu. Roedd cyfranogwyr yn gweld y cysyniad hwn yn ddefnyddiol iddyn nhw eu hunain yn ogystal â chynnwys eu profiad personol eu hunain fel myfyriwr.

> *"Gwn fod fy mam bob amser yn digalonni na allai ein helpu gyda'n gwaith cartref."*
> (Dyn, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

Roedd rhieni yn awyddus i helpu eu plant gydag astudiaethau academaidd, gyda sawl un yn gweld eu diffyg cymwysterau fel cyfle wedi'i wastraffu nad oeddent am i'w plant ei ailadrodd. Roedd cyfranogwyr hefyd am osgoi sefyllfa lle nad oeddent yn gallu helpu eu plant gyda gwaith ysgol. Teimlwyd drwy gynnig hyfforddiant i rieni, y gellid osgoi hyn.

> *"Teimlaf y dylid gwneud hynny oherwydd roeddwn yn dweud wrth fy mhartner y diwrnod o'r blaen fy mod yn poeni pan fydd yn mynd i'w ysgol. Pan ddaw adref gyda gwaith cartref ac yn gofyn 'elli di fy helpu?' bydd yn rhaid i mi ddweud 'gofyn i dy Dad'."*
> (Merch, Cyflogai, Gogledd Wledig).

Roedd rhai cyfranogwyr eisoes yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hyfforddi i rieni yn eu hardal leol. Roedd un cyfranogwr eisoes wedi cofrestru ar gyfer cwrs TGCh yn ysgol ei merch. Credwyd bod cyrsiau sydd wedi'u datblygu i rieni ac y'u cynigir iddynt o fudd i rieni, drwy wella sgiliau sylfaenol, a'u plant drwy farciau gwaith cartref gwell.

> *"Mae'n gwneud beth mae'n ei ddweud tydi? Sef gwella'r plentyn."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, Gogledd Wledig).

Er y derbyniwyd y cysyniad hwn yn dda, roedd gan un cyfranogwr amheuaeth am ddychwelyd i amgylchedd ysgol a allai godi cywilydd ar ei phlant. Fodd bynnag, ar ôl trafod ymhellach, ymddengys fod yr amheuon hyn yn ymwneud â'i diffyg hyder cyffredinol a phrofiadau negyddol pan roedd yn yr ysgol ei hun.

> *"Ni allwch roi hyder i rywun. Os ydych wedi cael profiad drwg gydag addysg, mae'n anodd iawn anghofio am hynny. Rhaid i chi fod yn berson eithaf cryf i feddwl, 'o wel, dim ots. Rwy'n wahanol nawr."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, De Trefol).

### 5.3.2 Dylid cael sesiynau rhagflas i'r rhai hynny sy'n ystyried dechrau hyfforddiant. Gall rhai arwain at gymwysterau, ond nid oes yn rhaid iddynt wneud hynny o reidrwydd.

Cynigiwyd y defnydd o gyrsiau rhagflas gan randdeiliaid fel dull perffaith o chwalu sawl un o'r ofnau a fynegwyd gan grwpiau nas clywir yn aml am ddechrau hyfforddiant. Gellid mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â bod mewn amgylchedd dysgu brawychus, dysgu ar lefel rhy anodd/uwch, bod ag athro/hyfforddwr nad yw'n hawdd mynd ato, a dysgu mewn amgylchedd grŵp drwy roi cyfle i bobl gymryd rhan mewn hyfforddiant am gyfnod byr. Byddai hyn yn caniatáu i bobl asesu eu gallu i ymdopi â chwrs hyfforddi a deall beth y disgwylir ohonynt pe byddent yn dechrau cwrs llawn. Byddai unigolion hefyd yn gallu ymgynefino â'r broses o wneud cais am gwrs hyfforddi, a byddent yn gallu rhoi cynnig ar gyrsiau i ddod o hyd i un sy'n gweddu orau iddynt. Awgrymwyd i gyfranogwyr yr astudiaeth achos drwy gyflwyno cyrsiau rhagflas y byddai'n atal pobl rhag tynnu allan o gyrsiau hyfforddi pan roeddent yn teimlo nad oeddent yn mwynhau'r cwrs bellach, neu nad oeddent yn gallu ymdopi.

#### Ymateb i'r cysyniad

Credwyd bod cyrsiau rhagflas yn ffordd heb risg o hyfforddi, gan ganiatáu i unigolion ddod yn ôl i'r amgylchedd dysgu heb y pwysau o gael cymhwyster neu gael gradd benodol.

> *"Rydych yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac rydych yn gwybod beth y gallwch ei wneud."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, Blaenau'r Cymoedd).

Roedd un o gyfranogwyr yr astudiaeth achos wedi gweld y budd a roddodd cyrsiau rhagflas i'w chwaer. Roedd ei chwaer wedi cyflawni cwrs rhagflas ychydig flynyddoedd yn ôl a rhoddodd hyder iddi fynd ymlaen i gofrestru ar gwrs prifysgol.

Credwyd bod y llwyddiant hwn yn dangos y manteision o redeg cyrsiau rhagflas gan arwain at ragor o hyfforddiant ac addysg.

> *"Doedd ganddi ddim i'w golli, nid oedd yn talu, dim ond cwrs rhagflas ydoedd."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, De Trefol).

Gwnaeth y cyfranogwyr nifer o awgrymiadau o ran y ffyrdd gorau o gynnig cyrsiau rhagflas. Roedd awgrymiadau'n cynnwys cyrsiau a addysgir yn lleol (er mwyn lleihau costau trafnidiaeth), cyrsiau am ddim (i ddileu unrhyw rwystrau ariannol), yn ogystal â dileu'r angen am gyfres ofynnol o gymwysterau i fynychu cwrs (fel y gall unigolion o bob gallu gofrestru ar gwrs rhagflas).

I'r cyfranogwyr hynny a oedd eisoes wedi cyflawni hyfforddiant yn y gorffennol, roedd pryder am y defnydd ymarferol o gwrs rhagflas, pan mai dim ond swm bach o wybodaeth y gellir ei addysgu mewn amser cyfyngedig.

> *"Mae cyrsiau rhagflas ar rywbeth fel seicoleg yn ddigon teg ond os ydych yn gwneud rhywbeth corfforol ni allwch wneud cyrsiau rhagflas mewn gwirionedd. Ni allwch wneud pythefnos o blastro neu rywbeth felly. Ni fyddai'n gweithio."*
> (Dyn, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

Yn gyffredinol credwyd bod cyrsiau rhagflas yn cynnig cyfle i unigolion fod yn realistig ynglŷn â'u hopsiynau hyfforddi a herio unrhyw ofnau a allai fod ganddynt am ddychwelyd i addysg/hyfforddiant. Disgrifiwyd cyrsiau rhagflas fel rhai sy'n rhoi cyfle i unigolion 'roi cynnig' ar bynciau nad ydynt efallai wedi'u hystyried o'r blaen yn ogystal â 'phrofi'r dyfroedd' heb ofni bod yn fethiant yn gysylltiedig â chynigion hyfforddiant mwy ffurfiol.

> *"Cyn i chi fynd amdani, os byddwch yn dilyn cwrs rhagflas byddech yn gallu gweld p'un a fyddwch yn ei fwynhau neu p'un a fyddwch yn ei ddeall. Byddai'n beth da dw i'n meddwl."*
> (Dyn, cyflogai, Blaenau'r Cymoedd).

### 5.3.3 Mae clywed am bobl go iawn a straeon go iawn am bobl sydd wedi gwella eu bywydau yn ddefnyddiol wrth annog pobl i ddysgu.

Ystyriwyd cael cymwysterau fel rhywbeth oedd y tu hwnt i afael pobl o grwpiau nas clywir yn aml. Ni allai llawer o bobl weld eu hunain yn 'gymwys' fyth nac yn cael cymwysterau roeddent wedi colli allan arnynt yn y gorffennol. Awgrymwyd i gyfranogwyr yr astudiaeth achos y byddai straeon go iawn am bobl oedd wedi cael llwyddiant o ganlyniad i ddechrau hyfforddiant yn caniatáu i grwpiau nas clywir yn aml weld sut y gallant gael budd o hyfforddiant. Pe byddai unigolion yn gallu gweld pobl eraill o'u cymuned yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn llwyddo o ganlyniad i hynny, byddai hyfforddiant yn ymddangos yn fwy realistig ac ar gael i'r rhai hynny o grwpiau nas clywir yn aml. Awgrymwyd hefyd i gyfranogwyr yr astudiaeth achos, ynghyd â straeon astudiaethau achos ysgrifenedig, y gallai'r rhai hynny sydd wedi dilyn cyrsiau hyfforddi fynd allan i'r gymuned a siarad â phobl eraill, gan ddweud wrthynt am fanteision hyfforddi a'r effaith a gafodd arnynt. Byddai hyn yn caniatáu i

bobl holi cwestiynau am sut beth oedd cyrsiau hyfforddi mewn gwirionedd, a allai dawelu rhai o'u hofnau am ymgysylltu.

**Ymateb i'r cysyniad**

Roedd straeon bywyd go iawn yn genre adnabyddus i lawer o fewn y grŵp hwn o unigolion nas clywir yn aml. Roedd y rhan fwyaf wedi darllen straeon bywyd go iawn mewn cylchgronau, wedi gweld rhaglenni teledu yn ogystal â chael deunydd hyrwyddol mewn Canolfannau Gwaith a meddygfeydd. Teimlwyd y gallai straeon o'r fath fod yn ysbrydoledig pe byddai'r unigolion yn y senarios yn debyg i'r gynulleidfa a oedd yn clywed amdanynt.

> *"Dw i'n meddwl bod unrhyw stori lle mae rhywun yn gwella eu bywydau drwy ddysgu yn ysbrydoledig iawn."*
> (Dyn, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

Credwyd ei bod yn hanfodol y gallai grwpiau o unigolion nas clywir yn aml gysylltu â'r cymeriadau ym mhob stori achos er mwyn i'r cysyniad hwn fod yn llwyddiannus. Pe byddai'r cymeriadau yn y straeon achos yn wahanol iawn i'r unigolion nas clywir yn aml sy'n edrych arnynt, ni allai'r cynnwys ymddangos yn berthnasol a thrwy hynny câi ei anwybyddu.

> *"Rydych yn teimlo fel eu bod yr un fath â chi."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).
>
> *"Mae'n braf clywed am y llwyddiannau ond ni fyddai'n fy ysgogi i'w wneud am nad yw bywyd rhywun arall yn bwysig mewn gwirionedd. Fy mywyd i a'm hanwyliaid sy'n bwysig."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, De Trefol).

Awgrymwyd ymagwedd fwy personol tuag at straeon bywyd go iawn gan gyfranogwyr gyda llawer am gael gwybodaeth wedi'i throsglwyddo yn bersonol, drwy argymhelliad personol, yn hytrach na thrwy lenyddiaeth. Gallai'r cais hwn fod yn gysylltiedig â'r lefel isel o lythrennedd ymhlith y gynulleidfa darged. Drwy siarad ag unigolion yn uniongyrchol, credwyd y gellid rhannu mwy o brofiadau personol ac onest yn ogystal â chynnig y cyfle i eraill ddysgu o gamgymeriadau myfyrwyr y gorffennol.

> *"Mae'n dda cael barn pobl sydd wedi gwneud y cwrs hwnnw hefyd oherwydd gallant eich dysgu a throsglwyddo'r hyn maent wedi'i ddysgu i rywun arall."*
> (Merch, cyflogai, Gogledd Wledig).

### 5.3.4 Dylid cael gwasanaeth mentora neu gymorth gan ddysgwyr eraill cyn, yn ystod ac ar ôl hyfforddiant fel y gellir defnyddio'r hyn a ddysgwyd ar ôl i'r cwrs orffen.

Unwaith roedd pobl wedi nodi cwrs hyfforddi, teimlwyd y byddai angen anogaeth a chymorth ychwanegol arnynt i gwblhau'r cwrs a defnyddio eu cymwysterau'n effeithiol. Er mwyn helpu pobl i gael y budd mwyaf o'u cwrs, awgrymwyd i

gyfranogwyr yr astudiaeth achos y gellid dyrannu mentor i unigolion er mwyn darparu cymorth un-i-un a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a phryderon. Gan fod llawer wedi'u dychryn gan yr amgylchedd dysgu, gallai mentor helpu unigolion i ymdopi â galwadau cwrs hyfforddi ac ateb unrhyw gwestiynau nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn eu gofyn i'w hyfforddwr, neu'n gofyn o flaen y dosbarth.

**Ymateb i'r cysyniad**

Credwyd bod cael mynediad i fentor yn gwella hyder dysgwyr. Roedd sawl un o gyfranogwyr yr astudiaeth achos yn sôn am broblemau o ran hyder roeddent yn ei feio ar eu diffyg dysgu yn y gorffennol. Disgrifiwyd gwella hyder a theimlo eu bod yn cael cymorth fel y prif fanteision o gael mentor.

> *"Oherwydd y peth yw, mae angen cymorth arnaf cyn ac ar ôl y cwrs oherwydd mae angen help arnaf gyda'm hyder i'w wneud yn y lle cyntaf ac yna i'w ddefnyddio."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, Blaenau'r Cymoedd).

Roedd unigolion am gael mentor sy'n hawdd cael gafael arno, rhywun y gallent alw arno pan fyddai angen cymorth ac arweiniad arnynt. Roedd bod yn hawdd cael gafael arno yn bwysig i gyfranogwyr yr astudiaeth achos a awgrymodd y gellid cysylltu â mentoriaid dros y ffôn a'r e-bost er mwyn cael adborth yn syth.

Roedd y cysyniad o gael rhywun y gellid dibynnu arno cyn, yn ystod ac ar ôl yr hyfforddiant yn ddeniadol ac i ryw raddau wedi'i adeiladu ar strategaethau ymdopi presennol a ddefnyddir gan unigolion sy'n gofyn am gymorth gyda thasgau anodd yn rheolaidd (e.e. cwblhau ffurflenni, ateb ymholiadau).

Er bod cyfranogwyr am gael mentoriaid sy'n hawdd cael gafael arnynt, roedd pryderon ynghylch y lefel o gyfranogiad y byddai mentoriaid am ei gael ym mywydau dysgwyr. Roedd cyfranogwyr yr astudiaeth achos am gael rheoli'r berthynas â pheidio â theimlo o dan bwysau gan eu mentor.

> *"Rwy'n ansicr am hynny. Byddwn yn teimlo fel eu bod yn eich monitro, yn cadw llygad arnoch."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).
>
> *"Byddwn ond am gael y cymorth os byddai ei angen arnaf. Ni fyddwn am gael rhywun ar fy ôl o hyd. Byddwn am gael rhywun sydd yno os oes angen cymorth arnaf, er mwyn gallu eu holi a pe byddent yn fy ngweld yn mynd ar gyfeiliorn gallent fy rhoi ar y trywydd iawn."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, De Trefol).

Felly awgrymwyd y dylai mentoriaid fod yn debyg i'r rhai hynny maent yn eu mentora. Drwy wneud hynny, credwyd y byddai'r dysgwr yn teimlo y byddent yn cysylltu â'u mentor ac, mewn rhai achosion, yn cael eu hysbrydoli ganddynt.

> *"Rydych yn meddwl, wel os ydyn nhw'n gallu gwneud hyn ac roeddent ar yr un lefel â mi, mae'n rhaid ei fod yn bosibl."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

### 5.3.5 Dylai pobl sy'n dechrau cwrs hyfforddiant allu cael cydnabyddiaeth am sgiliau eraill sydd ganddynt (e.e. cyfathrebu, sgiliau trefnu ac ati).

Er bod grwpiau nas clywir yn aml yn fwy tebygol o ddechrau cwrs hyfforddi ar gyfer sgil benodol, awgrymwyd y gallent hefyd ddatblygu o 'sgiliau meddal', fel cyfathrebu, y gellir ei gydnabod yn ffurfiol gan hyfforddwyr. Credwyd bod sgiliau meddal yn bwysig i grwpiau nas clywir yn aml, drwy ehangu eu sail sgiliau a bod yn ddefnyddiol wrth chwilio am swydd neu ddyrchafiad mewn swydd bresennol. Felly, byddai'r rhai hynny sy'n cymryd rhan mewn cwrs hyfforddi hefyd yn datblygu eu sgiliau meddal, ac yn eu tro yn gwella eu hyder yn y gweithle neu wrth wneud cais am swydd newydd. Awgrymwyd i gyfranogwyr yr astudiaeth achos na fyddai'n rhaid i'r rhai hynny sy'n hyfforddi wneud unrhyw beth ychwanegol i gael cymwysterau mewn sgiliau meddal, yn hytrach, byddai'n gyfrifoldeb ar hyfforddwyr i sylwi ar y sgiliau a ddefnyddir mewn hyfforddiant, ac i ddyfarnu cymwysterau/tystysgrifau Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid i'r rhai hynny a oedd yn gallu dangos eu cymhwysedd.

**Ymateb i'r cysyniad**

Croesawyd y broses o gael cydnabyddiaeth am sgiliau a ddangosir yn ystod cwrs hyfforddi neu broses ddysgu er y cwestiynwyd ymarferoldebau'r fenter gan gyfranogwyr.

Roedd y cysyniad hwn yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng sgiliau a chyrhaeddiad addysgol/cymwysterau. Gwerthfawrogwyd y gydnabyddiaeth gan sawl cyfranogwr a oedd yn teimlo nad oedd eu diffyg cymwysterau yn golygu nad oedd ganddynt sgiliau.

> *"Mae rhai pobl yn well am gyfathrebu nac eraill, mae gan rai pobl sgiliau trefniadol gwell nac eraill. Credaf y dylai pobl gael cydnabyddiaeth am hynny. Oherwydd nid yw o reidrwydd yn gymhwyster, mae'n sgil."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, De Trefol).

Teimlwyd yn gyffredinol bod y cysyniad o gael cydnabyddiaeth am sgiliau wrth hyfforddi yn fanteisiol er nad yw'n ddigon i ysgogi unigolion i gymryd rhan mewn dysgu. Câi ei weld fel rhywbeth ychwanegol braf am gyflawni rhywbeth gwerth chweil.

> *"Ni allwch fyth gael gormod o gymwysterau. Nid wyf yn credu fod ei angen yn wirioneddol ond mae'n braf cael cydnabyddiaeth. Efallai os byddwch yn gwneud rhywbeth y tu hwnt i'r galw yna'n sicr ond ni fyddwn yn disgwyl tystysgrif gyfathrebu am siarad â'm hathro. Byddwn yn ei ddisgwyl pe byddwn yn casglu grŵp o'm cyd-ddisgyblion ynghyd a'u cael i greu grŵp astudio neu rywbeth felly."*
> (Dyn, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

> *"Credaf y byddai ei wneud yn y dechrau un yn annymunol ond pe byddent yn gweld pa mor dda rydych yn ei wneud ac yn dweud 'hei ti'n gwneud hyn beth bynnag, beth am roi cynnig arni?' Nid ydych am golli unrhyw beth. Credaf y byddai'n magu eich hyder hefyd, yn hytrach na'i daflu atoch i gyd ar unwaith."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

### 5.3.6 Gall dysgu wella meysydd eraill o'ch bywyd, nid caniatáu i chi gael swydd/cymhwyster yn unig (e.e. iechyd, bywyd cymdeithasol).

Yn ystod y gweithdai, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai grwpiau nas clywir yn aml wrthod hyfforddiant gan nad ydynt yn cydnabod unrhyw fantais uniongyrchol o gael cymwysterau. Oherwydd y farchnad waith ddirywiol, roedd llawer yn amheugar y byddai cymryd rhan mewn hyfforddiant yn golygu swydd/dyrchafiad. Felly, awgrymwyd i gyfranogwyr yr astudiaeth achos y dylid ail-leoli hyfforddiant fel proses fwy cyfannol a allai wella bywydau pobl yn fwy cyffredinol, yn hytrach nac yn academaidd neu'n ariannol yn unig. Teimlai rhai rhanddeiliaid pe byddai unigolion yn gallu cydnabod y gallai hyfforddiant wella agweddau ehangach ar eu bywydau, y byddai llai o ofn y syniad o ymgysylltu a chymryd rhan arnynt.

**Ymateb i'r cysyniad**

Ni ddeallwyd y cysyniad hwn yn hawdd gan lawer o'r cyfranogwyr oedd yn ei chael hi'n anodd cydnabod y manteision ychwanegol a phersonol y gallai dysgu a hyfforddiant eu cynnig. O ganlyniad, cymysg oedd yr ymateb a gafodd y cysyniad hwn gan gyfranogwyr na wnaeth ei ystyried fel sbardun i gymryd rhan mewn hyfforddiant.

Roedd ambell i gyfranogwr yn gweld y gwerth o ddatblygu sgiliau cymdeithasol a sut y gallai'r sgiliau hyn fod yn ddefnyddiol yn y gweithle (e.e. y potensial i wella hyder mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd). Drwy wneud hynny credwyd y byddai canlyniadau ymarferol dysgu yn gwneud y broses gyfan yn fwy pleserus i unigolion nas clywir yn aml.

### 5.3.7 Gellir defnyddio dulliau meddalwedd y rhyngrwyd (e.e. gêm neu brawf y gallwch ei wneud eich hun) i nodi anghenion dysgu pobl a rhoi gwybod iddynt am sefydliadau a all eu helpu. Gellir defnyddio'r rhain i ddysgu hefyd.

Roedd defnyddio'r cyfryngau i hyrwyddo ac annog grwpiau nas clywir yn aml i mewn i hyfforddiant yn flaenoriaeth yn y trafodaethau ym mhob un o weithdai'r rhanddeiliaid. Teimlai llawer nad oedd meddalwedd y Rhyngrwyd yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf i nodi'r rhai ag anghenion sgiliau sylfaenol a'u cyfeirio at ffynonellau hyfforddiant priodol. Gwelwyd y Rhyngrwyd fel dull defnyddiol o ymgysylltu grwpiau nas clywir yn aml oherwydd gallent eisoes fod â mynediad i'r rhyngrwyd a bod yn gyfarwydd â gemau ar-lein a chymwysiadau fel profion IQ. Credwyd bod gemau yn ddull o nodi anghenion dysgu a'u cyfeirio at ddarpariaeth hyfforddi sydd ar gael mewn ffordd nad yw'n fygythiol.

Awgrymwyd i gyfranogwyr yr astudiaeth achos y gellid defnyddio gemau ar-lein fel dull hyfforddi hefyd drwy ganiatáu i'r rhai hynny ag anghenion sgiliau sylfaenol gymryd rhan mewn gemau mathemateg a Chymraeg syml fyddai'n gwella eu sgiliau. Drwy hyfforddi/ cymryd rhan ar-lein, gallai unigolion ddysgu yn ôl eu pwysau a byddent hefyd yn gallu osgoi amgylchedd dysgu mewn ystafell ddosbarth, a allai fod yn frawychus.

**Ymateb i'r cysyniad**

Ystyriwyd y Rhyngrwyd fel dull y gallai'r rhan fwyaf o unigolion gael gafael arno. Fodd bynnag, o'r sampl hwn, nid oedd pob un o'r cyfranogwyr yn mwynhau/teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r we.

Credwyd bod cymwysiadau a phrofion ar-lein yn goresgyn rhai o'r rhwystrau sefyllfaol a wynebir gan sawl cyfranogwr wrth ystyried dychwelyd i'r amgylchedd dysgu (e.e. nid mewn ystafell ddosbarth, wedi'i gwblhau ar ei ben ei hun, sicrhau y bydd yn ddi-enw). Fodd bynnag, teimlai eraill y byddai'r dull amhersonol hwn yn cynnig llai o gymorth a chefnogaeth i ddysgwyr na chyswllt wyneb yn wyneb.

> *"Rwy'n gwybod ei fod yr un fath â'ch profi ond nid ydych mewn ystafell yn llawn pobl yn cael prawf. Caiff ei wneud yn dawel."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

> *"Gallwn ei wneud fy hun ac ni allai neb arall weld beth rwy'n ei wneud."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, Blaenau'r Cymoedd).

> *"Cael rhywun yn egluro ac yn rhoi cymorth i chi, sy'n rhywbeth na all y rhyngrwyd ei wneud mewn gwirionedd."*
> (Dyn, anghenion sgiliau sylfaenol, y De Ôl-ddiwydiannol).

Credwyd bod defnyddio'r Rhyngrwyd yn fan cychwyn da i rai oherwydd gellir cael gafael ar wybodaeth yn hawdd. Fodd bynnag, cafodd pryderon eu crybwyll am ddefnyddio adnoddau ar-lein am gyfnod hwy (e.e. Learn Direct), lle teimlai cyfranogwyr nad oedd yn ymgysylltu â phobl ddigon er mwyn gwneud iddynt gwblhau eu cwrs.

> *"Credaf fod yn rhaid i chi feddu ar lawer o gymhelliant i wneud hynny ac nid wyf yn siŵr os oes gen i hynny."*
> (Merch, anghenion sgiliau sylfaenol, De Trefol).

# 6. Goblygiadau o ran polisi

## 6.1 Grwpiau ffocws

Mae goresgyn y rhwystrau lluosog i ddysgu a wynebir gan unigolion mewn grwpiau nas clywir yn aml yn her gymhleth sydd â goblygiadau i gynnwys a marchnata darpariaeth dysgu. Mae cymhlethdod rhwystrau di-syfl fel hyder a hunanbarch isel, profiadau blaenorol negyddol o'r ysgol, dim ymdeimlad o ddysgu fel rhywbeth a fydd o fudd yn y dyfodol, a diffyg cymorth o fewn y teulu, yn gofyn am nifer o ddatrysiadau a chymhellion gwahanol i wella'r broses o gymryd rhan mewn dysgu. Byddai angen targedu'r datrysiadau hyn at unigolion a chyflogwyr, gyda chymorth darparwyr a rhanddeiliaid eraill, er mwyn llwyddo.

Roedd llawer o'r rhwystrau a'r sbardunau a nodwyd gan gyfranogwyr y grŵp ffocws yn gysylltiedig â'u hangen i weld manteision sylweddol o gyflawni unrhyw fath o ddysgu. Roedd cyfranogwyr, yn enwedig y rhai hynny o grwpiau ieuengach, yn gosod gwerth isel ar gymwysterau o ganlyniad i fethu â gweld manteision uniongyrchol o'r fath. Felly, gallai deiliaid polisïau ystyried sut y gellid cynnig mathau o ganlyniadau pendant o fewn cyrsiau a sut y gellid marchnata'r rhain i grwpiau sy'n anoddach eu cyrraedd. Ymhlith y manteision a nodwyd amlaf gan unigolion roedd cael swydd a/neu swydd well.

Gallai cynnig lleoliadau gwaith gwarantedig ar ôl cwblhau cyrsiau fod yn ddull gwerthfawr o ddarparu cymhelliannau i unigolion di-waith i ddechrau dysgu. Er enghraifft, pe byddai cymryd rhan mewn cwrs a'i gwblhau yn cael ei ddilyn gan leoliad gwaith o ryw chwech wythnos, gyda chyflogwr, a thrwy hynny yn rhoi'r cyfle i unigolyn 'brofi' ei hun i'r cyflogwr, yn gymhelliant gwirioneddol i'r rhai hynny sy'n chwilio am waith i ddilyn y cwrs.

Yn amlwg, byddai cymorth a chyfranogiad cyflogwyr yn annatod i gynllun o'r fath, a byddai angen darparu cymhorthdal cyflog, o bosibl ar fodel tebyg i'r un a weithredir gan GO Wales i raddedigion. Fodd bynnag, byddai'n galluogi darparwyr i bwysleisio yn eu deunydd marchnata y gallai unigolion gael profiad gwaith ymarferol fel rhan o gyfle dysgu, yn ogystal â manteision y cwrs ei hun. Gallai darparwyr hefyd bwysleisio'r sgiliau ymarferol y byddai'r unigolion yn eu cael o'r cwrs yn eu llenyddiaeth marchnata, a sut y byddai'r sgiliau hyn yn effeithio ar eu bywydau bob dydd.

Gallai ennill cymhwyster, neu ryw gydnabyddiaeth o gyflawniad, hefyd fod yn eithriadol o bwysig i'r rhai hynny sydd wedi methu â chyflawni yn ystod eu haddysg orfodol. Er mwyn denu'r bobl draddodiadol sydd heb gyflawni i gymryd y cam cyntaf i weithgaredd dysgu, gellid darparu cyllid ar gyfer cyrsiau 'rhagflas', gyda rhywfaint o gydnabyddiaeth o gyfranogiad unigolion.

I unigolion cyflogedig, mae darparu cymhelliannau pendant i gyflogwyr yn gam hanfodol wrth oresgyn y rhwystr hwn. Roedd unigolion a oedd wedi cymryd rhan mewn dysgu wedi cyflawni hyfforddiant gorfodol fel arfer ac felly mae rôl y cyflogwr wrth annog unigolion i ddysgu yn hanfodol. Gall defnyddio 'modelau rôl' gan gyflogwyr a nodir gan randdeiliaid fel enghreifftiau o arfer da fod yn llwybr i annog cyflogwyr eraill, yn enwedig y rhai hynny o fewn eu sector, i ddilyn llwybrau tebyg.

Gallai darparwyr dysgu a Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried datblygu rhestr o fodelau rôl busnes ac ariannu ymweliadau gan gynrychiolwyr cyflogwyr 'model rôl' i fusnesau tebyg er mwyn dangos y manteision sydd i'w cael o annog dysgu ymhlith y gweithlu.

Yn ystod y grwpiau ffocws, mynegodd sawl unigolyn, wrth ddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, agweddau negyddol tuag at yr hyn a ystyriwyd ganddynt fel yr 'amgylchedd dysgu'. Roedd y rhwystrau cymhleth hyn o ran agweddau yn aml yn seiliedig ar brofiadau blaenorol ac yn gofyn am atebion gwahanol i wahanol grwpiau.

Ymddengys bod dieithrwch amgylchedd dysgu yn rhwystr pwysig i'r rhai hynny mewn cyflogaeth. Gallai caniatáu dysgu yn y gweithle yn ystod sesiynau cyflwyniadol a chynnal cyrsiau ymhlith pobl cyfarwydd (e.e. grwpiau o gydweithwyr) mewn amgylchedd dysgu mwy traddodiadol helpu i feithrin hyder a goresgyn canfyddiadau negyddol o ddysgu. Dylid ystyried darparu arian cychwynnol i gefnogi'r broses o gyflwyno cynlluniau datblygu cyflogeion, lle gall cyflogeion ymgysylltu mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu, fel arfer ar safle'r cwmni ac mewn cydweithrediad â chydweithwyr. Roedd y manteision i gyflogwyr, o ran sail sgiliau eu gweithlu, cadw mwy o weithwyr a boddhad swydd, yn amlwg mewn cynlluniau peilot tebyg a gyflwynwyd gan Gynghorau Hyfforddiant a Menter yng Nghymru a Lloegr yn y 1990au ac a arweiniodd at gwmnïau yn cynnal y cynlluniau ar ôl i'r cymorth ariannol cychwynnol ddod i ben.

Ymhlith y rhai hynny ag anghenion sgiliau sylfaenol, roedd y strategaethau ymdopi a ddefnyddir gan unigolion yn cynnwys osgoi cydnabod yr anghenion hyn. Mae hyn yn cyfiawnhau'r dull a ddefnyddir gan sawl cyflogwr a darparwr wrth 'guddio' dysgu a anelir at dargedu sgiliau sylfaenol fel rhan o hyfforddiant gorfodol neu hyfforddiant ar gyfer tasgau sy'n benodol i swydd (e.e. Iechyd a Diogelwch neu TGCh).

Roedd y dyheadau isel a fynegwyd gan sawl unigolyn, yn ogystal â disgwyliadau isel aelodau eraill o'r teulu, ymhlith un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin i ddysgu a nodwyd yn ystod y grwpiau ffocws. Gellid anelu ymgyrchoedd marchnata at godi dyheadau pobl ifanc ac, yn enwedig, herio eu hagweddau tuag at y llwybrau y maent hwy neu eraill wedi disgwyl iddynt eu dilyn. Gallai amseru ymgyrchoedd o'r fath i gyd-ddigwydd ag adegau pontio penodol fel gadael addysg ffurfiol neu ddod yn rhiant, hefyd helpu i annog dysgu ymhlith rhai grwpiau. Mae rôl ymarferwyr gwybodaeth, cyngor ac arweiniad hefyd yn hanfodol yma.

Cadarnhaodd grwpiau ffocws fod gan rieni ac aelodau eraill o'r teulu ddylanwad sylweddol ar ddyheadau pobl ifanc a'u hagweddau tuag at ddysgu. Roedd y canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau gwaith ymchwil ansoddol diweddar ar ymgysylltiad rhieni a gyflawnwyd drwy'r Rhaglen Ymchwil Cwsmeriaid ac yn cadarnhau pwysigrwydd yr agenda ymgysylltiad rhieni sy'n cael ei ddilyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, gallai marchnata hefyd gael ei dargedu at rieni, gan ganolbwyntio ar godi dyheadau ac annog canfyddiadau mwy cadarnhaol o ddysgu ymhlith pobl ifanc.

Mae'r agweddau cadarnhaol a ddangosir tuag at y potensial a gynigir gan ddysgu a'r parch a ddangosir tuag at y rhai hynny sydd wedi bod yn llwyddiannus yn

academaidd yn awgrymu y gall defnyddio modelau rôl unigol hefyd helpu i annog dysgu ymhlith grwpiau nas clywir yn aml. Gellid annog darparwyr i ddefnyddio modelau rôl sydd wedi goresgyn rhwystrau a wynebir gan unigolion fel llysgenhadon i'w cyrsiau. Gellid clymu'r rhain â chyflwyniadau rhagarweiniol mewn gweithleoedd. Byddai'n bwysig yma i ddenu modelau rôl o blith y rhai hynny sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn dysgu ac sydd wedi'u hysbrydoli ganddo, ac a ddaeth o gymunedau sy'n nodweddiadol yn cynnwys cyfrannau mawr o unigolion 'nas clywir yn aml'.

## 6.2 Ymgynghoriad rhanddeiliaid - Gweithdai ac e-bost

Archwiliodd y gweithdai i randdeiliaid yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Gwynedd a Chastell-nedd/Port Talbot nifer o enghreifftiau o arfer da ac awgrymiadau ar gyfer gwella'r math o ddarpariaeth yng Nghymru, y ffordd y caiff ei threfnu a'i marchnata. Daeth nifer o themâu cyffredin i'r wyneb yn y trafodaethau, gan gynnwys:

- Yr angen i fod yn hyblyg wrth ariannu darpariaeth, yn enwedig o ran cyrsiau rhagflas, dysgu heb ei achredu a mathau eraill o ddarpariaeth sy'n gweddu'n well i grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd.
- Gwerth defnyddio broceriaid y gall unigolion gysylltu â hwy ac ymddiried ynddynt - p'un a ydynt yn gyfoedion, gweithwyr cymunedol, gweithwyr ieuenctid a theulu - wrth ddenu unigolion i ddysgu ac, yn hanfodol, wrth gynnal dysgu a helpu i oresgyn rhwystrau cychwynnol.
- Y stigma canfyddedig sydd ynghlwm wrth y term 'sgiliau sylfaenol' a diffyg cymorth y term wrth ddenu grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd.
- Yr angen i ddarparu cymhelliannau 'ymarferol' pendant fel lleoliadau gwaith byr ynghyd â chyrsiau a anelir at bobl ddi-waith, yn ogystal â chymhelliannau i gyflogwyr ddarparu lleoliadau o'r fath.
- Yr angen i ymgysylltu cyflogwyr wrth ddod o hyd i ddulliau 'callach' o oresgyn rhwystrau o ran agwedd ymhlith cyflogeion a'r angen i ddarparu adnoddau sy'n hawdd cael gafael arnynt er mwyn gwneud hyn (e.e. adnoddau ar-lein ar gyfer gwella sgiliau sylfaenol drwy bynciau eraill fel TGCh).
- Gwerth gweithio traws-sector a'r archwaeth am fwy o gydweithredu ar lefel ymarferwr ar draws sectorau, nid ar lefelau strategol yn unig.

## 6.3 Ardal drefol: Caerdydd

Cytunodd rhanddeiliaid fod canfyddiadau gwael o ddysgu, wedi'u hysgogi gan brofiadau negyddol o addysg ac ofn methu eto yn gweithredu fel rhwystr i ddysgu ymhlith unigolion. Teimlai sawl un hefyd y gellid defnyddio cynlluniau mentora cyfoedion neu gynghorwyr personol yn ehangach gan ddarparwyr a chyflogwyr er mwyn goresgyn canfyddiadau gwael o ddysgu ac ofn yr anhysbys.

Hefyd, disgrifiodd rhai o'r rhanddeiliaid enghreifftiau o gyflogwyr a oedd wedi helpu cyflogeion i feithrin hyder a sgiliau newydd drwy gynnal sesiynau a ddisgrifiwyd fel ceisio gwella ansawdd gwaith o fewn sefydliad. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys trafodaethau grŵp, adroddiadau a chyflwyniadau ymhlith grwpiau bach o

gydweithwyr cyfarwydd mewn lleoliad gwaith cyfarwydd, gyda'r sgiliau hyn yn cael eu datblygu o dan ddull nod gwahanol (e.e. paratoi ar gyfer gofynion deddfwriaethol yn y dyfodol neu heriau o fewn y sector).

Awgrymodd rhanddeiliaid y gallai darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried ymgysylltu cyflogwyr drwy bwysleisio sut y gallai'r math hwn o ymdriniaeth helpu cyflogwyr i wella eu harferion gwaith a chyflogeion wrth ennill sgiliau newydd drwy'r broses o drafod arferion gwaith. Gallai rhaglenni mentora cyfoedion ategu'r math hwn o ymdriniaeth.

Teimlai sawl rhanddeiliad fod cyflogwyr sy'n gwneud hyfforddiant yn orfodol ym mhob rhan o sefydliad yn helpu i oresgyn nifer o rwystrau ymhlith grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd drwy ddileu'r stigma o unigolion yn cyfaddef problemau o ran sgiliau sylfaenol drwy orfod dewis cymryd rhan. O ran cyflogeion, awgrymwyd hyn fel dull y gellid ei gynnwys mewn unrhyw gytundeb neu gontract caffael llafur lleol gan gyrff y sector cyhoeddus. Awgrymwyd hefyd y gellid gwneud hyfforddiant yn orfodol i unigolion sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na chyfnod penodol o amser neu i bobl ifanc a fyddai fel arall yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Awgrymwyd gan rai rhanddeiliaid y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu adnoddau ar-lein, gan alluogi sefydliadau i wella sgiliau sylfaenol unigolyn drwy raglenni ar y we. Er enghraifft, gellid anelu gemau ar-lein at wella sgiliau TGCh a sgiliau sylfaenol, gan alluogi sefydliadau i annog unigolion i gymryd rhan mewn cyrsiau a anelir at wella sgiliau TGCh.

## 6.4 Ardal ôl-ddiwydiannol: Castell-nedd/Port Talbot

Hefyd, cytunodd rhanddeiliaid yng Nghastell-nedd/Port Talbot y gallai defnyddio hyfforddiant mewn meysydd fel TGCh neu Iechyd a Diogelwch helpu i oresgyn y stigma sy'n gysylltiedig â hyfforddiant sgiliau sylfaenol neu ganfyddiadau negyddol o addysg. Nodwyd TGCh yn benodol, fel pwnc lle nad oedd y rhan fwyaf o gyflogeion 'erioed wedi methu' ac roedd felly yn bwnc da ar gyfer denu grwpiau nas clywir yn aml i ddysgu.

Nodwyd gwella'r cydweithrediad rhwng sectorau gwahanol fel blaenoriaeth yng Nghastell-nedd/Port Talbot. Nodwyd bod y sector gwirfoddol yn rheoli rhwydwaith dysgu Castell-nedd/Port Talbot a bod hyn yn gweithio'n arbennig o dda wrth sicrhau bod y sectorau statudol a gwirfoddol yn cydweithio'n effeithiol ar lefel strategol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gellid cael cysylltiadau gwell ar lefel weithredol rhwng ymarferwyr o sectorau gwahanol. Teimla rhai, tra bod rhannu gwybodaeth yn gweithio'n dda ar y lefel strategol, efallai bod y gwersi allweddol a'r enghreifftiau o arfer da y gellid eu defnyddio i ymgysylltu'r grwpiau sydd fwyaf anodd eu cyrraedd ar lefel yr ymarferwr yn cael eu colli.

Er enghraifft, nododd rhanddeiliaid y gellid cael cysylltiadau gwell rhwng staff gwaith ieuenctid lleol, sy'n gallu cynnwys nifer o'r bobl ifanc sydd fwyaf anodd eu cyrraedd, a darparwyr dysgu. Teimlwyd bod llawer o bobl ifanc datgysylltiedig yn ymddiried mewn staff gwaith ieuenctid a allai felly fod mewn sefyllfa well i hyrwyddo rhywfaint o gyfleoedd dysgu. Ar yr un pryd, cydnabuwyd bod angen rheolaeth ofalus ar y broes hon er mwyn cynnal ymddiriedaeth rhwng gweithwyr ieuenctid a darparwyr. Gallai

sicrhau bod cyfleoedd rhwydweithio ar gael i weithwyr ieuenctid i fod yn ymwybodol o'r math hwn o ddarpariaeth addysgol mewn ardaloedd lleol helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Mae rhwydwaith dysgu rhanbarthol De-orllewin Cymru ar hyn o bryd yn archwilio sut y gall darparwyr fod yn fwy effeithlon o ran sicrhau bod darparwyr yn cynnig arbenigedd mewn meysydd penodol o ddysgu ac yn osgoi dyblygu o fewn ardal ddaearyddol. Mae'r broses o sefydlu Arsyllfa Sgiliau Rhanbarthol wedi'i chynnig fel dull o fonitro pa mor llwyddiannus mae'r bartneriaeth yn cyflawni ei nodau.

Teimlai rhanddeiliaid y dylai llenyddiaeth hyrwyddol ar ddysgu dargedu dysgwyr ar adegau allweddol o bontio (e.e. wrth ddod yn rhiant, pan fydd plentyn yn dechrau yn yr ysgol neu wrth ymddeol). Awgrymwyd, ynghyd â gwybodaeth am fod yn rhiant ac iechyd plant a geir gan weithwyr iechyd, y dylid rhoi llenyddiaeth farchnata i rieni ar sgiliau sylfaenol a sgiliau eraill a allai eu helpu i ddarparu ar gyfer eu plentyn yn y ffordd orau.

Hefyd, disgrifiodd rhanddeiliaid sefyllfaoedd lle gallai rhieni ag anghenion sgiliau sylfaenol gael dylanwad negyddol ar ddatblygu sgiliau yn eu plant, yn enwedig yn ystod blynyddoedd arddegau lle gallai rheini deimlo'n ofnus, oherwydd eu bod yn methu helpu eu plentyn gyda'i waith. Awgrymwyd bod angen i gynlluniau dysgu ystyried anghenion rhieni er mwyn eu helpu i gefnogi ymgysylltiad eu plant mewn dysgu yn fwy effeithiol. Cafodd canolfannau dysgu i deuluoedd eu crybwyll fel enghraifft o arfer da y gellid eu defnyddio yn ehangach wrth helpu rhieni i oresgyn rhwystrau.

Hefyd, pwysleisiodd rhanddeiliaid yng Nghastell-nedd/Port Talbot fod marchnata a arweinir gan gyfoedion yn adnodd effeithiol a bod hyn wedi'i ddefnyddio'n effeithiol mewn sawl ymgyrch ddysgu a arweinir gan undebau llafur. Cydnabuwyd bod angen marchnata cyrsiau sgiliau sylfaenol yn ofalus iawn er mwyn osgoi'r sefyllfa lle bydd unigolion a oedd yn ystyried dechrau arnynt yn newid eu meddwl.

## 6.5 Blaenau'r Cymoedd: Merthyr Tudful

Ystyriwyd bod gwaith rhyng-asiantaeth gwell yn hanfodol i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag anghenion unigolion â rhwystrau lluosog i ddysgu, yn enwedig gan fod arian ar gyfer ymyriadau yn tueddu i gael ei rannu rhwng asiantaethau gwahanol. Teimlwyd bod angen 'polisi mawr a dewr ac ymyriadau ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.'. Un awgrym oedd y gellid defnyddio arian Llywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu partneriaethau, (e.e. rhwng sefydliadau gwirfoddol a cholegau Addysg Bellach) ac y gallai hyn sicrhau y byddai amrywiaeth ehangach o bobl yn cael eu recriwtio i weithgareddau dysgu. Byddai ffocws lleol i'r cydweithredu hwn rhwng asiantaethau, gan olygu cyflwyno darpariaeth ddysgu berthnasol mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

O ran arian, teimlwyd y dylid cael rhaglenni dysgu mwy hyblyg, sy'n fwy addas i broffiliau darpar ddysgwyr sydd â rhwystrau lluosog i ddysgu. Ar yr un pryd, teimlai cyfranogwyr bod angen sicrhau na chyfyngir ar arian ar gyfer y rhaglenni hyn i daliad ar ôl cwblhau cymhwyster llawn yn unig.

Nodwyd y dylid cael mwy o gydnabyddiaeth o ganlyniadau 'meddal', fel mwy o hyder a hunanbarch. Ystyriwyd y syniad o'r 'pellter a deithiwyd' yn bwysig, a theimlai'r rhanddeiliaid y gellid cydnabod hyn drwy ddarparu tystysgrifau neu gydnabyddiaeth am gyrraedd carreg filltir benodol neu am ddangos cynnydd yn erbyn sefyllfa gychwynnol unigolyn. Gallai hwn fod yn ddull arbennig o werthfawr i bobl nad ydynt erioed wedi cael unrhyw wobr sylweddol am ddysgu. Nodwyd bod amrywiaeth o adnoddau ar gyfer mesur y pellter a deithiwyd ar gael yn barod ac y gellir asesu'r rhain er mwyn nodi a mapio'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer cydnabod sgiliau meddal.

Ystyriwyd rôl gweithwyr Datblygu'r Gymuned a gweithwyr allgymorth yn hanfodol wrth helpu pobl i ddatblygu'r hyder i gymryd rhan mewn dysgu. Lle mae pobl wedi'u 'niweidio' mewn rhyw ffordd, gall fod angen proses hirdymor sy'n 'adeiladu'n araf' - gan ddechrau gyda chael pobl i feddwl amdanynt eu hunain. Cafodd y broses o gysylltu â'r cynllun Paru Swyddi (fel rhan o Yn Awyddus i Weithio) ei chrybwyll fel ffordd o fagu hyder a'r dyhead i symud ymlaen ymhlith pobl.

Hefyd, teimlai rhai rhanddeiliaid, yn hytrach na chanolbwyntio cyllid ar gyfer hyfforddiant ar Lefelau 2 a 3, y dylid sianelu mwy o gyllid tuag at raglenni paratoadol, fel Adeiladu Sgiliau. Honnwyd bod y Fframwaith Effeithiolrwydd Polisïau newydd yn dechrau cael effaith o ran alinio cyllid i gyflawniad achrededig/cydnabyddedig.

I'r rhai hynny â diffygion llythrennedd, cydnabuwyd bod angen cymhwyster y gellir gweithio tuag ato h.y. dylid teilwra'r dysgu i'r unigolyn yn hytrach na'r cymhwyster.

O safbwynt grwpiau lleiafrifoedd ethnig, teimlai'r rhanddeiliaid y dylid cydnabod bod llawer o grwpiau gwahanol, a phob un â'u problemau penodol eu hunain yn effeithio ar gyfranogiad mewn dysgu, ac felly mae angen datrysiadau pwrpasol i broblemau'r grwpiau hyn h.y. nid oes datrysiad 'grŵp lleiafrifoedd ethnig' cyffredin y gellir ei ddefnyddio gyda phob grŵp.

Wrth asesu canlyniadau arfaethedig dysgu, mae angen ystyried i ba raddau y cânt eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan gyflogwyr. Nid yw hyn yn awgrymu y dylid cael achrediad ynghlwm wrth bob math o ddysgu - ond, lle ceir achrediad (e.e. NVQs) nid yw hyn o reidrwydd yn werthfawr os na chaiff ei ystyried o ddefnydd gan gyflogwyr.

Awgrymwyd y gellid addasu'r Addewid i Gyflogwyr er mwyn ei gwneud yn haws i gyflogwyr bach ryddhau staff. Nododd y cyfranogwyr fod cyflogwyr yn ei chael yn llawer mwy anodd gwneud hyn ar hyn o bryd na chyflogwyr mwy o faint.

Darparwyd enghreifftiau o fentrau sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblem hunaniaeth ddiwylliannol a chanlyniadau meddal:

- Yn y Gurnos, mae Cymunedau yn Gyntaf yn cyflwyno dysgu ar agweddau fel sut i ymddwyn yn y gwaith.
- Yng Nghaerdydd, mae menter Cymunedau yn Gyntaf De Glan yr Afon yn darparu cymorth sylweddol, drwy raglen Dysgu Oedolion yn y Gymuned, i sefydliadau'r trydydd sector, gyda'r pwyslais ar les y dysgwr yn hytrach na chymwysterau'n unig.

Cafodd pwysigrwydd rôl rhaglen Dysgu Oedolion yn y Gymuned wrth effeithio ar 'hunaniaeth ddiwylliannol' ymhlith teuluoedd a chymunedau ei bwysleisio. Gwnaed awgrym y dylai hyn gael ei ragflaenu gan fentora unigol mewn ysgolion, er mwyn hwyluso'r broses o gael 'credoau priodol'.

Fodd bynnag, yn bennaf, dylid cael gwell eglurder o'r 'broblem' - ai diffyg sgiliau, neu a yw'n rhywbeth dyfnach, gyda'i wreiddiau mewn hunaniaeth ddiwylliannol. Mae darbwyllo pobl am fuddiannau dysgu yn anodd, ond yn elfen greiddiol hanfodol.

## 6.6 Ardal wledig: Gwynedd/Ynys Môn

Un o'r prif wahaniaethau rhwng Gwynedd a'r grwpiau eraill o randdeiliaid oedd amlygrwydd cymharol ardal wledig fel rhwystr i ddysgu mewn trafodaethau. Teimlai'r rhanddeiliaid fod daearyddiaeth Gogledd-orllewin Cymru yn pennu fod hygyrchedd i'r rhyngrwyd yn hanfodol er mwyn galluogi mynediad i gyfleoedd ac ymgysylltu mewn gweithgareddau.

Mae hyblygrwydd mewn trefniadau cyllid yn bwysig, a dylid ei annog i ganiatáu ar gyfer anghenion anghyfartal unigolion. Un awgrym oedd y dylid gwneud yn siŵr bod mwy o gyllid ar gael ar gyfer sesiynau rhagflas er mwyn denu unigolion i ddysgu. Roedd rhanddeiliaid o'r farn nad oedd hyblygrwydd wrth gael gafael ar arian ar gyfer dysgu heb ei achredu er gwaethaf buddiannau amlwg cyfleoedd o'r fath i grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd.

Nodwyd y gall cyfleoedd am waith gwirfoddol alluogi unigolion i ddangos tystiolaeth o fod wedi ennill sgiliau 'meddal', ond mae angen hyblygrwydd wrth ganiatáu i unigolion di-waith gymryd rhan yn y mathau hyn o gyfleoedd heb golli allan ar hawliau presennol fel budd-daliadau di-weithdra. Teimlai'r rhanddeiliaid fod y fenter ryngweithiol Yn Awyddus i Weithio yn y Rhyl wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth helpu'r bobl sy'n economaidd anweithgar i feithrin sgiliau.

Awgrymodd y rhanddeiliaid y dylid cael llai o fentrau, ond rhai mwy o faint, gyda 'brocer gonest' i roi cyngor i bobl ar ba opsiwn fyddai fwyaf buddiol iddynt yn yr hirdymor. Nodwyd bod menter a gynlluniwyd i ddarparu gwasanaeth 'brocer gonest' o'r fath ar waith yn rhanbarth Môn a Menai, gyda chydweithrediad gan y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a NIACE.

Teimlwyd hefyd bod mentora yn ddull gwerthfawr gan randdeiliaid yng Ngwynedd. Awgrymwyd y byddai hyn yn cynnwys gweithio gyda theuluoedd, olrhain a chynnal cyswllt ag unigolion, diffinio'r sgiliau sydd ganddynt, a gosod nodau syml ar gyfer cynnydd. Teimlwyd hefyd bod angen dod â chyflogwyr i mewn i'r broses o ddarparu a chynllunio gweithgareddau dysgu, er mwyn gwella ei hygrededd a'i effaith.

Fel grwpiau eraill o randdeiliaid, nid ymddengys bod y term 'sgiliau sylfaenol' yn derm defnyddiol er mwyn ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml. Teimlai'r rhanddeiliaid efallai ei bod yn bryd dileu 'sgiliau sylfaenol', y teitl sy'n cario stigma ac yr ystyrir yn rhy gul. Fodd bynnag, teimlai'r rhanddeiliaid hefyd y dylid cyflwyno addysg sgiliau sylfaenol, ym mha bynnag ffurf, gan staff cymwys.

# Atodiad

## A. Methodoleg

Cynlluniwyd y darn hwn o waith ymchwil gyda dull methodolegol fesul cam i ymgysylltu ag unigolion o grwpiau nas clywir yn aml yn ogystal â rhanddeiliaid y sector mewn proses strwythuredig, linellol. Amlinellir y dull a'r fethodoleg ymchwil a wnaed ar bob cam isod:

i. Y dull recriwtio.

**Grwpiau nas clywir yn aml**

Dewiswyd dau grŵp nas clywir yn aml i'w cynnwys yn y gwaith ymchwil yn seiliedig ar y canfyddiadau a amlygwyd yn yr ymarfer cwmpasu a gwblhawyd cyn y darn hwn o ymchwil. Nododd yr ymarfer cwmpasu ddau grŵp (anghyfyng) i'w cynnwys yn y sampl ymchwil. sef:

**Pobl ag angen sgiliau sylfaenol:**

A ddiffinnir fel pobl â sgiliau sylfaenol islaw Lefel 1.

**Cyflogeion heb gymwysterau:**

A ddiffinnir fel cyflogeion heb gymwysterau ar Lefel 2 FfCChC neu uwch.

Cyn i gam recriwtio'r gwaith ymchwil hwn ddechrau, ystyriwyd nifer o ddulliau gwahanol er mwyn nodi'n llwyddiannus ac yn sensitif y ddau grŵp allweddol o unigolion nas clywir yn aml ac ymgysylltu â hwy. Cymharwyd dau ddull a'u cyferbynnu er mwyn nodi'r strategaeth gywir. Sef:

- Sefydliadau rhanddeiliaid i gyfeirio unigolion at y rhaglen ymchwil.
- Dull ar hap i nodi unigolion sy'n defnyddio holiadur sgrinio.

Cydnabuwyd er y byddai cysylltu â sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion nas clywir yn aml yn golygu ffordd fwy effeithlon o nodi cyfranogwyr perthnasol ar gyfer y gwaith ymchwil, byddai hefyd yn rhoi'r astudiaeth mewn risg o dueddiad sampl. Nodwyd y risg o dueddiad sampl wrth ystyried y mathau o unigolion y byddai sefydliadau yn eu cyflwyno i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, h.y. unigolion sydd eisoes wedi ymgysylltu â gwasanaeth, o bosibl yn gysylltiedig â'u diweithdra neu anghenion sgiliau sylfaenol, unigolion sy'n cynrychioli'r rhai tra llafar neu sy'n crynhoi achos sefydliad y rhanddeiliad.

Felly, dewiswyd dull recriwtio ar hap fel y dull recriwtio mwyaf effeithlon a diduedd. Fodd bynnag, ni chafodd ei ddewis heb ei anawsterau posibl. Mae dull ar hap yn ddull sydd wedi'i dargedu llai o gymharu â chyfeiriadau rhanddeiliaid. Fodd bynnag, credwyd o ystyried bod y gwaith ymchwil yn cael ei gynnal mewn pedair ardal o ddiddordeb daearyddol gwahanol i'r astudiaeth ymchwil, y byddai defnyddio dull

sgrinio mewn lleoliadau penodol (e.e. ger y Ganolfan Byd Gwaith) yn golygu techneg recriwtio effeithiol.

Archwiliodd yr ymgynghoriadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid amrywiaeth o ddulliau posibl i ddiffinio anghenion sgiliau sylfaenol gyda sensitifrwydd a disgresiwn. Datblygwyd yr holiadur sgrinio gydag APADGOS gan ddefnyddio diffiniadau y cytunwyd arnynt o Lefel 1 a Lefel 2, a chafodd ei weinyddu gan recriwtiwr wedi'i hyfforddi, er mwyn nodi unigolion addas i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws a chyfweliadau'r astudiaethau achos.

O fewn diffiniad cyffredinol y rhai hynny ag angen sgiliau sylfaenol a chyflogeion â diffyg cymwysterau, recriwtiwyd grwpiau eraill nas clywir yn aml i'r gwaith ymchwil hwn. Roedd y rhain yn cynnwys unigolion duon a lleiafrifoedd ethnig, dynion hŷn a merched hŷn yn ogystal ag unigolion iau a all syrthio i mewn i'r categori o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Recriwtiwyd cynrychiolwyr rhanddeiliaid o sefydliadau a gwasanaethau â diddordeb mewn cynyddu cyfranogiad ymhlith unigolion nas clywir yn aml. Gweithiodd pob rhanddeiliad ar gyfer yr ymarfer ymgynghori drwy e-bost a'r rhai hynny a aeth ymlaen i gymryd rhan yn y gweithdai yn yr ardal leol gydag unigolion nas clywir yn aml; gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau yn cael eu nodi drwy'r astudiaeth cwmpasu. Ychwanegwyd at y sampl hefyd gyda gwaith ymchwil wrth ddesg ychwanegol cyn y cam recriwtio er mwyn nodi sefydliadau perthnasol yn y pedwar lleoliad ymchwil yng Nghymru.

Dewiswyd amrywiaeth o sefydliadau i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn. Recriwtiwyd rhanddeiliaid o'r meysydd canlynol: asiantaethau cyflogaeth/recriwtio, sefydliadau cymunedol, darparwyr hyfforddiant, addysg, cyflogwyr, ac undebau.

## B. Trosolwg o'r rhaglen ymchwil

### Cam 1. Cynnwys rhanddeiliaid: Ymgynghoriad e-bost

Nodwyd rhanddeiliaid i ddechrau drwy ymarfer cwmpasu a gynhaliwyd cyn i'r prosiect ymchwil sylfaenol ddechrau. Cysylltwyd â detholiad o randdeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau ym mhob un o'r pedwar rhanbarth daearyddol a gofynnwyd iddynt gymryd rhan mewn ymarfer ymgynghori drwy e-bost. Mae'r lleoliadau daearyddol fel a ganlyn:

- Ardal drefol: Caerdydd/Pen-y-bont ar Ogwr.
- Ardal wledig: Gwynedd/Ynys Môn.
- Ardal ôl-ddiwydiannol: Castell-nedd/Port Talbot.
- Blaenau'r Cymoedd: Merthyr Tudful.

I ddechrau, cysylltwyd â phob rhanddeiliad dros y ffôn ac yna gofynnwyd iddynt gymryd rhan yn y prosiect ymchwil ar y cyfan (h.y. eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad dros e-bost a mynychu'r gweithdai i randdeiliaid yn ddiweddarach). Roedd y broses recriwtio hon hefyd yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth leol o'r

rhaglen ymchwil ymhlith unigolion a sefydliadau perthnasol, p'un a oeddent yn gallu cymryd rhan ai peidio.

Recriwtiwyd cyfanswm o bedwar ar hugain o randdeiliaid i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad dros e-bost. O'r pedwar ar hugain, roedd deuddeg rhanddeiliad yn gallu cwblhau'r ddogfen ymgynghori o fewn yr amserlen a roddwyd ar gyfer y cam hwn o'r gwaith ymchwil. Mynegodd pob rhanddeiliad ei farn bersonol a phroffesiynol wrth ymateb i'r ymgynghoriad ac nid barn sefydliad eu cyflogwr.

Gwnaeth rhanddeiliaid o amrywiaeth o sectorau gymryd rhan:

- Asiantaeth cyflogaeth/gyrfaoedd (2 randdeiliad).
- Cyngor lleol (1 rhanddeiliad).
- Cefndir addysgol (1 rhanddeiliad).
- Undeb (4 rhanddeiliad).
- Cyflogwyr (3 rhanddeiliad).
- Sefydliadau cymunedol (1 rhanddeiliad).

Y pum cwestiwn e-bost oedd:

**Cwestiwn 1:** O'ch profiad, beth yw'r tri mater pwysicaf, ar wahân i amser ac arian sy'n atal pobl rhag ennill cymwysterau neu wella eu sgiliau sylfaenol?

**Cwestiwn 2:** Yn eich barn chi, beth sy'n ysgogi pobl gyda sgiliau sylfaenol isel neu ychydig/dim cymwysterau i ddychwelyd i hyfforddiant ac addysg?

**Cwestiwn 3:** Pa broblemau yr oedd angen eu datrys er mwyn annog unigolion i wella eu sgiliau sylfaenol a/neu gymwysterau?

**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw newidiadau neu welliannau i'r ddarpariaeth a'r cymorth angenrheidiol yn eich ardal i hyrwyddo cyfranogiad?

**Cwestiwn 5:** Sut y gall partneriaid gwahanol, yn genedlaethol neu'n lleol, gynorthwyo â'r newidiadau neu'r gwelliannau hyn? Pwy sydd angen eu cynnwys?

### Cam 2. Unigolion nas clywir yn aml: Grwpiau ffocws

Defnyddiwyd un grŵp ffocws ar bymtheg fel rhan o ail gam y prosiect ymchwil hwn; pedwar grŵp ym mhob un o'r pedwar lleoliad rhanbarthol. Recriwtiwyd unigolion i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil drwy ddefnyddio methodoleg ar hap. Isod ceir dadansoddiad o'r 16 o grwpiau ffocws yn ôl rhanbarth a grŵp sampl:

| Rhanbarth | Sampl Un: Anghenion Sgiliau Sylfaenol | Sampl Dau: Cyflogeion |
|---|---|---|
| Ardal ôl-ddiwydiannol: Castell-nedd/Port Talbot | **Grŵp Ffocws 1:** Dynion 19-25 oed | **Grŵp Ffocws 2:** Merched 19-25 oed |
| | **Grŵp Ffocws 15:** rhyw cymysg ethnigrwydd cymysg lledaeniad oedran | **Grŵp Ffocws 16:** rhyw cymysg ethnigrwydd cymysg lledaeniad oedran |
| Ardal wledig: Gwynedd/Ynys Môn | **Grŵp Ffocws 3:** Merched 16-18 oed | **Grŵp Ffocws 14:** rhyw cymysg ethnigrwydd cymysg lledaeniad oedran |
| | **Grŵp Ffocws 6:** Dynion 16-18 oed | **Grŵp Ffocws 12:** Grŵp iaith Gymraeg rhyw cymysg lledaeniad oedran |
| Ardal drefol: Caerdydd/Pen-y-bont ar Ogwr | **Grŵp Ffocws 9:** Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn unig rhyw cymysg lledaeniad oedran | **Grŵp Ffocws 10:** Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn unig rhyw cymysg lledaeniad oedran |
| | **Grŵp Ffocws 11:** rhyw cymysg ethnigrwydd cymysg lledaeniad oedran | **Grŵp Ffocws 13:** rhyw cymysg ethnigrwydd cymysg lledaeniad oedran |
| Blaenau'r Cymoedd: Merthyr Tudful | **Grŵp Ffocws 5:** Dynion 50+ oed | **Grŵp Ffocws 4:** Dynion 19-25 oed |
| | **Grŵp Ffocws 7:** Merched 50+ oed | **Grŵp Ffocws 8:** Dynion 50+ oed |

Roedd pob grŵp ffocws yn para 90 munud ac yn cael eu safoni gan aelod o dîm ymchwil GfK NOP.

Prif fantais grwpiau ffocws ar y cam hwn o'r rhaglen ymchwil oedd ei fod yn hwyluso empathi ac yn meithrin cydberthnasau rhwng cyfranogwyr. Roedd hyn yn galluogi'r tîm ymchwil i nodi cyffredinedd ymhlith cyfranogwyr o ran sgiliau sylfaenol ac yn eu gwneud yn eglur yn ystod y grwpiau ffocws, gan chwalu'r stigma yn ystod trafodaethau. Roedd hyn yn galluogi grwpiau i siarad yn agored am eu hanghenion sgiliau sylfaenol a thrafod ag eraill mewn sefyllfa debyg.

Lle y bo'n briodol, defnyddiwyd tasgau grŵp i helpu'r drafodaeth a chynnal lefelau egni yn y grwpiau. Cymerwyd gofal er mwyn sicrhau nad yw tasgau yn eithrio unrhyw gyfranogwyr ac, yn enwedig wrth gynnal gwaith ymchwil ymhlith y rhai hynny a allai fod â sgiliau sylfaenol isel, roedd yn bwysig peidio â defnyddio tasgau a oedd

yn dibynnu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd. Nid ofynnwyd i gyfranogwyr ar unrhyw bwynt ddangos eu sgiliau sylfaenol.

Roedd y canllaw ar destunau yn canolbwyntio ar bedwar maes eang o archwilio, gan geisio:

- Deall agweddau tuag at gyflogaeth a dysgu yn gyffredinol.
- Archwilio effeithiau profiadau'r gorffennol ar agweddau.
- Archwilio sbardunau a rhwystrau i gymryd rhan.
- Deall y tebygolrwydd o gymryd rhan yn y dyfodol, a ffactorau sy'n effeithio ar hyn.

Hefyd, defnyddiwyd technegau tafluniol fel ymarferion personoli, diagramau locws rheoli a gemau cysylltu geiriau yn ystod y grwpiau ffocws er mwyn cael agweddau a sylwadau a oedd yn anodd/chwithig i'w ynganu.

**Cam 3. Cynnwys rhanddeiliaid: Gweithdai rhanbarthol**

Roedd cyfanswm o 41 o randdeiliaid yn bresennol yn y gweithdai lledaenu ledled Cymru. Cynhaliwyd gweithdai yng Nghaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr (trefol), Merthyr Tudful (Blaenau'r Cymoedd), Castell-nedd/Port Talbot (ôl-ddiwydiannol) a Gwynedd (gwledig). Cafodd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad cychwynnol dros e-bost yn ogystal â'r rhai hynny o sefydliadau eraill, wahoddiad i fynd i'r digwyddiadau. Gwnaeth rhanddeiliaid o amrywiaeth o sectorau gymryd rhan:

- Asiantaeth Cyflogaeth/Gyrfaoedd (x6).
- Y Cyngor/ Llywodraeth (x16).
- Cefndir addysg (x7).
- Sefydliad cymunedol (x3).
- Darparwr hyfforddiant (x2).
- Cyflogwr (x5).
- Undeb (x2).

Yn ogystal â rhanddeiliaid, aeth tri hwylusydd i bob gweithdy er mwyn sicrhau y nodwyd pob darn o wybodaeth berthnasol yn ystod y digwyddiadau. Ar gyfartaledd, mynychodd 10 rhanddeiliad bob gweithdy.

**Gweithdai**

Roedd pob gweithdy yn para hanner diwrnod ac yn dilyn strwythur penodol yn dechrau gyda chroeso cyffredinol ac amlinelliad o'r rhaglen ymchwil. Trefnwyd y gweithdai yn dair adran:

- Cyflwyniad o ganfyddiadau rhagarweiniol y gwaith ymchwil.
- Trafodaethau o anghenion lleol.
- Blaenoriaethu materion i'w datblygu i gam nesaf y rhaglen ymchwil.

Roedd y cyflwyniad ar ganfyddiadau rhagarweiniol yn y gweithdai yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn ymgynghoriad y rhanddeiliaid dros e-bost a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gydag unigolion ag anghenion sgiliau sylfaenol a chyflogeion â rhywfaint o gymwysterau. Cafodd tystiolaeth o'r ddau gam ymchwil ei dadansoddi a'i lledaenu.

**Cam 4. Unigolion nas clywir yn aml: Cyfweliadau astudiaethau achos**

Cynhaliwyd cyfanswm o wyth cyfweliad astudiaeth achos. Cynigiodd pob cyfweliad astudiaeth achos fewnwelediad unigryw i fywydau unigolion, gan gael gwybod am feysydd o'u bywydau a allai fod yn sensitif ac yn bersonol ac yn galluogi'r tîm ymchwil i ddeall nid yn unig eu hagweddau tuag at sgiliau sylfaenol a hyfforddiant pellach ond hefyd pa ffactorau sefyllfaol sy'n effeithio ar eu gallu neu eu dymuniad i wella eu sgiliau sylfaenol. Recriwtiwyd pedwar cyflogai â diffyg cymwysterau, a phedwar unigolyn ag anghenion sgiliau sylfaenol i gymryd rhan yn y cam terfynol hwn o'r gwaith ymchwil. Daethpwyd o hyd i gyfranogwyr yr astudiaeth achos o'r grwpiau ffocws h.y. a oedd eisoes wedi cymryd rhan yng ngham dau o'r rhaglen ymchwil.

Roedd pob cyfweliad astudiaeth achos ar ffurf cyfweliad estynedig gydag arsylwadau gan gyfranogwyr, yn para tua 2-3 awr. Yn ystod y cyfweliadau estynedig hyn, treuliodd yr ymchwilydd amser gyda'r cyfranogwr yn ei gartref, a mynd gydag ef wrth iddo gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd, gan ei gyfweld wrth iddo wneud hynny.

Gan fod pwnc y gwaith ymchwil yn gallu bod yn sensitif, credwyd y byddai'n fanteisiol cyfweld ag unigolion a oedd eisoes wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil, ac felly datblygu cydberthynas sefydledig a grëwyd yn gynharach yn y broses ymchwil.

Roedd y canllaw ar destunau a ddefnyddiwyd yn ystod y cam hwn o'r gwaith ymchwil yn ceisio archwilio'r ysgogiadau, y rhwystrau a'r sbardunau i ddysgu, hyfforddiant ac addysg a brofwyd gan bob unigolyn. Yn ogystal â hyn, profodd y cyfweliadau astudiaethau achos nifer o gysyniadau a gynhyrchwyd yn y gweithdai i randdeiliaid. Ymhlith y cysyniadau hyn roedd:

1. Gall dysgu wella meysydd eraill o'ch bywyd, nid caniatáu i chi gael swydd/cymhwyster yn unig (e.e. iechyd, bywyd cymdeithasol).
2. Gellir defnyddio dulliau meddalwedd y rhyngrwyd (e.e. gêm neu brawf y gallwch ei wneud eich hun) i nodi anghenion dysgu pobl a rhoi gwybod iddynt am sefydliadau a all eu helpu. Gellir defnyddio'r rhain i ddysgu hefyd.
3. Dylid cael mwy o gyfleoedd dysgu i rieni. Bydd hyn yn gwella hyder/dealltwriaeth rhieni ac yn golygu y gallant helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol.
4. Dylai pobl sy'n dechrau cwrs hyfforddiant allu cael cydnabyddiaeth am sgiliau eraill sydd ganddynt (e.e. cyfathrebu, sgiliau trefnu ac ati).
5. Dylid cael sesiynau rhagflas i'r rhai hynny sy'n ystyried dechrau hyfforddiant. Gall rhai arwain at gymwysterau, ond nid oes yn rhaid iddynt wneud hynny o reidrwydd.

6. Dylid cael gwasanaeth mentora neu gymorth gan ddysgwyr eraill cyn, yn ystod ac ar ôl hyfforddiant fel y gellir defnyddio'r hyn a ddysgwyd ar ôl i'r cwrs orffen.
7. Mae clywed am bobl go iawn a straeon go iawn am bobl sydd wedi gwella eu bywydau yn ddefnyddiol wrth annog pobl i ddysgu.

## C. Crynodebau o gyfweliadau astudiaethau achos

### Cyfweliad astudiaeth achos 1

(Port Talbot - Sgiliau Sylfaenol).

### Cefndir

Cynhaliwyd astudiaeth achos 1 gyda Ms H sy'n 40 oed o Bort Talbot. Roedd yn byw gyda'i dwy ferch, a oedd yn 18 oed ac yn 15 oed ac roedd wedi ysgaru. Roedd Ms H yn ddi-waith ond yn achlysurol roedd yn trin gwallt. Ei phrif ddiddordebau yw crosio, gwnïo a gwau. Mae hefyd yn mwynhau mynd allan gyda ffrindiau.

> *"Hyfforddais ac yna roeddwn yn feichiog cyn sefyll yr arholiadau. Oherwydd fy salwch bore ni allwn wneud yr arholiadau."*

Roedd Ms H wedi byw yn yr un ardal erioed. Roedd ei rhieni yn byw dros y ffordd a'i chyn-fam yng nghyfraith yn byw gerllaw. Roedd ei rhieni yn oedrannus ac roedd yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yn gofalu amdanynt ac am ei mam yng nghyfraith. Wrth dyfu i fyny, roedd ei mam yn gweithio mewn tafarn ac roedd ei thad yn osodwr ffenestri. Roedd ganddi frawd a oedd hefyd yn osodwr ffenestri a chwaer oedd yn gweithio i'r DVLA. Nid oedd Ms H yn siŵr a oedd ei rhieni wedi cael unrhyw gymwysterau. Gadawodd hithau a'i brawd yr ysgol heb gymwysterau ond gwnaeth ei chwaer gael rhywfaint o gymwysterau ac aeth ymlaen i'r coleg. Roedd ei merch yn gwneud NVQ mewn trin gwallt. Fel Ms H, dechreuodd ar Gynllun Hyfforddiant Ieuenctid am flwyddyn ac yna aeth ymlaen i'r coleg.

### Cyflogaeth

Gadawodd Ms H yr ysgol yn 15 oed ac ni wnaeth sefyll unrhyw un o'i harholiadau gan nad oedd yn meddwl y byddai'n eu pasio. Gwnaeth gwrs trin gwallt y Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid ar ôl gadael yr ysgol ond gadawodd oherwydd beichiogrwydd. Roedd ar y cwrs am ychydig yn llai na blwyddyn cyn gadael. Aeth yn ôl i drin gwallt ddwy flynedd yn ddiweddarach ond daeth yn feichiog eto felly roedd yn rhaid iddi adael y cwrs. Hefyd, gwnaeth gwrs cyfrifiadurol Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid, a gwblhaodd ar y pryd. Ar ôl cael ei phlant, derbyniodd Ms H swydd yn dadansoddi siartiau i gwmni lorïau. Tra'n gweithio i'r cwmni, cafodd ei symud i'r adran ddosbarthu ond roedd yn anhapus gan ei bod yn teimlo'n anghyfforddus ar y ffyrdd. Gweithiodd Ms H i'r cwmni am 18 mis ond cafodd ei diswyddo pan aeth y cwmni i'r wal.

Mae 18 mlynedd ers i Ms H fod mewn gwaith â thâl llawn amser. Tra roedd ei phlant yn yr ysgol, gweithiodd Ms H fel goruchwyliwr ginio yn rhan amser. Roedd y swydd yn gyfleus iddi gan ei bod yn caniatáu iddi ffitio ei gwaith o amgylch gofalu am ei phlant. Hefyd, gweithiodd Ms H yn yr ysgol yn wirfoddol am gyfnod ond rhoddodd y

gorau i hynny gan ei bod yn ymwybodol fod pobl eraill yn cael eu talu am yr un gwaith ac yn cael cynnig hyfforddiant. Roedd wedi cynhyrfu gan y ffaith na chynigiwyd unrhyw hyfforddiant iddi a chred y gallai fod wedi cael swydd â thâl pe byddai wedi'i hyfforddi'n briodol. Ar y pryd, roedd ei merch hefyd yn gadael yr ysgol gynradd felly teimlai nad oedd angen parhau i weithio yno.

> *"Roedd yn drefn rhannu swydd oherwydd ni allem ennill mwy na £15 ar y pryd. Felly byddai un fam yn gwneud dau ddiwrnod ac roeddem yn ei rannu felly."*

> "*Roedd ganddynt y cyrsiau hyn lle roeddent yn cyflogi pump neu chwech o bobl ac roeddent yn cael eu talu ac roeddwn yn meddwl y dylent yn sicr fod wedi cynnig hynny i mi...Roedd yn fy nghythruddo oherwydd roeddwn yn meddwl y gallwn fod wedi hyfforddi a chael rhywbeth ar ei ddiwedd ond roeddent yn fy nefnyddio am ddim."*

Roedd Ms H yn ceisio dod o hyd i waith mewn archfarchnadoedd lleol lle roedd rhai o'i ffrindiau'n gweithio ac roedd yn cael cymorth gan y Ganolfan Gwaith leol i ysgrifennu CV. Gwirfoddolodd fel ysgrifenyddes/cyfarwyddwr rheoli fforwm ieuenctid yn yr ardal leol ac roedd rhan o'i rôl yn gofyn iddi ysgrifennu CV er mwyn gwneud cais am arian y loteri. Roedd wedi gofyn i ffrind, cynghorydd lleol a chadeirydd y fforwm ieuenctid i'w helpu gydag ysgrifennu CV. Cynigiodd ei ffrind ei helpu ond yn y pen draw ysgrifennodd y CV iddi.

> *"Maen nhw (Y Ganolfan Gwaith) am fy anfon ar gwrs hyfforddi i ddysgu sut i ysgrifennu CV oherwydd nid oes gen i syniad ble i gychwyn."*

> *"Pan wnaeth [fy ffrind] ei ysgrifennu, meddyliais 'Argol, ai fi yw hwnna?' Fi ydoedd ond nid oeddwn erioed wedi meddwl amdanaf fy hun yn y ffordd honno."*

**Trefn ddyddiol**

Roedd trefn Ms H yn cynnwys trefnu ei phlant a gofalu am ei chyn-fam yng nghyfraith a'i rhieni. Ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau byddai'n mynd â'i mam a'i mam yng nghyfraith allan i siopa ac yn gwneud pethau iddynt o amgylch y tŷ. Treuliodd Ms H lawer o amser yn gofalu am eraill ac nid oedd ganddi lawer o amser i'w hun. Yn aml byddai'n peidio â gwneud gwaith tŷ a byddai'n well ganddi fynd allan o'r tŷ.

> *"[Rwy'n blaenoriaethu] pawb arall heblaw fi fy hun. Mae gennyf weithiau bum munud i fi fy hun ond ddim yn aml iawn.]"*

**Ffynonellau gwybodaeth**

Cafodd Ms H y rhan fwyaf o'i gwybodaeth o wylio'r teledu, darllen papurau newydd neu drwy "achlust". Nid oedd yn gwylio'r teledu yn ystod y dydd gan nad oedd fel arfer yn y tŷ ond roedd yn mwynhau gwylio operâu sebon fel Hollyoaks ac Eastenders gyda'r nos. Pan fyddai yn nhŷ ei rhieni, weithiau byddai Ms H yn gwylio rhaglenni 'sut i wneud pethau' fel 'How it was Made' gyda'i thad. Weithiau byddai'n gwylio newyddion ITV gyda'r nos ond ddim yn rheolaidd. Roedd gan Ms H deledu

digidol Virgin media yn ei chartref gan na allai gael Freeview yn ei hardal. Byddai'n gwylio operâu sebon 'ar gais' pe byddai'n methu rhywbeth. Y sianelau y byddai'n eu gwylio gan amlaf oedd Channel 4, ITV, BBC1 (dim ond ar gyfer Eastenders) a BBC2 (Springwatch). Ar deledu digidol, roedd yn mwynhau gwylio hen sianelau teledu fel Challenge TV, a oedd yn dangos hen sioeau gemau. Weithiau byddai hefyd yn gwylio'r sianel siopa. Nid oedd yn gwylio sianelau Cymraeg, oni bai am S4C, gan nad oedd yn siarad Cymraeg.

> *"Er nad wyf yn gweithio, nid oes gen i amser. Mae pobl yn meddwl gan nad ydw i'n gweithio mod i'n gwneud dim."*

> "*Ni allaf ei ddeall. Rwy'n gallu deall ambell air ond byddwn wrth fy modd yn mynd ati i ddysgu Cymraeg oherwydd dw i'n teimlo'n hollol anwybodus nad ydw i'n ei siarad."*

Weithiau byddai Ms H yn darllen papur newydd The Sun ond ni fyddai'n ei brynu ei hun. Roedd ei mam a'i mam yng nghyfraith yn prynu papurau newydd tabloid dyddiol felly byddai'n darllen y papur pe byddai yn eu cartrefi. Ar gyfer newyddion lleol, byddai'n darllen y Welsh Mirror ac yn achlysurol yr Evening Post. Yn anaml y byddai'n gwrando ar y radio ond weithiau byddai'n gwrando ar Radio 1 neu The Wave yn y car.

> *"Os ydw i yn nhŷ fy mam yng nghyfraith byddaf yn darllen The Mirror ond yn anaml iawn y byddaf yn prynu papur ... Rydych yn clywed y newyddion beth bynnag ac rydych yn meddwl fod prynu'r papur yn wastraff arian weithiau."*

> *"Yn fwy aml na pheidio, byddaf yn ei ddiffodd [y radio] pan maent yn siarad gan ei fod yn mynd ar fy nerfau."*

Nid oedd Ms H yn defnyddio'r rhyngrwyd yn aml ac nid oedd yn teimlo'n hyderus iawn yn defnyddio cyfrifiaduron. Byddai ond yn defnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion penodol ond roedd wedi bod ar y rhyngrwyd yn ddiweddar i chwilio am swyddi ar wefan y ganolfan byd gwaith. Roedd yn cael hyn yn anodd gan na allai ddod o hyd i'r wybodaeth roedd am ei chael. Tybiodd fod hyn yn digwydd gan ei bod wedi gwneud camgymeriad wrth nodi manylion y lleoliadau lle roedd yn chwilio am waith.

> *"Roeddwn yn nodi swyddi lleol ac roeddent yn anfon swyddi o bob man ataf ac roeddwn yn meddwl nad oeddwn wedi'i gael yn iawn."*

### Cynlluniau hirdymor

Roedd Ms H yn chwilio am swydd yn hytrach na gyrfa, ond o ran gyrfa roedd ganddi ddiddordeb mewn gweithio ym maes gofal a theimlai fod ganddi ddigon o brofiad o ofalu, ar ôl gofalu am ei rhieni a'i mam yng nghyfraith. Roedd hefyd wedi helpu i ofalu am ei chymydog oedrannus y drws nesaf cyn iddi symud i gartref nyrsio. Roedd Ms H yn ymwybodol y byddai angen cymwsyterau arni i ddod yn ofalwr ac nid oedd yn meddwl y byddai ei phrofiad yn cyfrif llawer. Awgrymodd brawd Ms H iddi ddechrau ei busnes ei hun yn gofalu am y bobl oedrannus yn yr ardal leol ond teimla na fyddai'n gallu gwneud hyn gan nad oedd ganddi'r sgiliau mathemateg i allu cadw'r cyfrifon.

*“Rhaid i chi gael yr NVQ. Bydd rhai yn eich cymryd hebddo ond mae'n rhaid i chi gael profiad nad oes gen i. Wel, mae gen i gan fy mod wedi gweithio gyda'r henoed, fel fy mam a'n nhad yng nghyfraith ... ni fyddwn yn poeni am wneud NVQ gofal a mynd i mewn i faes gofal ond mae'n rhaid i chi fod yn gweithio a does gen i ddim cymwysterau i roi ar fy CV.”*

**Dysgu a rhwystrau**

Roedd gan Ms H farn gadarnhaol o hyfforddiant a dywedodd ei bod yn mwynhau'r amrywiaeth o wneud hyfforddiant. Yn ddiweddar roedd wedi hyfforddi mewn crefftau, sef ei phrif ddiddordeb, ond roedd wedi rhoi'r gorau i'r hyfforddiant gan ei bod yn teimlo ei bod yn deall gormod ar gyfer y cwrs. Roedd ganddi dystysgrifau ar gyfer crosio a gwobr cadetiaid y môr am ddylunio a gosod cegin. Nid oedd Ms H yn credu y byddai'r tystysgrifau hyn yn ei helpu i ddod o hyd i waith gan nad oeddent ar gyfer sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith. Ar yr adeg hon yn ei bywyd, teimla Ms H y byddai'n dda dychwelyd i hyfforddiant gan ei bod yn ymwybodol bod ei phlant yn mynd yn hŷn ac na fyddent gartref am lawer hirach. Dywedodd Ms H y byddai am fynd ar yr un cwrs â'i merch pe byddai'n dychwelyd i hyfforddiant.

*“Rwyf wedi gwneud ambell beth ond dim byd y gallech ei roi mewn ffolder o gyflawniadau a dweud 'rhowch swydd i mi gan fy mod yn gallu crosio.' Gallwn fynd i'w ddysgu ond peidiwch â gofyn i mi wneud y gwaith papur.”*

Dywedodd Ms H y byddai'n teimlo'n fwy hyderus pe byddai'r bobl a fyddai ar ei chwrs ar yr un lefel â hi. Byddai'n well ganddi hefyd gael rhywun ar yr un lefel yn addysgu'r cwrs ac yn datblygu'n araf. Yn flaenorol roedd wedi ymweld â'i merch ar ei chwrs trin gwallt yn y coleg ac yn teimlo bod yr awyrgylch yn ymlaciol iawn. Teimlai y byddai'n gallu rheoli hyfforddiant pe byddai'r awyrgylch yn debyg i'r hyn a welodd ar gwrs ei merch. Teimlai Ms H y byddai'n fanteisiol iddi arsylwi cwrs cyn iddi gofrestru fel y byddai'n ymwybodol o'r sefyllfa ac yn teimlo'n fwy hyderus.

*“Pe byddech yn mynd i mewn i ddysgu ar lefel araf ac y byddech yn gallu ei wneud yn iawn, gallech symud i fyny rhywfaint yn hytrach na mynd i mewn i'r pen dyfnaf a meddwl 'Alla i ddim ymdopi â hyn'. Pe byddech yn gallu dysgu mewn camau ac y gallech ofyn am gymorth.”*

Roedd Ms H yn ansicr o'r broses o wneud cais am gyrsiau hyfforddi. Roedd ei merch wedi llenwi ei ffurflenni cais coleg ei hun felly nid yw erioed wedi profi'r broses. Dywedodd y byddai'n ei chael yn anodd ysgrifennu llythyrau, llenwi ffurflenni a threfnu ei hamser. Ar hyn o bryd, mae wedi osgoi ysgrifennu llythyrau a byddai'n well ganddi siarad â phobl ar y ffôn. Roedd hefyd yn poeni pe byddai'n gwneud cais am gwrs y gofynnir iddi am ei chymwysterau blaenorol ac na fyddai ganddi unrhyw beth i'w ddangos.

*“Rwy'n teimlo bod gwaith papur yn fy nal yn ôl. Dyna pam rwy'n gwneud cais am swyddi a phethau felly. Pe byddwn wedi gwneud mwy o Gymraeg a mathemateg yn yr ysgol byddwn wedi gallu ei wneud, ond nid wyf yn teimlo fel y gallwn ei wneud nawr ... Pa mor ddwl y byddent yn meddwl ydw i pe byddwn yn sillafu rhywbeth yn anghywir neu'n cynnwys y pethau anghywir?”*

Roedd nifer o ffactorau wedi effeithio ar hyder Ms H dros y blynyddoedd, gan gynnwys ei pherthynas â'i gŵr a'i phrofiadau o fwlio yn yr ysgol. Roedd Ms H dros bwysau ac wedi cael ei bwlio o'r herwydd. Teimlai fod ei phwysau yn rhwystr o hyd ac yn effeithio ar ei hyder wrth wneud cais am swyddi. Roedd Ms H yn dioddef o byliau o banig wrth fynd allan yn gyhoeddus ac weithiau ni allai adael ei thŷ. Cafodd gyffuriau gwrth-iselder gan ei meddyg ar gyfer materion meddygol eraill ond mae wedi parhau i'w cymryd gan eu bod wedi gwneud iddi ymlacio mwy. Cuddiodd ei phroblemau o ran hyder rhag ei theulu a dywedodd na fyddai wedi datgelu ei phroblemau pe byddai ei merched wedi bod yn yr ystafell. Cyfaddefodd Ms H mai prin oedd ei sgiliau llythrennedd a rhifedd a oedd hefyd yn ffactor a oedd yn effeithio ar ei hyder. Roedd yn cael trafferth darllen ac ysgrifennu a byddai'n aml yn dibynnu ar ei merched i'w helpu. Roedd yn cadw dogfennau pwysig yn nhŷ ei rhieni gan ei bod yn teimlo y byddent yn ddiogel yno. Dywedodd hefyd y byddai'n taflu llythyrau i ffwrdd os nad oedd yn gallu eu darllen na'u deall.

> *"Nid wyf yn dda iawn am roi pethau i lawr ar bapur. Ni allaf sillafu, rwy'n sillafu fel rwy'n siarad. Pe byddwn yn darllen, byddwn yn darllen yr un llinell drosodd a throsodd. Dywedodd rhywun y gallwn fod ar y ffin o fod yn ddyslecsig ond nid wyf erioed wedi mynd i lawr y llwybr hwnnw ond ar ôl gweld pobl eraill, sut maent wedi datblygu, rwy'n meddwl 'wel, dylwn fod wedi cael cymorth pan roedd yno."*

Pe byddai Ms H yn ystyried dychwelyd i hyfforddiant byddai'n cysylltu â sefydliad Addysg Bellach neu'n mynd i'r Coleg lleol. Byddai'n cael taflen gan y cyngor neu'n ffonio'r swyddfa addysg am gyngor i holi am gyrsiau am ddim a chyrsiau rhagflas. Ar gyfer cyrsiau TG byddai'n mynd i Ysgol neu lyfrgell lleol.

**Cyfweliad astudiaeth achos 2**

(Port Talbot - Sgiliau Sylfaenol).

**Cefndir**

Cynhaliwyd astudiaeth achos 2 gyda Mr W, dyn 22 oed o Bort Talbot. Roedd Mr W wedi byw ym Mhort Talbot ar hyd ei oes. Bu'n byw gyda'i fam a'i chwiorydd tan ddiwedd 2008 ond cafodd broblemau teuluol felly gadawodd ei gartref. Roedd wedi symud o un fflat i'r llall ers gadael ei gartref ac yn byw yn ei fflat bresennol am chwe mis. Mae'r fflat mae ynddi ar hyn o bryd yn llety'r Gymdeithas Dai. Mae gweddill teulu Mr W yn dal i fyw ym Mhort Talbot. Teimlai ei fod wedi dod yn 'ddafad ddu' y teulu gan ei fod am gael gyrfa a oedd yn wahanol i weddill ei deulu nad oedd am ddatblygu yn y gwaith.

> *"Maent i gyd yn byw o fewn dau funud i'w gilydd ac yna rydw i ar y ffiniau."*

Roedd Mr W yn un o 11 o blant a'r unig fachgen. Ef oedd y trydydd hynaf o'r plant. Aeth ei chwaer hynaf i'r coleg i astudio gofal plant ac roedd yn y brifysgol. Gadawodd ei chwaer hŷn arall yr ysgol heb gymwysterau ond cafodd ei helpu i mewn i swydd gan ffrind ac roedd yn ddirprwy reolwr ar siop trin gwallt.

*“"Mae [fy chwaer hynaf] yn cyflawni ei breuddwyd ac mae'n llawer hapusach o'r herwydd."*

*"Mae [fy chwaer hŷn] wedi syrthio i mewn iddo. Nid yw'n rhywbeth y byddai wedi'i wneud pe byddai wedi gwneud ymdrech yn yr ysgol.”*

**Ers Addysg**

Gadawodd Mr W yr ysgol yn 18 oed. Safodd ei arholiadau TGAU ond methodd Cymraeg, Mathemateg a Saesneg. Cafodd astudio lefel A seicoleg yn seiliedig ar ei raddau eraill ond methodd. Teimlai fod ei ffrindiau wedi dwyn ei sylw a'i fod wedi chwarae o gwmpas yn yr ysgol a nododd hyn fel y rheswm y tu ôl i'w fethiant. Aeth i ysgol Gymraeg ac weithiau roedd wedi cael trafferth siarad am rai cysyniadau yn Saesneg. Roedd Mr W yn difaru peidio ag ennill lefelau A. Nododd ei fod wedi siomi ei hun ar ôl cael canlyniadau ei arholiadau ac roedd yn biti ganddo na fyddai'n cael eu sefyll eto.

*“Cefais fy magu gyda'r Gymraeg, felly pan rwy'n siarad am bethau rwy'n dal i newid i Gymraeg, ac mae'n anodd iawn ... pe byddai gennyf hyd yn oed y TGAU sylfaenol, Cymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Saesneg, byddai wedi bod o gymorth mawr i mi.”*

Ar ôl gadael y coleg, ceisiodd Mr W ddod o hyd i waith ym maes electroneg gan fod hyn o ddiddordeb mawr iddo. Hefyd, chwiliodd am waith llaw ym maes adeiladu a labro. Credai mai'r math hwn o waith fyddai fwyaf priodol iddo gan nad oedd ganddo gymwysterau. Yn y pen draw llwyddodd i ddod o hyd i swydd fel cynorthwy-ydd gweinyddol mewn cwmni ceir. Nododd iddo fod yn lwcus o gael y swydd gan nad oedd ganddo CV da ond ei fod yn gallu creu argraff dda mewn cyfweliad. Roedd Mr W wedi mwynhau ei swydd ac roedd wedi llwyddo i ddatblygu'n gyflym. Dechreuodd yn llunio taflenni apwyntiadau ond creodd argraff ar ei gyflogwyr a chafodd fwy a mwy o gyfrifoldebau. Ar y pryd, roedd Mr W hefyd wedi bod yn gyfrifol am ofalu am ei fam anabl. Golygodd y cynnydd mewn cyfrifoldeb iddo golli hyblygrwydd y swydd ac ni allai ei chynnal tra'n gofalu am ei fam. Yn y pen draw, bu'n rhaid iddo adael ei swydd ar ôl naw mis ac ni allai ddod o hyd i swydd arall a oedd yn gyfleus gyda gofalu am ei fam. Dechreuodd wneud gwaith gwirfoddol mewn ysbyty i bobl ag anabledd meddyliol ond bu'n rhaid iddo adael ei swydd gan fod un o'r cleifion wedi cymryd ato ac wedi'i ddilyn adref.

*“Mae pobl yn edrych ar fy CV ac maent yn tynnu wyneb oherwydd ar bapur mae'n edrych yn ofnadwy. Roeddwn yno gan fod rhywun wedi cymryd y cyfle hwnnw ac wedi rhoi'r cyfle hwnnw i mi ac roedd yn dda i mi gan fy mod yn gwybod y gallwn ei wneud ac roedd yn ffordd i mi ddangos i bobl nad oedd cymwysterau yn golygu unrhyw beth mewn gwirionedd.”*

**Trefn ddyddiol**

Cofrestrodd Mr W gyda chymdeithas hyfforddi a cheisiodd ddod o hyd i waith. Cafodd ei gyfeirio at y gymdeithas gan y Ganolfan Byd Gwaith ond roedd yn mynd yno sawl tro mewn wythnos yn fwy na'r hyn a oedd yn ofynnol gan ei fod mor awyddus i ddod o hyd i swydd. Roedd y gymdeithas wedi'i anfon ar nifer o leoliadau

gwaith ac roedd yn dod i ddiwedd lleoliad gwaith ar adeg y cyfweliad. Roedd ei leoliad gwaith yn cynnwys helpu dyn i agor siop deuluol ac roedd ei swydd yn cynnwys gwaith llafur yn bennaf, sef glanhau'r siop a mynd i'r warws talu a chario. Roedd yn gadael y lleoliad gwaith gan ei fod yn teimlo nad oedd unrhyw beth iddo ei wneud ac roedd am fynd i mewn i faes gwaith gofal a chymorth yn ddelfrydol. Roedd y gymdeithas hyfforddi yn ceisio dod o hyd i ragor o brofiad gwaith priodol iddo. Arferai Mr W ddioddef o 'anhwylder cwsg addasol', a fyddai'n achosi iddo ddeffro'n hwyr yn y prynhawn aheb fod yn ymwybodol o'r amser. O ganlyniad, bu'n rhaid iddo gadw at drefn o ddeffro am 7am. Byddai'n mynd i redeg neu nofio yn y bore ac yna'n cyfarfod â ffrindiau yn y dref cyn mynd ymlaen i'r gymdeithas hyfforddi. Roedd ei leoliad gwaith yn dechrau gyda'r nos.

> *“Maent yn eich anfon ar leoliad gwaith o amgylch lle rydych yn byw er mwyn cael profiad mewn rhywbeth rydych am ei wneud ... Maent yn fy helpu i lunio llythyr eglurhaol gwell, er mwyn ceisio gwerthu fy hun yn fwy.”*
>
> *Mae yna gartref nyrsio gerllaw ac rwyf wedi holi ynglŷn ag ef ac maent am geisio fy nghael i yno nawr.”*

**Ffynonellau gwybodaeth**

Anaml iawn mae Mr W yn gwylio'r teledu. Treuliodd sawl blwyddyn mewn eglwys Gristnogol ailanedig lle nad oedd teledu yn cael ei ganiatáu ac nid oedd wedi dychwelyd i wylio'r teledu ers iddo adael. Amcangyfrifodd ei fod wedi treulio uchafswm o ½ awr yr wythnos yn gwylio'r teledu. Byddai'n gwylio Whitton News a'r newyddion yng Nghymru os o gwbl. Anaml y byddai'n gwrando ar y radio. Treuliai Mr W y rhan fwyaf o'i amser yn darllen llyfrau. Amcangyfrifodd y byddai'n treulio tua 7-8 awr y dydd yn darllen. Byddai Mr W yn benthyg llyfrau o'r llyfrgell gan nad oedd ganddo'r arian i brynu llyfrau. Roedd yn ymweld â'r llyfrgell 3-4 gwaith yr wythnos i ddychwelyd llyfrau roedd wedi'u darllen a chymryd rhai newydd allan. Ar gyfer newyddion, roedd Mr W yn darllen yr Evening Post a'r Metro. Nid oedd yn darllen y papur newydd bob dydd, dim ond wrth deithio neu er mwyn dal i fyny gyda'r newyddion.

> *“Dim ond er mwyn i mi gael y newyddion diweddaraf y mae mewn gwirionedd. Byddaf yn ceisio dal y newyddion bob hyn a hyn fel nad ydw i'n edrych fel hurtyn pan mae pobl yn gofyn i mi 'wnes di glywed am hyn?”*
>
> *“Rwy'n darllen gan amlaf. Rwyf wrth fy modd yn darllen. Rwy'n darllen drwy'r amser felly rwy'n cael y rhan fwyaf o'm gwybodaeth o ddarllen.”*

Nid oedd gan Mr W y rhyngrwyd ond weithiau byddai'n defnyddio'r cyfrifiadur yn y llyfrgell i fynd ar-lein. Byddai'n defnyddio'r rhyngrwyd tuag unwaith yr wythnos a byddai fel arfer yn edrych ar Facebook a thisissouthwales.co.uk. Yn achlysurol byddai'n chwarae gemau ar-lein ond ni allai enwi unrhyw un. Os oedd angen gwybodaeth arno, fel arfer byddai Mr W yn ffonio ffrind ac yn gofyn iddo edrych amdani ar y rhyngrwyd iddo.

*“Rwy'n cael darnau gwahanol o wybodaeth o bob man ac rwy'n ei rhoi i gyd at ei gilydd, yna rwy'n gwybod beth sy'n digwydd. Ond ni fyddwn yn dweud bod un lle penodol rydw i'n cael popeth ohono.”*

**Cynlluniau hirdymor**

Yn ddiweddar roedd Mr W wedi canfod drwy ffrind bod banc yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i weithio yn eu canolfannau galwadau. Ni restrwyd y swydd ar-lein ond roedd ganddo gyswllt yn y gymdeithas hyfforddi, ac roedd aelod o'i deulu yn gweithio i'r banc. Cafodd Mr W rybudd cynnar felly ef oedd y cyntaf i wneud cais am y swydd. Roedd wedi cael galwad i ddweud ei fod yn mynd i gael cyfweliad dros y ffôn. Gobaith Mr W oedd gweithio i'r banc yn y dyfodol agos er nad hyn yw ei nod yn yr hirdymor. Yn y tymor hwy, roedd Mr W am ddychwelyd i addysg llawn amser ac ennill rhywfaint o gymwysterau. Gobeithiai allu dychwelyd i addysg unwaith roedd wedi setlo mewn swydd llawn amser.

*“Bydd yn dechrau drwy ffonio cwsmeriaid neu rywbeth felly ond mae cyfle i ddatblygu. Gobeithio os byddaf yn dangos fy mod yn dda ar rywbeth penodol y byddaf yn gallu symud i adran arall. Nid gwaith mewn canolfan alwadau yw fy nghenhadaeth mewn gwirionedd."*

*"Nid yw'n swydd ddelfrydol. Byddwn wrth fy modd yn dychwelyd i faes seicoleg, neu rywbeth sy'n ymwneud â gofalu, neu yn niffyg hynny, electroneg. Ond ar hyn o bryd rwy'n cymryd beth sy'n dod ac yn hapus gyda beth bynnag a deflir ataf mewn gwirionedd.”*

**Cyflogaeth**

Mae Mr W wedi bod yn chwilio am waith am y flwyddyn ddiwethaf ond mae wedi disgrifio ei hun fel person "aflwyddiannus iawn" yn y broses o ddod o hyd i swydd. Teimlai fod hyn yn wir gan ei fod yn gadael ei hun i lawr ar bapur. Roedd Mr W wedi colli hyder yn y broses o chwilio am waith. Yn wreiddiol roedd yn meddwl y byddai'n dod o hyd i rywbeth yn yr ychydig fisoedd cyntaf o chwilio ond wrth i amser fynd yn ei flaen, sylweddolodd pa mor anodd roedd am fod. Teimlai Mr W fod ei fethiant i ddod o hyd i swydd yn deillio o lefel y gystadleuaeth a'r ffaith fod cyflogwyr yn fwy tebygol o gyflogi'r rhai hynny a oedd wedi ennill cymwysterau yn yr ysgol. Teimlai Mr W y byddai'n parhau i golli hyder os na fyddai'n gallu dod o hyd i waith yn y flwyddyn nesaf, yn enwedig gan ei fod gyda chymdeithas hyfforddi ac yn teimlo y dylent fod yn gallu dod o hyd i rywbeth iddo. Er y disgrifiodd Mr W ei hun fel person hyderus a oedd yn barod i 'fwrw ati', roedd ganddo hefyd ffactorau personol yn effeithio ar ei hyder, fel ei dueddiad i siarad ag atal dweud pan mae'n nerfus.

*“Mae gan rywun sydd wedi gwneud ymdrech [yn yr ysgol] 100% yn fwy o gyfle o gael swydd na rhywun fel fi. Fel darpar gyflogwr ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth i mi pe byddai unigolyn yn glên ac yn hyderus. Y peth cyntaf y byddwn yn chwilio amdano fyddai cymwysterau a graddau."*

*"Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi gwneud cais am filoedd o swyddi, a dywedodd un allan o fil 'efallai'. Mewn gwirionedd roeddwn yn meddwl y byddai o leiaf un person wedi dweud 'pam lai, fe rof i gynnig arnat ti', ond mae*

*wedi bod yn unfrydol mewn gwirionedd. Mae'n rhoi cnoc i'ch hyder am nad ydw i hyd yn oed yn cael y cyfle i ddangos beth y galla i ei wneud.”*

**Dysgu a rhwystrau**

Roedd Mr W yn aelod o fwrdd ymddiriedolwyr ei gymdeithas dai a ofynnodd iddo fod yn aelod o'r bwrdd fel llais y bobl ifanc yn ei ardal. Roedd ganddo'r cyfrifoldeb o geisio cynyddu nifer y bobl ifanc ar y bwrdd, yn ogystal â gwneud penderfyniadau am y broses o redeg y Gymdeithas Dai. Roedd wedi bod ar nifer o gyrsiau hyfforddi fel rhan o'i rôl. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant ar negodi, cyfathrebu effeithiol ar lafar, hyfforddiant mewn sut i ddelio ag aelodau eraill o'r bwrdd a sut i ddefnyddio pŵer y feto. Roedd yn rhaid iddo ddilyn cwrs addasrwydd mathemateg pan gofrestrodd am hyfforddiant gan ei fod wedi methu mathemateg TGAU.

*“Roedd gen i ychydig o gywilydd mewn gwirionedd. Mae'n gwneud i mi feddwl na fyddai cyflogwr am fynd i'r drafferth honno.”*

Roedd Mr W wrth ei fodd yn dysgu a dywedodd ei fod wedi mwynhau ei amser yn yr ysgol. Roedd am ddychwelyd i addysg ffurfiol ond oedd ddim yn gwybod sut. Roedd angen cyngor arno ar sut i ddechrau arni a theimlai fod y ffynonellau o wybodaeth roedd wedi'u cael yn rhoi cyngor anghyson. Er y byddai wedi mynd i gyngor gyrfaoedd fel cam cyntaf, teimlai nad oeddent wedi'i helpu yn y gorffennol felly ni fyddai'n dychwelyd atynt. Pe byddai'n chwilio am gyngor nawr, byddai yn ôl pob tebyg yn mynd i'r Gymdeithas Dai, gan eu bod wedi'i helpu i ddechrau hyfforddiant yn y gorffennol.

*“Rwyf wedi cael un person yn dweud na fydd yn costio dim i ti ac yna rhywun arall yn dweud y bydd yn costio hyn a hyn gan dy fod yn 22 oed a rhywun arall yn dweud dy fod yn iawn os wyt ti o dan 25 oed. Mae'n ddryswch llwyr. Rwyf wedi siarad â'r hyn rwy'n gredu sy'n weithwyr proffesiynol ac ni allai un ohonynt roi ateb uniongyrchol i mi.”*

Byddai Mr W yn dychwelyd i ailsefyll ei TGAU a lefelau A ond teimla efallai ei fod wedi'i adael yn rhy hwyr. Byddai'n fodlon rhoi arian o'r neilltu i ddychwelyd i'r ysgol pe byddai'n gweithio. Roedd yn teimlo'n fwy penderfynol i ddysgu gan ei fod bellach wedi bod mewn ysgol gan y byddai'n cymryd cyfrifoldeb amdano'i hun ac nid yn dysgu am fod yn rhaid iddo. Hefyd, teimlai Mr W ei fod mewn amgylchedd gwell i ddysgu na'r hyn a gafodd tra'n yr ysgol. Creda nad oedd yn gallu dysgu gartref gan fod ganddo deulu mawr a bod pobl yn ymyrryd o hyd. Byddai Mr W yn fodlon ailddysgu pynciau roedd wedi'u methu yn y gorffennol ond dywedodd y byddai'n teimlo'n rhwystredig yn gwneud hyn. Byddai'n hapusach, ac efallai'n dawelach ei feddwl yn dysgu am bethau newydd gan ei fod yn teimlo y byddai hyn yn fwy diddorol.

*“Rwyf am wneud rhywbeth ohonof fy hun ac rwyf am wneud rhywbeth gyda fy mywyd. Rwy'n casáu'r ffaith na allaf ddechrau arni. Mae gennyf ymdeimlad o siomedigaeth gan fy mod yn gwybod ynof fy hun y gallwn fod wedi gwneud yn well ac y gallaf wneud yn well ond oherwydd fy mai gwirion fy hun nid wyf yn cael y cyfle."*

*"Mae'n rhwystredig iawn gan fy mod yn edrych arno ac mae'n gyfarwydd ond nid yw yno. I mi, mae'n annifyr iawn pan rwy'n edrych ar rywbeth ac yn gwybod fy mod yn ei wybod ond ni allaf ei gofio."*

I Mr W, y prif rwystr i ddychwelyd i hyfforddiant fyddai pris dychwelyd a'r ofn o golli budd-daliadau. Nid oedd ganddo broblem gyda'r amser na'r lefel na'r math o amgylchedd dysgu, er bod angen amgylchedd tawel arno i allu canolbwyntio. Er gwaethaf peidio â chael car, nid ymddengys bod trafnidiaeth yn broblem fawr. Nid oedd gan Mr W broblem gyda defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, cydnabu y gallai fod yn broblem o bosib yn dibynnu ar ba mor bell sy'n rhaid iddo deithio. Nid oedd gan Mr W unrhyw broblemau gyda'r mathau o ddysgwyr fyddai yn yr un dosbarth ag ef a dywedodd y byddai'n mwynhau cymysgu â gwahanol fathau o bobl. Hefyd, nid oedd ganddo unrhyw broblemau gyda'r math o hyfforddwr fyddai'n addysgu'r cwrs. Nid oedd ofn asesiadau arno a theimlai ei fod yn ddigon hyderus i sefyll arholiadau a phrofion. Hefyd, nid oedd ganddo unrhyw broblemau gyda'r posibilrwydd o feddu ar ormod o gymwysterau.

*"Ar hyn o bryd dyw hi ddim yn opsiwn. Pe bawn yn ceisio mynd yn ôl i'r ysgol byddwn yn colli fy fflat ac ni fyddai gennyf rywle i fyw."*

*"Mae mor bwysig i mi fel pe byddwn yn dychwelyd i addysg y byddwn yn ffitio pethau o'i amgylch. Dyma fyddai'r peth cyntaf ar fy rhestr."*

Nodwyd Mr W fel rhywun gydag anghenion sgiliau sylfaenol yn seiliedig ar ei gyflawniadau academaidd (nid TGAU Cymraeg, Saesneg na Mathemateg). Fodd bynnag, fel gydag unigolion eraill yn y gwaith ymchwil hwn a nodir ag anghenion sgiliau sylfaenol, mae wedi parhau i ddysgu heb gymorth ffurfiol.

*"Nid wyf yn meddwl y gallwch [oresgyn anghenion sgiliau sylfaenol]. Credaf ei fod yn dwll mor fawr ... ni allwch ysgrifennu ar CV 'Nid oes gennyf gymhwyster mathemateg ond rwy'n dda mewn mathemateg."*

**Cyfweliad astudiaeth achos 3**

(Caerdydd - Sgiliau Sylfaenol).

**Cefndir**

Cynhaliwyd astudiaeth achos 3 gyda Mrs K, merch 27 oed o Gaerdydd. Roedd Mrs K wedi priodi gyda thri phlentyn, merch sy'n wyth oed, a dau fab sy'n 2½ oed a 14 mis oed. Roedd yn wraig tŷ ac yn byw yng nghartref ei thad yng nghyfraith gyda'i gŵr, plant a rhieni yng nghyfraith. Roedd wedi byw yn y cartref am ychydig dros 10 mlynedd. Ganwyd Mrs K ym Mhakistan. Daeth i'r DU fel plentyn ond nid oedd ei rhieni yn meddwl fod y DU yn amgylchedd da ac nid oeddent yn meddwl y byddai'r addysg yn dda iddi. Aeth yn ôl i Bakistan i briodi cyn dod yn ôl i Gaerdydd. Roedd gan Mrs K berthnasau'n byw yn Birmingham a Chaerdydd. Roedd ganddi frawd oedd yn gweithio yng Nghaerdydd a chwaer oedd yn wraig tŷ ac a oedd yn gwneud hyfforddiant sgiliau sylfaenol. Roedd gan Mrs K chwaer arall oedd wedi dechrau ar hyfforddiant sgiliau sylfaenol ac wedi mynd ymlaen i'r brifysgol.

*“Ni wnaeth [fy rhieni] fy annog i gael fy addysgu yma."*

*"Gwnaeth un o fy chwiorydd gwrs mynediad, gan nad oedd ganddi unrhyw gymwysterau ffurfiol, fel TGAU na lefelau A. Pan ddaeth yn fwy annibynnol, gwnaeth gais am radd yn y gyfraith ac mae wedi cael cynnig lle mewn prifysgol.”*

**Trefn ddyddiol**

Roedd trefn ddyddiol Mrs K yn cynnwys mynd â'i phlant i'r ysgol yn y bore, mynd i siopa, paratoi cinio a swper i'w brawd yng nghyfraith a'i thad yng nghyfraith, glanhau, golchi, a thacluso'r tŷ yn gyffredinol. Yn y prynhawn, byddai'n nôl ei phlant o'r ysgol, yn eu bwydo ac yn mynd â hwy i wersi yn y mosg. Ar ôl i'w phlant fynd i'w gwelyau, byddai'n treulio rhywfaint o amser ar y rhyngrwyd. Roedd Mrs K yn fodlon bod mewn cartref cyfforddus a gofalu am ei phlant ond roedd am wneud cwrs rhan amser am 2-3 awr y dydd.

*“Rwyf wedi gweld llawer o bobl sy'n difaru rheoli eu gyrfaoedd yn gyntaf yn hytrach na chal eu teuluoedd. Mae rhai o'm perthnasau yn gymwys iawn ac mewn swyddi sy'n talu'n dda ond maent yn difaru peidio â chael amser gyda'u plant.”*

**Ffynonellau gwybodaeth**

Byddai Mrs K yn gwylio'r teledu am tua awr y dydd. Byddai'n gwylio sianelau Asiaidd neu sioeau cwis fel 'The Weakest Link', ‘Countdown’ neu ‘Who Wants to be a Millionaire’. Nid oedd yn gwylio unrhyw sianelau penodol. Byddai fel arfer yn gwylio beth bynnag fyddai ei gŵr neu ei phlant yn ei wylio. Roedd ganddi Virgin media a byddai fel arfer yn gwylio'r BBC, ITV, Zee Cinema a B4U (Bollywood for You). Nid oedd yn gwylio unrhyw sianelau Cymraeg ac nid oedd yn siarad Cymraeg. Roedd ei merch yn gwylio teledu Cymraeg ond nid oedd yn cael ei hannog i siarad Cymraeg gan y teulu.

*“Os byddaf yn gwrando ar y teledu wrth i mi wneud rhywbeth [rwy'n clywed am] y cyrsiau hyn neu'r brifysgol hon. Byddaf yn ceisio gwylio'r teledu a gwrando ar y newyddion.”*

Roedd Mrs K yn darllen yr hyn mae'n ei ddisgrifio fel papurau newydd 'syml' fel The Mirror. Roedd hefyd yn darllen yr Echo, y Post a'r Metro a byddai hefyd yn darllen Capital Time i chwilio am gyfleoedd hyfforddi neu swyddi. Byddai'n darllen newyddion am ysgolion neu ddigwyddiadau lleol ac yn chwilio am swyddi a dodrefn. Yn achlysurol byddai'n gwrando ar Kiss 101 a Radio 1 weithiau.

*“Rwyf wrth fy modd yn darllen papurau newydd ond nid rhai â Saesneg anodd. Rwy'n darllen am hwyl.”*

Dim ond am awr y byddai Mrs K yn cael defnyddio'r rhyngrwyd gyda'r nos. Byddai'n mynd i wefan y cyngor lleol ac yn defnyddio chwiliadau Google i chwilio am swyddi. Roedd hefyd yn siopa ar-lein am ddillad, gemwaith ac esgidiau o wefannau Asiaidd, yn ogystal ag edrych yn ei hoff siopau dillad ar y stryd fawr am fargeinion. Byddai

hefyd yn anfon negeseuon e-bost at berthnasau ac yn edrych ar wefannau addysg. Roedd wedi edrych ar gyrsiau Learn Direct ac International Correspondence School (ICS) ar-lein ac wedi gweld eu hysbysebion ar y teledu. Byddai weithiau'n cael taflenni drwy'r drws am gyrsiau hyfforddi gan y ganolfan leol i oedolion.

> *“Byddaf bob amser yn mynd i wefannau addysgol ac yn ceisio pori drwy beth bynnag sydd ar gael a beth fyddai'n addas ... Nid oes gennyf ddigon o wybodaeth am gyrsiau ar-lein ac astudiaethau gartref ac os byddaf yn dod o hyd iddynt mae'r gost yn fy nigalonni"*
>
> *"Mae'r ganolfan roeddwn yn arfer mynd iddi yn gwneud cyrsiau newydd bob blwyddyn.”*

Arferai Mrs K ddefnyddio You Tube ond roedd yn rhaid iddi ddileu ei chyfrif. Nid oedd yn cael defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol gan fod rhai merched lleol oedd â thudalennau Facebook wedi rhedeg i ffwrdd ac roedd ei theulu yn ofni y byddai hithau'n gwneud yr un fath. Roedd hefyd yn arfer chwarae Sudoku a Maze ar-lein ond nid oedd ganddi amser unwaith y cafodd ei hamser ar y rhyngrwyd ei gyfyngu. Yn wreiddiol roedd wedi rhoi'r gorau i chwarae gan fod ganddi gysylltiad talu wrth fynd ac ni allai fforddio aros ar-lein yn hir. Roedd yn defnyddio Ebay i ddechrau busnes gyda'i gŵr, yn prynu ac yn gwerthu nwyddau ail-law.

> *“Roeddwn yn arfer bod ar Facebook, nid oeddwn yn cael rhoi fy llun yno ond rhoddais fy nghyfeiriad i bobl roeddwn yn eu hadnabod fel y gallem anfon negeseuon at ein gilydd ond nid wyf yn cael defnyddio MSN na Facebook mwyach.”*

**Cynlluniau hirdymor**

Yn yr hirdymor, roedd Mrs K am ddod yn gyfrifydd neu'n fferyllydd. Roedd wedi magu hyder wrth astudio yn ddiweddar a theimlai y byddai'n gallu dychwelyd i addysg llawn amser unwaith y byddai ei phlant yn hŷn ac yn yr ysgol yn llawn amser. Teimlai y byddai ei gŵr yn llai amddiffynnol pan fyddai hyn yn digwydd.

> “*Cynt ni allwn hyd yn oed feddwl am gael hyfforddiant sgiliau sylfaenol ac yna mynd ymlaen i addysg uwch ond nawr mae wedi newid ac rwy'n gallu ... Rwy'n fwy annibynnol a hyderus gyda'm penderfyniadau bellach, beth rwyf am ei wneud gyda fy mywyd, gyda fy addysg. Rwy'n eithaf uchelgeisiol felly gobeithio pan fyddaf yn gymwys iawn y gallaf ddechrau swydd.”*

**Cyflogaeth**

Roedd Mrs K wedi mwynhau gweithio gyda phlant. Roedd yn arfer darparu gofal un-i-un i blentyn awtistig ac yn gweithio'n rhan amser fel gweithiwr chwarae am tua dwy flynedd a hanner, ond bu'n rhaid iddi roi'r gorau i wneud hynny gan nad oedd yn gymwys. Dechreuodd hyfforddiant a dod yn gymwys fel gweithiwr chwarae, gan gwblhau ei chymhwyster lefel 2 CACHE bedair blynedd a hanner yn ôl, ond nid yw wedi gweithio ers hynny. Nid oedd yn gallu gwneud cais am swyddi gan fod yn rhaid iddi aros gartref a gofalu am ei phlant.

*“Llwyddais i wneud lefel 2 CACHE sy'n gymhwyster cydnabyddedig a fydd yn cael swydd i mi."*

*"Ni allaf wneud cais am unrhyw swyddi ar hyn o bryd oherwydd fy mhlant a phroblemau gofal plant.”*

Tra bu'n gweithio, cynigiwyd cyrsiau gan ei chyflogwyr iddi, gan gynnwys hylendid bwyd, cymorth cyntaf a sgiliau sylfaenol TG. Nid oedd yn gallu dilyn y cyrsiau gan fod ganddi eisoes ddwy swydd rhan amser. Roedd am ddychwelyd a dilyn y cyrsiau pe byddai'n cael y cyfle. Roedd Mrs K yn mwynhau gweithio ac yn teimlo ei fod yn rhoi hunanhyder iddi. Teimlai hefyd y gallai ddysgu am bobl a diwylliannau eraill, cael cymwysterau cyfredol a chael annibyniaeth ariannol. Yn ddiweddar cynigiwyd gwaith iddi fel cyfieithydd yn y ganolfan i oedolion gyda'i chwaer ond nid oedd ei gŵr yn meddwl y byddai'r swydd yn addas iddi.

*“Nid oedd yr amser yn addas, weithiau nid oedd unrhyw un yno i ofalu am fy merch felly roedd yn rhaid i mi gyfaddawdu.”*

Teimlai Mrs K y byddai angen geirdaon, cymwysterau a phrofiad da arni i gael swydd dda. Nid oedd yn teimlo'n hyderus iawn wrth weithio gan nad oedd ganddi unrhyw gymwysterau. Cafodd swydd fel gweithiwr chwarae drwy argymhelliad ac ni chafodd gyfweliad. Dibynnai ar gymorth gan ei chwaer a'i chwaer yng nghyfraith wrth lenwi ffurflenni. Hefyd, teimla weithiau y câi ei hystrydebu oherwydd ei gwisg draddodiadol a'i Saesneg cyfyngedig.

*“Gallant grynhoi beth bynnag y byddaf yn ei ddweud a'i ysgrifennu i lawr mewn Saesneg soffistigedig."*

*"Oherwydd fy ngwisg, fy sgarff a phethau felly rwy'n meddwl fod pobl yn fy nhanseilio weithiau ... Pe byddai fy Saesneg yn berffaith a'm galwedigaeth yn feddyg neu'n gyfreithiwr neu'n gyfrifydd efallai y byddent yn fy nhrin yn wahanol.”*

**Dysgu a rhwystrau**

Aeth Mrs K i ysgol gynradd yn y DU ond dychwelodd i Bakistan cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd. Aeth i ysgol ym Mhakistan am gyfnod ond ni allai astudio cyn iddi fod yn briod gan nad oedd yn cael gwneud hynny. Pan ddychwelodd i'r DU, dilynodd sawl cwrs sgiliau sylfaenol yn y ganolfan i oedolion ger ei chartref. Roedd yn gweithio tuag at TGAU ond bu'n rhaid iddi roi'r gorau i'r hyfforddiant ar ôl iddi gael ei mab cyntaf.

Hyfforddodd yn y ganolfan i oedolion yn ysbeidiol pan oedd yn 16 oed, 19 oed a 22 oed ond nid yw wedi dychwelyd gan nad yw'n cael rhoi ei phlant mewn meithrinfa. Teimlai Mrs K fod ei gŵr yn gefnogol o'i hastudio gan ei bod wedi rhoi teulu iddo. Roedd yn hyderus y byddai'n cael dychwelyd i addysg unwaith y byddai ei phlant yn hŷn.

*“Pan ddois i'n ôl dechreuais wella fy sgiliau iaith, sgiliau sylfaenol a dysgais Saesneg."*

*"Ar ôl cwblhau fy nheulu byddaf yn mynd ymlaen i addysg uwch ac yna bwriadaf weithio hefyd."*

Roedd Mrs K wedi gorffen cyrsiau lefel 2 sgiliau sylfaenol mewn Saesneg a Mathemateg. Hefyd, cynigiwyd cwrs i'w pharatoi ar gyfer cyfweliadau (sgiliau cyfathrebu), a gynhaliwyd yn y ganolfan pan oedd yn gwneud y cyrsiau sgiliau sylfaenol ac yn gweithio'n rhan amser, ond nid oedd yn gallu gwneud cwrs ychwanegol. Pe byddai'n dychwelyd i hyfforddiant, byddai Mrs K yn gwneud TGAU. Yn wreiddiol aeth i'r ganolfan i oedolion gyda'i chwaer yng nghyfraith a'i cyflwynodd i'r staff. Roedd eisoes wedi dweud wrth rieni eraill am y ganolfan i oedolion ac yn gwybod am sawl unigolyn sy'n gwneud yr hyfforddiant.

*"Ar y pryd nid oedd amser gen i i ymdopi â phedwar cwrs."*

*"Argymhellais fy athrawon a'r dosbarth roeddwn yn arfer mynd iddo. Aethant yno a llwyddodd ambell un i gael hyd at bump TGAU. Mae un ohonynt yn mynd i'r Brifysgol y mis Medi hwn."*

Y prif rwystr i ddechrau hyfforddiant i Mrs K oedd ei theulu a'i chyfrifoldebau domestig. Roedd ei gŵr yn gweithio'n llawn amser er ei bod yn dal i gael rhai budd-daliadau ac roedd hefyd yn poeni am gost hyfforddiant. Nid oedd ychwaith yn ymwybodol p'un a fyddai'n cael mynd ar gwrs gyda dynion. Roedd yn mwynhau ei hasesiadau ond nid oedd yn gwybod pe byddai ganddi amser i waith cartref. Roedd yn well gan Mrs K astudio y tu allan i'w chartref ond er bod ganddi gar, roedd cyfyngiadau arni'n ei ddefnyddio.

*"Nid wyf yn gwybod pe byddwn yn cael astudio gan y byddai dynion yn yr un ystafell ddosbarth. Pan oeddwn yn astudio roedd cymysgedd o bobl ond nid wyf yn gwybod sut y byddai fy ngŵr yn ymateb."*

*Ar hyn o bryd rwy'n trafod yn fy meddwl a'm gŵr yn siarad am y peth. Mae'n galonogol iawn."*

Disgrifiodd Mrs K Gaerdydd fel dinas â chyfoeth o gyfleusterau hyfforddi gyda gofal plant a meithrinfeydd yn ystod y dydd am ddim. Pe byddai'n chwilio am gwrs hyfforddi byddai'n mynd i Gyrfa Cymru am gymorth neu'n gofyn i ymgynghorwyr sy'n ymweld â'r ganolfan leol i oedolion. Byddai hefyd yn mynd i CAB.

*"Rwy'n meddwl bod gennym lawer o gyfleoedd ble rwy'n byw ond mae'n dibynnu ar eich sefyllfa bersonol."*

*"Gallwch bori drwy'r rhyngrwyd am gyrsiau coleg, gallwch eu ffonio a gofyn iddynt am brosbectysau, gallwch fynd i ganolfannau gwahanol a gweld eu taflenni am gyrsiau. Mae llawer o leoedd gwahanol y gallwch fynd iddynt."*

**Cyfweliad astudiaeth achos 4**

(Pen-y-bont ar Ogwr- Sgiliau Sylfaenol).

**Cefndir**

Cynhaliwyd astudiaeth achos 4 gyda Ms R, merch 42 oed o Ben-y-bont ar Ogwr. Roedd gan Ms R ddwy ferch, 19 oed ac 11 oed. Roedd yn warchodwr plant cofrestredig ond roedd wedi rhoi'r gorau i weithio i ofalu am ei merch hynaf a oedd â phroblemau iechyd. Roedd wedi byw y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr am y ddwy flynedd ddiwethaf ond yn gobeithio symud yn ôl gan fod ei ffrindiau a'i theulu i gyd yno.

> *“Yn ddiweddar cafodd fy merch hynaf lawdriniaeth ar ei chalon felly rwyf wedi cael saib o'r gwaith er mwyn gofalu amdani."*
>
> *"Nid yw mor bell â hynny o Ben-y-bont ar Ogwr ond mae'n ddigon pell.”*

**Teulu a ffrindiau**

Roedd rhieni Ms R wedi ymddeol. Roedd ei mam yn beiriannydd a'i thad yn gosod ffenestri gwydr dwbl. Roedd ganddi frawd oedd yn rheolwr cyfleusterau mewn allanfa siopa - yn gyfrifol am staff diogelwch a staff glanhau. Gadawodd yr ysgol heb unrhyw TGAU a dechreuodd fel swyddog diogelwch a gweithiodd ei ffordd i fyny. Teimlai fod gan ei brawd ansawdd bywyd gwell yn ariannol ond fod ganddi berthynas well gyda'i phlant.

Roedd gan Ms R ffrind oedd wedi dilyn gradd mewn gwaith cymdeithasol fel myfyriwr hŷn ond nid oedd yn teimlo y byddai'n gallu cyflawni'r hyn a wnaeth ei ffrind. Roedd ei merch hynaf yn y coleg yn gwneud diploma BTEC mewn gofal plant ac roedd yn gweithio'n rhan amser mewn sinema leol. Pasiodd ei TGAU a'i lefelau A a chafodd ei derbyn mewn prifysgol ond ni allai fynd oherwydd ei phroblemau iechyd.

> *“Mae'r hyn mae wedi'i gyflawni'n wych a dyna beth rwyf am ei gael i'm plant. Nid oeddwn am iddynt fod fel fi. Roeddwn am gael gwell iddynt."*
>
> *"Nid oes gen i'r hyder i'w wneud. Nid wyf yn meddwl fod gen i'r gallu i'w wneud. Os na allwn ei wneud yn yr ysgol, beth sydd am fod yn wahanol nawr?”*

**Trefn ddyddiol**

Roedd trefn ddyddiol Ms R yn cynnwys mynd â'i merch i'r ysgol, gwneud gwaith tŷ a siopa. Roedd ei merch yn nofio dros y sir a gyda'r nos byddai'n mynd â hi i wersi nofio. Roedd nofio ei merch wedi dod yn brif flaenoriaeth ac ymrwymiad. Roedd yn mwynhau ymwneud â thîm nofio ei merch ac wedi dysgu technegau'r dulliau nofio drwy edrych a chymryd rhan.

> *“Mae hynny wedi bod yn broses ddysgu gan ei bod yn syfrdanol faint mae'n ei gynnwys. Rwy'n mwynhau hynny."*

*“Anghofiais amdanaf fy hun ac mae popeth i'w weld yn ymwneud â'r plant. Weithiau rwy'n teimlo nad wyf yn berson go iawn. Mae popeth yn ymwneud â'r merched.”*

**Ffynonellau gwybodaeth**

Roedd Ms R yn gwylio rhywfaint o deledu, gan amlaf yn y bore ac adeg swper, ac weithiau cyn mynd i'r gwely. Roedd yn hoffi dramâu ac yn gwylio operâu sebon fel 'Hollyoaks' gan fod ei phlant yn eu gwylio. Roedd hefyd yn mwynhau gwylio rhaglenni coginio fel 'Come Dine with Me' a 'Celebrity Masterchef', a rhai rhaglenni dogfen. Roedd hefyd yn gwylio Big Brother. Nid oedd yn gwylio unrhyw sianelau penodol, ond roedd yn fwy tebygol o wylio sianelau digidol na daearol. Nid oedd yn gwylio teledu Cymraeg ac roedd ganddi gywilydd nad oedd yn siarad Cymraeg.

*“Nid wyf yn gwylio'r newyddion nac unrhyw beth felly. Nid wyf yn gwylio'r teledu ryw lawer ... Mae gennyf sky plus felly os oes rhywbeth rwyf am ei wylio byddaf yn pwyso'r botwm recordio."*

*"Rwy'n gwylio S4C ond bydd yn Saesneg.”*

Cafodd Ms R y rhan fwyaf o'i gwybodaeth o'r rhyngrwyd. Treuliai tua dwy awr y dydd ar-lein, gan gynnwys 30 munud ar Facebook, a siopa ar-lein. Weithiau byddai'n treulio llai o amser ar-lein yn dibynnu ar beth mae'n ei wneud, ond byddai'n edrych ar Facebook bob dydd. Nid oedd Ms R yn darllen papurau newydd ond byddai'n darllen am newyddion lleol ar Wales Online. Yn achlysurol byddai'n chwarae Solitaire ar y cyfrifiadur. Dim ond yn y car y byddai'n gwrando ar y radio a byddai'n gwrando ar Bridge FM, Red Dragon a Radio 1.

*“Pe byddwn am ganfod unrhyw beth penodol, mae'n debyg y byddwn yn mynd ar-lein."*

*"Gan nad ydw i'n gwylio'r newyddion, os ydw i wedi clywed bod rhywbeth wedi digwydd yn y newyddion byddwn yn mynd ar wefan BBC news yn hytrach nag eistedd a gwylio'r newyddion i gyd.”*

**Cyflogaeth**

Gadawodd Ms R addysg llawn amser yn 15 oed. Ar ôl gadael yr ysgol, bu'n gweini a gweithio mewn gwestai. Arhosodd yn y fasnach lletygarwch nes y cafodd ei merch yn 22 oed ac nid aeth yn ôl i'r math hwnnw o waith oherwydd yr oriau anghymdeithasol. Nid oedd unrhyw gyfleoedd gwirioneddol i gynyddu yn y rolau blaenorol.

Aeth Ms R i weithio ym maes gwarchod plant pan oedd ei phlant yn ifanc gan ei fod yn galluogi iddi weithio ac aros gartref gyda hwy. Nid oedd am ddychwelyd i warchod plant gan fod ei phlant yn hŷn ac nad oeddent ei hangen gartref. Roedd Ms R yn mwynhau gweithio ac am ddychwelyd ond roedd yn cael amser anodd yn goresgyn salwch ei merch ac roedd yn cael ei thrin ar gyfer iselder. Disgrifiodd y manteision o weithio fel rhai ariannol a gallu cyfarfod â phobl. Nid oedd ganddi ddyheadau

arbennig o uchel ac roedd yn blaenoriaethu agweddau eraill ar ei bywyd, ei phlant yn bennaf, dros waith.

> *“Nid wyf am gael y swydd proffil uchel fawr hon. Rwyf am godi yn y bore, mynd allan i weithio, dod adref gyda'r nos a gwneud yr hyn sydd angen i mi ei wneud gyda fy mhlant ... Nid wyf erioed wedi cael syniadau mawr na disgwyliadau mawr. Nid wyf erioed wedi bod eisiau'r byd.”*

**Cynlluniau hirdymor**

Yn ddelfrydol roedd Ms R am weithio gyda phlant y tu allan i'r cartref, ond roedd yn gwybod y byddai'n rhaid iddi hyfforddi ar gyfer hyn. Teimlai'n fwy hyderus yn gwarchod plant gan ei fod yn rhywbeth roedd yn ei wybod a byddai'n ystyried dychwelyd i warchod plant yn hytrach na dechrau rhywbeth newydd. Roedd wedi cael apwyntiadau gyda'r ganolfan gwaith ac roedd wedi chwilio am waith ond roedd wedi bod yn aflwyddiannus wrth ddod o hyd i unrhyw beth. Teimla Ms R y dylai'r ffaith fod ganddi blant a'i bod yn warchodwr plant cofrestredig ei gwneud yn gymwys i weithio mewn meithrinfa ac roedd wedi digalonni gan y ffaith na fyddai'n cael ei hystyried ar gyfer y math hwn o waith gan nad oedd ganddi'r cymwsyterau.

> *“Mae'n dod i'r cam lle mae angen cymwsyterau arnoch, mae angen profiad arnoch. Oni bai eich bod am gael swydd yn gweithio ar y tiliau yn Tesco's."*
>
> *"Ymddengys bob amser naill ai fod yn rhaid i chi gael profiad neu mae'n rhaid i chi gael cymwysterau. Os nad oes gennych chi hwy nid oes gennych lawer o obaith mewn gwirionedd. … Peidiwch â dweud nad oes gennyf y profiad ac nad oes gennyf y cymhwyster. Y cymhwyster sydd gen i yw sgiliau bywyd. Ond ni allwch ddweud hynny wrth bobl. Ni fyddent am eich cyflogi.”*

**Dysgu a rhwystrau**

Dywedodd Ms R ei bod yn casáu'r ysgol ac wedi ymuno â'r 'criw anghywir' yn ifanc. Disgrifiodd ysgol fel 'gwastraff amser'. a dim ond economeg y cartref roedd wedi'i fwynhau. Ni adawodd i'w diffyg cymwysterau effeithio ar ei hyder a dywedodd nad oedd yn meddwl bod y ffaith nad oedd ganddi gymwysterau wedi'i hatal rhag gwneud unrhyw beth roedd am ei wneud. Disgrifodd ei hun yr un mor hyderus am ddysgu nawr ag yr oedd pan oedd yn yr ysgol ond cydnabu mai magu hyder yw'r peth anoddaf am ddysgu.

> *“Teimlaf fel* ***person*** *fy mod yn fwy hyderus nawr...ond cyn belled ag y mae dysgu yn y cwestiwn, efallai ddim."*
>
> *"Gan nad oes gennyf gymwysterau mathemateg a Saesneg, nid yw'n fy atal rhag gwneud y swydd rwyf am ei gwneud.”*

Dywedodd Ms R nad oedd ganddi anawsterau cyffredinol mewn bywyd bob dydd ond byddai'n cael gwybodaeth gan bobl eraill er mwyn gallu helpu'r plant gyda gwaith cartref. Nid oedd yn meddwl bod ei diffyg cymwysterau'n broblem nawr a dywedodd na fyddai ganddi ddiddordeb mewn ailddysgu pynciau academaidd. Hefyd, nid oedd ganddi ddiddordeb mewn dysgu pethau newydd heblaw am y sgiliau

ar gyfer y math o swydd roedd am ei gwneud. Gwnaeth Ms R hyfforddiant i ddod yn warchodwr plant ond nid oedd erioed wedi gwneud unrhyw hyfforddiant arall. Credai fod ganddi 'sgiliau sylfaenol', gan olygu ei bod yn gallu 'gwneud yn iawn' gyda'r wybodaeth a oedd ganddi. Teimlai nad oedd ganddi unrhyw anawsterau gyda dealltwriaeth a byddai'n cael gwybodaeth am bethau nad oedd yn eu deall. Ni fyddai'n gwneud hyfforddiant sgiliau sylfaenol gan nad oedd ganddi'r hyder.

> *"Os na fyddai'n angenrheidiol, byddwn yn rhoi'r ffidl yn y to."*

Byddai Ms R yn cael hyfforddiant nawr gan nad oes angen iddi aros gartref ar gyfer ei phlant, a gallai ofalu am blant wrth hyfforddi i gefnogi ei hun, yn dibynnu ar ba mor hir y byddai'r hyfforddiant yn ei gymryd. Teimlai ei bod yn bwysicach cael cymhwyster perthnasol, fel cymhwyster BTEC neu CACHE, yn hytrach na chymwysterau academaidd. Disgrifiodd ddysgu ffurfiol ac anffurfiol o werth cyfartal, a gosododd werth uchel ar sgiliau bywyd, gwerthoedd a moesau.

> *"Nid oes yn rhaid gwneud unrhyw beth ar fy rhan. Os ydw i am ei wneud rhaid i mi ei wneud fy hun."*

Y prif rwystr i ddychwelyd i hyfforddiant neu waith oedd hyder Ms R ei hun. Cafodd amser anodd gyda'i merch, a oedd wedi'i dal yn ôl, yn ei barn hi. Roedd cost y cwrs hefyd yn broblem ac roedd yn ansicr a allai gael cymorth i hyfforddi tra roedd yn cael budd-daliadau. Nid oedd gan Ms R gar ond roedd y coleg lleol o fewn pellter cerdded a gallai ddal y bws. Nid oedd gofal plant yn broblem fawr ychwaith gan fod ei phlant yn hŷn a'i theulu'n byw yn lleol, ond byddai angen iddi ddod i drefn newydd ar gyfer ei hun a'i phlant ac nid oedd am fod i ffwrdd oddi wrth ei phlant ormod.

> *"Ar hyn o bryd nid wyf yn gwybod a ydw i'n ddigon cryf i'w wneud ... Nid am nad ydw i eisiau ei wneud, ac nid am fy mod yn ddiog, dim ond sut rwy'n teimlo ar hyn o bryd. Efallai nad wyf yn barod i'w wneud, er fy mod yn gwybod y bydd yn gwella fy mywyd."*

Nid oedd gan Ms R bryderon ynghylch bod â gormod o gymwysterau neu fod gyda dysgwyr eraill, gan ei bod yn teimlo y gallai gymysgu ag eraill. Ei phrif bryderon oedd ynghylch yr amgylchedd dysgu yn seiliedig ar brofiad blaenorol, ac roedd yn poeni y gallai cwrs hyfforddi fod fel yr ysgol, yn enwedig os nad oedd yn hoffi'r hyfforddwr. Roedd asesiadau'n bryder mawr arall gan ei bod yn anghytuno ag arholiadau ac nid oedd am orfod eu gwneud. Roedd hefyd yn poeni y câi ei dysgu ar lefel sy'n rhy uchel ac na fyddai'n gallu dal i fyny.

> *"Rwy'n gweld y stâd yr aiff fy merched iddo pan mae'n rhaid iddynt sefyll arholiad ac nid wyf yn meddwl ei fod yn iawn. Dylai fod yn asesiad parhaus o allu rhywun."*

> *"Os cewch eich dysgu ar lefel sy'n rhy uchel i'ch gallu rydych yn siŵr o fethu."*

Pe byddai Ms R am ddychwelyd i hyfforddiant byddai'n gweld pa gyrsiau oedd ar gael yn y coleg lleol. Roedd wedi bod i'r coleg gyda'i merch ond nid oedd ganddi ddiddordeb mewn unrhyw beth oedd ar gael ar hyn o bryd. Pe byddai'n cofrestru ar gwrs yn y coleg, byddai'n mynd ar wefan y coleg i ddechrau, ac yn edrych yn yr

adran astudiaethau plentyndod. Yna byddai'n mynd i ddiwrnod agored y coleg i drafod y broses o ymuno ymhellach. Byddai angen i'r coleg ddarparu cymorth a chyngor ar gost, hyd y cwrs a beth allai'r cwrs ei gynnig i Ms R.

> *"Mae sbectrwm anferth o bethau y gallwch eu gwneud, o ofal plant i beirianneg i ddrama."*
>
> *"Byddwn yn edrych ar y lefelau gwahanol a beth all y cymhwyster ei gynnig i chi. Pa faes cyflogaeth y gallwch fynd iddo ar ôl ei gyflawni."*

**Cyfweliad astudiaeth achos 5**

(Aberdâr – Cyflogai).

**Cefndir**

Cynhaliwyd astudiaeth achos 5 gyda J, dyn 21 oed o Aberdâr. Roedd yn byw gyda'i dad a'i chwaer mewn tŷ teras. Ysgarodd ei rieni pan oedd yn ifanc ac mae bellach yn cadw mewn cysylltiad â'i fam drwy Facebook. Mae ei dad yn yrrwr tacsi hunangyflogedig. Mae J yn döwr ac mae hefyd yn gweithio fel gosodwr ffenestri yn achlysurol. Mae wedi bod yn gweithio am gyfanswm o wyth mis.

Setlodd teulu J yn Aberdâr pan oedd J yn yr ysgol uwchradd. Symudodd ei deulu o amgylch y wlad dipyn pan oedd yn yr ysgol gynradd ac felly nid arhosodd mewn un ysgol yn hir iawn. Roedd yn teimlo fod hyn yn aflonyddgar. Ni wnaeth J orffen yr ysgol gan ei fod wedi'i ddiarddel am ymladd. Hefyd, cymerodd gyffuriau yn ifanc (13 oed) a effeithiodd ar ei addysg. Unwaith y cafodd ei ddiarddel o'r ysgol cafodd ei gyfeirio at y Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid lle enillodd rywfaint o gymwysterau labro a gwnaeth ffrindiau newydd.

Mae J yn brysur iawn. Ei brif ddiddordebau yw reidio'i BMX a mynd i'r gampfa. Mae ganddo gampfa gartref yn yr ystafell sbâr yn nhŷ ei dad y mae'n ei defnyddio pan mae gartref. Mae hefyd yn defnyddio campfa ei ffrind sydd mewn garej. Y garej hon yw canolfan ei grŵp presennol o ffrindiau, lle mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser rhydd yn gwrando ar gerddoriaeth, yn chwarae'r Xbox ac yn addasu beiciau BMX.

Dechreuodd J reidio ei feic BMX ddwy flynedd yn ôl ac mae wedi dysgu triciau gyda'i ffrindiau. Cymerodd ran yn ei gystadleuaeth BMX cenedlaethol gyntaf yr haf diwethaf a daeth yn drydydd allan o 400 o gystadleuwyr. Er bod J wedi mwynhau cystadlu, nid oedd yn hapus o ddod yn drydydd. Ei uchelgais yw dod yn gyntaf yn y gystadleuaeth eleni a fyddai'n rhoi'r hawl iddo fynd ar daith wedi'i thalu amdani i Awstralia i gystadlu yn y gystadleuaeth nesaf.

**Cyflogaeth**

Cafodd J ei ddiagnosio ag ADHD unwaith y cafodd ei ddiarddel o'r ysgol uwchradd a oedd yn golygu nad oedd yn ymwybodol pam ei fod yn ei chael hi'n anodd aros yn y dosbarth am gyfnodau hir o amser. Yn aml byddai'n gadael yr ystafell ddosbarth ac yn chwarae pêl-droed gyda'i ffrindiau yn ystod y diwrnod ysgol. Felly dim ond gwersi actif fel addysg gorfforol, gwyddoniaeth a chelf oedd J yn eu mwynhau yn yr ysgol.

Oherwydd ymddygiad J, cafodd ei ddiarddel o'r ysgol yn 15 oed, heb unrhyw gymwysterau ffurfiol.

> *Rwy'n teimlo'n ddrwg. Rwy'n teimlo fel fy mod wedi gwastraffu'r rhan fwyaf o'm mywyd ac y gallwn fod wedi ei wneud yn well. Pe byddwn wedi aros yn yr ysgol a chael yr addysg roeddwn am ei chael, byddwn yn teimlo gymaint yn fwy hyderus. Yn sicr pan ddaw i ddarllen ac ysgrifennu."*

Cafodd ei gyfeirio at y Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid lleol lle dysgodd waith coed, bricio, a pheintio ac addurno. Aeth i'r Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid am bron i ddwy flynedd a hanner. Roedd yn well gan J y dull o ymgysylltu na'r hyn a ddefnyddir yn yr ysgol gan ei fod yn teimlo bod athrawon yn ei drin fel oedolyn ac yn caniatáu iddo ddysgu ar ei gyflymdra ei hun drwy roi cynnig arni. Cwblhaodd J y Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid gan ddweud ei fod wedi mwynhau ei amser ar y cynllun.

> *"Roedd yn dda. Wnes i fwynhau. Roedd yn llawer gwell na'r ysgol yno. Llawer gwell. Roedd fel nad oedd gennych gymaint o bobl o'ch cwmpas yn dweud wrthych beth i'w wneud. Maent yn dweud wrthych mai hyn sy'n rhaid i chi ei wneud, gawn ni weld sut yr ei di. Ac roedd fel sgil newydd mewn gwirionedd. Roeddech yn ei ddysgu. Felly roeddem yn canolbwyntio fwy."*

Unwaith i J gwblhau ei Gynllun Hyfforddiant Ieuenctid ac wedi ennill rhywfaint o gymwysterau, bu'n ddi-waith am gyfnod. Yn ystod y cyfnod hwn roedd wedi gwneud ffrindiau newydd ac roedd ei hen grŵp o ffrindiau'n dechrau chwalu gan fod gan nifer o unigolion broblemau mwy difrifol â chyffuriau (gan arwain at farwolaeth un o'i ffrindiau). Ar yr adeg hon, penderfynodd J a nifer o'i ffrindiau roi'r gorau i gymryd cyffuriau.

> *"Roedd fel petai pob un ohonom wedi sylwi pe byddem yn parhau, nid oeddem am fynd i unlle."*

Swydd gyntaf J oedd fel gosodwr ffenestri, yn gweithio i dad ffrind. Nid oedd yn rhaid iddo fynd drwy broses recriwtio ffurfiol er mwyn cael ei gyflogi a chafodd hyfforddiant yn y gwaith ac enillodd gymhwyster galwedigaethol ffurfiol. Rhoddodd J y gorau i osod ffenestri pan nad oedd digon o waith yn ei ardal leol i barhau i gael ei gyflogi gan dad ei ffrind. Nid effeithiodd hyn arno lawer gan mai dim ond yn achlysurol y câi J ei gyflogi. Ar yr adeg hon symudodd J i waith toi, sef ei swydd bresennol, lle mae'n gweithio gyda ffrind (er bod hyn yn achlysurol o hyd).

> *"Penderfynais chwilio am un arall [swydd] wedyn a dywedodd fy ffrind, 'dyma ti, mae gennyf waith toi os wyt ti ei eisiau?' a dywedais iawn. Felly rwyf wedi bod yn gwneud hynny."*

Nid yw J erioed wedi cwblhau proses gwneud cais am swydd ffurfiol, nac wedi ysgrifennu CV. Fodd bynnag, mae J yn gwerthfawrogi gwaith yn fawr ac ni fyddai am fod yn ddi-waith gan ei fod am barhau'n annibynnol.

*“Mae'n fater o fynd allan a gwneud rhywbeth yn hytrach nac eistedd yn y tŷ yn ddiflas. Ennill arian yn bennaf. Sefyll ar fy nwy droed fy hun yn hytrach na dibynnu ar bobl eraill."*

*"Pobl rwy'n eu hadnabod a ffrindiau. [Pan] nad wyt yn gweithio [maent yn dweud] 'tyrd gyda mi a chael arian i dy hun. Byddaf yn dangos i ti beth i'w wneud, yn dy hyfforddi’.”*

Wrth feddwl am y gwahaniaeth rhwng swydd, 'swydd dda' a 'gyrfa', nododd J ddau wahaniaeth arwyddocaol. Teimlodd fod 'swydd dda' yn bleser i bwy bynnag oedd yn ei wneud, tra bod 'gyrfa' yn bleser ac yn rhywbeth a ddilynir yn yr hirdymor yn y dyfodol. I'r gwrthwyneb, nid oedd 'swydd' yn hirdymor nac yn rhywbeth pleserus.

**Trefn ddyddiol**

Nid oes gan J drefn benodol yn ystod yr wythnos waith gan ei fod wedi'i gyflogi yn achlysurol, fesul swydd. Pan mae J yn gweithio mae fel arfer yn teithio i Ogledd Cymru i weithio ar adeiladau. Felly, byddai'n codi i weithio am 5am ac yn dechrau gweithio am 7.30/8am. Ar ôl gweithio diwrnod llawn byddai'n dychwelyd i'w gartref ac yna'n cymdeithasu â ffrindiau. Yn gyffredinol mae J yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos gartref heb waith.

*“[Pan rwyf gartref] rwy'n treulio amser gyda fy nghariad neu'n codi pwysau, gwrando ar gerddoriaeth ac ati.”*

Ar y penwythnosau, byddai J yn ymarfer yn y gampfa yn ystod y dydd ac yna'n cymdeithasu gyda'i ffrindiau gyda'r nos. Byddai'n mynd allan i yfed ac o bosibl i glybio yn ei ardal leol neu'n teithio i drefydd/dinasoedd eraill gerllaw.

**Ffynonellau gwybodaeth**

Nid yw J yn gwrando ar y newyddion na'r cyfryngau'n aml iawn. Nid yw'n hoffi gwylio'r teledu ac mae'n meddwl ei fod yn 'ddiflas'. Yn achlysurol bydd yn gwylio DVDs gartref ond yn anaml y bydd yn gwylio rhaglenni.

Nid yw'n prynu unrhyw bapurau newydd er bod ei dad yn prynu The Sun a bydd yn achlysurol yn darllen y tudalennau chwaraeon.

Mae J yn gwrando ar y radio, BBC Radio 1, ac yn gwrando arno gyda'i ffrindiau ar nos Wener. Nid yw'n gwrando ar y newyddion ar y radio, dim ond cerddoriaeth.

Er bod gan J gyfrifiadur, anaml y bydd yn ei ddefnyddio. Mae'n amcangyfrif ei fod yn treulio chwarter awr yr wythnos ar-lein. Nid oedd yn defnyddio llawer ar gyfrifiaduron yn yr ysgol ac felly nid yw'n teimlo'n hyderus iawn wrth ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'n defnyddio'r rhyngrwyd i fynd ar Facebook, sef ei brif ffordd o gysylltu â'i fam.

*“Nid wyf yn trafferthu llawer. Os bydd gen i amser byddaf yn mynd ar-lein ond os na nid wyf yn ei gael yn ddiddorol iawn."*

*"Rwyf ar Facebook ond mae hynny ond ar gyfer cadw mewn cysylltiad â mam...rwy'n edrych ar fy negeseuon a dyna ni."*

Gan fod J yn dilyn bywyd mor brysur nid yw'n dod i gysylltiad â ffynonellau gwybodaeth yn rheolaidd. Gan fod ganddo ADHD mae hefyd yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar ddarllen, gwrando ar raglen radio neu wylio'r teledu.

*"Pan ddaw i lyfrau ac ati dw i'm yn meddwl fod gen i amser iddo. Rwy'n edrych arno ac yn dweud 'i'r diawl â hynny'."*

**Cynlluniau hirdymor**

Roedd J yn ei chael hi'n anodd meddwl am y dyfodol. Pan ofynnwyd iddo ble roedd yn gweld ei hun mewn dwy flynedd nid oedd yn gallu rhoi ateb clir. Yn hytrach, roedd yn gweld ei hun yn dal i weithio fel töwr a gosodwr ffenestri yn y dyfodol agos.

Pan ofynnwyd am ddyheadau hirdymor, siaradodd J am fod eisiau cael swydd barhaol. Soniodd hefyd am ei uchelgeisiau fel reidiwr BMX a'i nod o ennill cystadleuaeth yn y dyfodol agos.

*"I mi, gwneud bywyd i fy hun ar ôl popeth rwyf wedi bod trwyddo dros y blynyddoedd...os gallaf lwyddo mewn rhywbeth, mae'n rhywbeth da i mi."*

Roedd J yn ymwybodol o'i gymwysterau cyfyngedig a'r effaith mae hyn yn ei gael ar ei gyflogaeth. Mae am ennill rhagor o gymwysterau ac nid oes arno ofn dechrau cyrsiau newydd ac amrywio ei sgiliau galwedigaethol neu weithio tuag at ddyrchafiad.

*"Y ffordd rwy'n meddwl am y peth, po fwyaf y cymwysterau a gaf, yr hawsaf y bydd i ddod o hyd i swydd briodol ac un barhaol."*

Fodd bynnag, nid oedd J yn siŵr am ei gyflogaeth yn y dyfodol pe byddai'n gorfod gwneud cais am swydd yn ffurfiol. Gan nad oedd erioed wedi gwneud hynny, roedd yn nerfus am y rhagolwg o gyfweliad am swydd a dywedodd ei fod yn llawer hapusach yn gweithio gyda'r sgiliau a'i gyflogwyr presennol yn hytrach na gwneud math newydd o swydd neu wneud cais i weithio i gyflogwr dieithr.

*"Ni fyddai gennyf yr hyder i fynd am y cyfweliad ac ati."*

Yn ddelfrydol byddai J yn hoffi bod yn hunangyflogedig er mwyn osgoi gorfod gwneud cais am swyddi yn ogystal â'r posibilrwydd o gynyddu ei enillion arfaethedig gan mai ef fyddai'r rheolwr (fel ei dad sy'n hunangyflogedig).

Dewis amgen i fod yn hunangyflogedig a ystyriwyd gan J yn ystod y cyfweliad oedd yr opsiwn o helpu pobl ifanc eraill a oedd yn cael problemau â chyffuriau. Roedd am helpu pobl ifanc a oedd mewn sefyllfa debyg iddo ef pan oedd yn ifanc. Byddai hyn yn defnyddio ei brofiadau personol a'i allu i gysylltu â phobl eraill (agwedd gymdeithasol y swydd y mae'n ei fwynhau ar hyn o bryd).

*“Mae'n debyg y byddwn yn hoffi helpu pobl sydd yn yr un sefyllfa ag yr oeddwn pan oeddwn yn blentyn. Pan ddaw i gyffuriau ac ati, mae'n debyg y byddwn yn hoffi eu helpu a'u cael i roi gorau iddo.”*

**Dysgu a rhwystrau**

Roedd J yn hoffi agwedd gymdeithasol yr ysgol, sef beth mae'n ei hoffi am weithio hefyd. Cwblhaodd J bob cwrs mae wedi'i ddechrau ers gadael yr ysgol ac mae'n gwerthfawrogi cymwysterau a'r hyn maent yn eu cynnig i'w fywyd gwaith. Mae J yn mwynhau ei swydd bresennol gan ei fod yn gallu bod yn actif yn gorfforol ar yr un pryd ag ennill arian a bod yn gymdeithasol. Roedd y cyfuniad yn ddigon iddo barhau i hyfforddi ac ennill crefft.

*“Mae fel petawn yn hoffi ymarfer corff yn ogystal â gosod ffenestri, gan nad ydynt yn bethau ysgafn iawn. Felly rydych yn gwneud ymarfer corff ar yr un pryd â gosod ffenestri. Rydych yn cyfarfod â phobl newydd. Dw i ddim yn gwybod, mae'n rhywbeth dw i'n ei hoffi'n fawr. Rwy'n ei fwynhau."*

*"Mae gennyf grefft. Mae gennyf grefft gosod ffenestri bellach ac mae fy ffrind yn fy hyfforddi gyda'r gwaith toi. Felly byddwn yn ddigon hyderus i fynd i gael swydd yn gwneud rhywbeth fel yna, a'r peintio ac addurno, bricio ac ati. Mae gen i'r cymwysterau hynny.”*

Fodd bynnag, nid yw J yn meddwl y byddai'n gallu dysgu mewn amgylchedd ffurfiol eto. Mae'r agweddau ar hyfforddiant a gwaith mae'n ei fwynhau yn alwedigaethol ac yn ymarferol iawn ac felly nid yw'n meddwl y byddai'n mwynhau, neu'n gallu dysgu mewn sefyllfa fel ysgol eto.

*“Byddwn wrth fy modd. Byddwn yn hoffi dysgu llawer mwy ond rwy'n ei chael hi'n anodd bellach. Nawr fy mod yn hŷn rwy'n ei chael hi'n fwy anodd dysgu na phan oeddwn yn iau. Mae'n llawer mwy anodd nawr.”*

Ers gadael yr ysgol a'r Cynllun Hyfforddiant Ieuenctid, mae J wedi gweithio tuag at ei gerdyn Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu sy'n asesu ei ymwybyddiaeth a'i ymlyniad â rheoliadau iechyd a diogelwch. Er iddo gael cerdyn, ni wnaeth astudio ar gyfer yr asesiadau gan ei fod yn teimlo bod y cwestiynau'n 'synnwyr cyffredin'. I'r gwrthwyneb, mae hefyd yn dysgu gyrru ac yn ystod y cyfweliad soniodd ei fod yn poeni am yr arholiad theori. Mae'r arholiad theori, a gaiff ei sefyll wrth ddysgu i yrru yn y DU, yn gyfres o gwestiynau amlddewis sy'n rhaid eu pasio er mwyn sefyll prawf gyrru ymarferol.

Roedd J yn cymryd ei brawf theori gyrru o ddifrif a dywedodd ffrind wrtho y gallai fod yn gymwys i gael cymorth ychwanegol yn yr arholiad. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r newyddion y byddai'n gallu cael cymorth gan rywun i'w helpu i ddarllen y cwestiynau yn yr arholiad, nid oedd J yn teimlo'n hyderus. Gan nad oedd J yn teimlo'n hyderus nid oedd am astudio ar gyfer yr arholiad ac felly nid oedd yn mwynhau'r math hwn o ddysgu.

*“Credaf fod dysgu yn dda ond mae'n rhaid iddo fod yn rhywbeth rydych yn ei fwynhau. Os nad ydych yn ei fwynhau, nid ydych am ddysgu. Os ydych yn mwynhau gwneud rhywbeth, byddech yn canolbwyntio arno ac yn dysgu amdano.”*

Roedd cost a thrafnidiaeth yn rhwystrau eraill a nodwyd gan J pan ddaw i ddysgu. Roedd y rhwystrau hyn yn gydgysylltiol gan fod J yn credu na allai fforddio'r costau teithio. Teimlai yn fwy na thebyg y cynigir hyfforddiant yn ystod y diwrnod gwaith ac felly y byddai'n rhaid iddo golli allan ar gyflog diwrnod er mwyn gwneud yr hyfforddiant. Ar ôl dweud hyn, byddai J yn ystyried hyfforddi ar ôl y gwaith ond dim ond os oedd yn awr neu ddwy yr wythnos.

**Cyfweliad astudiaeth achos 6**

(Aberdâr – Sgiliau Sylfaenol).

**Cefndir**

Cynhaliwyd astudiaeth achos 6 gyda Mrs R sy'n 50 oed ac mae wedi priodi â dau o blant a thri ŵyr ac wyres. Mae wedi byw yn yr un rhan o Aberdâr erioed ac mae sawl aelod o'i theulu agos yn byw gerllaw. Mae ei mab yn 20 oed ac wedi priodi gyda thri o blant tra bod ei merch yn 19 ac yn dal i fod yn y coleg.

Gadawodd Mrs R yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol er ei bod yn dweud ei bod wedi mwynhau'r ysgol. Roedd yn hoffi agwedd gymdeithasol yr ysgol er nad oedd ganddi lawer o ffrindiau. Mae'n ddyslecsig ac roedd wedi cael nifer o broblemau yn yr ysgol gynradd o ran athrawon ddim yn rhoi digon o sylw a chymorth iddi wrth ddysgu. O ganlyniad i hyn, teimlodd Mrs R nad oedd yn gallu gwneud yn dda yn yr ysgol gan na chafodd ei dysgu i ddarllen ac ysgrifennu yn yr ysgol gynradd. Felly, pan aeth i'r ysgol uwchradd roedd eisoes ar ei hôl hi ac ni lwyddodd erioed i ddal i fyny. O ganlyniad i hyn, mae gan Mrs R ddiffyg hyder yn gymdeithasol ac yn ei galluoedd academaidd.

*“Yn fy ngeiriau fy hun, hoffwn pe baswn wedu eu cael [cymwysterau] fel y gallwn wella fy hun a bod yn fwy hyderus ynof fy hun. O fod hebddynt nid oes gen i'r hyder na'r meddwl cywir i wneud pethau.”*

Ers gadael yr ysgol mae Mrs R wedi cymryd camau i wella ei llythrennedd a'i rhifedd. Fe'i hysgogwyd i wneud hyn unwaith roedd wedi dechrau ei theulu. Hefyd, sylweddolodd ei bod yn well ar rai pynciau na'r oedd wedi meddwl yn flaenorol (e.e. mathemateg) ac felly dechreuodd deimlo'n fwy hyderus yn ei galluoedd. Disgrifiodd ei hun fel person ymarferol iawn, wedi dod i'r brig mewn gwaith metel yn yr ysgol ac wedi mwynhau gwaith coed.

*“Roeddwn wrth fy modd yn yr ysgol. Roeddwn yn dwp yn yr ysgol ac yn wirion. Rwy'n llawer gwell nawr."*

*"Gallaf ddarllen ac ysgrifennu ond nid wyf yn wych.”*

Wedi dweud hyn, roedd gan Mrs R broblemau o hyd wrth ddarllen yn uchel neu ysgrifennu pan gâi ei gwylio. Disgrifiodd nifer o strategaethau ymdopi oedd ganddi ar gyfer delio â'i ddiffyg sgiliau rhifedd a llythrennedd, yn bennaf ei defnydd, neu'r diffyg defnydd o'i sbectol er mwyn osgoi darllen ac ysgrifennu. Yn aml byddai'n honni ei bod wedi anghofio ei sbectol ac felly'n methu darllen na chwblhau ffurflen.

> *"Ond i lenwi ffurflen, na, ni fyddwn yn hyderus. Ac i lenwi ffurflen, roedd yn rhaid i mi wneud un ddoe ac nid oedd gennyf fy sbectol amdanaf, felly nid oedd fy sbectol gennyf go iawn ac roedd yn rhaid i fi lenwi ffurflen a rhoi fy enw a chyfeiriad a phethau felly. Gallaf ei wneud, ond mae gen i gywilydd o fy llawysgrifen."*

Yn ogystal â'i sbectol â'i chywilydd o'i llawysgrifen, soniodd Mrs R hefyd am adeg mewn archfarchnad pan nad oedd yn gallu ysgrifennu ei chyfeiriad ar gefn siec wrth gael ei gwylio gan yr ariannwr a chwsmeriaid eraill.

> *"Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd gennym Co-op mawr ac nid oedd cardiau ac roeddem yn defnyddio llyfrau siec...Rwy'n gwybod sut i sillafu fy nghyfeiriad ond ni allwn ei sillafu. Ysgrifennais dair siec ac ni allwn roi fy nghyfeiriad ar gefn y siec. Yn y diwedd dywedais wrth y ferch, dywedais 'Mae'n ddrwg gennyf ond ni allaf ei wneud. Allwch chi ei ysgrifennu arno?' ac fe'i ysgrifennodd."*

Yn ystod y cyfweliad soniodd Mrs R lawer am bobl eraill yn ei bywyd yn hytrach na datgelu manylion am ei hun. Roedd yn trefnu ei bywyd o amgylch y bobl bwysig yn ei bywyd ac felly roedd yn cadw'n brysur drwy helpu eraill.

**Cyflogaeth**

Er nad yw'n gweithio ar hyn o bryd, roedd Mrs R wedi gweithio mewn becws am sawl blwyddyn yn pecynnu cacennau. I ddechrau cafodd y swydd drwy rywun mae'n ei adnabod ac yn fuan cafodd ei dyrchafu i fod yn oruchwyliwr. Dyma'r unig swydd iddi ei chael rhwng yr ysgol a dod yn feichiog gyda'i phlentyn cyntaf. Yn anffodus, wrth weithio yn y becws anafodd Mrs R ei chefn yn codi bocsys ac ni allai ddychwelyd ar ôl cael ei phlant.

Er bod Mrs R yn poeni am ei dyrchafiad yn y becws gan ei fod yn cynnwys gwaith papur, roedd yn falch o gael cydnabyddiaeth am ei gwaith.

> *"Cefais fy nyrchafu gan fy mod yn gweithio'n galed ac roeddwn yn gwneud beth roedd yn rhaid i mi ei wneud, felly roeddwn yn falch iawn."*

Er mai'r swydd yn becws yw'r unig gyflogaeth â thâl mae Mrs R wedi'i wneud erioed, mae wedi cael nifer o swyddi gwirfoddol ers cael ei phlant. Ei swydd wirfoddol gyntaf oedd mewn meithrinfa yn gofalu am fabanod a phlant bach tra'i bod ar hyn o bryd yn gwneud gwaith gwirfoddol gyda'r henoed. Er bod Mrs R wedi ystyried dychwelyd i gyflogaeth llawn amser mae'n well ganddi wirfoddoli na gweithio gan ei fod yn gweddu â'i hanianawd nerfus ac nid yw'n herio ei phroblemau o ran hyder.

*“Gyda gwaith gwirfoddol gallaf gerdded i ffwrdd. Os ydych yn gweithio ni allwn gerdded i ffwrdd. Byddai'n rhaid i mi ymrwymo fy hun iddo. Nid wyf yn hoffi gadael pobl i lawr felly gyda gwaith gwirfoddol mae'n wahanol i waith â thâl.”*

Mae hyn yn awgrymu nad yw Mrs R am fethu, ac nad yw am fod mewn sefyllfa lle mae'n rhwymedig i rywun neu rywbeth. Felly, drwy wirfoddoli gall barhau'n hyblyg o ran ei hymrwymiadau a chael digon o amser o hyd i'w roi i'w theulu.

**Trefn ddyddiol**

Mae gan Mrs R drefn ddyddiol anhyblyg iawn y mae wedi'i threfnu o amgylch ei theulu. Fel arfer bydd yn codi am 6am ac yn mynd â'i merch ar ei rownd bapur yn y car. Unwaith y mae'n dychwelyd o'r rownd bapur bydd yn cael cawod a brecwast.

Fel arfer mae'n dechrau'r diwrnod drwy fynd â'i merch i'r coleg ac yna ymweld ag un o'r bobl hŷn yn ei hardal am awr cyn mynd i'r dref i siopa. Yna byddai'n mynd i ymweld â'i nain ei hun sy'n byw'n lleol cyn dychwelyd adref.

Gartref byddai'n gwneud rhywfaint o waith tŷ cyn gofalu am ei wyrion a'i wyresau. Yna byddai'n casglu ei merch o'r coleg ac yn paratoi swper. Ar ôl swper byddai Mrs R yn gallu treulio ychydig o amser gyda'i gŵr, yn gwylio'r teledu, gwau neu ddarllen ac yna mynd i'r gwely tua 10pm.

**Ffynonellau gwybodaeth**

Mae Mrs R yn cael ei gwybodaeth o nifer o ffynonellau. Fodd bynnag, fel arfer mae'n dibynnu ar y teledu am newyddion a materion cyfoes. Cyfaddefodd Mrs R ei bod yn mwynhau gwylio'r newyddion a bydd yn gwneud ymdrech i wybod beth sy'n digwydd yn y byd.

Mae Mrs R yn gwylio'r teledu gyda'r nos gan nad oes ganddi amser yn ystod y dydd. Fel arfer byddai'n gwylio'r newyddion ar ITV Wales. Fodd bynnag, gan fod ganddi Sky, bydd weithiau'n gwylio BBC News 24 a Sky News.

Gan ei bod yn dibynnu ar y teledu am wybodaeth, nid yw'n prynu papurau newydd. Fodd bynnag, mae ei gŵr yn prynu The Star a'r papur newydd lleol, The Leader, yn achlysurol ond nad yw'n eu darllen. Yn gyffredinol, byddai Mrs R yn dewis darllen y straeon pennawd a'r rhai hynny am bobl enwog/straeon bywyd go iawn am bobl leol.

Mae Mrs R hefyd yn gwrando ar y radio wrth yrru'r car. Yn gyffredinol bydd yn gwrando ar gerddoriaeth yn y tŷ. Fodd bynnag, wrth yrru ei merch yn ôl ac ymlaen i'r coleg, ac ar y rownd bapur, mae'n gwrando ar Radio Wales.

*“Rwy'n ei fwynhau, oherwydd ar fore dydd Iau maent yn sôn am bethau gwahanol a phynciau da a phethau felly. Mae'n bleser gwrando arno.”*

**Cynlluniau hirdymor**

Nid yw Mrs R yn rhagweld unrhyw newidiadau mawr yn ei bywyd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Disgrifiodd ei bywyd fel petai'n 'arafu i lawr'. Mae Mrs R wedi gwrthod newid yn y blynyddoedd diwethaf drwy ofyn i'w gŵr wrthod swydd a gynigiwyd iddo bum milltir i ffwrdd. Er nad yw pum milltir yn bell iawn i ffwrdd, nid oedd Mrs R am symud o'i lleoliad presennol yng nghanol y dref, ger ei theulu a'i ffrindiau.

O ran gyrfa a dyheadau o ran gwaith, nid yw Mrs R yn gweld ei hun mewn cyflogaeth eto. Nid yw'n meddwl bod ganddi'r hyder i weithio eto, ac nid yw ychwaith am gymryd y risgiau cysylltiedig sy'n ymwneud â gweithio (e.e. ofn methu, problemau llythrennedd heriol, hyder mewn cwmni).

> *"Ni fyddai gennyf yr hyder i allu gweithio gyda phobl a byddai gennyf ofn cael fy ngwrthod felly byddwn yn colli mwy o hyder eto."*

**Dysgu a rhwystrau**

Er bod Mrs R wedi gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol, mae'n awyddus i ddysgu o hyd. Iddi hi, un o'r prif rwystrau yw'r ffaith fod ganddi ofn yr amgylchedd dysgu.

Yn wahanol i'r ffordd y mae'n disgrifio ei hun fel rhywun sydd â diffyg hyder, mae Mrs R wedi cofrestru ar gyfer nifer o gyrsiau hyfforddi ers gadael addysg ffurfiol. Mae wedi cymryd camau i wella ei llythrennedd, mae wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf yn ogystal â dechrau cwrs cyfrifiadurol. Er ei bod yn disgrifio'r rhesymau dros gymryd rhan mewn dysgu fel rhai pobl eraill, cofrestrodd ar gyfer yr hyfforddiant o hyd.

Ar ôl i Mrs R adael yr ysgol, dywedodd yr awgrymodd ymgynghorydd yn ei choleg lleol y dylai wella ei llythrennedd drwy gyflawni cwrs blwyddyn. Er nad hyn oedd ei bwriad gwreiddiol, aeth ati i gofrestru a chwblhau'r cwrs.

> *"Gadewais yr ysgol uwchradd ac es yn ôl i ddarllen ac ysgrifennu. Dychwelais i'r ysgol i wneud hynny...es i siarad â rhywun a gwnaethant ddweud ei fod yn syniad da, felly es ati a'i wneud. Gwnes hynny am flwyddyn."*

Mwynhaodd y cwrs hwn gan ei bod yn teimlo ei bod wedi cael mwy o gymorth fel dysgwr a chyda myfyrwyr hŷn nad oedd yn ei dychryn.

Yna cofrestrodd ar gyfer cwrs cyfrifiadurol ar ôl iddi gael ei dau o blant. Ei hysgogiad i ddysgu am gyfrifiaduron oedd er mwyn gallu helpu ei phlant pan fyddent yn dod i ddefnyddio'r dechnoleg newydd.

> *"Dechreuais ddilyn cwrs cyfrifiadurol a'r pythefnos cyntaf roeddwn yn iawn ac yna aeth yn rhy dechnegol, ysgrifennu a phethau felly ac nid oeddwn am gael gwybod mwy...Roedd angen i mi ei ddysgu er mwyn y plant gan fod cyfrifiaduron yn newydd bryd hynny, roedd tua 15 o flynyddoedd yn ôl efallai. Newydd ddechrau dod allan*

*roeddynt a gwnaethom brynu un ac roedd angen i mi ei ddefnyddio er mwyn i'r plant gael ei ddefnyddio. A dyna pam es i."*

Fodd bynnag, ni wnaeth orffen y cwrs gan ei fod yn cynnwys mwy o ysgrifennu na'r oedd yn ei ddisgwyl. Roedd wedi meddwl y byddai ond yn gwrs ymarferol.

Hefyd, cyflawnodd Mrs R gwrs cymorth cyntaf Ambiwlans Sant Ioan pan oedd yn gwirfoddoli yn y feithrinfa i blant. Nid oedd yn rhaid iddi dalu am y cwrs hwn. Roedd yn meddwl fod y cwrs hwn yn ymarferol ac yn ddefnyddiol ac roedd yn cynnwys chwarae rôl a defnyddio celfi (e.e. dymis dynol). Cwblhaodd y cwrs hwn ddwywaith gan fod pob tystysgrif ond yn para am gyfnod penodol. Er y gellid gweld hyn fel cyflawniad, nid oedd Mrs R yn ei gydnabod felly, o bosibl gan ei fod yn dystysgrif ymarferol ac felly nid oedd yn ei weld mor heriol â'r cwrs cyfrifiadurol.

Gan edrych i'r dyfodol, byddai Mrs R yn hoffi parhau i ddysgu ac awgrymodd y byddai'n hoffi gwneud cwrs hylendid bwyd ar-lein. Mae coginio yn un o'i diddordebau y mae'n hyderus ynddo, ar ôl arlwyo ar gyfer cant o westeion ym mhriodas ei mab. Byddai'n hoffi cael tystysgrif ffurfiol a fyddai'n caniatáu iddi arlwyo ar gyfer achlysuron eraill pe byddai'r cyfle yn codi. Fodd bynnag, awgrymodd Mrs R y byddai'n gwneud y cwrs hylendid bwyd ar-lein er mwyn iddi gael ymdeimlad o anhysbysrwydd fyddai'n ei 'diogelu' rhag ei hofnau; ofn methu, anallu i ddysgu a hyder gyda dysgwyr eraill.

*"Wrth i chi fynd yn hŷn rydych yn dysgu llai. Ni allaf ddal pethau yn fy mhen ac mae hynny'n fy nghythruddo'n fawr, gallaf ddarllen rhywbeth drosodd a throsodd a dw i dal ddim yn gwybod."*

Wrth drafod yr amgylchedd hyfforddi perffaith, roedd gan Mrs R nifer o rwystrau y byddai angen eu goresgyn er mwyn ei hannog i gymryd rhan mewn hyfforddiant eto. Roedd y rhain yn cynnwys cyd-ddysgwyr, yr athro ac amlygiad i broblemau o ran sgiliau sylfaenol:

*"[Hoffwn] ddosbarth bach iawn, gallwn ymdopi â phobl o fy oedran i sydd o'r un natur â mi...ac athro amyneddgar, sy'n ferch...a darllen i fy hun. Dw i ddim am ddarllen yn uchel, peidiwch â gofyn i mi!"*

**Cyfweliad astudiaeth achos 7**

(Abermo– Cyflogai).

**Cefndir**

Cynhaliwyd astudiaeth achos 7 gyda B, sef dyn 51 oed priod sy'n byw gyda'i wraig a'i fab 21 oed. Mae'n blastrwr ac wedi gwneud gwaith ymarferol ers iddo adael yr ysgol. Penderfynodd yn ddiweddar agor stondin bach yn y farchnad dan do leol yn gwerthu ychwanegolion meithrin cyhyrau er mwyn rhoi swydd i'w fab a gyrfa newydd iddo'i hun unwaith y daw'n rhy hen i fod yn blastrwr.

Treulir y rhan fwyaf o amser rhydd B yn y gampfa lle mae wedi bod yn magu cyhyrau am dros ugain mlynedd. Dechreuodd fynd i'r gampfa i golli rhywfaint o bwysau pan briododd ac yna canfu ei fod yn rhoi hwb i'w hyder ac yn gwneud iddo deimlo'n iachach. Roedd hyn yn bwysig iddo gan ei fod yn fachgen tenau yn yr ysgol a oedd yn dioddef o asthma. Roedd magu cyhyrau yn ei wneud yn ddyn cryf, yn wahanol i'r bachgen gwan ydoedd yn yr ysgol.

Yn yr ysgol teimlai B nad oedd yn cymysgu gyda'r mathau cywir o fechgyn ac o ganlyniad ni wnaeth gwblhau ei addysg ffurfiol. Yn aml yn triwanta, byddai B yng nghwmni bechgyn eraill o'i oedran yn yr ysgol yn smygu yn y caeau lleol yn hytrach na mynd i'r ysgol. Pan oedd yn yr ysgol roedd yn swil iawn ac ni fyddai'n gofyn i athrawon am gymorth pan nad oedd yn deall rhywbeth. O ganlyniad i hyn, gwaethygodd ei raddau ac nid oedd ganddo ddiddordeb yn yr ysgol o gwbl.

> *“Felly nid oeddwn yn ddwl, dw i'n meddwl y gadawais un pentref bach a symud i bentref arall ac ymuno â grŵp o fechgyn, nid o reidrwydd yn ddrwg, ond eu bod mewn trwbl bob amser ac nad oeddent yn malio am ddysgu ac ati ac ymunais â hwy a rhedeg ar hyd y strydoedd a dw i'n meddwl y cefais fy arwain ar gyfeiliorn.”*

Ar ôl sefyll yr arholiad 11+ ac wedi digalonni ar ei anallu i berfformio'n dda mewn arholiadau, yn raddol gwaethygodd o ddosbarth gallu A i ddosbarth gallu C. Pan adawodd addysg yn y pen draw ei fwriad oedd ennill arian a chael ffordd o fyw annibynnol.

Mae B wedi gorfod cael dwy lawdriniaeth ar ei beneliniau, un llawdriniaeth ar bob un. Roedd gan bob penelin broblemau o ran tendonau oherwydd y gwaith plastro ac yna meithrin cyhyrau. Unwaith y daeth ei gyhyrau'n wan dechreuodd ystyried beth y byddai'n ei wneud ar ôl plastro; gan ei fod yn gwybod na fyddai ei gorff yn caniatáu iddo fod yn blastrwr llawn amser am byth.

Fel cwpl, mae B a'i wraig wedi byw bywyd tawel; yn arbed arian i orffen talu eu morgais. Mae'r sicrwydd ariannol hwn wedi dod â hyder i'r ddau ohonynt. Nawr eu bod wedi llwyddo yn eu nod, roeddent yn teimlo y gallent gymryd y risg o agor stondin mewn marchnad gan eu bod wedi cronni digon o gynilion i wneud y fenter yn un fforddiadwy. Ar adeg y cyfweliad roedd y stondin yn llwyddiannus ac roedd B yn ystyried agor siop neu stondin arall mewn marchnad mewn tref gyfagos.

> *“Y gobaith yw gyda busnes sy'n ffynnu yn y farchnad efallai siop arall, efallai ym Merthyr neu Bontypridd, ac os bydd hynny'n digwydd yna gallaf roi swydd llawn amser iddo'n rhedeg un. Fi, swydd llawn amser yn rhedeg y llall a byddai hynny'n ddyddiau da.”*

Mae gan B ffocws pendant ar sicrhau y darperir ar gyfer ei fab a bod ganddo ffynhonnell o incwm. Mae B yn ymwybodol o'r camgymeriadau a wnaeth fel person ifanc ac nid yw am i'w fab brofi'r un camgymeriadau. Felly, siaradodd B lawer am ei unig fab a'i ddyheadau ar ei gyfer.

> *“Felly mae'r hyn rwyf wedi'i wneud yn anghywir yn fy oes i, rwyf wedi sicrhau ei fod wedi gwneud yn gywir yn ei oes ef.”*

**Cyflogaeth**

Gadawodd B yr ysgol a chymryd cyfres o swyddi achlysurol a alluogodd iddo ennill digon o arian i fyw'r bywyd roedd am ei gael fel dyn ifanc. Gwrthododd gynnig prentisiaeth er mwyn cael gwaith heb sgil a thâl gwell a oedd yn ddigon ar y pryd. Yn raddol dechreuodd weithio yn y fasnach adeiladu ac yn y pen draw setlodd fel plastrwr gan mai hynny roedd yn ei fwynhau fwyaf.

> *"Yr unig beth a roddodd ryddhad i mi oedd y ffaith bod mwy o swyddi o gwmpas bryd hynny. Rhoddodd fy nhad brentisiaeth plymio o 'mlaen, y ddêl oedd pedair punt yr wythnos a gan fy mod yn gallu ennill un ar ddeg punt yr wythnos, dywedais i'r diawl â'r brentisiaeth, nid oes ei heisiau arnaf. Rwyf am fynd allan i weithio ac ennill arian go iawn a dyna ni. Gwirion, gwirion."*

Roedd yn hunangyflogedig am gyfnod pan oedd yn ifanc, gan ychwanegu at ei incwm gyda swyddi achlysurol eraill a gafodd yn lleol. Unwaith roedd ychydig yn hŷn cafodd bod gwaith plastro yn dod yn amlach gan fod yn well gan ei gleientiaid gyflogi crefftwr hŷn.

> *"Dechreuais fy musnes fy hun wedyn, roeddwn yn blastrwr cymwys erbyn hynny. Roeddwn yn ei chael yn anodd iawn dechrau arni bryd hynny gan nad oedd gennym geiniog. Roedd pobl yn tueddu i ymddiried mewn plastrwr hŷn yn hytrach na dod â bachgen ifanc i mewn."*

Er fod B yn hapus fel plastrwr, ystyriodd ddod yn landlord tafarn. I ddechrau, ymddengys bod hyn yn broses gwneud cais syml. Fodd bynnag, unwaith yr edrychodd yn agosach ar y weithdrefn, canfu y byddai'n rhaid iddo ef a'i wraig sefyll arholiad. Newidiodd hyn ei feddwl am wneud cais yn seiliedig ar ei berfformiad mewn arholiadau yn yr ysgol ac felly ni ddilynodd hyn.

Dim ond un swydd y mae B wedi gwneud cais amdani ers dod yn blastrwr ac roedd hynny ar gyfer swydd rhan amser yn ei gampfa leol. Honnodd ei fod wedi profi rhagfarn oed yn y broses o wneud cais gan na chafodd gynnig mynd i gyfweliad. Roedd y swydd roedd yn gwneud cais amdani yn gynorthwy-ydd lefel isel yn y gampfa, rhywbeth roedd yn teimlo fod ganddo fwy na digon o brofiad ar ei gyfer. Yn ychwanegol at y problemau posibl gyda'i oedran, teimlai B hefyd fod ei hanes gwaith cynnar a'i ddiffyg cymwysterau ffurfiol wedi'i adael i lawr wrth wneud cais am waith.

> *"Ffurflenni cais, rwyf bob amser wedi'u cael yn hunllef a dweud y gwir. Y prif reswm dros eu cael yn hunllef yw am na chefais unrhyw gymwysterau pan adawais yr ysgol. Dim lefel A, dim lefel O, dim."*

Ers gwneud cais i'r gampfa leol, nid yw B wedi gwneud unrhyw gais am swyddi eraill ac nid yw'n bwriadu gwneud nawr gan fod ganddo ei fusnes stondin mewn marchnad.

Agorodd B stondin mewn marchnad yn nechrau 2009 yn gwerthu ychwanegiadau meithrin cyhyrau. Penderfynodd agor stondin i roi cyflogaeth i'w fab a ffynhonnell

incwm i'w hun pan fydd yn rhoi'r gorau i blastro. Ar hyn o bryd mae'n gweithio'n rhan amser fel plastrwr ac yn rhan amser ar y stondin yn y farchnad. Mae'r cysyniad o fusnes stondin mewn marchnad yn seiliedig ar ddiddordeb B mewn meithrin cyhyrau gan ddefnyddio hynny fel sbardun ar gyfer busnes newydd. O ystyried fod gan B eisoes ddealltwriaeth a phrofiad sylweddol o feithrin cyhyrau a'r ychwanegolion i'w cymryd, ymddengys bod y fenter hon yn fenter gymharol hawdd i'w sefydlu.

**Trefn ddyddiol**

Ar hyn o bryd mae gan B ddwy swydd rhan amser, yn plastro ac ar y stondin yn y farchnad. Mae'n gwneud y ddwy swydd bob yn ail diwrnod. Fodd bynnag, mae'r gwaith plastro fel arfer yn cael mwy o sylw na'r stondin yn y farchnad gan y byddai natur y gwaith yn seiliedig ar brosiect.

Pan nad yw B yn gweithio mae'n treulio'i amser rhydd yn y gampfa neu gartref gyda'i wraig. Yn anaml y bydd yn cymdeithasu y tu allan i'r ddau leoliad hyn. Wrth ymlacio mae B yn hoffi mynd am brydau o fwyd gyda'i wraig yn hytrach na mynd i'r dafarn.

Mae B a'i wraig yn hoffi gwylio'r teledu gyda'r nos ac mae'r ddau yn y gwely erbyn 10pm bob nos.

**Ffynonellau gwybodaeth**

Yn gyffredinol, mae B yn cael y rhan fwyaf o'i newyddion a'i wybodaeth drwy'r teledu. Mae'n gwylio'r News at Ten ar ITV Wales bob nos. Nid yw'n prynu papur newydd lleol na chenedlaethol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n darllen papurau ei gydweithwyr yn achlysurol os oes ganddo funud sbâr ar y safle adeiladu.

Mae B yn hoffi chwaraeon ac felly mae'n gwrando ar Real Radio sydd â llawer o ddarllediadau am chwaraeon. Byddai hefyd yn gwylio uchafbwyntiau'r pêl-droed ar y teledu er nad oes ganddo deledu Sky.

Mae B hefyd yn hoffi gwylio rhaglenni dogfen natur ac felly mae'n gwylio'r rhain ar y sianelau Freeview.

Mae B yn defnyddio'r cyfrifiadur i gael y stoc ar gyfer ei stondin yn y farchnad yn ogystal â chyfathrebu dros e-bost gyda nifer o gysylltiadau busnes. Fodd bynnag, nid yw'n dda iawn gyda chyfrifiaduron.

**Cynlluniau hirdymor**

Pan oedd B yn ifanc nid oedd ganddo unrhyw gynlluniau hirdymor, roedd yn fodlon gadael yr ysgol heb nod er mwyn ennill arian.

> *"Doedd gen i ddim syniad. Nid oedd gen i weledigaeth."*

Bellach mae gan B ffocws penodol iawn a chynllun cyflogaeth hirdymor. Y gobaith yw y bydd ei stondin yn y farchnad yn darparu digon o arian ar gyfer ei ymddeoliad a ffordd o fyw ymlaciol nad yw'n rhy afradlon.

*“Hoffwn ein gweld ni, fi a'm gwraig, yn mynd ar wyliau ddwy neu deirgwaith y flwyddyn. Byddwn wrth fy modd â hynny. Rwy'n hoffi mynd ar wyliau hyd yn oed os mai dim ond am benwythnos hir ydyw. Byddai hynny'n ddyddiau da.”*

Mae B yn canolbwyntio ar ei fab ac yn ceisio ei helpu i lwyddo. Fodd bynnag, yn ystod y cyfweliad, sylweddolodd B na ddylai fod yn herio ei fab am ei ragolygon gan fod sawl tebygrwydd rhwng sut mae ei fab nawr a sut roedd B ar yr un oedran.

*“Fy mhrif amcan ar hyn o bryd yw sicrhau ei fod wedi'i sefydlu, dyna fy mhrif amcan."*

I B, nid yw gwella a datblygu'n bersonol yn nod. Gan fod B wedi talu ei forgais a bod ganddo rywfaint o gynilion yn y banc, nid yw'n poeni am ei ddiffyg cymwysterau ffurfiol mwyach. Gan fod B yn blastrwr, nid yw erioed wedi gorfod defnyddio cymwysterau ffurfiol i gael ei gomisiynu; yn hytrach roedd ei waith ymarferol yn dweud y cyfan. Felly prif amcan B yw ei stondin newydd yn y farchnad.

*“Yn 51 oed, nid wyf yn ymdrechu i wella a gwella. Yr unig beth rwyf am ymdrechu i'w wneud yw gwneud fy musnes yn well ac yn well.”*

**Dysgu a rhwystrau**

Fel y crybwyllir uchod, nid oes gan B ddiddordeb mewn mynd i'r afael â'i ddiffyg cymwysterau ffurfiol nac anghenion sgiliau sylfaenol. Teimla B er yr ymddengys bod diffyg tystysgrifau ffurfiol o gyflawniadau academaidd ar ei CV, nid yw hyn yn cynrychioli ei afael o iaith na'i allu mathemategol. Nododd B nad oedd ganddo broblem â dysgu. Yr unig beth oedd nad oedd yn barod i ddysgu yn yr ysgol, wedi'i brofi gan y ffaith ei fod wedi dysgu sawl sgil ers gadael yr ysgol.

Gwnaeth B ystyried cofrestru ar gyfer cwrs hyfforddwr mewn campfa ychydig flynyddoedd yn ôl lle cafodd grant i wneud yr hyfforddiant. Wedi'i ysbrydoli gan ei ddiddordeb mewn meithrin cyhyrau a mynd i'r gampfa, roedd B am newid gyrfa a gwneud ei ddiddordeb yn broffesiwn. Fodd bynnag, unwaith y cafodd ei dderbyn ar y cwrs, canfu B y byddai'n rhaid iddo sefyll arholiad ar ddiwedd y cwrs hyfforddwr; rhywbeth nad oedd yn gwybod amdano'n flaenorol. Yn seiliedig ar y ffaith y byddai asesiad ar ffurf arholiad a'r ffaith ei fod yn teimlo'n rhy hen i fod yn gyfarwyddwr mewn campfa, penderfynodd B beidio â gwneud y cwrs a pheidio â newid gyrfa.

*“Es i'r Ceiswyr Swyddi neu beth bynnag rydych yn ei alw, rwy'n anghofio...a gwnaethant ddweud fod ganddynt grant o gan punt ar ei gyfer ond ei fod ond yn daladwy i'r cwmni a oedd yn fy nghyflogi, ond roeddwn wedi dadrithio am fy oed, pwy fyddai am fy nghyflogi? Yng nghefn fy meddwl roeddwn yn dechrau amau fy mod yn rhoi fy hun i lawr.”*

Ers agor y stondin yn y farchnad mae B wedi magu mwy o hyder a byddai'n ailystyried y cwrs hyfforddwr pe na fyddai ganddo ddwy swydd rhan amser yn barod. O ystyried yr ymateb cadarnhaol y mae wedi'i gael o'r fenter busnes newydd a'r ffaith bod cwsmeriaid yn dod i ofyn am ei gyngor yn aml, mae ei hyder a'i alluoedd wedi tyfu.

> *"Mae'r cyfan yn ymwneud â hyder. Os nad oes gennych ef, nid oes gennych ef ond nawr fod gennyf y siop mae gennyf hyder bellach. Rwy'n sefyll yno ac mae pobl yn dod i mewn ac yn fy holi."*

**Cyfweliad astudiaeth achos 8**

(Abermo– Cyflogai)

**Cefndir**

Cynhaliwyd astudiaeth achos 8 gyda merch 18 oed a oedd newydd gael plentyn. Pan aeth W i grŵp ffocws yn gynharach yn y rhaglen ymchwil, roedd yn feichiog ac yn gweithio. Felly, roedd W wedi mynd trwy nifer o newidiadau mewn bywyd ers y tro diwethaf iddi gymryd rhan yn y gwaith ymchwil.

Roedd W a'i chariad yn byw mewn fflat ger y môr. Roedd W wedi bod yn gweithio fel gweinyddes ond mae bellach yn fam llawn amser. Mae ei chariad yn gweithio mewn siop ac mae ei fam, sydd hefyd yn byw yn y fflat, yn astudio adweitheg.

Mae W wedi byw mewn sawl lle gwahanol yng Nghymru wrth dyfu i fyny. Roedd ei mam yn y Fyddin ac felly newidiodd ysgolion sawl tro cyn setlo yn Abermo. Mae Abermo yn dref glan môr gyda llawer o swyddi tymhorol. Ychydig iawn o swyddi parhaol llawn amser sydd yn yr ardal ac felly mae dyheadau o ran gyrfa yn aml yn isel ymhlith pobl ifanc lleol. Nid oedd gan W ddyheadau o ran gyrfa wrth dyfu i fyny yn Abermo. Roedd yn gwybod nad oedd am fod mewn addysg mwyach. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r penderfyniad hwnnw nid oedd yn siŵr. I ddechrau roedd W am fod yn wyddonydd fforensig gan ei bod wedi gweld rhaglen ar y teledu am y proffesiwn ond cafodd ei dadrithio gan y ffaith na fyddai'n gymwys nes ei bod yn ei hugeiniau. Felly, unwaith roedd W wedi cwblhau ei TGAU nid oedd yn gwybod beth roedd am ei wneud nesaf.

Ar gyfer ei TGAU, dewisodd W 3 opsiwn oedd o ddiddordeb iddi ar y pryd, TGCh, tecstilau a datblygiad plentyn. Roedd yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwneud 'pethau ymarferol' gan nad oedd yn hoffi eistedd yn llonydd mewn ystafell ddosbarth am wers gyfan. Roedd yn diflasu'n hawdd yn yr ysgol ac yn aml câi ei hanfon o'r wers am fod yn aflonyddgar. Gwnaeth W fwynhau agwedd gymdeithasol yr ysgol a gwnaeth nifer o ffrindiau da yno.

> *"Wrth edrych yn ôl es i am hwyl yn unig. Fel mynd i'r ysgol i fynd i weld fy ffrindiau yn unig."*

Unwaith y gadawodd W yr ysgol symudodd i mewn gyda'i chariad i dref sydd ymhellach i'r gogledd na lle mae ei mam yn byw. Addawyd swydd yn y dref i'w chariad gan ffrind i'r teulu tra cofrestrodd W yn y coleg i wneud BTEC busnes. Y gobaith oedd y byddai'r pwnc yn ei helpu yn ddiweddarach mewn bywyd pan roedd yn bwriadu ymuno â'i chariad yn gweithio i'w thad yng nghyfraith.

*“Roedd yn iawn â dweud y gwir. Roedd yn llawer gwell nag yr oeddwn yn ei feddwl. Gwnes yn eithaf da ond rwy'n meddwl bod hynny gan fy mod gyda grŵp hollol wahanol o bobl na'r rhai yno gan nad oeddwn yn adnabod neb yno..”*

Er bod W wedi cwblhau'r ysgol a'i BTEC, mae'n parhau i gael trafferth gyda Saesneg sylfaenol a Mathemateg.

*“Felly mae gen i broblem gyda mathemateg. Roedd Saesneg hefyd gan fod fy sillafu yn erchyll. Mae fy sillafu a'm llawysgrifen yn warthus ac mae eu hangen arnoch bob dydd hefyd.”*

**Cyflogaeth**

Tra roedd W yn yr ysgol roedd yn weinyddes mewn gwesty, yn forwyn ystafell ac yn gweithio mewn ystafell de. Roedd yn arferol i bobl ifanc weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau tra yn yr ysgol er mwyn ychwanegu at eu harian poced er mwyn prynu pethau a/neu fynd allan ar y penwythnosau. Mae'r rhan fwyaf o swyddi sydd ar gael yn ardal leol W yn y sector gwasanaethau..

*“Gan mai gweinyddu neu weithio mewn siop yw'r rhan fwyaf o'r gwaith ac nid oes angen llawer o gymwysterau arnoch i weinyddu. Nid oes angen dim arnoch mewn gwirionedd, ac i weithio mewn siop dim ond sgiliau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid sydd eu hangen arnoch. Ar wahân i hynny nid oes llawer..”*

Swydd fwyaf arwyddocaol W hyd yn hyn oedd gyda manwerthwr y stryd fawr yn gwerthu pethau i'r cartref. Bu'n rhaid i W wneud cais am y swydd hon yn ffurfiol, gan gwblhau ffurflen gais a mynd i gyfweliad. Nid oedd W yn obeithiol y byddai'n cael y swydd gan nad oedd erioed wedi gwneud cais am swydd o'r blaen, nac wedi bod i gyfweliad am swydd. Oherwydd hyn, nid oedd W yn ymwybodol y byddai'n rhaid iddi hefyd gwblhau prawf mathemateg syml yn y cyfweliad am swydd. Fodd bynnag, pasiodd W y prawf mathemateg ac er gwaethaf ei hofnau am gwblhau'r ffurflen gais, cynigiwyd y swydd iddi.

*“Dw i ddim yn ymddiried ynof fy hun i lenwi ffurflenni ar fy mhen fy hun. Dw i wedi'u cael yn anghywir bob tro.”*

Mwynhaodd W agwedd gymdeithasol y sector manwerthu yn ogystal â'r cyfleoedd a roddwyd iddi i darfu ar y drefn waith ar lawr y siop. Gofynnwyd iddi ailaddurno ffenestri'r siop yn ogystal ag aildrefnu llawr y siop. Roedd yn teimlo fod y tasgau hyn yn heriol ac yn greadigol.

Pan symudodd W a'i chariad i'r gogledd, roedd yn ddi-waith am gyfnod byr. Yn ystod y cyfnod hwn, cofrestrodd W gyda'i Chanolfan Byd Gwaith leol er mwyn dod o hyd i waith dros dro, gan ei bod yn feichiog yn barod. Yn anffodus, nid oedd W yn meddwl fod yr ymgynghorwyr yn y Ganolfan Byd Gwaith yn barod iawn eu cymwynas, o ystyried ei bod yn ferch feichiog ifanc. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymgynghorwyr y cyfarfu â hwy yn gallu nac yn fodlon cynnig cyngor na chymorth ymarferol iddi.

Nid oedd yn teimlo eu bod yn gwrando ar ei sefyllfa nes iddi siarad â'r ymgynghorydd i bobl dan 18 oed.

**Trefn ddyddiol**

Newidiodd trefn ddyddiol W yn sylweddol unwaith y ganwyd ei babi newydd. Ar adeg y cyfweliad roedd yn dal i ddod o hyd i drefn a oedd yn addas i'w bywyd newydd hi a'r bobl eraill mae'n rhannu'r fflat â hwy.

**Ffynonellau gwybodaeth**

Nid oedd W yn darllen y papurau newydd cenedlaethol na lleol yn rheolaidd. Fodd bynnag, byddai'n darllen straeon bywyd go iawn mewn cylchgronau.

O ran materion cyfoes, byddai W yn gwylio'r newyddion ar y teledu o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, roedd yn well ganddi wylio DVDs yn hytrach na rhaglenni teledu. Dywedodd ei bod yn arfer gwylio S4C pan oedd yn iau ond mae bellach yn gwylio ITV Wales a Channel 5 fel arfer.

Nid oes gan W gyfrifiadur ac felly nid yw'n cael mynediad i'r Rhyngrwyd ryw lawer. Gall gael mynediad i wefannau rhwydweithiau cymdeithasol fel Facebook ar ei ffôn symudol, ac mae'n ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad â'i ffrindiau ysgol. Soniodd hefyd ei bod yn cael rhywfaint o newyddion drwy Facebook pan fydd ei ffrindiau'n diweddaru eu statws.

Nid yw W yn gwrando ar y radio.

**Cynlluniau hirdymor**

Nawr gan fod W yn fam, mae'n canolbwyntio ar ei chyfrifoldebau newydd. Nid yw'n siŵr beth yw ei chynlluniau hirdymor, heblaw am aros yn yr ardal leol ac o bosibl gweithio eto yn y dyfodol. Nid oedd yn gallu rhagweld y tu hwnt i'r ddwy flynedd nesaf pan oedd yn ystyried meithrinfa i'w phlentyn er mwyn caniatáu iddi gael mwy o amser rhydd.

> *"I fod yn onest, does gen i ddim syniad. Dim clem a dweud y gwir. Gobeithio y bydd gen i swydd, dim ond ychydig o oriau neu rywbeth pan fydd hi yn rhywle, naill ai mewn meithrinfa am ychydig o oriau, ond does gen i ddim clem."*

**Dysgu a rhwystrau**

Er bod gan W BTEC busnes, mae ei TGAU mewn Saesneg a Mathemateg yn is na graddau C. Mae'n poeni am hyn gan fod sawl cyflogwr yn gofyn am hyn ar eu ffurflenni gwneud cais am swydd.

Ar hyn o bryd, nid yw W yn ystyried hyfforddi eto. Fodd bynnag, siaradodd am ei phrofiadau o ddysgu llwyddiannus yn y gorffennol. Ar gyfer hyn cyfeiriodd at ei hamser yn y Cadetiaid yn yr ysgol. Mwynhaodd W y Cadetiaid gan ei fod yn cyfuno nifer o elfennau o fywyd ysgol roedd yn eu mwynhau, cymdeithasu a chymryd rhan

mewn tasgau ymarferol, yn ogystal â mynd i'r afael â rhai o'r problemau a oedd ganddi gyda'r lleoliad ystafell ddosbarth draddodiadol, (h.y. cydberthnasau ffurfiol rhwng yr athro a'r disgyblion a'r gallu i ddysgu drwy roi cynnig arni). Mwynheuodd W ei hamser yn y Cadetiaid ac roedd yn awyddus i ddysgu tra roedd yno.

> *“Dw i ddim yn gwybod, roeddech yn cael cyfarfod â phawb o bob ardal wahanol ac yn cyd-dynnu'n dda â phob un o'r cyfarwyddwyr ac y gallech gael hwyl ond dysgu ar yr un pryd."*

> *"Felly os caf fy ngadael i'w wneud ar fy mhen fy hun, mae'n llawer haws, ond os bydd rhywun arall yn eistedd yno ac yn ei wneud gyda mi rwy'n teimlo'n rhwystredig ac yn methu â'i wneud mwyach gan droi fy hun i ffwrdd.”*

Hefyd, siaradodd W am sut y llwyddodd i sicrhau lle mewn coleg er gwaethaf peidio â chael y graddau dymunol ar gyfer ei chwrs. Roedd yn rhaid i W negodi gyda gweinyddwyr y cwrs er mwyn cael cofrestru ar y cwrs BTEC. Wrth wneud hynny roedd yn rhaid iddi ddod i gytundeb lle byddai'n profi ei gwerth a'i hawydd i ddysgu. Penderfynwyd ar y contract anffurfiol hwn ar lefel bersonol yn hytrach nac un academaidd. Felly, gan wneud cyfranogiad W yn yr hyfforddiant yn llai safonol na hyfforddiant myfyrwyr eraill.

> *“Dywedodd y coleg y byddai'n rhaid i mi brofi fy hun y byddwn yn dysgu ac y gallwn wneud yr hyn roeddent yn ei roi i mi gan fy mod wedi cael U mewn TGCh yn yr ysgol..”*